# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU GOFAL**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 16EG CHWEFROR, 2023**

NODER: CYNHELIR SESIWN BRIFIO I'R AELODAU AM 10:00 Y.B.

Lleoliad

**Cyfarfod Hybrid - Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH / Zoom / Zoom**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Pwynt Cyswllt

**Sioned Mai Jones**

**01286 679665**

**SionedMaiJones@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 8 Chwefror 2023)

# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL

## AELODAETH (18)

## Plaid Cymru (11)

Y Cynghorwyr

Menna Baines
Rheinallt Puw
Linda Ann Jones
Gwynfor Owen
Einir Wyn Williams
Jina Gwyrfai
Medwyn Hughes
Dewi Jones
Linda Morgan
Meryl Roberts
Sasha Williams

## Annibynnol (6)

Y Cynghorwyr

Elwyn Jones
Eryl Jones-Williams
John Pughe
Anwen J. Davies
Beth Lawton
Angela Russell

## Llafur/Rhyddfrydol (1)

Y Cynghorydd Gareth Coj Parry

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

## Aelodau Eraill a Wahoddwyd

Y Cynghorwyr

Dilwyn Morgan
Craig ab Iago
Elin Walker Jones

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

I nodi unrhyw eitemau sydd yn fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 4 - 15

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 10fed o Dachwedd, 2022 fel rhai cywir.

## 5. ADRODDIAD ARCHWILIAD AROLYGAETH GOFAL CYMRU - ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT 16 - 36

I ddiweddaru'r Pwyllgor ar ganfyddiadau'r Arolygaeth Gofal a rhaglen waith yr Adran i ymateb iddynt. Bydd Huw ap Tegwyn a Myfanwy Moran o Arolygaeth Gofal Cymru yn mynychu.

## 6. ADRODDIAD ASESIAD ANGHENION POBLOGAETH OEDOLION GWYNEDD 37 - 169

Cyflwyno'r Asesiad Anghenion drafft i'w graffu ac i argeisio cefnogaeth y Pwyllgor i'r Asesiad cyn ei gyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor i'w gymeradwyo.

## 7. BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU GOFAL 2022/23 170 - 171

I'r Pwyllgor flaenoriaethu eitemau ar gyfer cyfarfod 20 Ebrill 2023 a mabwysiadu rhaglen waith diwygiedig.

# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL DYDD IAU, 10 TACHWEDD 2022

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Menna Baines, Anwen J. Davies, Jina Gwyrfai, Dewi Jones, Elwyn Jones, Beth Lawton, Linda Morgan, Gwynfor Owen, Gareth Coj Parry, John Pughe, Rheinallt Puw, Meryl Roberts, Angela Russell a Sasha Williams.

**Swyddogion yn bresennol:** Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu), Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu) a Sioned Mai Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5:**
Jason Killens (Prif Weithredwr Gwasanaeth Ambiwlans Cymru) ac Estelle Hitchon (Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu Gwasanaeth Ambiwlans Cymru).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 6:**
Catrin Thomas (Pennaeth Cynorthwyol Cefnogi Teuluoedd) a Steffan Llyr Williams (Rheolwr Gwasanaeth Ieuenctid).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 7:**
Y Cynghorydd Craig ab Iago (Aelod Cabinet Tai ac Eiddo), Carys Fon Williams (Pennaeth Tai ac Eiddo) a Gareth Wyn Parri (Arweinydd Tîm Opsiynau Tai).

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr R. Medwyn Hughes, Linda Ann Jones ac Einir Wyn Williams yn ogystal â'r Cynghorydd Elin Walker Jones (Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd).

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyniwyd datganiadau o fuddiant personol ar gyfer eitem 6 gan y Cynghorydd Rheinallt Puw a nododd fod ei ferch yn gweithio yn y Gwasanaeth Ieuenctid. Nid oedd y buddiant hwn yn un oedd yn rhagfarnu ac ni adawodd y cyfarfod.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 29 Medi, 2022 fel rhai cywir.

## 5. CYFLWYNIAD GAN Y GWASANAETH AMBIWLANS

Croesawyd Jason Killens, Prif Weithredwr Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ac Estelle Hitchon, Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu i'r cyfarfod. Darparwyd cyflwyniad i'r Aelodau oedd yn adrodd ar berfformiad Gwasanaeth Ambiwlans Cymru.

Manylwyd ar ystadegau megis yr amseroedd ymateb i alwadau coch (galwadau bywyd mewn perygl) Betsi Cadwaladr gan nodi bod canran ymateb i'r galwadau brys hyn o fewn 8 munud wedi lleihau ers Hydref 2020 o 62% i 47% erbyn Hydref 2021 ac wedi sefydlogi i fod o gwmpas 45% erbyn Medi 2022. Cydnabuwyd bod hyn yn golygu bod rhai cleifion yn aros yn llawer rhy hir am ambiwlans.

Nodwyd mai'r prif reswm dros y gostyngiad mewn amser ymateb yw'r cynnydd sylweddol mewn oriau coll wrth drosglwyddo i'r ysbyty sy'n effeithio ar y gallu i fedru ymateb i alwadau brys yn amserol. Nodwyd bod yr oedi yma wrth drosglwyddo wedi cynyddu dros amser ac ar ei waethaf ym mis Medi 2022. Manylwyd hefyd ar heriau eraill megis salwch ac absenoldebau staff yn cynyddu sydd wedi arwain at broblemau capasiti â'r heriau yn ymwneud a denu staff a llenwi swyddi.

Soniwyd am ddiogelwch cleifion a digwyddiadau adroddadwy gwladol oedd yn manylu ar y marwolaethau â'r niwed difrifol y gellir bod wedi eu hosgoi gan gymharu sefyllfa Betsi Cadwaladr efo gweddill Cymru. Roedd y niferoedd yn is i gymharu efo Cymru gyfan ond ar gyfartaledd roedd 2 o faterion diogelwch cleifion yn cael eu cofnodi pob mis a'r rhain oherwydd oediadau hir iawn, gwallau clinigol a chleifion yn aros mewn ambiwlans tu allan i'r ysbytai.

Cafwyd gwybodaeth am adolygu'r galw a'r capasiti sy'n digwydd ar hyn o bryd o fewn y gwasanaeth a manylwyd ar yr hyn sy'n cael ei wneud i geisio gwella'r sefyllfa megis recriwtio a hyfforddi mwy o staff, adolygu rhestr dyletswyddau a newidiadau i drefniadau megis cerbydau ymateb cyflym e.e. eu staffio gan uwch barafeddygon. Credwyd y byddai'r mesuryddion hyn yn helpu'r problemau amser ymateb.

I gloi rhedwyd drwy fodel ymateb y dyfodol oedd yn canolbwyntio ar weddnewid y gwasanaethau meddygol brys drwy rhoi mwy o bwyslais ar ymgynghori, trin ac atgyfeirio yn hytrach na chludo cleifion i'r ysbytai.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau:-

- Diolchwyd am y cyflwyniad gan wneud sylw ei fod yn cyfleu darlun llwm o'r gwasanaeth ambiwlans ac i bobl sy'n byw yn Ngogledd Cymru yn enwedig yn yr ardaloedd gwledig.
- Gofynnwyd am eglurhad o rôl yr ymatebwyr cyntaf gan nodi bod eu gwasanaeth yn hanfodol i ardaloedd gwledig y Sir fel Tywyn, yn enwedig o gysidro sefyllfa a thrafodaethau presennol am y gwasanaeth ambiwlans awyr.
- Cyfeiriwyd at ddiffyg staff cyflenwi a gofynnwyd os oedd modd cynyddu niferoedd y staff yn ardal Tywyn. Mynegwyd edmygedd dros y staff presennol sy'n gweithio dan straen. Cyfeiriwyd at staff oedd wedi ymuno a Thywyn yn ddiweddar ond y tueddiad iddynt gael eu trosglwyddo i leoliadau eraill gan adael Tywyn heb staff digonol. Ychwanegwyd fod y gwasanaeth ambiwlans yn bwysig iawn i'r ardal o ystyried nad oes llawer o ddoctoriaid yn yr ardal a dim uned mân anafiadau yn Ysbyty Tywyn. Credwyd nod nifer o ymatebwyr cyntaf oedd yn gwirfoddoli wedi stopio oherwydd eu bod yn aml yn aros efo cleifion am 4-6 awr cyn i ambiwlans gyrraedd a nifer ohonynt efo swyddi eraill i'w mynychu.
- Cyfeiriwyd at enghreifftiau o bobl hŷn yn disgyn a thorri esgyrn yn y gymuned a dim ymatebwyr cyntaf ar gael i'w cynorthwyo felly yn wynebu oriau o amser aros am ambiwlans. Credwyd bod y perygl i gleifion yn cynyddu oherwydd yr amser aros annerbyniol am ambiwlans.
- Mynegwyd pryder am y gwasanaeth ambiwlans yn cludo cleifion i Ysbytai ym Mangor, Wrecsam a Glan Clwyd ac yna yn cael eu dal yn ôl yn y lleoliadau hyn neu

yn cael eu hanfon ar alwad i leoliadau cyfagos felly dim cyflenwad i ymateb i alwadau yn y gymuned leol. Nodwyd hefyd mai 15 munud ddylai'r amser trosglwyddo fod ond bellach ei fod ar gyfartaledd yn fwy na 2 awr ac mewn rhai achosion gall cleifion fod yn aros yng nghefn yr ambiwlans am 12 awr sy'n sefyllfa bryderus ac yn golygu nad yw'r fflyd ar gael mewn gorsafoedd lleol. Ychwanegwyd nad yw bellach yn anghyffredin i weld dros 10 o ambiwlansys yn aros tu allan i Ysbyty Gwynedd.

- Holwyd faint o fywydau sy'n cael eu colli o ganlyniad i ambiwlansys ddim yn cyrraedd neu oedi hir pan mae eu hangen a pryderwyd bod y gwasanaeth iechyd cenedlaethol yn edrych yn doredig.
- Cytunwyd a phwysleisiwyd bod angen cydweithrediad ar draws y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol a bod y sefyllfa bresennol o gleifion a gweithwyr ambiwlans yn aros tu allan i adrannau damweiniau ac achosion brys am hyd at 12 awr, weithiau mwy, yn annerbyniol.
- Holiwyd faint o bwysau sy'n cael ei roi ar y Llywodraeth i geisio gwella'r amseroedd aros tu allan i ysbytai. Nodwyd hefyd bod 100 yn llai o wlâu yn Ysbyty Gwynedd erbyn heddiw o gymharu â phan gafodd yr Ysbyty ei hadeiladu.
- Canmolwyd y gwasanaeth sy'n cael ei dderbyn yn uniongyrchol gan y parafeddygon.
- Mynegwyd siomedigaeth yn y sylwadau blaenorol gafodd eu derbyn gan Brif Weithredwr Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ynglŷn â'r ambiwlans awyr a'i gefnogaeth i'r cynigion diweddar am symud lleoliad yr ambiwlans awyr yng Ngwynedd. Credwyd nad oedd ystyriaeth ddigonol yn cael ei roi i anghenion gwledig.
- Cytunwyd bod angen gwell cydweithio rhwng y Llywodraeth, y Gwasanaeth Iechyd a Gofal a'r gwasanaeth ambiwlans. Nodwyd bod prinder gwlâu yn yr ysbytai ac yn y gymuned yn broblem a bod problem recriwtio gofalwyr sy'n cyfrannu at y diffygion o allu rhyddhau cleifion o'r ysbytai. Ychwanegwyd y dylai'r Llywodraeth roi gwell cefnogaeth, credwyd bod lefel cyflogau gofalwyr ddim yn ddigonol sy'n fater i'r Llywodraeth.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod a chwestiynau gan aelodau, nodwyd:-

- Bod rôl yr ymatebwyr cyntaf cymunedol yn hanfodol a chydnabuwyd y gwerth y maent yn ei gynnig. Ychwanegwyd bod llawer o wirfoddolwyr wedi cael eu colli ers cyfnod y pandemig, rhagdybiwyd bod y niferoedd wedi haneru ar draws Gogledd Cymru. Mynegwyd dyhead i gynyddu'r gweithlu gwirfoddol a chyfeiriwyd at ymdrechion diweddar i fuddsoddi mewn capasiti ychwanegol i hyfforddi a recriwtio rhagor o wirfoddolwyr.
- Nad yw'r ambiwlans awyr yn ran o wasanaeth ambiwlans Cymru. Nodwyd eu bod nhw'n ymateb i alwadau 999 efo'r gwasanaeth ambiwlans ac nid yn lle'r gwasanaeth ambiwlans. Er hyn nododd Prif Weithredwr Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ei fod yn ymwybodol o'r cynigion yn ymwneud a'r gwasanaeth ambiwlans awyr ac yn gefnogol ohonynt. Credai y byddai'r cynigion yn sicrhau y bydd mwy o gleifion sydd angen gofal brys critigol yn cael mynediad gwell at y gwasanaeth felly bod y cynigion yn ymddangos yn synhwyrol.
- Bod 73 o staff ychwanegol wedi eu dyrannu i'r gweithlu ar draws Gogledd Cymru yn ogystal a nifer yn cael eu hyfforddi ar hyn o bryd ac yn barod i gymryd swyddi ar ôl y Nadolig. Adroddwyd bod twf sylweddol wedi bod yn y gwasanaeth rheng flaen dros y 2-3 mlynedd diwethaf.

- Bod fflyd y gwasanaeth ambiwlans yng Nghymru yn cael ei ddefnyddio neu wedi ei neilltuo i alwad 80% o'r amser. O ystyried colledion i'r fflyd fel yr oedi wrth drosglwyddo i'r ysbytai mae hyn yn egluro pam bod yr amser ymateb i alwadau wedi cynyddu. Cydnabuwyd fod yr amser aros yn annerbyniol ond bod y gwasanaeth ambiwlans yn ceisio bod yn effeithlon. Ychwanegwyd bod cydweithrediad y Gwasanaeth Iechyd ac Awdurdodau Lleol yn hanfodol a bod gan yr awdurdodau hyn rôl i'w gyflawni fel rhyddhau cleifion sy'n feddygol ffit o'r ysbytai. Nodwyd bod yr heriau sy'n bodoli ar draws y system Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi arwain at y pwysau ar y gwasanaeth ambiwlans.
- Eu bod yn ymwybodol o bwysau yn y maes gofal cymdeithasol i Awdurdodau Lleol ac yn adnabod materion sydd angen eu datrys ar draws y system. Adroddwyd bod y gwasanaeth ambiwlans yn ceisio cyd-weithio i wella sefyllfaoedd. Nodwyd o ganlyniad i'r boblogaeth yn cynyddu ac yn heneiddio bod hyn wedi cyfrannu at y galw ar amryw o wasanaethau yn ymwneud â'r maes Gofal a Iechyd.
- Bod gan yr ysbytai rôl i'w chwarae. Ymhelaethwyd mai cyfrifoldeb y gwasanaeth ambiwlans yw cludo'r cleifion sydd wir angen mynd i'r adran achosion brys i'r ysbytai felly ni allant wneud llawer ar yr ochr diffyg capasiti, staff a lle tu fewn i'r ysbytai. Ychwanegwyd mai cyfrifoldeb y maes iechyd yw galluogi cleifion i symud yn gynt drwy'r ysbytai ac yna'r Awdurdodau Lleol i helpu efo'u rhyddhau o'r ysbytai. Nodwyd bod angen gwella'r diffygion yn y system.
- Eu bod yn ceisio gwella'r gwasanaeth yn yr ystafelloedd rheoli galwadau er mwyn osgoi anfon ambiwlans os nad oes rhaid ac yna yn ceisio gwella'r gofal sydd ar gael yn y gymuned i osgoi cludo cleifion yn ddi-angen i'r ysbytai.
- Bod y gwasanaeth ambiwlans Cymru yn darparu gwybodaeth, ystadegau ac adborth i ran ddeiliaid sy'n cynnwys y Llywodraeth yn wythnosol ac yn fisol. Nodwyd eu bod nhw'n pwysleisio'r niweidion y gellir eu hosgoi o ganlyniad i'r sefyllfa bresennol ac yn bod yn gadarn iawn bod angen newid. Ychwanegwyd bod 36% o'r fflyd ar hyn o bryd yn methu ymateb i alwadau ac ni fyddant yn gallu ymateb oni bai i rywbeth newid sy'n fater i'r Llywodraeth. Nodwyd bod y gwasanaeth ambiwlans yn canolbwyntio ar yr hyn sydd o fewn eu gallu ac i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael o ran staff ac arian mor effeithlon a sy'n bosib.
- Eu bod yn falch bod gwaith gwych y parafeddygon mewn amgylchiadau anodd yn cael ei gydnabod gan Gynghorwyr ac yn y gymuned. Ategwyd fod dim bai ar y parafeddygon na'r person sy'n delio â'r alwad dros y ffôn ond eu bod nhw'n anffodus yn parhau i dderbyn camdriniaeth llafar gan rai o'r cyhoedd.
- Ni allai wneud sylwadau ar achosion unigol ar amser ymateb y gwasanaeth ambiwlans ond rhoddwyd sicrwydd bod system y gwasanaeth ambiwlans yn targedu'r cleifion sydd dan fygythiad bywyd ar unwaith yn gyntaf e.e. ataliad y galon ac yn eu blaenoriaethu dros alwadau lle nad oes bygythiad uniongyrchol i fywyd e.e. esgyrn wedi torri o ganlyniad i ddisgyn. Nodwyd nad yw'r rhain yn benderfyniadau hawdd i'w gwneud ond bod rhaid iddynt wneud y dewis pan mai dim ond un fflyd sydd ar gael a dau alwad yn cael ei dderbyn.
- Cydnabuwyd bod yr amser aros a'r gwasanaeth sy'n cael ei dderbyn yn y gymuned yn annerbyniol ac yn peri pryder ond rhoddwyd sicrwydd bod y gwasanaeth ambiwlans yn gwneud popeth o fewn eu gallu i wella'r ddarpariaeth. Nodwyd bod y sefyllfa yn cael effaith ar forâl staff ac yn arwain at fwy o salwch ymysg staff sy'n arwain at broblemau pellach o ran recriwtio a chadw staff. Nodwyd bod gormod o bwysau ar draws y system.

Diolchwyd i staff y Gwasanaeth Ambiwlans am ateb cwestiynau'r Aelodau a gobeithiwyd y bydd y sefyllfa yn gwella. I gloi holwyd os fydd y streicio gan nyrsys a'r gweithwyr

ambiwlans yn effeithio ar ardaloedd gwledig. Cadarnhaodd Prif Weithredwr Gwasanaeth Ambiwlans Cymru y bydd gan y gwasanaeth ambiwlans broblemau sylweddol wrth geisio ymateb i alwadau yn y gymuned pe bai'r streicio yn mynd yn ei flaen. Diolchodd i'r Aelodau am eu cwestiynau.

**PENDERFYNWYD:**
**Nid oedd pleidlais gan mai eitem i ddarparu gwybodaeth oedd yr eitem yma.**

## 6. GWASANAETH IEUENCTID

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr y Gwasanaeth Ieuenctid. Derbyniwyd trosolwg o'r prif bwyntiau yn ogystal â'r cefndir o ailfodelu'r Gwasanaeth Ieuenctid yn dilyn penderfyniad y Cabinet nol yn 2018. Sefydlwyd y model newydd ym mis Medi 2018 ac adroddwyd bod y Gwasanaeth wedi bod yn adrodd ar gynnydd yr ail-fodelu a'r perfformiad drwy'r drefn Herio Perfformiad.

Nodwyd bod y Gwasanaeth wedi cyflwyno Adroddiad Cynnydd ar flwyddyn gyntaf yr ail fodelu i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ym mis Ionawr 2020 ond yn fuan wedyn daeth cyfyngiadau Covid i rym. Mynegwyd bod gwybodaeth yn yr adroddiad am effaith y pandemig ar yr ail-fodelu yn ogystal â sefyllfa bresennol y gwasanaeth.

Soniwyd am strwythur cyfredol y Gwasanaeth Ieuenctid ac ychwanegwyd bod llais pobl ifanc yn ganolog i'r Gwasanaeth. Nodwyd bod yr adroddiad yn cyfeirio at adborth pobl ifanc am y Gwasanaeth yn ogystal â beth mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn ei wneud i ymateb i'r adborth yma.

Adroddwyd bod gwybodaeth i'w weld yn yr adroddiad am themâu strategol y Gwasanaeth sydd yn ffocysu ar Iechyd a Llesiant ar draws yr holl brosiectau, yr Iaith Gymraeg, cydraddoldeb a chynhwysiad. Amlygwyd y gwaith sy'n digwydd gyda phartneriaid a sefydliadau trydydd sector i ddiwallu anghenion pobl ifanc. I gloi cyfeiriwyd at yr heriau sy'n wynebu'r Gwasanaeth yn y dyfodol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad megis recriwtio ac anghenion cymhleth a dwys pobl ifanc sydd wedi amlygu eu hunain dros y blynyddoedd diwethaf.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau:-

- Gwnaethpwyd sylw bod y clybiau ieuenctid yn cael eu hariannu drwy'r Cynghorau Cymuned a Thref ar hyn o bryd. Cyfeiriwyd at yr adroddiad sy'n nodi bod y clybiau sydd mewn bodolaeth ar hyn o bryd yn llwyddiannus gyda niferoedd uchel yn mynychu. Nodwyd mai nid clybiau newydd yw'r rhain ond hen glybiau yn ail agor ers 4 mlynedd o fod wedi cau gan y Cynghorau Cymuned a Thref.
- Credwyd bod cryfderau i'r strwythur newydd ond cwestiynwyd os ydyw wedi bod yn fethiant mewn un elfen o ystyried yr uchod.
- Mynegwyd bod cysondeb a sefydlogrwydd yn bwysig i bobl ifanc a cwestiynwyd os oes lle i'r Cyngor ail edrych ar ei ddarpariaeth. Ychwanegwyd bod darparu gofod i'r ifanc deimlo'n ddiogel ac yn perthyn yn bwysig a holwyd beth yw rôl y Cyngor i ddarparu clybiau sefydlog parhaol yn hytrach na chefnogi Cynghorau Cymunedau a Thref.
- Croesawyd y prosiectau sy'n cael eu cynnig gan y Gwasanaeth Ieuenctid gan nodi bod rhai hynod o lwyddiannus mewn rhai ardaloedd. Cymerwyd y cyfle i ddiolch i'r Gweithwyr Ieuenctid o fewn y Cyngor sydd yn gwneud gwaith gwych a mynegwyd gwerthfawrogiad am y gwaith yma.

- Mynegwyd y byddai'n braf cael cadw'r model newydd ond dod a'r hen fodel o glybiau yn ôl hefyd er yn deall bod hyn yn anodd o ran y sefyllfa gyllidebol. Credwyd bod yr ifanc angen y ddarpariaeth sefydlog o glwb ond yn sicr bod lle i barhau efo'r elfen prosiectau.
- Adroddwyd pryder o ran cysondeb ar draws y Sir gan gyfeirio at ymdrech yn Ne'r Sir i geisio ail sefydlu clwb a recriwtio ond yn anffodus roedd yr ymdrech yn fethiant, sy'n golygu nad oes darpariaeth yn Ne'r Sir. Pwysleisiwyd cael cysondeb ar draws y Sir a gofynnwyd beth yw'r cyswllt efo'r Ysgolion ac os ydyw yn gyson.
- Cyfeiriwyd at anawsterau ymgysylltu efo plant a phobl ifanc i ddarganfod beth yn union maent ei angen. Nodwyd bod yr adroddiad yn cyfeirio at ffigwr o 5,500 o bobl ifanc wedi cyfranogi; holwyd beth yw trothwy cyfranogi a be sy'n cyfri fel ymgysylltu. Gofynnwyd hefyd beth yw'r ffigyrau o ran gweithio'n agos efo'r bobl ifanc i glywed eu barn.
- Credwyd ei bod yn annheg bod y Cyngor ddim yn gwneud mwy yn y cymunedau gwledig a phryderwyd bod y cymunedau hyn yn colli allan. Ategwyd bod angen gwasanaeth yn y cymunedau gwledig yn enwedig o ystyried bod darpariaethau a mwy o bethau i'w gwneud yn y trefi pryn bynnag o gymharu â chymunedau gwledig neu bentrefi bach.
- Cymerwyd y cyfle i longyfarch Clwb Ieuenctid Llanrug syth yn mynd o nerth i nerth ac yn rywle saff i bobl ifanc y pentref fynd.
- Mynegwyd barn bod cau'r Clybiau Ieuenctid wedi bod yn gam yn ôl er yn cydnabod bod angen newid i'r cyfeiriad ar y pryd.
- Holwyd sut mae'r Gwasanaeth yn ymgynghori efo'r sawl sydd ddim yn mynd i glybiau.
- Mynegwyd sylw bod y Rhaglen Wythnosol ddim yn cyfleu'r holl waith sy'n cael ei wneud gan y Gwasanaeth.
- Gofynnwyd faint o glybiau ieuenctid oedd yn agored cyn y newid yn 2018.
- Mynegwyd pryder yn y gostyngiad sylweddol o 38 clwb yn 2018 i 9 clwb erbyn dechrau 2023 a cwestiynwyd os yw'r gallu i gael gafael ar y bobl ifanc wedi ei golli yn enwedig y rhai sydd ddim yn ymgysylltu llawer efo'r Ysgolion.
- Cydnabuwyd bod elfennau gwych a hyblyg i'r drefn newydd.
- Holiwyd os ydy'n bosib gofyn i holl bobl ifanc y Sir os ydyn nhw eisiau clwb ieuenctid yn eu hardal.
- Cwestiynwyd os oes modd i'r Cyngor gael rhagor o ddylanwad dros ddefnydd o'r iaith Gymraeg yn y clybiau a'r gweithgareddau
- Diolchwyd am adroddiad gwych llawn gwybodaeth.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod a chwestiynau gan aelodau, nodwyd:-

- Bod yr elfen o ehangu'r ddarpariaeth yn gymunedol yn ddatblygiad positif er mwyn cyrraedd amrediad eang o bobl ifanc ar draws y cymunedau. Nodwyd bod y Gwasanaeth Ieuenctid yn edrych ar brosiectau i gyd fynd efo hyn ac yn gwrando ar lais pobl ifanc o ran eu hanghenion. Nodwyd bod yr angen yn amlwg yno yn y gymuned a bod y cynnydd yn y ffigyrau dros y ddau chwarter diwethaf yn ategu hyn. Serch hyn pwysleisiwyd y pwysigrwydd bod y Cyngor yn gallu cynnig gwasanaeth ar wahân er mwyn sicrhau bod pob ardal drwy Wynedd yn gallu cael mynediad i'r Gwasanaeth Ieuenctid drwy brosiectau ac mynd i'r afal a'r holl anghenion ar draw y Sir.
- Er pwrpas eglurder, cadarnhawyd mai 5 clwb cymunedol sydd yn weithredol ar hyn o bryd ar draws y Sir gyda 4 arall wedi rhoi eu henwau ymlaen i agor felly gobeithir cael 9 clwb gweithredol yn y Sir erbyn y Nadolig. Nodwyd bod y ffigwr o 24 yn yr adroddiad yn cyfeirio at nifer y gweithwyr.

- Nad oes amser digonol wedi bod i dreialu os yw'r clybiau statig cymunedol ar y cyd rhwng y Cyngor a'r Cynghorau Cymuned wedi bod yn llwyddiannus neu beidio; bydd angen rhagor o amser i asesu. Ychwanegwyd bod angen rhoi mwy o ymdrech ac amser i gefnogi Cynghorau Cymuned sydd yn ceisio agor clybiau gwirfoddolwyr lleol a'u staffio a bod y Gwasanaeth Ieuenctid bellach wedi symud adnoddau i alluogi hyn. Adroddwyd y byddai'n ddefnyddiol derbyn adborth gan y Cynghorau cymuned sydd wedi llwyddo efo'r clybiau a gan y rhai sydd wedi ceisio ail gydio ond wedi methu.
- Bod y Cyngor yn treialu gweithlu gwahanol ar gyfer cefnogi y clybiau fwy cymdeithasol eu natur gan bod heriau recriwtio yn bodoli felly bod gwaith ar y gweill i geisio mynd i'r afael a hyn.
- Bod y Gwasanaeth Ieuenctid wedi ceisio meddwl am ffyrdd gwahanol o gael darpariaeth i ardaloedd fel Tywyn e.e. comisiynu sinema gymunedol a'i ariannu dros gyfnod y Nadolig fel bod ryw fath o ddarpariaeth yno ar gyfer y bobl ifanc.
- Bod Ysgolion yn gweithio'n wahanol gan ddibynnu ar lais ac anghenion y bobl ifanc yn yr Ysgolion. Y gobaith yw bod y gwaith sy'n cael ei wneud yn yr Ysgolion yn pontio i'r gymuned a bod gwaith pellach yn cael ei wneud yn y gymuned.
- Bod cyfranogiad yn golygu unrhyw un sydd yn ddefnyddio'r gwasanaeth fwy nac unwaith ar draws amrediad eang o brosiectau o rai ble mae'r gwasanaeth yn ddwys i glybiau cymunedol a dyddiau hwyl. Gall person ifanc fynychu neu cael mynediad i'r Gwasanaeth unwaith yn unig e.e. i gael sgwrs yna teimlo eu bod nhw wedi cael beth yr oeddem nhw ei angen neu gall person ifanc ddychwelyd i amryw o brosiectau; un ymgysylltiad fyddai'r ddau achos. Eglurwyd bod y mesuryddion yn wahanol rhwng yr hen fodel a'r model newydd; mae'r Gwasanaeth bellach yn ceisio mesur faint o bobl ifanc maent yn ei gyrraedd ac yn ceisio cyrraedd mwy o bobl ifanc a mesur os ydynt yn cael yr hyn maent yn ei ddymuno.
- Bod cludiant yn fwy o her yn ddiweddar o gymharu â cyn cyfnod y pandemig. Golyga hyn bod rhai ardaloedd wedi gorfod newid amseroedd o bryd maent yn darparu.
- Bod y Gwasanaeth eisiau datblygu'r elfen o ymgysylltu efo pobl ifanc sydd ddim yn mynychu clybiau e.e. os oes problemau teithio neu dim darpariaeth yn eu cymunedau. Adroddwyd bod y Gwasanaeth yn mynd at yr Ysgolion am adborth ac efo Bwrdd Llais pobl ifanc sydd yn llwyddiannus iawn ac yn awyddus i dderbyn mwy o adborth a data ynghylch y bobl ifanc sydd ddim yn ymgysylltu'n barod. Ychwanegwyd bod y Gwasanaeth yn gweithio'n agos efo Swyddogion Lles ar gyfer y bobl ifanc sydd ddim yn ymgysylltu yn yr Ysgol. Nodwyd bod ymgysylltu hefyd yn digwydd tu allan i'r Ysgol drwy'r clybiau ble gall anghenion amlygu eu hunain yna gall y Gwasanaeth gysylltu â gweithio efo'r bobl ifanc. Eglurwyd bod yr elfen wirfoddol yn parhau i fod yn bwysig a chanolog i'r Gwasanaeth Ieuenctid.
- O ran ymgysylltu, nodwyd bod y Gwasanaeth yn gwneud defnydd o gyfryngau cymdeithasol a grwpiau WhatsApp sy'n ffyrdd digidol newydd o ymgysylltu. Ategwyd bod y symudiad hwn i ffyrdd digidol o gyfathrebu wedi ei yrru gan y bobl ifanc. Golyga hyn bod y cyswllt yn bodoli'n ddigidol yna mae'r Gwasanaeth yn ceisio eu hannog i fynychu sesiynau.
- Bod rhaid gwneud y gorau o'r adnodd sydd ar gael a ceisio gwneud i'r adnodd hwn fynd mor bell â sy'n bosib. Rhaid derbyn bod terfyn i'r hyn gall gael ei gyflawni oherwydd materion cyllidebol.
- Mai dim ond un cyfrwng i gyfleu beth mae'r Gwasanaeth yn ei wneud yw'r rhaglen wythnosol ac mae yn dueddol o bwysleisio ar yr elfen gymdeithasol gyda'r nos yn hytrach na'r gweithgareddau sy'n cymryd lle rhwng 3:30-6:00yp. Cydnabuwyd bod y rhaglen wythnosol ddim yn adlewyrchu bob dim sy'n cael ei gynnid. Ychwanegwyd

nad oes rhaid i bobl ifanc ymwneud â'r gwasanaeth felly mae'r galw yn amrywiol a bod heriau yn bodoli o ran staffio, ariannu a dod o hyd i leoliadau neu ystafelloedd i'w llogi ar gyfer cynnal gweithgareddau.

- Pwynt cychwyn cyn mynd i drefnu unrhyw ddigwyddiad cymunedol fyddai cynnal deialog efo'r bobl ifanc ynghylch yr hyn maent yn dymuno ei weld yn yr ardal a gallu asesu'r angen.
- Ar eu niferoedd uchaf, bod 74 o glybiau ieuenctid yn bodoli ar draws y Sir cyn yr ail strwythuro ond eu bod nhw wedi dirywio yn naturiol mewn niferoedd erbyn 2018. Cadarnhawyd mai 38 clwb oedd mewn gweithrediad erbyn 2018 a hynny oedd y nifer ddaeth i ben.
- Na fyddai gofyn cwestiwn agored wrth yr holl bobl ifanc os ydynt eisiau clwb yn rhoi darlun realistig. Yn hytrach teimlwyd y byddai'n well gofyn cwestiynau mwy penodol fel beth yr ydych eisiau neu'n dymuno ei weld. Ychwanegwyd bod llawer o bobl ifanc eisiau tripiau am eu bod nhw heb gael y cyfleoedd hyn ers cyn Covid. Yn sgil hyn adroddwyd bod y Gwasanaeth wedi bod yn cynnal llawer o dripiau e.e. i fowlio neu i siopa. Ategwyd bod y negeseuon gan yr ifanc yn cael eu pasio ymlaen i'r Gwasanaeth a bod llawer o bwyslais wedi bod ar gael hwyl ac ar yr elfen gymdeithasol dros y flwyddyn ddiwethaf.
- Bod y ddarpariaeth sy'n cael ei gynnig gan y Gwasanaeth Ieuenctid bron pob tro drwy gyfrwng y Gymraeg neu yn sicr yn ddwyieithog. Ategwyd pwysigrwydd rhoi cyfle i'r ifanc ddefnyddio'r Gymraeg mewn ffurf fwy anffurfiol tu allan i'r Ysgol. Nodwyd bod y gwasanaeth yn gweithio'n agos gydag Hunaniaeth a'r Urdd yn ogystal a gweithio'n agos efo rhai Ysgolion fel Friars i ddatblygu'r ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

O ran gwaith Iechyd Meddwl adroddwyd ei fod yn un o flaenoriaethau'r Gwasanaeth Ieuenctid yn enwedig yr ochr llesol a bod llawer o gydweithio yn cael ei wneud efo asiantaethau megis CAHMS. Cydnabuwyd bod lefelau iechyd meddwl wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf. Adroddwyd ar yr ŵyl llesiant gafodd ei gynnal dechrau'r flwyddyn oedd wedi bod yn boblogaidd iawn ac wedi derbyn adborth positif. Soniwyd hefyd am y Prosiect Meddwl Ymlaen sydd wedi derbyn cyllid am 5 mlynedd. Fydd lleisiau pobl ifanc yn rhoi strwythur i'r prosiect a bydd llawer o gydweithio rhwng amrywiol asiantaethau yn digwydd dros gyfnod y prosiect.

Cyfeiriwyd at symudiad buan y Gwasanaeth Ieuenctid i'r Adran Addysg a phryderwyd yn sgil y cyfyngiadau ariannol a phrysurdeb yr Adran Addysg y byddai'r Gwasanaeth pwysig hwn yn mynd ar goll yn yr Adran newydd. Dymunwyd nodi wrth yr Aelod Cabinet Addysg bod angen blaenoriaethu'r Gwasanaeth Ieuenctid gan sicrhau y bydd yn derbyn sylw haeddiannol o dan yr Adran Addysg. Cytunwyd i ychwanegu hyn i'r penderfyniad.

Mynegwyd diolch i'r Gwasanaeth Ieuenctid am yr adroddiad ac i aelodau'r Pwyllgor am eu cwestiynau.

**PENDERFYNIAD**

**a) Derbyn yr adroddiad oedd yn darparu diweddariad ar ddatblygiadau'r Gwasanaeth Ieuenctid.**

**b) Gofyn i'r Aelod Cabinet Addysg ystyried sylwadau'r Pwyllgor am bwysigrwydd y Gwasanaeth Ieuenctid gan sicrhau y bydd yn derbyn sylw haeddiannol o dan yr Adran Addysg wedi i'r Gwasanaeth drosglwyddo i'r Adran hon yn fuan.**

## 7. POLISI GOSOD TAI

Derbyniwyd rhagair gan yr Aelod Cabinet Tai ac Eiddo a gyfeiriodd at y pwyslais cynyddol ar gartrefu pobl leol yn y Polisi Gosod Tai newydd. Mynegwyd balchder yn y niferoedd o bobl leol sy'n derbyn eiddo oddi ar y Gofrestr Tai Cyffredin.

Cymerwyd y cyfle i atgoffa'r Pwyllgor o'r sefyllfa digartrefedd yn y Sir gan nodi bod yr amser aros am eiddo cymdeithasol yn gallu bod yn flynyddoedd. Nodwyd bod hyn yn annheg ac yn adlewyrchu'r realiti nad oes digon o dai cymdeithasol yn y Sir. Adroddwyd ei bod yn cymryd blynyddoedd i gynyddu'r stoc, ac er bod gwelliannau wedi digwydd yn y maes yma nid oes digon o eiddo ar gael i gwrdd â'r galw am dai cymdeithasol.

Mynegodd y Pennaeth Tai ac Eiddo bod yr adroddiad a gyflwynir i'r Pwyllgor yn adroddiad interim gyda'r bwriad i adrodd yn llawn i'r Pwyllgor nes ymlaen yn y flwyddyn newydd. Nodwyd bod hyn o ganlyniad i newidiadau posib sydd ar y gweill o ganlyniad i newidiadau mewn polisi a deddfwriaeth gan y Llywodraeth a disgwyliadau ar Awdurdodau Lleol i fod yn blaenoriaethu agweddau penodol yn y maes digartrefedd.

Darparwyd trosolwg o'r cynnydd ers dechrau gweithredu'r Polisi Gosod Tai newydd ddwy flynedd yn ôl gan yr Arweinydd Tîm Opsiynau Tai. Eglurwyd fod y drefn newydd o flaenoriaethu ymgeiswyr yn seiliedig ar osod ceisiadau mewn Band blaenoriaeth, sydd wedi cymryd lle'r hen system o ddyfarnu pwyntiau i geisiadau. Nodwyd bod y system yma yn symleiddio'r broses ac yn gyfuniad o raddfa anghenion yr ymgeiswyr yn ogystal â chysylltiad efo Gwynedd.

Adroddwyd bod y tîm Opsiynau Tai yn gweithio'n agos efo'r Cymdeithasau Tai ac yn gosod oddeutu 600-650 o eiddo mewn blwyddyn. Eglurwyd bod y galw yn sylweddol uwch na'r cyflenwad o dai sy'n dod yn wag. Ychwanegwyd o ganlyniad i newid y Polisi bod 96.5% o osodiadau wedi ei gwneud i'r ceisiadau oedd efo cysylltiad â Gwynedd o gymharu a 90% cyn gweithredu'r Polisi newydd.

Cyfeiriwyd at y sialensiau sydd wedi eu profi o ganlyniad i Covid, costau byw cynyddol a'r cynnydd sylweddol yn niferoedd sy'n wynebu digartrefedd yn y Sir. Arweiniodd hyn at gynnydd yn y gofrestr gyda dros 3,300 o geisiadau bellach yn aros am eiddo cymdeithasol. Ategwyd nad yw'r cyflenwad wedi cynyddu mor gyflym sy'n dangos y glaw am eiddo cymdeithasol.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau:-

- Diolchwyd am yr adroddiad.
- Gofynnwyd pa newidiadau sydd ar y gweill o ganlyniad i newid mewn Polisi'r Llywodraeth ac a fydd y rhain yn effeithio'r elfen cysylltiad â Gwynedd yn y Polisi.
- Mynegwyd pryder y bydd y newid i'r Polisi yn annog pobl i symud fewn i'r ardal ac yna i dderbyn blaenoriaeth am eu bod nhw'n ddigartref.
- Holwyd os yw pobl o du allan i'r Sir yn cyflwyno'n ddigartref yma.
- Cyfeiriwyd at achosion ble roedd pobl yng nghategori neu fand 2 ond bod teimlad gan Aelodau y dylen fod ym mand 1. Croesawyd yr Aelodau i godi materion am unigolion penodol efo'r Arweinydd Tîm Opsiynau Tai ar ddiwedd y cyfarfod.
- Pryderwyd am deulu yn helpu unigolion sydd yn wynebu digartrefedd a bod yr help hwn mewn gwirionedd yn ei gwneud hi'n anoddach iddynt gael ei hail gartrefu.
- Gwnaethpwyd sylw ar y prinder tai a holwyd os yw'r prinder yma yn golygu mai dim ond gosodiadau o fand 1 sydd yn digwydd ac nad oes gan geisiadau ym mand 2 lawer o siawns.

- Soniwyd am y niferoedd sydd yn byw mewn tai 3 ystafell wely ar ben eu hunain, holwyd os oes cymhelliant neu rywbeth yn cael ei gynnig i'w hannog i symud er mwyn rhyddhau'r tai yma i deuluoedd.
- Holwyd os yw'r cysylltiad â chymunedau yn parhau i fodoli o fewn y Polisi newydd.
- Gofynnwyd beth yw incwm y bobl sydd yn cofrestru ar y gofrestr tai ac os oes trothwy e.e. ar eu cynilion. Gwnaethpwyd sylw o'r blaen roedd cyfyngiadau incwm a chynilion yn bodoli a phobl ddim yn cael eu cynnwys ar y gofrestr.
- Mynegwyd pryder am ymgeiswyr yn cael cynnig eiddo mewn lleoliadau ble nad ydynt eisiau byw ac yn wynebu derbyn cosb ar eu cais os yn gwrthod yr eiddo.
- Holwyd faint o deuluoedd sydd mewn llety dros dro yn y Sir. Gofynnwyd hefyd os yw safleoedd carafanau yn cael eu hystyried yn hytrach na gwestai neu B&B.
- Gofynnwyd os yw'r Cyngor yn ail edrych ar brynu eiddo. Amlygwyd bod Tai 3-4 llofft yn wag ac ar y farchnad agored ar hyn o bryd a gall y Cyngor eu prynu a'u defnyddio fel llety dros dro fyddai yn arbed arian yn y tymor hir.
- Holwyd ynghylch tai gwag preifat er enghraifft ail dai ac os oes modd i'r Cyngor helpu i lesu'r tai hyn neu ddod o hyd i denantiaethau ar eu cyfer.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod a chwestiynau gan aelodau, nodwyd:-

- Bod dim arwydd y bydd y newidiadau i'r Polisi Gosod Tai o ganlyniad i newid deddfwriaeth yn mynd i gael effaith ar yr elfen cysylltiad lleol. Adroddwyd ei bod yn debygol y bydd y newidiadau yn ymwneud a ceisio uchafu'r niferoedd digartref sy'n cael eu cartrefu.
- Credwyd y bydd newid ffocws o fewn pa rai o'r categorïau fydd angen cael eu hystyried fel anghenion brys fydd yn cynnwys digartrefedd ac anghenion eraill e.e. meddygol a lles. Eglurwyd o bosib bydd angen blaenoriaethu anghenion digartrefedd yn uwch nag anghenion eraill. Ychwanegwyd bod strategaethau eraill gan y Llywodraeth fel Ail Gartrefu Cyflym fydd yn cael ei ddefnyddio gan y Cyngor i geisio lleihau'r defnydd o eiddo dros dro fydd yn lleihau costau yn ogystal â phwysau ar wasanaethau eraill sydd yn cefnogi tenantiaid mewn llety dros dro.
- Ategwyd mai pobl Gwynedd yw'r mwyafrif o'r bobl digartref sydd ar y rhestr aros ac bod y cysylltiad â Gwynedd yn bodoli. Nodwyd bod y niferoedd sy'n cyflwyno'n ddigartref o du allan i'r Sir yn ofnadwy o isel. Esboniwyd allan o 3,335 o geisiadau sydd ar y Gofrestr mai 35 sydd yn mand 1B sef efo angen tai brys ond heb gysylltiad lleol felly mae'r canran yn ofnadwy o isel. Ymhelaethwyd bod 1,300 o osodiadau wedi eu gwneud o'r Polisi newydd a dim ond 17 o'r rhain oedd wedi dod o fand 1B.
- Ychwanegwyd bod y penderfyniad ynglŷn â newid cyfansoddiad y bandiau yn benderfyniad Cyngor Gwynedd gan mai'r Polisi'r Cyngor ydw. Serch hyn rhaid gweithredu'r Polisi o fewn canllawiau a rheoliadau'r Llywodraeth. Adroddwyd nad oes unrhyw arwydd wedi dod gan y Llywodraeth hyd yn hyn ynglŷn â newid yr elfen cysylltiad lleol o fewn y bandiau.
- Cadarnhawyd bod cynnal asesiad digartrefedd o fewn 56 diwrnod yn rhan o fframwaith cyfreithiol ac yn statudol. Nodwyd bod yr asesiad neu'r cais i fod ar y gofrestr Tai Cyffredin gan y Tîm Opsiynau Tai ar wahân i'r asesiad digartrefedd. Pwysleisiwyd pwysigrwydd bod y Tîm Opsiynau Tai yn derbyn y wybodaeth lawn gan ymgeiswyr i allu gwneud asesiad yn unol â'r Polisi a rhoi'r flaenoriaeth gywir i'r cais. Soniwyd am adolygiad mewnol fydd yn digwydd o fewn yr Adran Tai i sicrhau bod anghenion pobl Gwynedd yn cael eu cyfarch at y dyfodol ac edrych dros wersi sydd wedi eu dysgu dros y blynyddoedd diwethaf.
- Adroddwyd bod 16% o'r gofrestr dai sydd yn cyfateb a dros 500 o geisiadau yn dod o fand 1A. O'r 1,300 sydd wedi derbyn eiddo nodwyd bod 40% ohonynt wedi dod o'r

band yma. Ychwanegwyd bod 45% o'r ceisiadau sydd wedi derbyn eiddo wedi dod o fand 2 sy'n golygu bod gan y ceisiadau ym mans 2 siawns dda o dderbyn eiddo.

- Ynglŷn a'r pwynt o dan-feddiannu, eglurwyd bod rôl y Tîm Opsiynau Tai yn anodd o ran annog pobl i symud i dai llai oherwydd nad oes gan y Cyngor stoc dai. Ychwanegwyd bod rôl y cymdeithasau tai yn anodd oherwydd bod pobl wedi arwyddo cytundebau tenantiaeth felly ni ellir gorfodi neb i symud i eiddo llai. Nodwyd pan mae tan-feddiannu yn digwydd ac angen brys am yr eiddo yno bod y cais yn mynd i fand 1A. Y cam nesaf sydd hefyd yn anodd yw ceisio dod o hyd i eiddo llai i'r bobl yma yn enwedig o ystyried prinder byngalos i'r henoed. Ategwyd bod cyfathrebu a gweithio'n agos efo'r Cymdeithasu Tai yn hanfodol er mwyn cyfleu beth yw'r anghenion a pa fath o stoc sydd ei angen mewn gwahanol ardaloedd.
- Eglurwyd bod y cysylltiadau cymunedol yn parhau i fodoli o fewn y Polisi newydd a dyma sy'n penderfynu pa mor uchel fydd cais o fewn band penodol.
- O ran incwm eglurwyd bod yr elfen yma yn esblygu yn wythnosol bellach efo'r argyfwng costau byw. Nodwyd bod y cymdeithasau tai efo statws elusennol ac i fod i gartrefu pobl sydd ar incwm isel. Yn y gorffennol efallai bod adnabod trothwy pendant yn haws ond bellach rhaid asesu ar sail anghenion a thrin pob achos yn unigol cyn dod i gasgliad.
- Pwysleisiwyd y pwysigrwydd i ymgeiswyr ddewis ardaloedd ble byddent eisiau byw yn unig ac ystyried eu dewisiadau yn ofalus oherwydd bod ceisiadau sy'n gwrthod eiddo mewn lleoliadau o'u dewis yn wynebu cosb gwrthod. Eglurwyd bod y mater yma yn cael ei gymhlethu pan mae'r ymgeiswyr yn ddigartref ac mewn eiddo dros dro pan mae disgwyliad iddynt ehangu eu dewisiadau ardaloedd. Ychwanegwyd fod y Tîm Opsiynau Tai yn ceisio bod yn hyblyg.
- Cadarnhawyd bod 250 o bobl mewn llety dros dro yng Ngwynedd ar ffigwr wedi bod yn cynyddu, sydd yn gost sylweddol i'r Cyngor o filiynau y flwyddyn. Ychwanegwyd bod yr Uned Digartrefedd yn cartref pobl mewn carafanau ond bod yr argaeledd yn broblem a rhwystrau megis trwyddedu a safleoedd yn cau dros y gaeaf sy'n golygu bod rhaid i ymgeiswyr neu deuluoedd symud fwy nac unwaith.
- Nodwyd bod yr Adran Dai ac Eiddo eisoes yn y broses o brynu rhai o hen dai cymdeithasol yn ogystal â hen adeiladau mawr ar gyfer gwneud fflatiau fydd yn cael eu defnyddio fel llety dros dro. Ychwanegwyd bod yr Adran yn edrych i ehangu'r gwaith yma.
- Eglurwyd bod yr Adran eisoes wedi llythyru 1,500 o dai gweigion yng Ngwynedd ac wedi derbyn 170 o ymatebion yn cynnig gwerthu'r tai neu yn gofyn am help i drefnu a sefydlu tenantiaethau ar gyfer yr eiddo. Adroddwyd bod yr Adran yn gweithio drwy'r ymatebion ar hyn o bryd.

Diolchwyd am yr holl waith sy'n cael ei wneud gan yr Adran a'r Tîm Opsiynau Tai dan amgylchiadau anodd wrth ystyried y prinder eiddo cymdeithasol yn y Sir. Diolchwyd yn ogystal i'r Aelodau am eu cwestiynau.

Amlygwyd fod y Pennaeth Tai ac Eiddo wedi nodi awydd i ddychwelyd yn y flwyddyn newydd er mwyn darparu diweddariad pellach i'r Pwyllgor. Bydd y Pennaeth Tai ac Eiddo yn diweddaru'r Pwyllgor pan fydd y ddeddfwriaeth newydd wedi ei gadarnhau ac ar ôl derbyn arweiniad pellach gan y Llywodraeth.

**PENDERFYNIAD**

**a) Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfarfod.**

**b) Bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno ar newidiadau arfaethedig i'r Polisi Gosod Tai yn y flwyddyn newydd er mwyn rhoi cyfle i'r aelodau roi mewnbwn.**

## 8. BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU GOFAL 2022/23

Darparwyd adroddiad byr i'r Aelodau yn dangos rhaglen waith ddiweddaraf y Pwyllgor dros y misoedd nesaf. Eglurwyd y bydd angen addasu'r rhaglen waith o ganlyniad i eitemau yn llithro ac eitem newydd wedi dod i sylw'r Pwyllgor. Nodwyd bod yr eitem Asesiad Anghenion Poblogaeth Gwynedd wedi llithro a cais iddo gael ei gynnwys yng nghyfarfod mis Chwefror o'r Pwyllgor. Hefyd bod Arolygaeth Gofal Cymru yn awyddus i ddod i gyfarfod mis Chwefror o'r Pwyllgor i gyflwyno canfyddiadau'r adroddiad.

O ganlyniad bydd yr agenda Chwefror ac Ebrill yn drwm felly awgrymwyd blaenoriaethu eitemau ar gyfer y ddau bwyllgor yma yn ogystal ag ystyried eitemau ar gyfer mis Mehefin. Argymhellwyd cynnwys yr Asesiad Anghenion Poblogaeth Gwynedd, yr adroddiad Arolygaeth Gofal Cymru, yr adroddiad Recriwtio a chadw staff yn y maes gofal (Adran Plant a Theuluoedd) ac yr adroddiad Cynllun Gweithredu Tai fel eitemau at gyfarfod mis Chwefror o'r Pwyllgor.

Awgrymwyd hefyd gofyn am adroddiad drwy e-bost ar gyfer rhai eitemau er pwrpas diweddaru'r Pwyllgor ac yna ar ôl derbyn yr adroddiad gan yr Adrannau gweld os oes angen dod a'r eitem i'w graffu neu beidio. Cytunwyd gwneud hyn efo'r eitemau Siop Un Stop a Lleoliadau Plant Mewn Gofal.

Cadwyd pethau fel ag y maent ar gyfer cyfarfod Ebrill ar hyn o bryd gan weld beth fydd y canlyniad ar ôl derbyn yr adroddiadau diweddariad eraill drwy e-bost.

Gwnaethpwyd sylw i Adrannau geisio cadw eu cyflwyniadau yn fyr; cadarnhawyd y bydd y neges yma yn cael ei gyfleu i'r Adrannau.

**PENDERFYNIAD**
**Addasu'r rhaglen waith er mwyn blaenoriaethu eitemau ar gyfer cyfarfod Chwefror o'r Pwyllgor Craffu Gofal a mabwysiadu rhaglen waith diwygiedig.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30 a daeth i ben am 15:50

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR** | Pwyllgor Craffu Gofal |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 16/02/2023 |
| **TEITL YR EITEM** | Arolwg Gwasanaethau Oedolion Cyngor Gwynedd gan Arolygaeth Gofal Cymru (AGC) – Medi 2022 |
| **PENNAETH ADRAN** | Aled Davies |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd Dilwyn Morgan |
| **AWDUR** | Aled Davies |
| **PWRPAS** | I ddiweddaru'r pwyllgor ar ganfyddiadau'r Arolygaeth Gofal a rhaglen waith yr adran ymateb iddynt. |

**Cyflwyniad**

1. Yn mis Awst 2022 hysbyswyd Cyngor Gwynedd y byddai Arolygaeth Gofal Cymru (AGC) yn cynnal arolwg o wasanaethau oedolion o fewn Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant y Cyngor. Yn unol a'r trefniadau arferol, cafwyd 4 wythnos o rybydd cyn i'r arolwg gael ei gynnal yn wythnos 19eg – 13ain Medi 2022. Oherwydd gŵyl y banc ychwanegol a roddwyd ar Ddydd Llun 19eg, cytunwyd gyda AGC i'r arolwg ddechrau ar ddydd Gwener 16eg Medi.

2. Mae arolygon AGC yn cael eu cynnal yng nghyd-destun egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Bu'r arolwg yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd gwasanaethau a threfniadau'r Cyngor o ran arfer ei ddyletswyddau a'i swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn unol â deddfwriaeth, ar ran Gweinidogion Cymru. Y tro diwethaf i AGC wneud arolwg o'r gwasanaethau oedolion oedd fel rhan o arolwg sicrwydd gwaith cymdeithasol a gynhaliwyd ar wasanaethau plant ac oedolion Cyngor Gwynedd ym mis Ionawr 2021.

3. Mae arolygon AGC yn cael eu gwneud ar sail 4 o themâu ac yn gofyn y cwestiynau canlynol gan ganolbwyntio'n benodol ar a yw pobl a gofalwyr yn gallu cael mynediad at ofal a chymorth priodol ac amserol ac hefyd ar ddiogelu oedolion.

   i. **Pobl – llais a rheolaeth**
   *Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod pawb yn bartneriaid cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros eu bywydau ac yn gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt?*

   ii. **Atal**
   *I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod yr angen am ofal a chymorth yn cael ei leihau i'r eithaf, a bod angen rhag gwaethygu wrth sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i bobl?*

   iii. **Llesiant**

*I ba raddau y mae’r awdurdod lleol yn sicrhau bod pobl yn cael eu hamddiffyn a’u diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac unrhyw fathau eraill o niwed?*

iv. **Partneriaethau**
*I ba raddau y gall yr awdurdod lleol sicrhau eu hunain bod partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a chyflawni canlyniadau cwbl integredig, cynaliadwy o ansawdd uchel i bobl?*

4. Bydd swyddogion AGC yn ymhelaethu rhywfaint ar gwmpas a dull gweithredu yr arolwg yn y cyfarfod gan gynnwys pwysigrwydd y wybodaeth a gesglir gan randdeiliaid a phartneriaid, pobl sydd mewn cyswllt a’r gwasanaethau a staff.

5. Dylid nodi mae arolwg o wasanaethau oedolion oedd yr arolwg yma a hynny yn cynnwys gwasanaethau pobl hyn, anableddau dysgu ac iechyd meddwl, gyda ffocws ar ansawdd Gwaith Cymdeithasol a ddarperir yn y meysydd yma gan y Cyngor. Nid oedd yr arolwg yn rhan o’r rhaglen o arolygon a gynhelir ar wasanaethau penodol e.e. cartref preswyl unigol neu’r gwasanaeth gofal cartref.

6. Mae trefniadau ar gyfer pob arolwg yn cael eu gwneud ar y cyd rhwng y Cyngor a’r AGC yn unol a chanllawiau penodol a ddarperir gan AGC. Mae hyn yn cynnwys darparu gwybodaeth sylfaenol am y gwasanaethau ac am achosion penodol i AGC ymlaen llaw fel y gallent ragbaratoi a rhoi ffocws ar y materion allweddol yn ystod wythnos yr arolwg. Mae’r trefniadau hefyd yn cynnwys hwyluso cyfarfodydd gyda staff, unigolion a gefnogir a gofalwyr ynghyd a mynychu grwpiau neu gyfarfodydd gyda partneriaid allweddol y Cyngor.

**Crynodeb o’r canfyddiadau**

7. Yng nghyd-destun 4 thema’r arolwg, mae’n wirioneddol braf cael nodi bod AGC wedi adnabod llawer o gryfderau ac enghreifftiau o waith da. Maent yn datgan bod ein gweithlu yn ased ac yn ymroddedig i gynorthwyo pobl i gyflawni beth sy’n bwysig. Un o’r cryfderau a nodwyd yn adolygiad Ionawr 2021 oedd pa mor dda y mae ymarferwyr yn adnabod y bobl y maent yn gweithio gyda nhw, a’r cymunedau y maent yn gweithio ynddynt. Mae canfyddiadau’r arolwg diweddar yn nodi bod hyn yn parhau i fod yn wir.

8. Er gwaethaf y cyfnod anodd diweddar mae AGC yn datgan y gwnaed cynnydd mewn sawl maes ers yr arolwg diwethaf, a hynny er gwaethaf y pwysau a’r heriau ychwanegol yn sgil pandemig COVID-19. Dywedant bod hyn wedi arwain at ddatblygu’r ymarfer a sicrhau canlyniadau gwell i bobl.

9. Ar wahân i gofnodi’r cryfderau, nid oes amheuaeth mai y thema gryfaf yng nghanfyddiadau AGC ydi bod y Cyngor yn profi cyfnod heriol o ran darparu gofal cymdeithasol. Maent yn nodi bod llawer o'r pwysau a brofir ar hyn o bryd gan wasanaethau oedolion Gwynedd yn adlewyrchu'r cyd-destun cenedlaethol o adfer ar ôl pandemig, lefelau uchel o alw a chymhlethdod cynyddol anghenion pobl.

10. Mae ganddynt bryder bod yr heriau yn sgil prinder gwasanaethau gofal cartref yn cael effaith eang ar ddarparu gofal a chymorth. Mae’r canfyddiadau eraill yn awgrymu lle i

wella gyda'r agenda ataliol, cryfhau trefniadau taliadau uniongyrchol, yr angen i gael cysondeb gyda gwaith asesiadau galluoedd meddyliol a chefnogi gofalwyr di-dâl. Gwnaed cyfeiriad hefyd at yr angen i gryfhau trefniadau cyd-weithio gyda'r Bwrdd Iechyd.

11. Yn gyffredinol, cred yr adran fod y mwyafrif o ganfyddiadau'r arolwg yn faterion yr oedd yr adran yn ymwybodol ohonynt a gyda rhaglenni gwaith i geisio ymateb iddynt eisoes mewn lle. Yn dilyn yr adroddiad yma, rydym yn diweddaru'r rhaglenni gwaith yma. Byddwn yn ymhelaethu ar hyn ar lafar yng nghyfarfod y Pwyllgor.

**Y camau nesaf**

12. Yn dilyn arolwg mae AGC yn paratoi a chyflwyno'i adroddiad. Derbyniwyd yr adroddiad drafft ym Mis Hydref ac yn dilyn cyfle i'r Cyngor gyflwyno'u sylwadau ar faterion o gywirdeb a ffeithiol. Derbyniwyd yr adroddiad terfynol ym mis Tachwedd. Mae'r adroddiad llawn i'w weld ar wefan AGC drwy ddilyn y ddolen hon.

13. Yn dilyn hyn, mae AGC yn disgwyl i Gyngor Gwynedd ystyried y materion a nodwyd a chymryd camau gweithredu priodol i fynd i'r afael â'r meysydd sydd angen eu cryfhau a'u gwella. Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy ei gweithgarwch adolygu perfformiad parhaus gyda'r awdurdod lleol.

14. Yn dilyn trafodaeth rhwng yr Aelod Cabinet a'r Pennaeth gyda Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Craffu Gofal, ystyriwyd y byddai'n fuddiol i wahodd AGC i gyflwyno canfyddiadau eu hadroddiad i'r Pwyllgor Craffu ac yna i graffu ar ymateb yr Adran. Credir y byddai hyn yn rhoi cyfle i'r aelodau i gael barn AGC am wasanaethau oedolion Gwynedd o lygad y ffynnon ac yn rhoi sail gadarn i'r rhaglen waith sy'n ymateb i'r canfyddiadau.

15. Yng nghyfarfod y Pwyllgor fe fydd Huw ap Tegwyn (Rheolwr Arolygu) a Myfanwy Moran (Uwch Reolwr) yn cyflwyno canfyddiadau adroddiad AGC ac yn ymateb i gwestiynau aelodau am eu cynnwys. Bydd hyn yn gyfle i godi ymwybyddiaeth aelodau o gynnwys adroddiad AGC ac i ddeall yr elfennau o ganmoliaeth a phryder sydd ganddynt yn cynnwys y meysydd lle mae angen cryfhau a gwella.

16. Bydd Mari Wynne Jones, Uwch Reolwraig y Gwasanaeth Oedolion ac Aled Davies, Pennaeth yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn cyflwyno rhaglen waith fydd yn ymateb i'r canfyddiadau ar ran holl wasanaethau'r Adran. Bydd hyn yn gyfle i'r aelodau i graffu ei chynnwys ac i gael eu bodloni ei bod yn cymryd camau angenrheidiol i gryfhau lle mae gwendidau a goresgyn unrhyw bryderon.

17. Trwy eu cyfarfodydd cyswllt rheolaidd gyda'r Cyngor, fe fydd AGC yn monitro cynnydd o ran cyflawni'r rhaglen waith.

**Atodiadau**

# Rhaglen Waith Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant Gwynedd yn ymateb i Adroddiad Arolwg Gwasanaethau Oedolion Gwynedd gan Arolygaeth Gofal Cymru (AGC) – Medi 2022



| **Thema: Pobl – Llais a Rheolaeth** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Maes i'w gryfhau** | **Cynlluniau eisoes ar waith neu cynlluniau o'r newydd** | **Sylwadau / Rhwystrau** | **Pwy sydd yn arwain** | **Amserlen** |
| Rhaid datblygu systemau sicrhau ansawdd a gwybodaeth am berfformiad ymhellach. Dylai'r awdurdod lleol ganolbwyntio ar ailfywiogi ei broses sicrhau ansawdd gan nad ydym wedi cael sicrwydd bod y prosesau dan sylw yn effeithiol. Nodwyd hwn fel maes yr oedd angen ei wella yn ein harolygiad diwethaf, ac yn dilyn yr arolygiad hwn, mae hyn yn parhau i fod yn wir. | • Yr amcan yw i fedru sicrhau capasiti digonol i'n galluogi i ymweld â holl wasanaethau cofrestredig oedolion gyda'r amlder angenrheidiol a'u cefnogi i gynnal a gwella ansawdd gwasanaethau. Y flaenoriaeth fyddai gweithio'n ataliol cyn i broblemau gweithredu a diogelu godi.<br>• Byddwn hefyd yn cynnal adolygiad o weithdrefnau a dulliau gweithio fel y gellir ystyried dulliau amgen a mwy effeithlon o gyflawni'r gwaith. | Bidiau wedi eu cyflwyno sawl gwaith, gan gynnwys eleni, i gael adnodd ychwanegol i gryfhau'r tîm, ond heb fod yn llwyddiannus. Byddwn yn ystyried opsiynau eraill er mwyn ariannu'r gwaith yma. | Uwch Reolwr Diogelu | Parhaus |
| Mae'r galw am ofal yn fwy na'r cyflenwad yn enwedig yn y maes gofal cartref. Mae AGC yn deall gweledigaeth hirdymor yr awdurdod i drawsnewid y gwasanaeth gofal cartref, ond ni all y sefyllfa bresennol o ddiffyg gofal barhau a rhaid iddi wella. | • Rhaglen waith Gofal Cartref yn cynnwys nifer o ffrydiau gwaith allweddol er mwyn sefydlu a gwreiddio'r model newydd.<br>• Rydym ynghanol gweithredu cynllun trosglwyddo yn dilyn proses dendro a darparu gofal ar sail trefniadau taliadau bloc ar gyfer ardal benodol. Mae cyllid drios dro wedi'i sicrhau ar gyfer cynlluniau i'n cynorthwyo i wreiddio'r model newydd mewn cymunedau drwy gydweithio'n gymunedol a datblygu ymarfer ar sail cryfderau.<br>• Cynllun gofal tymor byr ail alluogi<br>• Adolygu pecynnau 2 ofalydd i asesu addasrwydd offer arbenigol i leihau'r galw am staff.<br>• Rhaglen waith cynllun Rhannu Cartref wedi'i lansio yn Ionawr 2023 gyda chydlynydd wedi'i benodi.<br>• Rhaglen waith gwytnwch cymunedol a datblygu hybiau cymunedol – hwb bellach ymhob ardal llesiant ac yn bwriadu sefydlu rhwydwaith o unigolion i gefnogi pobl ar sail 1:1 mewn cymunedau.<br>• Cynllun Catalyddion Cymunedol – cefnogi hyrwyddo datblygiad busnesau bach. | • Anawsterau recriwtio yn rwystr ar gyfer trosglwyddo'n llawn i'r model gofal cartref newydd ond rydym yn gwneud cynnydd graddol.<br>• Gan fod nifer o'r cynlluniau i leihau pwysau ar y gwasanaeth (e.e. adolygu pecynnau 2 ofalydd) yn golygu adolygu pecynnau ac asesu achosion cymhleth, bydd angen adnodd digonol i wneud y gwaith yma (Therapyddion Galwedigaethol a Gweithwyr Cymdeithasol) ar ben y gwaith dydd i ddydd. O ystyried y pwysau cynyddol ar ein gwasanaethau, nifer swyddi gwag a'r anawsterau recriwtio, bydd hyn yn heriol. | Uwch Reolwyr | Parhaus |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | • Rhaglen waith Taliadau Uniongyrchol – bydd argymhellion cychwynnol yn barod i'w cyflwyno diwedd Chwefror ac mae briff prosiect wedi ei lunio. Rhagor o wybodaeth i'w gael ymhellach yn y ddogfen hon.<br>• Ymgyrchoedd recriwtio a chyfleon prentisiaethau.<br>• Adolygu telerau staff a phatrymau shifft<br>• Trafodaethau ar lefel wleidyddol a rheolaethol yn rhanbarthol a chenedlaethol i geisio cael ymateb a chefnogaeth cenedlaethol i rai o'r anawsterau hyn.<br>• Prosiect trawsnewid digidol – gwaith yn digwydd i gefnogi'n trigolion drwy'r broses o drawsnewid digidol erbyn 2025 a sicrhau bod teleofal a thechnoleg yn cael ei ddefnyddio I'w llawn botensial er mwyn lleihau dibyniaeth ar wasanaethau gofal cartref. | | | |
| Disgwyliwn i'r awdurdod lleol barhau i fonitro ac adolygu ei gynllun gweithlu er mwyn cyflawni ei ddyletswydd statudol i sicrhau gweithlu digonol sydd â chymwysterau addas. | • Bid wedi ei wneud am gynllun parhaol i ariannu cynllun datblygu ar gyfer staff gofal, gweithwyr cymdeithasol a therapyddion galwedigaethol.<br>• Cais wedi ei wneud drwy'r cynllun hyfforddeion corfforaethol ar gyfer hyfforddai gwaith cymdeithasol MA<br>• Parhau gydag ymgyrchoedd recriwtio ar gyfer staff ar draws wedi ei fonitro trwy grŵp recriwtio.<br>• Cynlluniau blynyddol yn bodoli i gefnogi cymwysterau<br>• Sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyflogau Proffesiynol Gwasanaethau Cymdeithasol | • Y bid am gynllun parhaol i ariannu cynllun datblygu ar gyfer staff gofal wedi ei wrthod. Rydym yn edrych oes modd edrych ar grantiau i ariannu hyn dros dro.<br>• Y cais ar gyfer hyfforddai wedi'i wrthod gan nad oedd yn cyd-fynd â model presennol cynllun hyfforddeion corfforaethol y Cyngor ac nad oedd yn cynnwys amrediad digonol o brofiadau ac elfennau datblygol.<br>• Amser a phrinder staff yn cael effaith ar rai yn cyflawni neu ymrwymo i wneud cymwysterau. Anodd cael mentoriaid o fewn y gwasanaethau i gefnogi gweithwyr newydd a gweithwyr sy'n cwblhau cynllun mandadol. | Adran Datblygu'r Gweithlu | Rhaglen barhaus |
| Mae'r meysydd mae recriwtio'n heriol ynddynt yn cynnwys therapi galwedigaethol a nifer o rolau gweithwyr cymdeithasol arbenigol fel Gweithwyr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy (AMHPs), y mae dyletswydd ar yr awdurdod lleol i'w darparu. | • Mae gennym gynllun penodol sydd wedi ei ariannu gyda chyllid unwaith ac am byth ar gyfer datblygu staff a'u hyfforddi i fod yn therapyddion galwedigaethol.<br>• Mae 4 hyfforddai Therapi Galwedigaethol eisoes wedi eu penodi gyda'r cyntaf yn gorffen ei chwrs prifysgol Rhagfyr 2023.<br>• Ers yr arolwg, rydym wedi penodi hyfforddai arall sydd newydd ddechrau'r cwrs gradd Ionawr 2023.<br>• Bid wedi ei gyflwyno i geisio gwneud y rhaglen yma'n un barhaol.<br>• Grŵp tasg a gorffen cyflogau proffesiynol gwasanaethau cymdeithasol wedi'i sefydlu.<br>• Adolygu swydd ddisgrifiad Ymarferwyr Gwaith Cymdeithasol i gynyddu capasiti drwy gefnogi gwaith Therapyddion Galwedigaethol. | • Heriau recriwtio a chadw Therapyddion Galwedigaethol o ganlyniad i gystadleuaeth swyddi o fewn y Bwrdd Iechyd ac Awdurdodau Lleol eraill.<br>• Her wedi'i adnabod yn genedlaethol ynglŷn â'r nifer o lefydd ar gyrsiau Therapyddion Galwedigaethol oherwydd diffyg ystyriaeth i'r nifer sydd angen i weithio ym maes gofal cymdeithasol. Mae bwriad i sefydlu grŵp ar lefel ranbarthol i ystyried hyn yn benodol ac fe fyddwn ni yn rhan o'r sgwrs honno. | Arweinydd Therapi Galwedigaethol | Rhaglen barhaus |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | • Mae'r adran yn brin o 5 AMHP yn y Gwasanaeth Iechyd Meddwl.<br>• Byddwn hefyd yn cynnal adolygiad o'r nifer o AMHPs sydd ei angen ar draws yr adran gan gynnwys Gwasanaethau Pobl Hŷn ac Anabledd Corff a'r Gwasanaeth Anabledd Dysgu. | • Roedd bid wedi'i baratoi i ymateb i fater arfarnu swyddi gweithwyr sy'n gallu cwrdd â'r dyletswyddau hyn er mwyn gwneud recriwtio yn haws. Mae'r bid yma wedi'i wrthod felly bydd angen i ni ystyried opsiynau eraill er mwyn ariannu'r gwaith yma. | Uwch Reolwr Iechyd Meddwl | Rhaglen dros y 18 mis nesaf |
| Mae angen i'r awdurdod lleol roi blaenoriaeth i wella'r ffordd y mae'n hyrwyddo taliadau uniongyrchol er mwyn sicrhau bod y rhain ar gael yn hawdd i bobl. | • Adolygiad mewnol lefel uchel wedi ei gynnal i'r trefniadau taliadau uniongyrchol, gan gynnwys sut i'w hyrwyddo fwy effeithiol.<br>• Prosiect wedi'i sefydlu ac wedi cytuno ar y briff. Gallu cynnig gwir ddewis i unigolion mewn perthynas â threfnu eu cymorth gan wneud y trefniadau yn rhai rhwydd a hygyrch.<br>• Ystyried opsiynau o ran cynnal y gwasanaeth cefnogi unigolion sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol, sydd ar hyn o bryd yn cael ei gomisiynu'n allanol. Un opsiwn i'w ystyried fydd mewnoli'r gwasanaeth.<br>• Hyfforddiant 'refresher' i staff.<br>• Datblygu pecyn gwybodaeth i'r cyhoedd. | • Disgwylir bod mewn lle i gyflwyno opsiynau'n deillio o'r adolygiad erbyn Ebrill 2023, yn y gobaith o weithredu erbyn diwedd y flwyddyn galendr er mwyn gallu cynnig a hyrwyddo gwasanaeth taliadau uniongyrchol yn hyderus. | Uwch Reolwr Busnes | Rhagfyr 2023 |
| Rhaid i'r awdurdod lleol gryfhau ei gynnig o ran cynnal asesiadau ffurfiol ar gyfer gofalwyr di-dâl i sicrhau bod hawliau a llais pob gofalwr yn cael ei hyrwyddo'n llawn. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod gofalwyr yn cael gwybod fel mater o drefn am eu hawliau i gael asesiad a bod hyn yn cael ei ddeall, hyrwyddo a'i gofnodi gan yr holl staff. | • Grŵp Gweithredu Gofalwyr eisoes wedi ei sefydlu ar gyfer y gwasanaeth.<br>• Llyfryn gwybodaeth i ofalwyr eisoes wedi'i gyhoeddi.<br>• Grŵp data gofalwyr eisoes wedi ei sefydlu. Angen sefydlu mesurau penodol ar gyfer Gofalwyr. Blaenoriaethu cysondeb cofnodi ac adolygu dogfennau.<br>• Rhaglen hyfforddiant hawliau gofalwyr wedi ei threfnu ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24.<br>• Adolygu rhaglen waith Gofalwyr<br>• Ail ymweld a blaenoriaethau rhaglen waith swyddog cefnogi Gofalwyr.<br>• Adolygu Polisi Gofalwyr yr Adran a llunio canllaw staff.<br>• Adolygu a diweddaru gwybodaeth am ofalwyr ar wefan y Cyngor. | Credir bod y cynnig i gael asesiad yn cael ei roi ond cydnabyddir nad oes cysondeb o ran cofnodi hynny. Arweiniad pellach yn cael ei roi i'r timau i gryfhau trefniadau gyda hyfforddiant a chyfleon adeiladu hyder yn cael eu cynnig lle bo angen.<br><br>Swydd benodol yn cefnogi gwelliannau yn y maes gofalwyr di-dâl yn cael ei ariannu o gyllideb dros dro.<br><br>Y swyddog sydd yn arwain ar y gwaith i ffwrdd yn sâl hir dymor sydd yn effeithio gallu i weithredu'r rhaglen waith yn amserol. | Arweinydd Llesiant o dan arweiniad Grŵp Gofalwyr Gwynedd | Rhaglen barhaus<br><br>Adolygu rhaglen waith, blaenoriaethau a polisi/canllawiau erbyn Ebrill 2023 |
| Er bod tystiolaeth o sesiynau goruchwyliaeth staff rheolaidd mae'n ymddangos bod y trafodaethau yn adlewyrchu'r heriau o ddarparu gwasanaethau cymorth uniongyrchol i bobl yn hytrach na chanolbwyntio ar y canlyniadau i'w cyflawni. Dylai'r awdurdod lleol ailedrych ar y polisi goruchwylio staff. | • Y polisi goruchwyliaeth wedi ei adolygu yn dilyn Adroddiad Archwiliad Sicrwydd Ansawdd Arolygaeth Gofal Cymru Ionawr 2021.<br>• Wedi cynnal adolygiad pellach o'r Polisi Rhagfyr 2022. Dim angen newid y polisi, ond cydnabyddiaeth fod angen cryfhau'r ymarfer mewn perthynas a goruchwyliaeth adlewyrchol a'r cofnodi. Bwriedir cyflawni hyn trwy:<br>• Atgoffa Arweinwyr Ardal, Ymarferwyr Arweiniol a staff o'r pwysigrwydd i gynnwys cofnodion sesiynau goruchwyliaeth yn ffeiliau achos trwy gyfarfodydd arweinwyr, cyfarfodydd tîm a goruchwyliaeth 1:1. Y trefniadau i'w monitro trwy drefniadau Awdit ffeiliau. | | Uwch Reolwyr ac arweinyddion tîm gyda chefnogaeth gwasanaeth Datblygu'r Gweithlu | Rhaglen barhaus. Hyfforddiant yn ystod blwyddyn 2023-24 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | • Sesiynau hyfforddiant ar roi goruchwyliaeth adlewyrchol i'w drefnu gan Adran Datblygu'r Gweithlu. | | | |
| **Thema: Atal** | | | | |
| Mae pwysau yn yr awdurdod lleol wedi golygu nad yw wedi gallu adolygu'n ffurfiol holl gynlluniau gofal a chymorth pobl o fewn yr amserlenni statudol gofynnol. Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod adolygiadau'n cael eu cynnal mewn modd amserol i fonitro newidiadau a lliniaru'r risg hon. O beidio, mae risg na chaiff anghenion newidiol pobl eu monitro, gan arwain at ddarpariaeth amhriodol o ofal a chymorth. | • Ail ddechrau'r gwaith o dreialu rheoli baich gwaith staff ac ail ddylunio y broses o gynnal adolygiadau.<br>• Atgoffa staff o'r angen i nodi dyddiad yr adolygiad nesaf pan yn cynnal adolygiad (cyfarfodydd tîm, sesiynau goruchwylio ac addasu dogfen adolygu). Monitro trwy Awdit ffeiliau.<br>• Sicrhau fod adolygiadau yn cael eu cofnodi ar y templed adolygiad. Monitro drwy Awdit ffeiliau.<br>• Adolygiadau yn digwydd fel rhan o waith trosglwyddo darparwyr gofal cartref.<br>• Sefydlu rhaglen waith data. | • Diffyg capasiti staff yn ei wneud yn anodd i gynnal adolygiadau o ganlyniad i'r cynnydd yn y galw ar y gwasanaeth.<br>• Bid llwyddiannus am arian dros dro i ddarparu capasiti ychwanegol i gefnogi'r gwaith ar gyfer 2022-23.<br>• Wedi recriwtio yn rhannol i rolau gweithwyr cymdeithasol ychwanegol i gynorthwyo a'r adolygiadau. Ond, yr arian yn dod i ben diwedd y flwyddyn ariannol a dim adnoddau ychwanegol i gefnogi. | Uwch Reolwyr | Rhaglen barhaus. |
| Mae'r defnydd o drefniadau dros dro e.e. lleoli unigolyn mewn cartref gofal pan maent yn dymuno cael gofal cartref yn codi cwestiynau pwysig ynglŷn â hawliau pobl, eu dewis, a chefnogi pobl yn y modd lleiaf cyfyngol. | *Gweler Rhaglen Waith Gofal Cartref uchod* | | | |
| **Thema: Llesiant** | | | | |
| Mae angen sicrhau bod dealltwriaeth gytunedig o sut y caiff anghenion eu diwallu, a sut y cyflawnir canlyniadau personol. Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod canlyniadau materion diogelu yn cael eu rhannu â'r person ei hun, mewn ffordd gyson, a bod hyn yn cael ei gofnodi'n glir, hyd yn oed pan nad yw'r trothwy ar gyfer camau diogelu pellach wedi'i fodloni. | • Gweithdy gweithredu yn null canlyniadau wedi ei gynnal Hydref 2023 i gytuno ar raglen waith<br>• Hyfforddiant sgyrsiau cydweithredol i arweinwyr, rheolwyr a thimau gwaith cymdeithasol priodol<br>• Mae sesiynau codi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd eiriolaeth wedi eu cynnal gan Uwch Swyddog CADMHAS (Gwasanaeth Eirioli Iechyd Meddwl) i bob Gweithiwr Cymdeithasol a Therapydd Galwedigaethol o fewn yr adran. Bydden nhw'n monitro'r galw am eiriolaeth ac yn adrodd os oes cynnydd wedi bod am y gwasanaeth. | . | Uwch Reolwyr Oedolion | Hyfforddiant Ionawr – Gorffennaf 2023 |
| Mae angen atgyfnerthu'r trefniadau a sicrhau cysondeb o ran yr ymarfer o ymgymryd ag asesiadau galluedd meddyliol. | • Rhaglen hyfforddiant asesiadau galluedd meddyliol mewn lle fel rhan o gyflwyno trefn newydd Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yn hwyrach eleni.<br>• Sesiynau codi ymwybyddiaeth am rôl IMCA (Eiriolwr Capasiti Meddyliol Annibynnol) wedi eu cynnal rhwng Hydref – Rhagfyr 2022. | | Uwch reolwyr, Arweinyddion Tîm a gwasanaeth Datblygu'r Gweithlu | Rhaglen barhaus |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | • Monitro drwy drefniadau goruchwyliaeth ac Awdit ffeiliau. | | | |
| **Thema: Partneriaethau** | | | | |
| Mae angen i'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd gydweithio'n well ar lefel strategol er mwyn darparu dull mwy integredig a chynaliadwy o hyrwyddo annibyniaeth a llesiant pobl | Ymdrech eisoes yn cael ei wneud i wella cydweithio trwy:<br>• Ddatblygu perthynas â'r Bwrdd Iechyd ar lefel Cyfarwyddwr Corfforaethol.<br>• Cyfarfodydd Grwp Llywio sydd yn cwrdd yn rheolaidd. | | Cyfarwyddwr Corfforaethol | Rhaglen barhaus |
| Rhaid i'r awdurdod lleol ystyried ei strategaeth gyfathrebu, oherwydd gallai pobl elwa ar gael sicrwydd pellach ynghylch eu gofal a'u cymorth. Cyfathrebu clir a chryf hefyd yn bwysig gyda'r gweithlu yn enwedig mewn cyfnod lle mae gwasanaethau dan bwysau. | Trefniadau cyfathrebu gyda staff eisoes yn bodoli trwy:<br>• Newyddlen staff rheolaidd.<br>• Bwletinau gwybodaeth.<br>• Cyfarfodydd Tîm Rheoli<br>• Cyfarfodydd Tîm Arweinwyr<br>• Cyfarfodydd Tîm<br>• Goruchwyliaeth 1:1<br>• Cyfarfodydd/gweithdai gyda'r gweithlu i drafod cynlluniau penodol.<br><br>Trefniadau cyfathrebu gyda'r cyhoedd ynghylch y cynllun gofal cartref sydd eisoes mewn lle:<br>• Gwybodaeth ar safle gwefan y Cyngor<br>• Newyddlen<br>• Llythyrau<br>• Trafodaethau 1:1 gyda'r cydlynydd gofal.<br>• Llinell ffon benodol ar gyfer ymholiadau.<br><br>Mae'n hadnodd cyfathrebu ac ymgysylltu wrthi'n cael ei adolygu. Disgwylir datblygu'r adnodd er mwyn cyfathrebu yn amserol a datblygu'r strategaeth gyfathrebu. Mae cais am hyfforddai proffesiynol ym maes Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus wedi'i gymeradwyo gan yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol, ac rydym yn ceisio sicrhau cyllid i ariannu'r cyfle hwn. | • Caiff y sylw ei wneud yng nghyd-destun newidiadau gofal cartref. Rydym yn cydnabod bod bob tro lle i wella ond hefyd wedi cynnig tystiolaeth ychwanegol i AGC ynglŷn â'r ymdrech sylweddol wnaed i ymgysylltu a chyfathrebu am y prosiect gofal cartref dros nifer o flynyddoedd.<br><br>• Swyddog oedd yn arwain y gwaith cyfathrebu ac ymgysylltu ar gyfer y gwaith cynllun gofal cartref wedi gadael ei swydd. Dim cyllideb ar gyfer penodi swyddog cyfathrebu penodol ar gyfer y cynllun ond bydd modd defnyddio rhywfaint o'r adnodd adrannol i gefnogi'r gwaith yma.<br><br>• Dim sicrwydd hyd yma y bydd cyllid ar gael i fedru penodi a datblygu'r hyfforddai proffesiynol. | Uwch Reolwr Busnes | Mehefin 2023 |

Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

# Arolygiad Gwerthuso Perfformiad ar Cyngor Gwynedd

Medi 2022

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.



OGL © Hawlfraint y Goron 2022 WG 46385 ISBN digidol 978-1-80391-994-2

## Cyflwyniad

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) arolygiad gwerthuso perfformiad gwasanaethau oedolion yng Nghyngor Gwynedd (‘CG’ / ‘yr awdurdod lleol’) ym mis Medi 2022. Diben yr arolygiad hwn oedd adolygu perfformiad yr awdurdod lleol wrth iddo ymarfer ei ddyletswyddau a swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn unol â deddfwriaeth, ar ran Gweinidogion Cymru.

Ceisiwn ateb y cwestiynau canlynol sy’n cyd-fynd ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014).

1. **Pobl – llais a rheolaeth**

   Pa mor dda mae’r awdurdod lleol yn sicrhau bod pawb yn bartneriaid cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros eu bywydau ac yn gallu cyflawni’r hyn sy’n bwysig iddynt?

2. **Atal**

   I ba raddau y mae’r awdurdod lleol yn sicrhau bod yr angen am ofal a chymorth yn lleihau, ac yn atal cynnydd yn yr angen, wrth sicrhau bod y canlyniadau gorau posibl i bobl yn cael eu cyflawni?

3. **Llesiant**

   I ba raddau y mae’r awdurdod lleol yn sicrhau bod pobl yn cael eu hamddiffyn a’u diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac unrhyw fathau eraill o niwed?

4. **Partneriaethau**

   I ba raddau y gall yr awdurdod lleol sicrhau ei hun bod partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a chyflawni canlyniadau cwbl integredig, cynaliadwy o safon i bobl?

Bu’r arolygiad hwn yn canolbwyntio ar effeithiolrwydd gwasanaethau a threfniadau’r awdurdod lleol ar gyfer helpu ac amddiffyn pobl. Rydym yn cydnabod bod gofal cymdeithasol i oedolion yn cwmpasu amrywiaeth eang o weithgareddau er mwyn helpu pobl sy'n hŷn neu sy'n byw ag anabledd neu salwch corfforol neu salwch meddwl. Roedd cwmpas yr arolygiad yn cynnwys y canlynol:

- gwerthusiad o brofiad pobl a’r canlyniadau y maent yn eu cael wrth ymwneud â gwasanaethau.
- tystiolaeth bod yr awdurdod lleol a phartneriaid wedi dysgu gwersi o’u profiadau diweddar a bod ganddynt gynlluniau ar gyfer datblygu a gwella gwasanaethau.
- ystyried sut y mae’r awdurdod lleol yn rheoli cyfleoedd a risg wrth gynllunio a darparu gofal cymdeithasol ar lefelau unigol, gweithredol a strategol.

## 1. Crynodeb

1.1. Yn yr un modd â llawer o awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, mae Cyngor Gwynedd (CG) yn profi cyfnod heriol o ran darparu gofal cymdeithasol. Mae llawer o'r pwysau a brofir ar hyn o bryd gan wasanaethau oedolion yr awdurdod lleol yn adlewyrchu'r cyd-destun cenedlaethol o adfer ar ôl pandemig, gan gynnwys lefelau uchel o alw a chymhlethdod cynyddol anghenion pobl.

1.2. Mae’n amlwg bod yr heriau yn sgil prinder gwasanaethau gofal cartref yn cael effaith ar ddarparu gofal a chymorth. Er bod y pandemig wedi gwaethygu’r sefyllfa, mae'r broblem o sicrhau darpariaeth gofal cartref ddigonol yn fater sydd wedi parhau yn yr awdurdod lleol ers cyn y pandemig. Dyma'r maes a oedd yn peri'r pryder mwyaf i ymarferwyr a rheolwyr ym maes gwasanaethau i oedolion. Dywedodd y staff wrthym am yr heriau a wynebir o ran cefnogi pobl i gyflawni eu canlyniadau personol, a hynny oherwydd diffyg adnoddau, a chanfuom fod capasiti annigonol i ateb y galw. Ceir enghreifftiau lle nad oes gwasanaethau gofal cartref ar gael, ac nid oes gan bobl ddewis ond symud i gartref gofal am gyfnodau yn y cyfamser, er efallai y byddai’n well ganddynt dderbyn gofal a chymorth yn y cartref.

1.3. Ni all yr awdurdod lleol fanteisio’n effeithiol ar gyfleoedd i gefnogi’r agenda ataliol mewn ffordd sy’n amlwg yn lleihau’r galw ar wasanaethau gofal a chymorth. Er gwaethaf hyn, mae gweledigaeth glir ar gyfer gwasanaethau cymunedol lleol sy’n seiliedig ar le, a chymorth sy’n fuddiol i bobl ar hyn o bryd, gan gynnwys adnoddau ar gyfer grwpiau gofalwyr a hybiau i gefnogi llesiant emosiynol pobl ifanc.

1.4. Ceir enghreifftiau gweithredol rhagorol o weithwyr proffesiynol yn cydweithio i gefnogi pobl, yn enwedig mewn rhai o’r timau lle mae ymarferwyr o ddisgyblaethau amrywiol, er enghraifft y tîm anabledd dysgu. Mae rhyddhau o'r ysbyty yn faes sydd o dan bwysau, yn enwedig yn yr ysbytai acíwt mwy o faint. Mae angen i’r awdurdod lleol barhau i weithio’n strategol ac yn weithredol gyda’i bartneriaid yn y byrddau iechyd lleol i chwilio am atebion i liniaru’r sefyllfa.

1.5. Mae’r awdurdod lleol yn ymateb yn dda i bryderon diogelu. Gwelsom dystiolaeth o weithwyr proffesiynol yn y tîm diogelu yn gweithio’n effeithiol gyda phartneriaid o’r bwrdd iechyd lleol a’r heddlu, yn ogystal â thimau ehangach yr awdurdod lleol, i amddiffyn oedolion a phlant sydd mewn perygl. Mae fforymau ehangach ar waith hefyd ar gyfer ystyried risgiau mewn achosion lle nad yw’r trothwy ar gyfer diogelu wedi’i gyrraedd.

1.6. Canfuom fod lleisiau'r rhan fwyaf o bobl yn cael eu clywed a'u hadlewyrchu'n dda wrth gynllunio gofal. Rydym o’r farn y gellid ystyried pellach gallu person i ddiwallu ei ganlyniadau personol gan ddefnyddio ei gryfderau a'i adnoddau ei hun. Canfuom hefyd, er bod ymarferwyr yn cydnabod yr effaith y mae gofalu yn ei chael, nid arweiniodd hyn at dystiolaeth o gynnig clir o asesiad gofalwyr fel y nodir mewn deddfwriaeth.

1.7. Clywsom gan reolwyr nad yw’r twf o ran timau staff wedi cyd-fynd â’r twf yn y galw. Rhaid i’r awdurdod lleol, fel y corff cyfrifol, barhau i weithredu i gynnal gweithlu digonol sydd â’r cymwysterau addas i ateb y galw cynyddol. Yn amlwg, mae hyn yn cael effaith ar allu'r awdurdod i gynnal adolygiadau statudol mewn modd amserol. Mae’r awdurdod lleol yn colli cyfleoedd i ganfod a yw pobl wedi cyflawni eu canlyniadau neu’n parhau i fod angen cymorth.

1.8. Canfuom y gwnaed cynnydd mewn sawl maes, a hynny yn erbyn cefndir y pwysau a’r heriau ychwanegol yn sgil pandemig COVID-19. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu’r ymarfer a sicrhau canlyniadau gwell i bobl.

<u>**Canfyddiadau allweddol a thystiolaeth**</u>

Rydym yn cyflwyno rhai o'r prif ganfyddiadau a thystiolaeth isod yn unol â phedair egwyddor y Ddeddf.

## 2. Pobl – llais a dewis

**Cryfderau:**

2.1. Yn achos y rhan fwyaf o bobl, mae eu lleisiau’n cael eu clywed, ac mae eu canlyniadau personol yn cael eu nodi. Gwelsom fywgraffiadau manwl a chynhwysfawr, gan gynnwys hanes ac amgylchiadau, yn dangos yr hyn sy'n bwysig i'r person yng ngeiriau ei hun. Dywedodd y rhan fwyaf o'r bobl fod y gwasanaethau cymdeithasol yn ddefnyddiol a'u bod yn cael eu trin ag urddas a pharch. Roedd llawer o enghreifftiau o ymarferwyr yn gweithio'n gyson ac yn cydweithio â phobl. Un o’r cryfderau a nodwyd yn ein hadolygiad perfformiad blaenorol, ym mis Ionawr 2021, oedd pa mor dda y mae ymarferwyr yn adnabod y bobl y maent yn gweithio gyda nhw, a’r cymunedau y maent yn gweithio ynddynt, ac mae hyn yn parhau i fod yn wir. Mae ymarferwyr yn gwrando ar y bobl, ac mae hynny’n arddangos agwedd ofalgar a phroffesiynol.

2.2. Gall y bobl deimlo'n hyderus y byddant yn derbyn gwasanaeth yn eu dewis iaith oherwydd bod gan yr awdurdod lleol nifer uchel o staff dwyieithog a'i fod yn rhagweithiol yn ei gynnig Cymraeg. Mae'r gwaith cofnodi rhagorol o'r cynnig hwn yn parhau i fod yn gryfder ers ein hadolygiad o berfformiad diwethaf. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn gwerthfawrogi’r gallu i ddewis yr iaith, yn enwedig ar adegau anodd yn eu bywydau. Gwelsom hefyd fod dehonglwyr ar gyfer ieithoedd eraill yn cael eu defnyddio mewn modd rhagweithiol er mwyn galluogi pobl i gyfrannu.

2.3. Yn gyffredinol, roedd ansawdd yr asesiadau a'r cynlluniau gofal a chymorth a welwyd yn dda. Cofnodir barn broffesiynol, ac fel arfer ceir dadansoddiad o'r risgiau. Mae rhai asesiadau yn canolbwyntio'n ormodol ar yr angen yn hytrach na chryfderau. Dylai'r awdurdod lleol barhau i wella'r ffordd y mae'n adlewyrchu cryfderau pobl, fel ei bod yn glir sut y maent yn cyfrannu at sicrhau bod pobl yn cyflawni eu canlyniadau personol. Gwelsom rai

enghreifftiau cadarnhaol lle roedd oedolion yn elwa ar gymorth eiriolaeth, ond gellir gwella’r cysondeb wrth gofnodir cynnig yn well.

2.4. Wrth drafod ag uwch-reolwyr, clywsom fod llesiant y staff yn cael sylw arbennig. Mae adborth o'n harolwg staff dienw yn adlewyrchu’r ffaith bod ymarferwyr yn cael eu cefnogi'n dda gan gydweithwyr a rheolwyr (87%). Roedd yr ymarferwyr y gwnaethom siarad â nhw hefyd yn gadarnhaol ynghylch hygyrchedd y rheolwyr a chymorth cymheiriaid gan aelodau’r tîm. Dywedodd y rheolwyr fod ganddynt weithlu ymroddedig, ac mai dyma yw ased gorau'r awdurdod lleol. Roedd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr i’n harolwg staff yn teimlo bod eu llwyth gwaith yn hawdd ei drin (67%), gan olygu bod mwy na thraean ohonynt yn teimlo nad yw hyn yn wir. Dylai'r awdurdod lleol ystyried y canlyniad hwn ac adolygu nifer a natur y llwythi gwaith a ddyrennir ganddo oherwydd bod hyn hefyd yn thema a nodwyd yn ystod ein trafodaethau ag ymarferwyr. Rydym yn cydnabod bod yr awdurdod lleol wedi rhoi mesurau ar waith i reoli llwythi gwaith fel trefniadau ar gyfer blaenoriaethu rhestrau aros sy'n rhoi blaenoriaeth i asesiadau. Dywedodd yr uwch-reolwyr wrthym eu bod, ar hyn o bryd, yn modelu'r gweithlu gyda'r nod o sicrhau bod yr adnoddau priodol yn cyd-fynd â chymhlethdod yr anghenion.

**Beth sydd angen ei wella:**

2.5. Cynhaliwyd yr arolygiad hwn ar adeg o drawsnewid yng ngwasanaethau i oedolion CG. Yn dilyn cynllun peilot mewn pedwar ardal, mae'r awdurdod lleol yn symud tuag at ddefnyddio un darparwr lleol i ddarparu gofal cartref ym mhob ardal, a hynny er mwyn symleiddio'r gwasanaeth. Hyd yma, nid yw hyn wedi gwella’r sefyllfa o ran rhestrau aros am ofal, y maent wedi bod yn tyfu, ac a oedd eisoes yn uchel, hyd yn oed cyn y pandemig. Yr hyn sy'n peri pryder penodol ar hyn o bryd yw gallu'r awdurdod lleol i gyflawni canlyniadau'r bobl os oes angen gofal yn eu cartrefi arnynt. Clywsom am ganlyniadau’r ffaith bod y galw yn fwy na’r cyflenwad, gan gynnwys pobl sy’n cael eu gadael heb ofal yn gyfan gwbl tra bod eraill yn aros yn yr ysbyty’n hirach. Mae hyn yn golygu bod pwysau cynyddol ar ofalwyr di-dâl, pobl sy’n cael eu rhoi ar restrau aros hir neu bobl sy’n symud i gartrefi gofal yn ddiangen oherwydd bod diffyg gofal iddynt yn eu cartrefi. Mae diffyg cymorth cartref yn thema a nodwyd yn yr wybodaeth am gwynion a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol cyn yr arolygiad. Er ein bod yn deall gweledigaeth hir dymor yr awdurdod i drawsnewid y gwasanaeth, ni all y sefyllfa bresennol barhau a rhaid iddi wella.

2.6. Mae uwch-reolwyr yn ymwybodol o'r heriau mae gwasanaethau rheng flaen yn eu hwynebu, er bod eu gallu i ymateb ar draws holl feysydd y sefydliad yn cael ei herio oherwydd bod cynifer o bwysau. O ganlyniadau ein harolwg staff, teimlai ymarferwyr y gellid gwella’r cyfathrebu gan uwch-reolwyr, yn enwedig yng nghyd-destun trawsnewid gwasanaethau mawr. Yn gadarnhaol, dywedodd y bobl eu bod wedi cael hyfforddiant a chymorth priodol i’w galluogi i gyflawni eu rolau, er y nododd rhai ohonynt y gall amser cyfyngedig fod yn rhwystr i gael mynediad at hyn.

2.7. Mewn rhai meysydd o'r gwasanaethau i oedolion, mae recriwtio a chadw'r gweithlu mewn argyfwng difrifol, ac mae risg na fydd yr awdurdod lleol yn cyflawni nifer o ddyletswyddau statudol. Effaith hyn ar fywydau'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau yw'r ffaith nad yw anghenion cymwys yn cael eu diwallu oherwydd cymorth cyfyngedig a diffyg dewis. Mae hyn yn cynnwys nid yn unig gofal yn y cartref ond gwelyau mewn cartrefi gofal hefyd. Mynegodd ymarferwyr bryderon am yr effaith ar lesiant pobl ar adeg pan fo'r system wedi '*bod ar stop*' a bod *'tagfa'* o ran cefnogi pobl yn llwyddiannus i aros gartref. Clywsom eu rhwystredigaeth wrth asesu pobl gan eu bod yn gwybod nad oes gofal a chymorth ar gael mewn rhai ardaloedd. Ceir effaith sylweddol hefyd ar yr amser a'r adnoddau sy'n cael eu cyfeirio tuag at reoli'r risgiau parhaus yn sgil y ffaith bod pobl yn byw heb y gofal sydd ei angen arnynt. Mae'r awdurdod lleol yn ymdrechu i wella'r sefyllfa hon yn lleol ac mae uwch-reolwyr yn glir y byddent yn croesawu ymateb cenedlaethol i rai o'r anawsterau hyn. Mae meysydd eraill y mae recriwtio'n heriol ynddynt yn cynnwys therapyddion galwedigaethol a nifer o rolau gweithwyr cymdeithasol arbenigol fel Gweithwyr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy, y mae dyletswydd ar yr awdurdod lleol i'w darparu. Disgwyliwn i'r awdurdod lleol barhau i fonitro ac adolygu ei gynllun gweithlu er mwyn cyflawni ei ddyletswydd statudol i sicrhau gweithlu digonol sydd â chymwysterau addas.

2.8. Mae angen i'r awdurdod lleol roi blaenoriaeth i gynyddu faint mae'n hyrwyddo taliadau uniongyrchol er mwyn sicrhau bod y rhain ar gael yn hawdd i bobl. Mae taliadau uniongyrchol yn rhoi'r cyfle i bobl deilwra a rheoli eu gofal a'u cymorth eu hunain yn ogystal â darparu dewis amgen posibl i ddarpariaeth gofal cartref i rai pobl. Ar adegau, gwelsom y methwyd cyfleoedd i gynnig y rhain i aelodau'r teulu. Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau eu hunain bod taliadau uniongyrchol yn cael eu cynnig yn gyson, yn ogystal â sicrhau bod y rheswm dros wrthod unrhyw daliadau yn cael ei gofnodi. Clywsom adborth cadarnhaol dros ben gan nifer bach o ofalwyr pobl ag anableddau dysgu sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol yn effeithiol. Clywsom enghraifft gadarnhaol hefyd lle mae pobl mewn ardal benodol yn defnyddio taliadau uniongyrchol i ariannu cymorth i gymdeithasu, gan helpu i fynd i'r afael â phroblemau unigrwydd ac ynysu.

2.9. Rhaid i CG sicrhau bod gofalwyr yn cael gwybod fel mater o drefn am eu hawliau i gael asesiad a bod hyn yn cael ei ddeall, ei gofnodi, a'i hyrwyddo gan yr holl staff. Bydd asesiadau gofalwyr, pan fyddant yn cael eu cymhwyso'n gyson, yn sicrhau y caiff cyfleoedd i gefnogi gofalwyr a hyrwyddo eu llesiant eu nodi mewn ffordd fwy effeithiol. Yn aml, roedd yr effaith gorfforol, emosiynol a seicolegol o fod yn ofalwr yn cael ei hystyried a'i hadlewyrchu'n dda yn ein trafodaethau gyda staff ac yn y cofnod gofal cymdeithasol, ond roedd yn anodd nodi adeg pan gynigiwyd cynnal asesiad yn ddiamwys. Yn gyffredinol, roedd y gofalwyr y gwnaethom siarad â nhw yn hapus â'r cymorth roeddent yn ei gael. Rhaid i'r awdurdod lleol gryfhau ei gynnig o ran cynnal asesiadau ffurfiol ar gyfer gofalwyr i sicrhau bod hawliau a llais pob gofalwr yn cael eu hyrwyddo'n llawn. Roedd yn gadarnhaol inni glywed bod rhaglen waith ar y gweill i gryfhau'r gwaith o gasglu gwybodaeth a

data ynghylch gofalwyr di-dâl er mwyn nodi pobl yn haws a gwella hyfforddiant ar y pwnc hwn ar gyfer y gweithlu.

2.10. Nododd y rhan fwyaf o ymarferwyr eu bod yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd gan eu rheolwyr. Roedd y ffeiliau goruchwylio a welwyd yn amrywio o ran cynnwys ac ansawdd. I raddau helaeth, roedd y trafodaethau yn adlewyrchu'r heriau o ddarparu gwasanaethau cymorth uniongyrchol i bobl yn hytrach na chanolbwyntio ar y canlyniadau i'w cyflawni. Yn yr un modd â llawer o wasanaethau oedolion eraill ledled Cymru, nid yw trafodaethau goruchwylio yn cael eu cofnodi fel rhan o gofnodion gofal cymdeithasol, sy'n ei gwneud yn anodd deall lefel yr oruchwyliaeth gan reolwyr wrth ddarllen y cofnod. Mae sesiynau goruchwylio yn darparu cyfle i fyfyrio, herio'n adeiladol i greu newid, nodi cyfleoedd a fethwyd o bosibl a magu hyder. Rydym ar ddeall bod yr awdurdod lleol wedi ailystyried y polisi goruchwylio staff yn ddiweddar ac mae angen rhoi'r polisi hwnnw ar waith yn llawn nawr.

2.11. Rhaid i uwch-reolwyr ddatblygu systemau sicrhau ansawdd a gwybodaeth am berfformiad ymhellach. Dylai'r awdurdod lleol ganolbwyntio ar ailfywiogi ei broses sicrhau ansawdd gan nad ydym wedi cael sicrwydd bod y prosesau dan sylw yn effeithiol. Nodwyd hwn fel maes yr oedd angen ei wella yn ein harolygiad diwethaf, ac yn dilyn yr arolygiad hwn, mae hyn yn parhau i fod yn wir. Byddai gweithdrefnau sicrhau ansawdd cadarn yn golygu y gallai rheolwyr yr awdurdod lleol fod yn sicr bod ymarfer y rheng flaen a'r broses o wneud penderfyniadau yn cael eu goruchwylio'n well fel y gallent fod yn siŵr bod cyflawni canlyniadau i bobl yn ganolog i'r ymarfer.

## 3. <u>Atal</u>

### Cryfderau:

3.1. Gwelsom enghreifftiau clir lle mae'r awdurdod lleol yn anelu at leihau'r angen am ofal a chymorth ffurfiol yn uniongyrchol. Er enghraifft, mae prosiect yn Nyffryn Nantlle rhwng Age Cymru a'r Tîm Adnoddau Cymunedol (TAC), yn canolbwyntio ar ddefnyddio opsiynau cymorth cymunedol lleol i hyrwyddo annibyniaeth pobl, yn hytrach na gwasanaethau statudol, pan fo hyn yn briodol i'r person. Mae ffocws ataliol cryf wrth wraidd y prosiect lle mae atebion yn cael eu harwain gan yr hyn sy'n bwysig i'r person, ei gryfderau, ei rwydwaith cymorth anffurfiol a'i ddewisiadau personol. Gwnaethom nodi enghreifftiau o ganlyniadau cadarnhaol yr oedd pobl wedi'u cyflawni, megis cynyddu hyder, lleihau'r pwysau ar ofalwyr a lleihau'r angen am becyn gofal ffurfiol. Enghraifft arall yw'r prosiect gofal cymdeithasol ym Mhenyberth rhwng CG, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) a thai ClwydAlyn, o dan yr un rhaglen o drawsnewid. Mae'r cynllun hwn yn cefnogi pobl yn yr ysbyty i ddychwelyd i fyw yn eu cartrefi eu hunain tra hefyd yn lleihau derbyniadau i'r ysbyty. Bydd yr awdurdod lleol yn gwerthuso'r prosiectau hyn yn drylwyr ac yn rhannu'r hyn a ddysgwyd.

3.2. Mae'r awdurdod lleol yn gweithio'n galed i ail-lunio ac ailgynllunio ei wasanaeth, ac mae ganddo weledigaeth lle mae pobl yn cael cymorth lleol sy'n seiliedig ar ganlyniadau pan fo'i angen arnynt. Mae comisiynwyr a

phartneriaid CG wedi hyrwyddo gwasanaethau llesiant cyffredinol megis yr hybiau llesiant i bobl hyd at 25 oed yng Nghaernarfon a Blaenau Ffestiniog, cyllid ar gyfer gofalwyr a gweithwyr allgymorth, a gwasanaeth gwarchod. Ers dechrau 2022, mae Gwynedd Oed Gyfeillgar wedi ariannu 55 o brosiectau ar draws y sir, i gynyddu hyder pobl hŷn i ddechrau cymdeithasu eto yn dilyn y pandemig. Mae CG yn dangos ymrwymiad i ailgynllunio gofal i fodloni gofynion. Er enghraifft, mae'r Hwb iechyd meddwl ym Mhwllheli, sef gwasanaeth a ddarperir gan Canolfan Felin Fach, wedi ailagor i gynnig cymorth emosiynol ac ymarferol i bobl.

3.3. Yn ein hadolygiad perfformiad diwethaf, gwnaethom nodi bod y gwasanaethau i oedolion wedi sefydlu pum pwynt gwybodaeth, cyngor a chymorth ledled y sir i wella mynediad i bobl. Mae'r awdurdod lleol wedi bod yn gweithio gyda Dewis Cymru i symleiddio gwybodaeth a chyngor llesiant. O ganlyniadau ein harolwg, mae 87% o bobl yn ystyried bod yr awdurdod lleol yn hawdd cysylltu ag ef, ac roedd y rhan fwyaf yn meddwl bod yr opsiynau cymorth a drafodwyd â nhw yn ddefnyddiol. Yn y rhan fwyaf o gofnodion gofal cymdeithasol a adolygwyd, roedd pobl wedi cael ymateb amserol ar ôl iddynt gysylltu, a chamau rhagweithiol yn dilyn atgyfeiriadau. Er gwaethaf y pwysau amlwg, gall ymarferwyr flaenoriaethu a chynnal ymweliadau gyda'r brys priodol. Ceir enghreifftiau gweithredol rhagorol o gydweithio mewn timau amlddisgyblaethol eraill megis anabledd dysgu. Gwelsom gyfathrebu a chysylltiadau amserol â gwasanaethau cymorth eraill megis gofal sylfaenol, neu drafodaethau â chydweithwyr gan gynnwys therapyddion galwedigaethol, ffisiotherapyddion, nyrsys cymunedol ac, mewn rhai achosion, meddygon teulu.

3.4. Fel rhan o'i ffocws ar hyrwyddo llesiant, ceir ymrwymiad strategol i gyfuno gwasanaethau ar gyfer gofalwyr di-dâl, gan gynnwys cymunedau cyfeillgar a Dementia Actif Gwynedd er mwyn symleiddio cymorth cymunedol. Mae Rhwydwaith Gofalwyr Gwynedd yn darparu fforwm i asiantaethau a gofalwyr di-dâl ddod at ei gilydd i rannu gwybodaeth a syniadau. Er enghraifft, cyllid i gefnogi seibiannau byr i ofalwyr a gwasanaeth gwarchod yr oedd y gofalwyr y gwnaethom siarad â nhw yn eu gwerthfawrogi. Mae Dementia Actif Gwynedd wedi canolbwyntio ar lesiant pobl â dementia a'u gofalwyr drwy ddarparu gwybodaeth a gweithgareddau, gan gynnwys gweithgareddau ar-lein. Dywedodd unigolion o'r grŵp hwnnw wrthym ei bod yn glir pwy y gallant gysylltu â nhw, a'u bod yn cael eu cyfeirio at gymorth perthnasol, gan gynnwys gwasanaethau'r trydydd sector. Gwelsom fesurau cadarnhaol o lwyddiant y gwasanaethau hyn, sy'n casglu straeon pobl ac yn amlygu sut maent yn cyflawni'r pethau sy'n bwysig iddynt.

3.5. Bu buddsoddiad sylweddol yn y gwasanaeth therapi galwedigaethol symud a thrin sy'n cynorthwyo hwyluso. Roedd yn gadarnhaol gweld bod gwybodaeth am berfformiad a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol yn dangos bod rhestrau aros ar gyfer asesiad therapi galwedigaethol wedi gwella'n sylweddol ers ein hadolygiad perfformiad diwethaf ym mis Ionawr 2021. Er gwaethaf hyn, ceir heriau o ran recriwtio yn y maes hwn ac ar gyfer rhai mathau o ymyrraeth megis asesiadau ymolchi. Mae pobl yn parhau i aros am gyfnod annerbyniol o

amser tra bod ymyriadau eraill yn cael blaenoriaeth. Clywsom adborth cadarnhaol gan un gofalwr am addasiadau yn y cartref, yn enwedig gosod ramp a oedd wedi galluogi ei bartner i gael mynediad i'r ardd; roedd hynny wedi gwella ansawdd ei fywyd yn sylweddol. Er gwaethaf y pwysau, roedd tystiolaeth o ymyriadau amserol lle roedd y tîm symud a thrin yn hyrwyddo annibyniaeth yn llwyddiannus, gan gynnwys defnyddio technoleg yn well er mwyn cefnogi diogelwch pobl.

**Beth sydd angen ei wella:**

3.6. Yn y cyd-destun presennol, mae'n her aruthrol i flaenoriaethu cymorth a gwasanaethau ataliol mewn ffordd effeithiol. Mae'r awdurdod lleol yn monitro ac yn ymwybodol o restrau aros ar draws meysydd gwasanaeth, ac mae hyn yn cael effaith amlwg ar ddarparu ymyriadau yn gynnar. Mae'r model o dimau adnoddau cymunedol (TAC), lle mae gweithwyr proffesiynol amrywiol yn gweithio gyda'i gilydd, yn ddigon hyblyg fel y gellir teilwra a chyfeirio'r cymorth. Deallir pwysigrwydd rhyddhau cleifion yn amserol o'r ysbyty ac mae'n parhau i fod yn flaenoriaeth, ond mae darparu gofal cartref er mwyn hwyluso'r broses o ryddhau pobl yn ddiogel yn her i'r awdurdod lleol.

3.7. Mae pwysau yn yr awdurdod lleol wedi golygu nad yw wedi gallu adolygu'n ffurfiol holl gynlluniau gofal a chymorth pobl o fewn yr amserlenni statudol gofynnol. Yn yr un modd, canfuom fod newidiadau yn amgylchiadau pobl weithiau'n cael eu cofnodi o fewn asesiadau presennol, yn hytrach na bod asesiad o amgylchiadau'n cael ei gynnal o'r newydd. Roedd yr ymarferwyr y gwnaethom siarad â nhw yn agored ynghylch y ffaith nad oedd adolygiadau statudol yn cael eu blaenoriaethu oherwydd gwaith mwy brys. Pan nad yw adolygiadau'n cael eu cynnal mewn modd amserol, mae risg na chaiff anghenion newidiol pobl eu monitro, gan arwain at ddarpariaeth amhriodol o ofal a chymorth. Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod adolygiadau'n cael eu cynnal mewn modd amserol i fonitro newidiadau a lliniaru'r risg hon.

3.8. Gwnaethom nodi prosiect gyda 'Catalydd Cymunedol' annog pobl i sefydlu cwmnïau bach i ddarparu gofal. Mae hwn yn brosiect dwy flynedd i ddatblygu mentrau micro i dargedu'r gwaith o recriwtio pobl sydd efallai am weithio yn fwy hyblyg ym maes gofal cymdeithasol. Mae hyn yn dechrau yn Llŷn ac Eifionnydd gan fod y ddwy ardal yn wynebu anawsterau wrth ddarparu gofal cartref. Mae cysylltwyr cymunedol wedi'u penodi i bob ardal hefyd drwy'r gwaith ar gadernid cymunedol. Mae hyn yn rhan o'r agenda ataliol ac yn manteisio'n gadarnhaol ar gyfleoedd i gefnogi pobl i fyw bywydau llawnach a hapusach yn eu cymunedau. Megis cychwyn y mae'r prosiectau hyn a bydd angen eu gwerthuso, ond mae'r buddsoddiad yn gydnabyddiaeth gan yr awdurdod lleol o'u dyletswyddau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014) i hyrwyddo gwahanol fodelau gofal a fydd yn bodloni anghenion llesiant unigolion.

## 4. <u>Llesiant</u>

**Cryfderau:**

4.1. Gan amlaf, mae sgyrsiau am yr hyn sy'n bwysig yn cael eu cofnodi mewn iaith glir gan arwain at gynlluniau sy'n cefnogi pobl i reoli eu llesiant. Clywsom enghreifftiau o ymarferwyr yn gweithio gyda phobl ers blynyddoedd lawer ar draws gwahanol dimau o fewn gwasanaethau oedolion ac yn datblygu perthnasoedd proffesiynol da. Mewn un enghraifft, mynegodd person iau ddymuniad i aros gartref yn hytrach na symud i gartref gofal ac ymdrechodd ymarferwyr i gynnal annibyniaeth y person. Pan fo pobl yn cael mynediad at ofal clywsom ganmoliaeth am y gweithwyr gofal, a dywedodd un person wrthym '*mae'r gofalwyr yn wych a bob amser yn gwenu'*. Yn ystod trafodaethau, dywedodd rhai o'r bobl wrthym nad oeddent yn ymwybodol eu bod wedi cael asesiad neu fod ganddynt gynllun gofal, felly rhaid i'r awdurdod lleol fod yn fwy eglur ynglŷn â hyn. Mae hyn yn bwysig er mwyn sicrhau bod dealltwriaeth gytunedig o sut y caiff anghenion eu diwallu, a sut y cyflawnir canlyniadau personol.

4.2. Gwelsom dystiolaeth dda o arferion diogelu a ddilynwyd yn unol â gofynion statudol. Mynegodd aelodau'r tîm diogelu oedolion hyder yn eu gallu i ymateb i bryderon diogelu a gweithredu pan fo angen. Y mesur perfformiad ar gyfer ymdrin ag ymholiadau adran 126 o fewn saith diwrnod yw tua 88% yn 2022, ac mae oedi'n ymwneud yn bennaf â chael gwybodaeth amserol yn ôl mewn ysbytai acíwt. Mae asiantaethau partner a gweithwyr proffesiynol o'r tîm adnoddau cymunedol yn mynegi bod ganddynt hyder ym mhrosesau a gweithdrefnau diogelu'r awdurdod lleol. Nododd yr arolwg staff gryfderau allweddol o ran diogelu a hyrwyddo llesiant pobl. Er gwaethaf y pwysau ychwanegol y mae hyn yn ei greu, clywsom fod timau eraill yn barod i ymdrin ag ymholiadau diogelu, ac o'r cofnodion gofal cymdeithasol a adolygwyd, gwelsom sut mae hyder wedi cynyddu mewn perthynas â'r arferion hyn.

4.3. O'n hadolygiad o gofnodion gofal cymdeithasol, mae pobl yn cael eu hamddiffyn ac mae'r penderfyniadau a wneir yn briodol mewn perthynas ag arferion diogelu. Yn aml, o ran cynllunio gofal ar lefel fwy cyffredinol, ceir tystiolaeth o feirniadaeth broffesiynol a dadansoddi, gan fod adran benodol o'r ddogfennaeth asesu yn ei hysgogi. Gellid gwella'r ystyriaeth hon mewn cynlluniau gofal a chymorth gan ei gwneud yn ofynnol dangos sut y gwneir penderfyniadau clir ynghylch sut yr eir i'r afael â risgiau yn gydweithredol â'r person. Gwnaethom nodi bod fforwm aml-asiantaeth, *Rheoli Risg Oedolion Agored i Niwed*, wedi'i greu, o dan arweiniad yr heddlu, ar gyfer pobl yr ystyrir eu bod mewn perygl ond nad ydynt yn bodloni'r trothwy diogelu oedolion. Mae hyn yn cadarnhau adborth gan bartneriaid diogelu allweddol ynglŷn â'r ffaith eu bod yn gallu mynegi pryderon am ddiogelwch pobl yn hawdd a'u huwchgyfeirio pan fo angen. Dylai'r awdurdod lleol sicrhau bod canlyniadau materion diogelu yn cael eu rhannu â'r person ei hun, mewn ffordd gyson, a bod hyn yn cael ei gofnodi'n glir, hyd yn oed pan nad yw'r trothwy ar gyfer camau diogelu pellach wedi'i fodloni.

**Beth sydd angen ei wella:**

4.4. Mae angen gwelliannau i sicrhau bod llais y bobl yn cael ei glywed yn ystod y broses ddiogelu. Rhaid i'r person barhau i fod yn ganolog, a dylai unrhyw waith cofnodi adlewyrchu hyn. Ar hyn o bryd ni allwn fod yn sicr bod pobl yn cael eu cynnwys i'r graddau a bennir gan Weithdrefnau Diogelu Cymru. Mewn rhai achosion, roedd diffyg tystiolaeth i ddangos bod pobl yn cymryd rhan mewn asesiadau a / neu'r broses o wneud penderfyniadau. Gwelsom lawer o enghreifftiau lle y gellid bod wedi gwneud mwy o ymdrech i ymarfer yn unol ag egwyddorion y Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005). Mae hyn yn arbennig o wir pan fo gan bobl ddementia a'u bod mewn lleoliadau gofal neu'n gadael yr ysbyty. Er enghraifft, ni chwblhawyd asesiad galluedd meddyliol ar gyfer un person tan ar ôl iddo gael ei ryddhau o'r ysbyty i gartref gofal, yn hytrach na chyn hynny. Gwnaethom nodi enghreifftiau eraill pan oedd asesiadau pobl yn nodi nad oedd ganddynt y galluedd meddyliol i wneud penderfyniadau am eu gofal, ond nid oedd tystiolaeth bod unrhyw asesiad ffurfiol o alluedd meddyliol wedi cael ei gynnal er mwyn cefnogi hyn. Rydym yn deall y bydd ymarferwyr yn cael rhagor o hyfforddiant ar alluedd meddyliol fel rhan o gyflwyno Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid, ond mae angen atgyfnerthu'r maes ymarfer hwn.

## 5. <u>Partneriaethau</u>

**Cryfderau:**

5.1. Mae'r rhan fwyaf o bartneriaethau yn gweithio'n dda ar lefel weithredol. Gwelsom gydweithio cryf rhwng y gwasanaethau iechyd a gwasanaethau gofal cymdeithasol, megis o fewn timau anabledd dysgu, ac un pwynt mynediad yn y timau adnoddau cymunedol yr awdurdod er mwyn sicrhau bod mynediad amserol at ymyriadau priodol. Mae llawer o enghreifftiau unigol o arferion da ac o ymarferwyr o ddisgyblaethau amrywiol yn cydweithio i nodi atebion er mwyn galluogi pobl i barhau â'u harferion dyddiol a chynnal lefel o annibyniaeth yn eu cartrefi. Clywsom am brosiect lle roedd technegydd fferyllol yn hyfforddi gweithwyr gofal i roi meddyginiaethau'n ddiogel i bobl, gyda'r nod o gynorthwyo pobl i barhau i fyw adref yn ddiogel. Roedd y cofnodion gofal cymdeithasol a adolygwyd yn dangos sut mae'r partneriaethau hyn yn hwyluso cydweithio agos er budd y person sy'n cael cymorth. Ar lefel strategol gwelsom fod y cyngor yn mynd ar drywydd cyfleoedd ehangach ar gyfer gweithio mewn partneriaeth. Er enghraifft, mae gwaith ar y cyd yn mynd rhagddo gyda thai – fel rhan o gynlluniau i fynd i'r afael â'r anghenion y bydd gan boblogaeth yn y dyfodol – gan amrywio o 'bentref gofal' i gyfleusterau gofal ychwanegol yn ôl yr angen.

5.2. Mae'r awdurdod lleol yn dangos ymrwymiad i ymgysylltu ac ymgynghori â phobl ynghylch materion sy'n effeithio arnynt. Er enghraifft, nodwyd gennym fod panel dinasyddion yn bodoli i annog trawstoriad cynrychioladol o drigolion yng Ngwynedd i lywio cynllunio gwasanaethau yn y dyfodol. Ceir llawer o enghreifftiau o weithio mewn partneriaeth â phobl i ddylunio cymorth, er enghraifft gofalwyr yn dylunio taflenni i hysbysu pobl am eu hawliau, a phobl hŷn yn argymell bod holiaduron ar gael i'w dosbarthu ar ffurf copi caled er mwyn ennyn mwy o gyfranogiad. Ffocws gwaith Oed Gyfeillgar Gwynedd i raddau helaeth iawn yw ymgasglu gweithgareddau'r dyfodol ar sail yr hyn sy'n

bwysig i'r boblogaeth hŷn. Mae'r awdurdod lleol yn casglu adborth yn rheolaidd ar brofiadau pobl o gael cymorth. Mae adborth diweddar a gasglwyd yn dangos bod 83% o bobl wedi dweud bod yr hyn a oedd yn bwysig wedi cael sylw llawn o ganlyniad i'w cysylltiad â'r gwasanaethau i oedolion yn 2022. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw fod eu profiad o ofal a chymorth yn gadarnhaol.

**Beth sydd angen ei wella: -**

5.3. Cawsom ein hysbysu am heriau o ran gweithio mewn partneriaeth ar lefel strategol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC). Disgrifiwyd bod cyfathrebu medru bod yn anodd, gydag anghysondeb yn ansawdd y trefniadau ar gyfer rhyddhau o'r ysbyty. Ymhlith yr heriau mae methiannau i gyfathrebu â theuluoedd a gofalwyr, neu'r timau cymunedol sy'n aros i bobl symud neu gael eu rhyddhau. Mae pobl hŷn yn profi oedi yn yr ysbyty tra'u bod yn aros am ddarpariaeth gofal cartref, gan gynnwys ail-alluogi neu aros nes bod cartref gofal addas ar gael. Mae'r oedi hwn yn effeithio ar lesiant pobl hŷn, yn cynyddu straen i ofalwyr, ac yn defnyddio gwasanaethau ysbyty acíwt y gellid eu defnyddio at ddiben eu bwriad. Rydym yn cydnabod bod yr awdurdod lleol yn gweithio'n galed i wella cyfathrebu a rhannu gwybodaeth. Clywsom hefyd sut mae trosiant uchel o staff a heriau biwrocrataidd o fewn BIPBC yn atal cynnydd mewn perthynas â datblygu gwasanaethau arloesol yn ogystal â materion mwy cyffredinol, megis trefniadau cytundebol gyda darparwyr gofal nyrsio, er enghraifft. Rhaid i bartneriaid gydweithio'n well er mwyn darparu dull mwy integredig a chynaliadwy o hyrwyddo annibyniaeth a llesiant pobl.

5.4. Mewn perthynas â thrawsnewid gwasanaethau gofal cartref, clywsom fod yr awdurdod lleol wedi ymgynghori â phobl yn ystod gweithdai a chyfarfodydd uniongyrchol, mewn llythyrau, a thrwy weithredu llinell gymorth. Er gwaethaf hyn, nododd rhai pobl a gofalwyr nad ymgynghorwyd ddigon â nhw neu eu perthnasau ac y gallai CG fod wedi gwneud mwy i baratoi pobl ar gyfer y newidiadau. Lleisiodd rhai aelodau o staff hefyd y farn nad yw'r bobl y maent yn gweithio gyda nhw wedi cael eu paratoi'n ddigonol, ond bod darparwyr yn disgrifio'u bod yn rhoi sicrwydd i bobl. Yn amlwg, mae risg fawr o hyd o ran gweithredu'r model newydd yn llawn, a dywedodd un darparwr '*rhaid i'r cyfan fynd yn iawn er mwyn iddo fynd yn iawn'*. Rhaid i'r awdurdod lleol barhau i adolygu ei strategaeth gyfathrebu, oherwydd gallai pobl elwa ar gael sicrwydd pellach ynghylch y gwaith sylweddol sy'n parhau.

**Y camau nesaf**

Mae AGC yn disgwyl i Gyngor Gwynedd (CG) ystyried y meysydd a nodwyd i'w gwella a chymryd camau gweithredu priodol i fynd i'r afael â'r meysydd hyn a'u gwella. Bydd AGC yn monitro cynnydd drwy ei gweithgarwch adolygu perfformiad parhaus gyda'r awdurdod lleol.

## Methodoleg

### Gwaith maes

Casglwyd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth arolygu drwy adolygu profiadau pobl drwy adolygu ac olrhain eu cofnodion gofal cymdeithasol. Gwnaethom adolygu 39 o gofnodion gofal cymdeithasol ac olrhain wyth.

Mae'r gwaith o olrhain cofnod gofal cymdeithasol person yn cynnwys sgwrsio â'r person sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol, ei deulu neu ofalwyr, ei weithiwr allweddol, rheolwr y gweithiwr allweddol, a gweithwyr proffesiynol eraill.

Gwnaethom y canlynol hefyd;-

- cyfweld ag amrywiaeth o weithwyr awdurdod lleol
- cyfweld ag amrywiaeth o sefydliadau partner, sy'n cynrychioli'r sector statudol a'r trydydd sector
- adolygu sampl o ffeiliau goruchwylio staff
- adolygu dogfennau ategol a anfonwyd at AGC at ddiben yr arolygiad
- cynnal arolygon i staff, sefydliadau partner a phobl

### Cydnabyddiaethau

Dymuna AGC ddiolch i'r staff, partneriaid, a'r bobl a roddodd o'u hamser ac a gyfrannodd at yr arolygiad hwn.

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR** | Pwyllgor Craffu Gofal |
| **DYDDIAD** | 16 Chwefror 2023 |
| **TEITL** | Asesiad Anghenion Poblogaeth Oedolion Gwynedd |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd Dilwyn Morgan |
| **PWRPAS** | Cyflwyno’r asesiad anghenion drafft i’w graffu |

## 1 Pwrpas yr adroddiad

1.1 Cymeradwywyd Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru gan y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 3 Mawrth 2022. Lluniwyd yr asesiad hwnnw yn unol â gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

1.2 Mae’r adroddiad hwn a’r asesiad (Atodiad 1) yn ein galluogi i weld y perspectif lleol ar anghenion gofal a chymorth poblogaeth oedolion Gwynedd. Yn ogystal â’r agweddau a gafodd eu cynnwys yn yr adroddiad ar ogledd Cymru, mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth fwy manwl am anghenion pobl Gwynedd yn benodol.

1.3 Dylid ystyried yr adroddiad hwn fel un sy’n ategu’r adroddiad rhanbarthol, ac sydd wedi ystyried ei gynnwys. Mae hefyd yn ychwanegu gwybodaeth am anghenion poblogaeth Gwynedd i’r adroddiad hwnnw.

## 2 Y penderfyniad a geisir

2.1 Cefnogaeth y pwyllgor i’r asesiad cyn ei gyflwyno i’r Cabinet a’r Cyngor i’w gymeradwyo.

## 3 Manylion Asesiad Anghenion Poblogaeth Oedolion Gwynedd 2023

3.1 Yn wahanol i asesiad gogledd Cymru, nid yw’r asesiad lleol yn ymateb i ofyn statudol. Fodd bynnag, fe fydd yn adnodd a fydd yn ein cynorthwyo i gynllunio gwasanaethau yn lleol, gwneud penderfyniadau ar flaenoriaethau, a datblygu a thrawsnewid gwasanaethau i’r dyfodol.

3.2 Mae’r adroddiad yn asesu:

i) Y graddau y mae angen gofal a chefnogaeth ar bobl yn ardal yr awdurdod lleol.
ii) Y graddau y mae angen cefnogaeth ar ofalwyr yn ardal yr awdurdod lleol.
iii) Y graddau nad yw anghenion gofal a chefnogaeth pobl yn ardal yr awdurdod lleol yn cael eu diwallu.

3.3 Mae’r adroddiad yn cynnig argymhellion ar sut i symud ymlaen i gyfarch y materion a nodir yn 3.2 uchod.

3.4 Mae’r asesiad yn trafod y themâu a’r grwpiau canlynol:

- Pobl Hŷn
- Anabledd Corfforol a Nam ar y Synhwyrau
- Anabledd Dysgu
- Awtistiaeth
- Iechyd Meddwl
- Gofalwyr
- Trais yn erbyn merched, trais yn y cartref a thrais rhywiol

3.5 Mae hefyd yn trafod y Gymraeg, ystyriaethau diogelu, effaith pandemig COVID-19, a chynhwysir hefyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb (Atodiad 2).

3.6 Mae’r asesiad wedi ei arwain gan ymgysylltu. Rydym wedi ystyried adborth gan staff, sefydliadau partner, defnyddwyr gwasanaeth a’r cyhoedd er mwyn nodi anghenion strategol ar gyfer gofal a chefnogaeth.

3.7 Mae’r asesiad hefyd wedi ei lunio ar y cyd â swyddogion yn y bwrdd iechyd.

3.8 Tynnir sylw at y prif themau sydd wedi codi wrth lunio’r asesiad ym mharagraff 1.5 y cyflwyniad.

**4 Sut mae'r asesiad yn cyfrannu at flaenoriaethau’r Cyngor?**

4.1 Mae'r asesiad o anghenion yn cyfrannu at drafodaethau cynllunio strategol rhanbarthol a lleol, a bydd hyn yn ei dro yn cefnogi ein blaenoriaethau yng nghyswllt anghenion iechyd a gofal cymdeithasol y boblogaeth.

4.2 Mae gorgyffwrdd rhwng yr asesiad anghenion poblogaeth a’r Asesiad Llesiant sydd wedi bod yn cael ei baratoi yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a rhennir gwybodaeth lle bo’r angen.

4.3 Defnyddir yr asesiad anghenion er mwyn paratoi cynlluniau gweithredu ar gyfer gwasanaethau yr Adran Oedolion Iechyd a Llesiant.

4.4 Er mwyn parhau yn ddogfen ddefnyddiol, mi fyddwn yn gweithio gyda swyddogion y bwrdd iechyd er mwyn cadw’r wybodaeth sydd yn yr asesiad yn fyw. Wrth inni dderbyn diweddariadau ar ddata, e.e. data cyfrifiad, rydym yn bwriadu diweddaru’r wybodaeth, gan adolygu’r cynnwys yn barhaus.

4.5 Prawf o lwyddiant yr asesiad yw a ydyw yn bodloni ein gofynion ni a’n partneriaid wrth gyd-gynllunio gwasanaethau.  Byddwn yn monitro i ba raddau mae’r asesiad yn cyflawni hyn wrth gadw golwg ar geisiadau gwybodaeth newydd, ac yn adolygu ei gynnwys yn ôl y gofyn.

## 5. Goblygiadau adnoddau

Mae’r asesiad anghenion poblogaeth yn adnabod blaenoriaethau lleol ac efallai y bydd y blaenoriaethau hyn angen elfen o fuddsoddiad.  Gall hynny fod ar lefel ranbarthol neu leol.

## 6. Argymhelliad

Bod y pwyllgor yn cymeradwyo’r asesiad i’w gyflwyno i’r Cabinet a’r Cyngor i’w gymeradwyo.

# ASESIAD ANGHENION POBLOGAETH OEDOLION GWYNEDD 2022-2027

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ............................................................. 3**

**2. Pobl Hŷn .................................................................. 9**

**3. Anabledd Corff a Nam ar y Synhwyrau ............................ 41**

**4. Anabledd Dysgu .......................................................... 55**

**5. Awtistiaeth ................................................................ 77**

**6. Iechyd Meddwl ........................................................... 85**

**7. Gofalwyr .................................................................... 99**

**8. Trais yn erbyn merched, trais yn y cartref a thrais rhywiol ........................................................................ 117**

# 1. Cyflwyniad

### 1.1. Am yr adroddiad

Mae'r adroddiad hwn yn asesiad o anghenion gofal a chefnogaeth poblogaeth Gwynedd, gan gynnwys anghenion cefnogaeth gofalwyr. Fe'i lluniwyd gan aelodau'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ar y cyd efo aelodau staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae Asesiad Anghenion Poblogaeth wedi ei lunio ar gyfer Gogledd Cymru hefyd er mwyn cwrdd â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (y Ddeddf).

Mae'r asesiad yma yn gyfle inni ystyried a dadansoddi y sefyllfa gyda'n partneriaid yng Ngwynedd ar gyfer datblygu ein cynlluniau. Mae'n amlinellu'r sefyllfa leol yng Ngwynedd ac yn adnabod argymhellion i'w gweithredu, er mwyn sicrhau gwasanaethau sydd yn cwrdd ag anghenion gofal a chymorth poblogaeth oedolion y sir rwan ac i'r dyfodol.

Mae'r adroddiad wedi ei rannu i wahanol benodau yn seiliedig ar y themâu canlynol:

- Pobl hŷn
- Anabledd corff a nam ar y synhwyrau
- Anabledd dysgu
- Awtistiaeth
- Iechyd Meddwl
- Gofalwyr
- Trais yn erbyn merched, trais yn y cartref a thrais rhywiol

Mae pob pennod yn cynnwys gwybodaeth ynghylch:

- Anghenion gofal a chymorth poblogaeth Gwynedd
- Y gwasanaethau sydd ar gael i ddiwallu'r anghenion hynny
- Unrhyw fylchau (anghenion heb eu diwallu) a'r camau sydd angen eu cymryd i ddiwallu'r rhain.

Bydd yr asesiad yn sail i'n gwaith o gyflawni ein swyddogaethau statudol a llywio penderfyniadau cynllunio a gweithredol. Bydd yn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u datblygu mewn ffordd effeithlon ac effeithiol gan bartneriaid yn y sector cyhoeddus er mwyn hyrwyddo llesiant pobl sydd ag anghenion gofal a chymorth.

### 1.2. Y broses o greu'r asesiad

Mae'r broses o greu'r asesiad wedi cynnwys sawl cam, gan gynnwys:

- Llyfryddiaeth – adolygiad o bolisïau, strategaethau ac ymchwil sy'n ymwneud a'r meysydd penodol.
- Data Meintiol – adolygiad a dadansoddiad o ystadegau lleol, mewn cymhariaeth â lefelau Cymru pan fo hynny ar gael.
- Data Ansoddol – adolygiad a dadansoddiad o ymchwil lleol a gweithgareddau ymgysylltu.

- Ymgysylltu gyda'r gweithlu, pobl sydd yn defnyddio gwasanaethau a phartneriaid allweddol.
- Cydweithio gyda phartneriaid allweddol – mae hyn wedi cynnwys adrannau perthnasol o fewn yr Awdurdod Lleol, y Bwrdd Iechyd Lleol a mudiadau trydydd sector er mwyn cael eu mewnbwn i'r broses o greu'r asesiad.

**1.3. Gweledigaeth**

Ein gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant yw bod pawb o bob oedran yn derbyn y gefnogaeth y maent ei hangen yn y ffordd fwyaf addas a chyfleus iddyn nhw. Mae anghenion pob unigolyn a'u teulu/gofalwyr yn wahanol, mae anghenion gofal unigolion yn newid, ac mae unigolion yn byw yn hirach. Er mwyn iddynt barhau i fyw eu bywydau fel y dymunant, mae angen i ni addasu ein gwasanaethau i fod wedi eu teilwra yn agosach at wir anghenion y rhai hynny sydd angen ein cymorth. Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen parhau i gydweithio gyda'n partneriaid, gan gofio rhoi anghenion yr unigolyn yn ganolog bob tro.

Byddwn yn cyflawni'r weledigaeth drwy:
1. Weithio'n ataliol i gefnogi a diogelu unigolion yn lleol drwy hybu eu llesiant a'u hannog i gyfrannu o fewn eu cymunedau.
2. Addasu ein gwasanaethau i alluogi bobl i fyw'n annibynnol o fewn eu cymunedau.
3. Sicrhau bod gofal priodol ac arbenigol ar gael yn amserol; a hynny ar draws ein holl darpariaethau gofal.

Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch sut y byddwn yn cyflawni'r weledigaeth o fewn y penodau thematig dilynol. Mae gwybodaeth ategol hefyd o fewn Cynllun y Cyngor 2018-23 (dolen – Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-23).

| | 2020-21 | 2021-22 |
|---|---|---|
| Nifer cysylltiadau a dderbyniwyd gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn ystod y flwyddyn | 4,152 | 4,787 |
| Nifer cysylltiadau a dderbyniwyd gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn ystod y flwyddyn ble darparwyd cyngor neu gefnogaeth | 1,213 | 1,546 |

Fe welwn fod cynnydd o 13% yn y nifer o gysylltiadau a dderbyniwyd gan yr Adran dros y 2 flynedd ddiwethaf, ynghyd â chynnydd o 22% o achosion ble darparwyd cyngor neu gefnogaeth.

**1.4. Heriau Covid**

Datblygwyd yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth yn ystod cyfnod pandemig Covid-19. Mae'r pandemig wedi cael effaith ar holl agweddau bywyd. Mae wedi bod yn gyfnod penodol anodd a heriol i staff yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol ac i'r unigolion sydd ag anghenion gofal a chefnogaeth. O ganlyniad i'r pandemig, rydym yn gweld tueddiadau'n newid yn anghenion gofal a chymorth y boblogaeth yn ei chyfanrwydd. O'r herwydd, mae'r effaith leol ar Wynedd wedi'i ystyried trwy'r Asesiad hwn.

Mae argyfwng Covid-19 wedi amlygu nifer o ffactorau a all effeithio ar ein gallu i barhau i ddarparu gwasanaethau gofal priodol i bobl Gwynedd. Fe fydd yn flaenoriaeth i wasanaethau i adfer ar ôl effeithiau'r pandemig a sicrhau ein bod yn cynllunio'n effeithiol dros y tymor canolig a'r tymor hir i ymateb i anghenion ein pobl wrth iddynt newid.

Mae'r Asesiad Anghenion hefyd yn ystyriol bod y pandemig Covid-19 yn parhau ac wedi cynyddu anghydraddoldeb ar draws cymdeithas ymhellach.

### 1.5. Themâu

Mae'r prif themâu a amlygwyd yn ystod y gwaith o roi'r asesiad hwn at ei gilydd fel a ganlyn:

- Mae angen gwella llesiant unigolion.
- Mae angen gwella ar y gefnogaeth i ofalwyr di-dâl.
- Mae angen sicrhau gofal cwsmer o safon h.y. cysondeb yn y cyswllt mae unigolion yn ei gael efo'r Cyngor a mudiadau'r trydydd sector.
- Diffyg mewn rhai mathau o leoliadau e.e. lleoliadau sy'n cynnig gofal a chefnogaeth i unigolion efo anghenion cymhleth a dwys.
- Recriwtio staff yn broblem enfawr ar draws y sector gofal. Hyn wedi dal cynlluniau yn ôl, megis agor unedau dementia mewn cartrefi gofal.
- Mae angen cysoni'r data a gedwir ar ein systemau.
- Mae yna amrywiol ffactorau wedi effeithio ar lesiant / iechyd meddwl trigolion. O ganlyniad i'r cynnydd mewn unigolion yn profi anawsterau iechyd meddwl, mae angen buddsoddi mwy mewn gwasanaethau ataliol.

### 1.6. Ystyriaethau'r Iaith Gymraeg

Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae 64.4% o boblogaeth Gwynedd yn gallu siarad Cymraeg. Yn 2016 lansiwyd y 'Fframwaith Strategol Olynol ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol (Mwy na Geiriau)'. Mae'r Fframwaith yn gosod disgwyliadau ar gynghorau lleol a byrddau iechyd i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg ac i wneud "Cynnig gweithredol" i bawb sy'n siarad Cymraeg. Mae gallu darparu'r "Cynnig gweithredol" yn golygu na ddylai unrhyw un yng Nghymru orfod gwneud cais am gael gwasanaeth yn y Gymraeg gan y dylai fod gwasanaeth yn Gymraeg ar gael iddynt heb orfod gofyn amdano.

Mae'r fframwaith yn cefnogi Polisi Iaith y Cyngor ac rydym fel Cyngor wedi ymrwymo i Mwy na Geiriau o'r cychwyn cyntaf ers pan y'i cyhoeddwyd yn 2012. Mantais amlwg y fframwaith yw ei fod yn fframwaith cenedlaethol sy'n sicrhau cysondeb ar draws y wlad, ond hefyd ar draws sefydliadau maes.

Wrth ddarparu gwasanaethau, mae dyletswydd ar y sector iechyd a gofal cymdeithasol i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn gallu gwneud hynny yn eu hiaith ddewisol. Y 'cynnig gweithredol' yw'r egwyddor allweddol yn fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau Cymraeg 'Mwy Na Geiriau'.

Mae Mwy Na Geiriau yn cynnwys llawer o egwyddorion i sicrhau bod anghenion ieithyddol Cymraeg pobl yn cael eu diwallu. Mae'r strategaeth yn rhoi dyletswydd ar ddarparwyr gofal i sicrhau bod ganddynt staff sy'n meddu ar y sgiliau iaith priodol i ofalu am unigolion Cymraeg eu hiaith.

Mae egwyddor y 'Cynnig Rhagweithiol' yn ganolog i Mwy na Geiriau. Ystyr 'Cynnig Rhagweithiol' yw darparu gwasanaeth yn Gymraeg heb i rywun orfod gofyn amdano. Dylai gwasanaethau Cymraeg fod ar gael i ddefnyddwyr gymaint â'r Saesneg. Mae cynnig gwasanaethau Cymraeg yn rhagweithiol yn sicrhau bod anghenion pobl yn cael eu deall a'u diwallu, a bod y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau gofal yn gallu dibynnu ar gael eu trin â'r parch ac urddas maen nhw'n ei haeddu. Gall peidio â chynnig gwasanaethau Cymraeg yn rhagweithiol arwain at beryglu urddas a pharch pobl.

Elfen allweddol o sicrhau bod gwasanaethau ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol ar gael yn Gymraeg, yn unol ag egwyddorion y Cynnig Gweithredol, yw recriwtio a dal gafael ar weithlu sydd â sgiliau Cymraeg.

Ym mis Awst 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad gwerthuso'r fframwaith Mwy Na Geiriau. Yn dilyn hynny, ym mis Hydref 2021, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol ddatganiad ysgrifenedig yn dweud y byddai grŵp tasg a gorffen yn cael ei sefydlu i ddatblygu cynllun gwaith pum mlynedd ar gyfer y fframwaith. Mae'r pynciau y bydd y grŵp tasg a gorffen yn canolbwyntio arnynt yn cynnwys:

- Dysgu a sgiliau'r gweithlu.
- Rhoi'r Gymraeg yn rhan greiddiol o bolisïau.
- Rhannu arferion da a datblygu dull o alluogi.

Mae'r cynllun gwaith pum mlynedd ar gyfer fframwaith Mwy Na Geiriau wedi cael ei gyhoeddi eleni (dolen – Cynllun Pum Mlynedd Mwy na geiriau). Bydd y blaenoriaethau a'r argymhellion sy'n cael eu nodi yn ffurfio'r camau cynllunio lleol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg. Bydd y Fforwm Rhanbarthol Mwy na Geiriau yn sail i'r hyn fydd yn digwydd yn lleol yng Ngwynedd. Ar hyn o bryd, rydym yn sgopio a deall goblygiadau'r cynllun pum mlynedd. Ond wrth gwrs efo recriwtio'n broblem ar hyn o bryd, mae'n anochel y bydd yn her enfawr i sicrhau cynnydd yn amserol.

Mae'n holl bwysig fod yr unigolion sy'n derbyn gwasanaeth yn cael y gwasanaeth yn iaith eu dewis. Mae Gwynedd yn ardal lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad fwyaf. Mae rhai unigolion ond yn gallu cyfathrebu yn y Gymraeg, felly mae'n hanfodol eu bod yn gallu siarad yr iaith efo'r rhai sy'n eu cefnogi. Ar y cyfan, mae hyn yn cael ei ddiwallu yng Ngwynedd.

**1.7. Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**
Mae gwybodaeth am nodweddion a ddiogelir wedi'u cynnwys o fewn yr asesiad hwn. Dyma'r nodweddion a ddiogelir sy'n agweddau trawsbynciol o fewn y penodau thematig:

- Oedran

- Anabledd
- Ailbennu rhywedd
- Priodas a phartneriaeth sifil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol

Mae'n rhaid i wasanaethau ar gyfer pobl gydag anghenion gofal a chefnogaeth ddefnyddio dull sy'n rhoi'r person yn ganolog, sy'n ystyried anghenion gwahanol y bobl sydd â'r nodweddion gwarchodedig uchod.

Cydnabyddir effaith awtistiaeth fel anabledd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Felly, diogelir hawliau unigolion gan y gyfraith a dylai gwasanaethau drafod ffyrdd y gallant addasu cymorth a chefnogaeth gydag unigolion. Gall problemau synhwyraidd, cymdeithasol a gwybyddol fod yn rhwystrau i bobl awtistig ac, felly, mae angen ystyried addasiadau rhesymol a'u rhoi ar waith.

Mae Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb yn cyd-fynd efo'r asesiad o anghenion yma.

**1.8. Diogelu**

Mae'r materion diogelu i oedolion gydag anghenion cymorth a gofal yn debyg i faterion diogelu'r boblogaeth oedolion cyffredinol. Mae angen i bobl sydd â diffyg gallu i wneud penderfyniadau am le maen nhw'n byw a threfniadau cynllunio gofal gael eu hasesu ar gyfer Trefniadau Diogelu Rhag Amddifadu o Ryddid (DOLS). Nod y trefniadau diogelu yw sicrhau bod y bobl fwyaf bregus yn ein cymdeithas yn cael 'llais' fel bod eu hanghenion, dymuniadau a theimladau yn cael eu hystyried ac yn cael eu gwrando arnynt pan fo penderfyniadau pwysig yn cael eu gwneud amdanynt.

Mae diffiniad newydd o 'oedolyn mewn perygl', dyletswydd i bartneriaid perthnasol adrodd am oedolion mewn perygl a dyletswydd i awdurdodau lleol wneud ymholiadau a ddylai helpu i ddiogelu oedolion mewn perygl, gan gynnwys y rheini gydag anghenion cefnogaeth iechyd meddwl.

Mae'n hysbys bod oedolion ag anabledd dysgu yn agored i gael eu cam-drin a'u hecsbloetio, a gall hyn ddigwydd mewn lleoliadau cymunedol a phreswyl (NICE, 2015); byddai hyn hefyd yn cynnwys pobl ag Anhwylder y Sbectrwm Awtistiaeth (ASA). Mae staff wedi nodi bod yna broblemau sylweddol o ran diogelwch mewn perthynas â defnyddio'r Rhyngrwyd gan bobl ag ASA, yn ogystal â phryder o ran radicaliaeth. Mae bwlio hefyd yn broblem i bobl ag ASA.

Mae angen mwy o ymwybyddiaeth o droseddau casineb anabledd. Mae angen cydweithio i ddatblygu diwylliant ble mae pobl yn gallu herio unrhyw wahaniaethu a throseddau casineb, a ble mae pobl efo anabledd dysgu yn teimlo eu bod yn cael llais.

Un mater sydd wedi codi, yn enwedig dros y cyfnodau clo, ydi'r angen cynyddol i ddarparu mwy o gefnogaeth i bobl gyda defnyddio'r wê (gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol ayb) oherwydd

pryderon diogelu. Pryder ychwanegol yw fod penderfyniadau i ddiogelu oedolion efo anabledd ddysgu yn gallu eu gwneud yn llai diogel os ydynt yn cael eu cymryd i warchod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau, a rhwystro unigolion rhag cael mynediad at bethau sy'n gwella eu llesiant, megis technoleg (Community Care, 2015).

**1.9. Ystyriaethau cymdeithasol-economaidd**

Bellach, mae dyletswydd ar gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru i ystyried effaith anfantais economaidd-gymdeithasol wrth wneud penderfyniadau strategol gyda'r nod o leihau anghydraddoldeb y canlyniad.

Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn cael ei diffinio fel:

> *"byw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol nag eraill yn yr un gymdeithas."*

Gall hyn gynnwys byw mewn ardaloedd difreintiedig, diffyg cyfoeth, cefndir economaidd-gymdeithasol unigolyn, incwm isel neu ddim incwm o gwbl neu amddifadedd materol.

Mae anghydraddoldeb canlyniad, wedi'i achosi gan anfantais economaidd-gymdeithasol, yn cael ei ddiffinio fel hyn:

> *"Mae anghydraddoldeb canlyniad yn ymwneud ag unrhyw wahaniaeth mesuradwy mewn canlyniad rhwng y rhai sydd wedi profi anfantais economaidd-gymdeithasol a gweddill y boblogaeth."*

Mae modd mesur anghydraddoldeb canlyniad trwy ffactorau fel addysg, iechyd, cyflogaeth, cyfiawnder a diogelwch personol, safonau byw a chyfranogiad, yn enwedig mewn prosesau gwneud penderfyniadau ynghlwm â gwasanaethau. Mae'n rhaid i wasanaethau ddefnyddio dull sy'n rhoi'r person yn ganolog, sy'n ystyried anghenion gwahanol bobl sydd â nodweddion gwarchodedig.

Mae amddifadedd cymdeithasol-economaidd yn gysylltiedig â nifer o effeithiau negyddol sy'n cynnwys iechyd meddwl a llesiant. Yn adolygiad Llywodraeth Cymru o'r dystiolaeth o anfantais cymdeithasol-economaidd, mae'n nodi bod iechyd meddwl yn waeth yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o Gymru ac mae amddifadedd yn gysylltiedig â chynnydd mewn straen, problemau iechyd meddwl a hunanladdiad. Hefyd, gall byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig effeithio ar lesiant meddyliol. Adroddodd 20% o oedolion Cymru yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig eu bod yn cael triniaeth am gyflwr iechyd meddwl, o'i gymharu â 8% yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.

**1.10. Cloi**

Mae'r penodau thematig dilynol yn cynnwys casgliadau ac argymhellion a fydd yn arwain at gynlluniau gweithredu gan yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. Ein bwriad yw cadw'r asesiad yn fyw fel ei fod yn ffynhonnell ddefnyddiol ar gyfer gwneud penderfyniadau strategol ynghyd a bwydo i gynlluniau rhanbarthol.

# 2. Pobl Hŷn

**2.1. Gwybodaeth am y bennod hon**

Mae'r bennod hon yn cynnwys gwybodaeth am anghenion gofal a chymorth Pobl Hŷn yng Ngwynedd.

Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y themâu canlynol o fewn y maes pobl hŷn:

1. Cefnogaeth i fyw yn annibynnol
2. Unigrwydd ac ynysu cymdeithasol
3. Tai a llety
4. Dementia

**2.2. Diffiniadau**

Nid oes diffiniad pendant o 'berson hŷn'. Mae Llywodraeth Cymru (Strategaeth newydd ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio, 2021) yn fwriadol wedi ymatal rhag diffinio'r oedran pan fyddwn yn dod yn 'berson hŷn' gan gydnabod bod profiadau bywyd a realiti beunyddiol yn amrywio'n fawr i bobl, o'r rhai yn eu 50au i'r rhai yn eu 80au a throsodd.

**2.3. Y polisïau a'r deddfau sydd wedi siapio ein gwasanaethau**

Mae'r adran hon yn nodi'r prif ddeddfwriaethau, polisïau a strategaethau ar gyfer y maes pobl hŷn yn genedlaethol ac yn lleol.

**Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

Dolen - Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (legislation.gov.uk)

- Mae'r ddeddf yn helpu i sicrhau llesiant y rhai y mae angen gofal a chymorth arnynt.
- Mae'n canolbwyntio ar bobl – ac yn rhoi llais cryf iddynt yn y penderfyniadau a wneir am y cymorth a gânt.
- Caiff gwasanaethau eu darparu drwy bartneriaethau a drwy gydweithredu.
- Bydd gwasanaethau'n ceisio atal anghenion rhag cynyddu a bydd y cymorth iawn ar gael ar yr adeg iawn.

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Deddf llesiant cenedlaethau'r dyfodol: yr hanfodion | LLYW.CYMRU

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei wneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl, cymunedau a'i gilydd, ac i atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd.

**Cymru sy'n Fwy Cyfartal: Y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb (Cymru) 2010**
Dolen - WG42004 A More Equal Wales The Socio-economic Duty Equality Act 2010 (llyw.cymru)

Daeth y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol i rym yng Nghymru ar 31 Mawrth 2021. Bydd yn arwain at benderfyniadau gwell ac yn y pen draw bydd yn cyflawni canlyniadau gwell i'r rheini sydd dan anfantais economaidd-gymdeithasol Mae'r canllawiau statudol hyn yn helpu'r cyrff cyhoeddus a ddaw dan y Ddyletswydd ("cyrff cyhoeddus") i gyflawni gofynion y ddyletswydd.

Mae'r Deddfau canlynol hefyd yn berthnasol:

- Deddf Safonau Gofal 2000 Care Standards Act 2000 (legislation.gov.uk)
- Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 Health and Social Care (Community Health and Standards) Act 2003 (legislation.gov.uk)
- Deddf Cydraddoldeb 2010 Equality Act 2010: guidance - GOV.UK (www.gov.uk)

**Polisïau a Strategaethau Cenedlaethol**

**Cymru o Blaid Pobl Hŷn: Ein Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio (Llywodraeth Cymru, 2021)**
Cymru o blaid pobl hŷn: ein strategaeth ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio | LLYW.CYMRU

Mae'r strategaeth yn nodi'r camau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i baratoi ar gyfer y dyfodol. Nod y strategaeth yw newid y ffordd rydym yn meddwl am heneiddio. Mae'n ymrwymo i hyrwyddo gweithio ar draws y cenedlaethau i greu Cymru sydd o blaid pobl hŷn. Mae'r Strategaeth yn seiliedig ar bedwar nod allweddol:

- Gwella llesiant.
- Gwella gwasanaethau ac amgylcheddau lleol.
- Datblygu a chynnal galluogrwydd pobl.
- Trechu tlodi sy'n gysylltiedig ag oedran.

**Mwy Na Geiriau (Llywodraeth Cymru, 2019)**
Mwy na geiriau: Cynllun y Gymraeg mewn iechyd a gofal Cymdeithasol | LLYW.CYMRU

Mae Mwy Na Geiriau yn cynnwys llawer o egwyddorion i sicrhau bod anghenion ieithyddol Cymraeg pobl yn cael eu diwallu. Mae'r strategaeth yn rhoi dyletswydd ar ddarparwyr gofal i sicrhau bod ganddynt staff sy'n meddu ar y sgiliau iaith priodol i ofalu am unigolion Cymraeg eu hiaith.

**Strategaeth ar gyfer Gofalwyr Di-Dal (Llywodraeth Cymru, 2021)**
Strategaeth ar gyfer gofalwyr di-dâl: cynllun cyflawni 2021 [HTML] | LLYW.CYMRU

Mae Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofalwyr Di-dâl yn ymrwymo i wella'r gydnabyddiaeth a'r cymorth a roddir i ofalwyr di- dâl o bob oedran yng Nghymru.

**Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia 2018-2022 (Llywodraeth Cymru, 2018)**
Cynllun gweithredu ar gyfer dementia 2018 i 2022 | LLYW.CYMRU

O ganlyniad i ymgynghoriad â'r Grŵp Goruchwylio Gweithrediad ac Effaith ym maes Dementia (DOIIG) ac ar draws Llywodraeth Cymru cytunwyd i ganolbwyntio ar y meysydd canlynol. Bydd swydd Cydlynydd Dementia Gwynedd yn cael ei chreu ar gyfer Gwynedd a'i ariannu allan o arian y Gronfa Integredig Rhanbarthol (RIF).

- Dysgu parhaus, mynediad cyfartal ac ymatebion sy'n seiliedig ar ddatblygiad a thystiolaeth
- Iechyd gwybyddol ac atal/lleihau risg
- Amddiffyn hawliau/cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Ymateb i newidiadau mewn gofal

**Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru – COVID-19: Edrych tua'r dyfodol (Llywodraeth Cymru, Mawrth 2021)**
iechyd-a-gofal-cymdeithasol-yng-nghymru-covid-19-edrych-tuar-dyfodol.pdf (llyw.cymru)

Mae COVID-19 wedi cael effaith ddofn ar gymdeithas ac ar wasanaethau. Mae'n disgrifio effaith sylweddol COVID-19 ar gymdeithas ac ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Nodir amryw o flaenoriaethau y bydd system gyfan yn gweithio arnynt sy'n cynnwys y meysydd canlynol:

- COVID-19 ac anghydraddoldebau
- Gofal sylfaenol a chymunedol ymatebol
- Gwasanaethau iechyd meddwl cefnogol
- Gwasanaethau effeithlon ac effeithiol mewn ysbytai
- Gwasanaethau gofal cymdeithasol di-dor
- Gweithlu llawn ymroddiad a chymhelliant sy'n cael cefnogaeth

**Cymru Iachach (Llywodraeth Cymru, 2018)**
Cymru iachach: cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol | LLYW.CYMRU

Mae'r cynllun hwn yn gosod gweledigaeth hirdymor ar gyfer 'system gyfan iechyd a gofal cymdeithasol' yn y dyfodol, gan ganolbwyntio ar iechyd a llesiant ac atal salwch.

**Strategaeth Pobl Hŷn yng Nghymru 2013-23**
Yn ôl y Strategaeth Pobl Hŷn yng Nghymru, dywedodd pobl hŷn fod ansawdd eu bywyd yn aml yn cael ei beryglu gan rwystrau cymdeithasol, amgylcheddol ac ariannol. Rydym yn ceisio gwella ansawdd bywyd pobl hŷn mewn ffyrdd sy'n mynd y tu hwnt i'r agenda iechyd a gofal

cymdeithasol draddodiadol gan fynd i'r afael â gwahaniaethu, diffyg cyfleoedd i fyw bywydau bodlon, tlodi ac amgylcheddau sy'n arwain at ddibyniaeth ac allgau.

**Strategaethau Lleol**

Mae **Cynllun Strategol y Cyngor** (linc -Cynllun y Cyngor 22-23) yn amlinellu gweledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer y maes pobl hŷn. Prif flaenoriaeth yr Adran Oedolion Iechyd a Llesiant yw galluogi oedolion Gwynedd i *'fyw fy mywyd fel rwyf eisiau ei fyw'.*

Mae gwaith yr adran hefyd yn cyfrannu tuag at rai o Amcanion Llesiant Gwynedd, gan sicrhau fod trigolion Gwynedd yn:

- *Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel*
- *Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn eu cymunedau*
- *Byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg*
- *Cael byw gydag urddas ac yn annibynnol gyhyd ag sy'n bosib.*

Yn ogystal â'r gwaith dydd i ddydd, mae'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn arwain ar y prosiectau blaenoriaeth canlynol:

- *Darpariaeth gofal addas a chynaliadwy i'r dyfodol*
- *Ail-ddylunio ein gwasanaethau gofal*
- *Cyfrannu tuag at wella cynllunio'r gweithlu gan ymateb yn benodol i'r heriau recriwtio yn y maes gofal a sicrhau fod gennym ddigon o weithwyr â'r sgiliau angenrheidiol er mwyn ymdopi gyda'r angen cynyddol sy'n debygol o godi yn y dyfodol.*

Mae llawer o waith ymgysylltu wedi digwydd gyda chymunedau Gwynedd i adnabod y materion sydd yn bwysig i bobl. Bydd y canfyddiadau a'r adborth yn bwydo i raglenni gwaith amryw o dimau'r adran.

I gyfarch y flaenoriaeth o 'Ail-ddylunio ein gwasanaethau gofal', rydym wedi bod yn cydweithio â'r bwrdd iechyd i drawsnewid ein gwasanaethau cymunedol. Y bwriad yw hwyluso gallu staff y cyngor a staff y bwrdd iechyd i gydweithio fel un tîm o fewn ardaloedd penodol. Bydd hyn yn arwain at sicrhau mai un pwynt cyswllt fydd gan unigolion sydd angen cymorth iechyd a gofal yn y gymuned er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau a gwasanaeth di-dor. Rydym hefyd yn gweithio i newid ein ffordd o ddarparu gofal cartref ar draws y sir er mwyn hwyluso'n gallu i sicrhau fod y gofal wedi'i deilwra yn seiliedig ar yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn.

### 2.4. Beth rydym yn ei wybod am y boblogaeth

Yng Nghymru, mae'r ddemograffeg ganolog yn rhagweld y bydd 1 o bob 4 o'r boblogaeth dros 65 oed ymhen 20 mlynedd (erbyn 2038). Rhagwelir y bydd y boblogaeth sydd dros 75 oed yng Nghymru hefyd yn cynyddu o 9.3% yn 2018 i 13.7% yn 2038 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2019). Mae'n werth nodi, er gwaethaf y rhagfynegiadau hyn, bod gwelliannau mewn

disgwyliadau oes wedi aros yn eu hunfan ers tua 2011 ac ychydig o newid a fu yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Fodd bynnag, bu rhai newidiadau cymdeithasol amlwg dros y blynyddoedd diwethaf. Er enghraifft, mae'r amcangyfrif o nifer y bobl sy'n byw ar eu pen eu hunain wedi bod yn cynyddu'n gyson dros y degawd diwethaf. Heddiw, mae pobl 65 oed a hŷn yn cyfrif am 45% o aelwydydd pobl sengl.

Dengys ystadegau gan Alzheimer's Research UK, fod nifer y bobl ar y gofrestr dementia wedi codi o 9,550 i 13,617 rhwng 2006/07 a 2015/16, sef cynnydd o 43%. Mae nifer y gofalwyr di-dâl yng Nghymru hefyd yn cynyddu a phobl 65 oed a hŷn yw'r grŵp sy'n tyfu gyflymaf.


Mae adroddiad Cyflwr y Genedl (Comisiynydd Pobl Hŷn, 2021) yn edrych ar effaith y pandemig ar y boblogaeth hŷn yng Nghymru ac yn adnabod nifer o ganfyddiadau allweddol y mae’n rhaid i Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru roi sylw iddynt, mewn ymateb i’r pandemig ac wrth edrych i’r dyfodol a chefnogi pobl hŷn gyda’i adferiad.

- Dros y 18 mis diwethaf, mae wedi bod yn anodd i bobl hŷn gael mynediad at wasanaethau cymunedol, yn enwedig iechyd a gofal.
- Bu cynnydd sylweddol mewn gofal di-dâl dros y ddwy flynedd diwethaf, wrth i wasanaethau gofal cymdeithasol gael eu hatal neu eu dychwelyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth.
- Mae iechyd corfforol a meddyliol pobl hŷn wedi dirywio’n sylweddol o ganlyniad i gyfyngiadau’r pandemig a’r gostyngiad mewn gweithgareddau corfforol a chymdeithasol.
- Mae’r pandemig wedi effeithio’n ariannol ar bobl hŷn, ac mae mwy o berygl y bydd y rheini sy’n dymuno aros yn y gweithlu yn colli eu swyddi neu’n cael eu heithrio o arferion gwaith sy’n datblygu.
- Mae’r diffyg data sydd ar gael am brofiadau pobl hŷn o gam-drin yn ei gwneud yn anodd asesu effaith y pandemig, ond mae’n amlwg bod troseddwyr wedi bod yn targedu pobl hŷn gyda throseddau ariannol a thwyll.
- Cyfyngwyd ar y cyfleoedd i bobl hŷn ymgysylltu â chymunedau a gwirfoddoli yn ystod y pandemig sydd wedi gwneud i lawer deimlo nad ydynt yn aelodau gwerthfawr o gymdeithas.
- Mae llawer o bobl hŷn mewn perygl o gael eu heithrio wrth i wasanaethau cyhoeddus a phreifat gyflymu’r broses o gyflwyno gwasanaethau digidol.
- Er gwaethaf yr heriau hyn, mae pobl hŷn wedi dangos gwytnwch a phenderfyniad drwy gydol y pandemig ac, at ei gilydd, maent yn obeithiol am y dyfodol.

Gofalu am bobl bregus yw un o gyfrifoldebau pwysicaf y cyngor, ac mae pwysau cynyddol ar ein gwasanaethau o ganlyniad i newidiadau cymdeithasol sydd y tu hwnt i'n rheolaeth.

**Trosolwg o boblogaeth pobl hŷn yng Ngwynedd**


**Graff 1: Poblogaeth pobl hŷn Gwynedd**




*Ffynhonnell: StatsCymru (2021)*

O'r graff uchod, fe welwn fod mwy na hanner y boblogaeth sydd dros 65 oed yng Ngwynedd yn syrthio i'r categori 65-74 oed.

**Graff 2: Nifer o drigolion Gwynedd fesul categori oedran**




*Ffynhonnell: StatsCymru (2021)*

Mae'r graff uchod yn rhoi mwy o bersbectif o'r niferoedd dros 65 oed yn y categorïau 65-74, 75-84 a 85 a throsodd. Gellir gweld yn gliriach y niferoedd a'r gwahaniaeth rhwng pob categori.

Mae'r tabl isod yn dangos amcangyfrif y nifer o bobl dros 65 oed yn 2020 a'r nifer a ragwelir erbyn 2040:

**Tabl 1: Amcangyfrif y nifer o bobl dros 65 oed yn 2020 a 2040**

| Nifer pobl Gwynedd sydd yn 65+ 2020 | % | Nifer pobl Gwynedd sydd yn 65+ 2040 | % | Gwahaniaeth rhwng 2020 - 2040 | % |
|---|---|---|---|---|---|
| 28,550 | 22.8% | 34,300 | 26.1% | 5,700 | 20.1% |

*Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol*

Yn unol a'r tabl uchod, disgwylir i'r boblogaeth 65 oed a throsodd fod yn parhau i gynyddu hyd at 2040, sef cynnydd o 20.1%. Ar yr un amser, disgwylir i'r gyfran o bobl 16-64 oed, sef y gweithlu, fod yn parhau i leihau. Rhagwelir y bydd y newidiadau yn dechrau lefelu allan erbyn 2040.

Mae'r tabl isod yn dangos y cynnydd sydd wedi bod yn y boblogaeth 65 oed a throsodd rhwng 2010 a 2020 yng Ngwynedd:

**Tabl 2: Canran a nifer o drigolion Gwynedd dros 65 oed dros amser**

| | Nifer 2010 | % | Nifer 2020 | % | Nifer y newid | % |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | 24,800 | 20.5% | 28,550 | 22.8% | 3,750 | 15.1% |
| **Cymru** | 557,250 | 18.3% | 668,600 | 21.1% | 111,350 | 20.0% |

*Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol: rhagfynegiadau poblogaeth canol flwyddyn*

Fe welir fod cynnydd o 15.1% yng Ngwynedd yn y degawd rhwng 2010 a 2020, sydd yn llai na'r cynnydd ar draws Cymru, sef 20.0%.

Mae'r nifer o bobl dros 85 mlwydd oed yng Ngwynedd wedi cynyddu 25.4% rhwng 2010 a 2020. Mae hyn yn bennaf oherwydd newidiadau demograffig, megis cynnydd yn y disgwyliad bywyd. Fe welir yn y tabl isod fod y cynnydd yn y boblogaeth yn uwch ar gyfer Gwynedd nag ydyw ar draws Cymru.

**Tabl 3: Canran a nifer o drigolion Gwynedd dros 85 oed dros amser**

| | Nifer 2010 | % | Nifer 2020 | % | Nifer y newid | % |
|---|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwynedd** | 3,350 | 2.8% | 4,200 | 3.3% | 850 | 25.4% |
| **Cymru** | 73,750 | 2.4% | 85,150 | 2.7% | 11,450 | 15.5% |

*Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol: rhagfynegiadau poblogaeth canol flwyddyn*

**Ffigwr 1: Infograffeg data hunan-ofal trigolion 65+ Gwynedd**




*Ffynhonnell: Proffiliau Ardal Lleol, Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (2022)*

### 2.5. Meysydd penodol

#### 2.5.1. Cefnogaeth i fyw'n annibynnol

Un o brif amcanion llesiant Gwynedd ydi sicrhau bod trigolion yn 'c*ael byw gydag urddas ac yn annibynnol cyhyd ag sy'n bosib'.* Mae parhau i fyw yn eu cartrefi eu hunain yn flaenoriaeth i lawer o bobl hŷn, ac yn rhan bwysig o gynnal eu hannibyniaeth. Bydd cefnogi pobl i gynnal eu hannibyniaeth, yn ei dro hefyd, yn eu cefnogi i berchnogi eu hiechyd a'u lles. Gellir diffinio annibyniaeth fel:


- Peidio gorfod dibynnu ar eraill

- Yn rhydd i allu mynd a dod
- Gallu symud o gwmpas a chynnal cartref
- Osgoi mynd i gartref gofal.

Wrth i anghenion gofal y sir newid, rydym wedi bod yn cydweithio efo'r bwrdd Iechyd i sicrhau mynediad syml ac uniongyrchol at wasanaethau sydd yn cefnogi yr hyn sy'n bwysig i bobl hŷn Gwynedd. Bydd dull o weithio sy'n rhoi mwy o bwyslais ar iechyd a llesiant a gwaith ataliol yn sicrhau gwell deilliannau i unigolion, yn eu galluogi i fyw'n annibynnol cyn hired a phosib ac yn lleihau'r angen am ofal dwys.

**Beth rydym yn ei wybod (Data meintiol)?**

**Graff 3: Lleoliad yr unigolyn sy'n disgwyl am ofal cartref**





*Ffynhonnell: Data mewnol oddi ar y 'Welsh Community Care Information System' (WCCIS), 2022.*

Mae'r graff uchod yn dangos lle mae unigolion pan maent ar y rhestr aros yn disgwyl am ofal cartref. Er bod y mwyafrif gartref tra maent yn disgwyl am ofal, mae canran fawr yn disgwyl yn yr ysbyty. Mae hyn yn codi problemau hir dymor gan eu bod yn llenwi gwelyau yn yr ysbytai. Nid oes lleoliad wedi ei nodi ar y ffurflenni ar gyfer 1%.

Mae nifer o bobl yn disgwyl am ofal cartref o ganlyniad i:


- Prinder gofalwyr – gweithwyr yn gadael y maes
- Problemau mewn recriwtio gweithwyr newydd
- Darparwyr yn gorfod rhoi pecynnau/bloc o becynnau yn ôl o ganlyniad i broblemau staffio/capasiti
- Cynnydd yn y galw

**Graff 4: Canran o ofal cartref sydd heb ei ddiwallu**




*Ffynhonnell: Data mewnol oddi ar y 'Welsh Community Care Information System' (WCCIS), 2022*

**Graff 5: Nifer o drigolion ar y rhestr aros gofal cartref**





*Ffynhonnell: Data mewnol oddi ar y 'Welsh Community Care Information System' (WCCIS), 2022.*

Mae'r graffiau uchod yn dangos cynnydd cyson yn y rhestr aros ers Mehefin 2022. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i nifer o ddarparwyr yn rhoi pecynnau gofal yn ôl ar fyr rybudd am amryw o resymau sy'n cynnwys cynnydd yn y galw, materion staffio neu'r darparwyr heb ennill y gytundeb gofal cartref. Fodd bynnag, rydym yn gweld rhywfaint o leihad erbyn mis Tachwedd yn dilyn cyfnod o ansefydlogrwydd wrth drosglwyddo pecynnau gofal i'r darparwyr newydd, ond

mae problemau’n parhau o ganlyniad i ddiffyg capasiti gan y darparwyr newydd i gwrdd â’r galw yn yr ardaloedd ar hyn o bryd.


Wrth wneud dadansoddiad pen desg yn ddiweddar, gwelwyd bod  nifer fawr o unigolion ar y rhestr eisoes yn derbyn gofal neu ddim angen bod ar y rhestr bellach.  Mae pwysau gwaith cynyddol ar y timau cymdeithasol yn golygu nad ydynt bob amser yn llwyddo i ddiweddaru’r system yn amserol sydd yna yn effeithio ar gywirdeb y rhestrau.  Mae gwaith yn digwydd yn rheolaidd i dacluso a sicrhau cywirdeb y data wrth symud ymlaen.

**Graff 6: Y nifer o ddyddiau, ar gyfartaledd, mae unigolyn yn aros ar y rhestr aros gofal cartref**




*Ffynhonnell: Data mewnol oddi ar y ‘Welsh Community Care Information System’ (WCCIS), 2022.*

**Graff 7: Y nifer o ddyddiau, ar gyfartaledd, mae unigolyn yn aros ar y rhestr aros gofal cartref fesul ardal (Ebrill-Medi 2022)**




*Ffynhonnell: Data mewnol oddi ar y ‘Welsh Community Care Information System’ (WCCIS), 2022.*

Mae'r graffiau uchod yn rhoi mwy o fanylder am y nifer o ddyddiau ar gyfartaledd mae unigolion yn aros ar y rhestr aros gofal cartref, a'r nifer o ddyddiau ar gyfartaledd yn yr ardaloedd yng Ngwynedd. Fe welwn mai Eifionydd yw'r uchaf ar gyfartaledd ar y rhestr aros a Caernarfon efo'r lleiaf yn ystod y cyfnod dan sylw.

**Beth y mae pobl yn ei ddweud? (Data ansoddol)**

**Gofal Dydd**

Cyn y cyfnod clo, fe gwblhawyd gwaith ymgysylltu gydag unigolion oedd yn derbyn gofal dydd yng nghanolfannau dydd Cyngor Gwynedd. Cafwyd llawer o wybodaeth gwerthfawr ynglŷn a lle roedd yr unigolion yn byw, eu hanghenion teithio, anghenion gofal a chefnogaeth, ynghyd a chefnogaeth i ofalwyr.

Roedd y prif negeseuon a chanfyddiadau'r ymgysylltu yn cynnwys:

- Llawer yn dweud nad oedden nhw'n gwybod beth fyddan nhw'n ei wneud heb y ganolfan ac mai dyma ydy eu "dihangfa" nhw. Llawer yn dweud "mi fyddwn i'n sownd yn y tŷ fel arall" a'r rhan fwyaf ddim yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgaredd neu unrhyw glybiau y tu allan i'r ganolfan ddydd. Y ganolfan ddydd yn bwysig iawn iddyn nhw i gyd.
- Llawer yn dweud nad oeddent yn ymwybodol o beth oedd yn mynd ymlaen y tu allan – ddim yn ymwybodol o unrhyw glybiau eraill y gallent fod yn mynychu.
- Roedd pawb y siaradwyd â nhw yn dweud y byddant yn mynychu mwy o ddyddiau yn y ganolfan ddydd petai mwy o ddyddiau ar gael ac felly'n teimlo bod angen mwy o ddyddiau. Mae'r penwythnos yn hir ac yn unig a tydi rhai o'r unigolion ddim yn gweld neb o gwbl. Rhai ohonynt heb deulu yn agos hefyd felly yr unigrwydd yn cael ei uchafu.
- Gwasanaeth yn amhrisiadwy o ran sicrhau bod gofalwyr/gŵr/gwraig yn cael seibiant o ofalu am yr unigolyn – hyn yn bwysig i sicrhau bod y gofalwyr yn gallu parhau i ofalu.
- Roedd beth oedd gan yr unigolion i'w ddweud am y gwasanaeth yn galonogol a phositif.

Yn dilyn y pandemig, mae'r gwaith i ail fodelu ein darpariaeth gofal dydd eisoes wedi ail gychwyn.

**Taliadau Uniongyrchol**

Mae Taliadau Uniongyrchol (TU) yn wasanaeth ble mae'r Cyngor yn talu swm o arian i gyfrif banc unigolyn sy'n gymwys am wasanaeth ac mae'r unigolyn wedyn yn gyfrifol am gyflogi rhywun o'u dewis i ddarparu'r gofal. Mae cefnogaeth ar gael i unigolion gyda'u rôl cyflogwr.

Mae TU yn ddewis poblogaidd os nad ydi'r unigolyn sydd angen y gwasanaeth yn gallu dod o hyd i ofalwyr addas. Mae 22% o'r unigolion sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol yn gwneud hynny er mwyn darparu gofal i bobl hŷn (Data Adrannol, WCCIS, Ebrill 2022).

Mae'n ddyletswydd i gynnwys TU fel opsiwn wrth asesu a chytuno ar gynllun gofal, ac mae'n cael ei weld fel gwasanaeth pwysig wrth geisio sicrhau bod unigolion yn gallu aros yn eu cartrefi eu hunain cyn hired ag sy'n bosibl. Mae enghreifftiau yn cynnwys achos oedd angen gofal 24 awr, gydag asiantaeth gofal cartref yn darparu rhai oriau gofal a TU yn darparu'r oriau eraill. Mae

Gweithwyr Cymdeithasol ac Arweinwyr Ardal yn gweld TU fel opsiwn llawer mwy hyblyg na gofal cartref traddodiadol ac o ganlyniad, yn fwy effeithiol wrth ddiwallu anghenion yr unigolyn.

Wrth drafod gyda staff rheng flaen y Cyngor (sef timau ardal Gwynedd), roedd yr agwedd yn bositif ac yn gefnogol i'r hyn mae Taliadau Uniongyrchol (TU) yn gallu ei gynnig i drigolion Gwynedd, ac roedd cytundeb bod TU yn gynllun da iawn i ofalwyr. Fodd bynnag, yr unig bryder oedd yr oedi achlysurol wrth geisio cychwyn y cynlluniau. Byddai gallu cychwyn y cynlluniau yn gyflym yn helpu efo rhyddhau pobl o'r ysbyty yn gynt ac atal argyfwng. Mae yna ffrwd gwaith sy'n edrych ar y broses ar hyn o bryd.

Dyma enghreifftiau o sut y mae TU wedi gweithio yn llwyddiannus mewn achosion:

- Cadw cwmni i wraig oedrannus sydd â dementia un prynhawn yr wythnos er mwyn rhoi ysbaid i'r teulu.
- Person canol oed wedi cael strôc ac angen pecyn gofal cynhwysfawr.
- Gwraig oedrannus oedd yn byw yn annibynnol ond oedd â nam ar ei llygaid. Drwy TU roedd yn cyflogi gweithiwr er mwyn darllen unrhyw lythyrau/gohebiaeth ar ei rhan pan fo'r angen, mae hyn yn enghraifft o wasanaeth syml lle roedd TU yn ateb yr angen.
- Siaradwyd gyda Chymorthyddion Personol oedd yn cael eu cyflogi drwy TU gan nifer o unigolion. Roeddent wedi gweithio yn flaenorol i asiantaeth gofal cartref ac yn teimlo bod ansawdd yr hyn roeddent yn gynnig drwy TU yn llawer mwy hyblyg, personol, ac o ganlyniad o safon uwch. Bu iddynt sylweddoli bod tri unigolyn oedd yn eu cyflogi ar wahân, yn yr un sefyllfa (gwŷr gweddw yn dioddef o unigrwydd/iselder) a gyda chaniatâd y tri, trefnwyd i fynd a nhw i gyda allan am ginio efo'i gilydd yn wythnosol. Daeth yr unigolion yn ffrindiau ac erbyn hyn maent wedi datblygu grŵp cefnogi answyddogol i'w gilydd dros amser, gan leihau rhywfaint ar eu hangen am ofal a sicrhau eu bod yn gallu parhau i aros yn eu cartrefi eu hunain yn hirach.

**Beth yw'r ddarpariaeth bresennol?**

**Gofal Cartref**

Mae nifer o unigolion yn dewis derbyn gwasanaeth gofal cartref gan ei fod yn galluogi pobl i barhau i fyw yn eu cartref eu hunain gyda gofalwyr yn dod mewn i gynorthwyo gyda rhai elfennau o fywyd pob dydd megis darparu bwyd, a darparu gofal personol.

Yn anffodus mae problemau yn y maes gan nad oes digon o ofalwyr ar gael i ddarparu'r galw am ofal o fewn Gwynedd. Mae wedi bod yn arbennig o anodd i recriwtio yn benodol yn is-ardaloedd Pwllheli, Eifionydd, Dyffryn Nantlle a Blaenau Ffestiniog.

Fel rhan o'r broses o ail fodelu'r gwasanaeth gofal cartref, symudwyd nifer o dimau gofal cartref y Cyngor i weithio patrymau shifft ac fe gychwynnodd y gwaith o hyfforddi staff i fedru gweinyddu meddyginiaeth, sy'n cynnig gwell sefydlogrwydd i staff a hyblygrwydd i'r unigolion sy'n derbyn gofal.

Erbyn hyn, rydym wedi bod allan i dendr ar gyfer y ddarpariaeth newydd, a bydd y darparwyr llwyddiannus yn gyfrifol am ardal benodedig sy'n golygu na fydd gofalwyr yn gorfod treulio cymaint o amser yn teithio, ac yn gallu treulio mwy o amser yn darparu gofal.  Byddent yn gallu canolbwyntio ar ddiwallu anghenion un ardal yn hytrach na Gwynedd gyfan.

Mae'r cytundebau newydd wedi cychwyn ers y 1 Tachwedd 2022, ac rydym yn y broses o gael cyfarfodydd 1:1 gyda darparwyr er mwyn trafod faint o oriau maent yn ei gyflawni o fewn yr ardal ar y funud.  Yna bydd cyfarfodydd is-ardaloedd yn cael eu cynnal i drafod pwy sydd wedi trosglwyddo a phwy sydd ar ôl i drosglwyddo (defnyddwyr gwasanaeth).


Bydd y ffordd newydd o weithio yn golygu fod gofalwyr yn gweithio gyda'r unigolion i drafod pryd mae nhw eisiau'r gwasanaeth.  Er enghraifft, os ydi'r gweithiwr cymdeithasol yn asesu unigolyn ac yn rhoi amcan o'r oriau gofal yr wythnos, bydd y darparwr wedyn yn trafod gyda'r unigolyn i weld pryd a faint o gefnogaeth sydd ei angen arnynt.  Mae hyn yn rhoi mwy hyblygrwydd i'r unigolyn sy'n derbyn y gwasanaeth ac hefyd yn adeiladu perthynas well rhwng yr unigolyn a'r darparwr.

Gobeithir y bydd y ffordd newydd o weithio yn denu mwy o ofalwyr i'r maes.  Bydd y darparwyr yn cael sicrwydd o oriau misol sy'n golygu eu bod yn gallu cynnig telerau gwaith gwell i staff. Bydd yna hefyd ddisgwyliad i ddarparwyr dalu tâl teg i'r holl staff.

Yn dilyn cynllun peilot a gynhaliwyd yn ardal Tywyn, roedd y staff yn teimlo'n bositif iawn, ac roedd y mwyafrif helaeth yn ei weld fel patrwm sydd yn mynd i fod o fudd i bawb.


- Roedd 73% o'r staff yn cytuno'n gryf bod y ffordd newydd o weithio yn gwella ansawdd y gofal a ddarperir i ddefnyddwyr gwasanaeth.
- Roedd 73% o'r staff hefyd yn cytuno'n gryf bod y defnyddwyr gwasanaeth wedi elwa o'r peilot.

**Graff 8: Nifer yr unigolion sy'n derbyn gofal cartref fesul ardal yng Ngwynedd**



*Ffynhonnell: Data mewnol oddi ar y 'Welsh Community Care Information System' (WCCIS), 2022.*

**Graff 9: Nifer oriau wythnosol cyfartalog a ddarperir fesul ardal**




*Ffynhonnell: Data mewnol oddi ar y 'Welsh Community Care Information System' (WCCIS), 2022.*

O'r wybodaeth uchod felly, fe welwn fod y nifer uchaf o unigolion sy'n derbyn gwasanaeth yng Nghaernarfon, a'r un ardal sy'n darparu mwy o oriau mewn wythnos nag unrhyw ardal arall. Mae'r ddau dabl yn cyd-fynd â'i gilydd, ond ddim yn union. Er bod nifer yr unigolion sy'n derbyn gwasanaeth yn is mewn rhai ardaloedd, mae'n dangos bod angen mwy o oriau gofal mewn wythnos na rhai ardaloedd eraill. Mae Harlech yn enghraifft arall, mae'n unfed ar ddeg o ran nifer o unigolion sy'n derbyn gwasanaeth ond yn seithfed o ran nifer o oriau'r wythnos.

**Taliadau Uniongyrchol – ehangu'r defnydd**

Mae prosiect newydd wedi ei sefydlu gyda chwmni '**Community Catalysts**' i geisio annog pobl i sefydlu cwmnïau bach yng Ngwynedd, er mwyn cynnig cymorth a gofal i bobl yn eu hardal leol. Y gobaith yw y gellir sicrhau bod mwy o bobl yn gallu cael mynediad at ofal yn amserol yn eu cymunedau, gan leihau'r nifer o bobl sy'n aros mewn ysbyty neu yn eu cartref eu hunain heb y gefnogaeth angenrheidiol i allu byw bywyd llawn. Y bwriad yw adolygu ein trefniadau ar gyfer TU, a'i gwneud yn haws i bobl gael mynediad at arian i'w ddefnyddio i dalu am y gofal sydd ar gael gan y cwmnïau bychan hyn.

Mae angen hyrwyddo'r defnydd o daliadau uniongyrchol, symleiddio'r broses o'u cwmpas a datblygu trefniadau sy'n ei gwneud yn haws i ni sefydlu trefniant TU ar frys.


Mae **Cynllun Rhannu Cartref** Cyngor Gwynedd yn gynllun newydd sydd yn gymorth i fynd i'r afael â sawl her sy'n ein wynebu ar hyn o bryd megis heriau gofal cartref, unigrwydd ac ynysigrwydd a phroblemau tai. Mae'r cynllun yn gyfle i unigolion sydd eisiau ychydig o gymorth ychwanegol yn wythnosol (nid gofal personol ond yn hytrach cefnogaeth e.e. siopa bwyd, garddio, coginio) allu cynnig ystafell yn eu tŷ i unigolyn sydd yn gallu darparu'r gefnogaeth honno. Byddai'r unigolyn sy'n darparu'r gefnogaeth yn derbyn llety rhad iawn a fydd o gymorth i'r her sy'n wynebu llawer o ran costau rhentu.

**Gwasanaethau Hyrwyddo Annibyniaeth**

Mae'r holl wasanaethau sy'n hyrwyddo annibyniaeth yn helpu unigolion i aros gartref mor hir â phosib trwy osod cyfarpar yn eu cartref fel eu bod yn gallu cyflawni tasgau o ddydd i ddydd yn eu cartref eu hunain. Rydym yn comisiynu asiantaeth allanol i osod y cyfarpar yma; ac mae eu hadroddiadau yn dangos fod pobl Gwynedd yn gwneud defnydd mawr o'r gwasanaeth.

Mae'r graff isod yn dangos y cyfeiriadau a dderbyniwyd ganddynt rhwng Ebrill 2017 hyd at rŵan.

**Graff 10: Cyfeiriadau a dderbyniwyd gan y gwasanaeth cyfarpar yng Ngwynedd**




*Ffynhonnell: Data mewnol oddi ar y 'Welsh Community Care Information System' (WCCIS), 2022.*

Mae'r ffaith fod y gwasanaeth wedi llwyddo i atal unigolion rhag gorfod mynd i'r ysbyty yn dangos pa mor werthfawr ydi'r gwasanaeth i Wynedd, o ran unigolion yn gallu parhau i aros yn eu cartref, a rhyddhau gwelyau yn yr ysbytai.

### 2.5.2. Tai a Llety

Wrth i'r boblogaeth hŷn barhau i gynyddu, yn ôl rhagolygon poblogaeth Llywodraeth Cymru, mae'n bwysig sicrhau bod eu hanghenion tai yn cael eu hadnabod a'u bodloni.

Mae Cynllun Strategol y Cyngor yn nodi y dylai oedolion bregus gael dewis o gefnogaeth addas i'w galluogi i fyw'n annibynnol yn y gymuned, ac fe ddylent gael dewis ehangach o lety sy'n addas i'w hanghenion.

Er mwyn cynnal annibyniaeth am gyn hired â phosib, mae angen i bobl hŷn fyw mewn llety addas. Mae yna nifer o wahanol opsiynau llety ar gael i bobl dros 55 mlwydd oed yng Ngwynedd. Fodd bynnag, mae yna brinder tai cymdeithasol addas fel byngalos ar gyfer pobl hŷn. Cydnabyddir nad yw rhai adeiladau'n ymateb i anghenion unigolion sy'n derbyn cefnogaeth bellach, ac nad ydynt yn ymateb i'w dymuniad i fyw yn annibynnol. Mae yna lawer o bobl yn byw mewn tai mawr anaddas, ac mae'n anodd darparu gofal mewn rhai tai oherwydd yr amgylchedd neu ddiffyg gofod.

**Beth rydym yn ei wybod (Data meintiol)?**

Mae Cynllun Gweithredu Tai Cyngor Gwynedd 2020/21 – 2026/27 (linc - Cynllun Gweithredu Tai) yn datgan bod angen *"sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd".*

Dyma'r cynlluniau sydd wedi eu cymeradwyo hyd at 2026/27:

- Llety a chefnogaeth ychwanegol yn Arfon
- Ail ddatblygu safle Cartref Pwyliaid, Penrhos
- Tai gofal ychwanegol – pobl hŷn

Gobeithir y bydd y cynlluniau uchod yn cyfarch anghenion ein defnyddwyr gwasanaeth presennol ac i'r dyfodol.

Mae Strategaeth Tai Gwynedd 2019 – 2024 (linc - Strategaeth Tai) yn gosod uchelgais hirdymor, yn ogystal â blaenoriaethau clir ar gyfer y 5 mlynedd nesaf. Gwyddom y gall ein hanghenion tai newid mewn cyfnodau gwahanol yn ein bywyd, ond yr hyn sy'n gyson yw'r angen i fyw mewn cartrefi a chymunedau sydd yn ddiogel, ac sydd yn galluogi a helpu ein pobl i fyw bywydau llawn a iach, gan hybu eu hannibyniaeth.

**Beth yw'r ddarpariaeth bresennol?**

**Tai Gofal Ychwanegol**

Mae Tai Gofal Ychwanegol yn llety pwrpasol sy'n rhoi fflatiau hunan-gynhaliol i denantiaid, ynghyd â chyfleusterau cymunedol, e.e. lolfa, bwyty, siop trin gwallt, golchdy ac ystafell ddiddordebau. Mae'n ffordd effeithiol o fodloni anghenion pobl hŷn drwy gynnig annibyniaeth, dewis a chefnogaeth amserol, ac mae'r galw am y math yma o ddarpariaeth yn cynyddu. Mae'n rhoi amgylchedd ddiogel, preifat a sicr gyda darpariaeth gofal a chefnogaeth ar y safle, yn unol ag anghenion y tenantiaid.

Mae Cyngor Gwynedd eisoes wedi gweithio mewn partneriaeth â chymdeithasau tai i ddatblygu Tai Gofal Ychwanegol yn Y Bala (30 fflat), ym Mangor (42 fflat) ac ym Mhorthmadog (40 fflat). Mae datblygiad Tai Gofal Ychwanegol Ysgafn (darpariaeth heb brydau bwyd) yn cael ei ddatblygu ym Mhwllheli ar hyn o bryd.

Ein bwriad yw edrych i ddatblygu mwy, a fydd yn esblygiad ac amrywiad o'r tai gofal ychwanegol presennol, sy'n addas ar gyfer gwasanaethu trefi llai. Byddai hyn yn diwallu'r angen am

gynlluniau ychwanegol mewn pedair cymuned: Pwllheli, Dolgellau, Tywyn a Blaenau Ffestiniog. Mae'n debygol y bydd eu ffurf yn llai na'r rhai presennol er mwyn adlewyrchu'r angen, a'r bwriad yw dysgu o'r profiadau yn y rhai presennol o ran yr angen am ofal 24 awr. Bydd hefyd yn gyfle i edrych ar feithrin a hybu trefniadau aml genedlaethol.

**Tai Gwarchod**

Fe ddarperir y rhain gan y cymdeithasau tai, ond mae diffiniad 'eiddo gwarchod' yn gallu bod yn wahanol i wahanol gymdeithasau. Y diffiniad hanesyddol oedd eiddo lle roedd cefnogaeth warden yn cael ei ddarparu ar safle, h.y. warden yn byw ar y safle, ond mae hynny wedi newid dros amser fel mae rolau Wardeiniaid (neu Reolwyr Safle) wedi newid i fod yn fwy peripatetig.

**Tabl 4: Nifer o dai gwarchod fesul ardaloedd llesiant Gwynedd**

| Ardal Llesiant a Safle | Perchennog | Nifer Unedau |
|---|---|---|
| **Penllyn** | | |
| Cysgod Y Coleg, Bala | Adra | 28 |
| | | **28** |
| **Tywyn** | | |
| Morfa Cadfan, Tywyn | Adra | 20 |
| | | **20** |
| **Dolgellau** | | |
| Hen Felin, Dolgellau | Grŵp Cynefin | 24 |
| Ffynhonnau, Dolgellau | Adra | 12 |
| Hafan Deg, Bermo | Adra | 23 |
| Pentre Uchaf, Dyffryn Ardudwy | Adra | 11 |
| | | **70** |
| **Porthmadog** | | |
| Bro Llewelyn, Penrhyndeudraeth | Adra | 16 |
| Maes Y Môr, Tremadog | Grŵp Cynefin | 38 |
| | | **54** |
| **Caernarfon** | | |
| Trem yr Wyddfa / Lon Yr Eglwys / Brynllwyn / Cae Catrin, Penygroes | Adra | 38 |
| Gwelfor, Rhosgadfan | Adra | 12 |
| Tan Y Mur, Caernarfon | Adra | 22 |
| Llys Yr Eifl / Cae Corn Hir / Llys Y Foel, Caernarfon | Adra | 52 |
| Rhydfadog, Deiniolen | Adra | 10 |
| Hafan Elan, Llanrug | Adra | 24 |
| | | **158** |
| **Bangor** | | |
| Y Gorlan, Bangor | Tai Gogledd Cymru | 30 |
| Craig Menai, Bangor | Adra | 18 |
| Llys Dewi Sant, Bangor | Adra | 22 |

| | | |
|---|---|---|
| Maes Y Garnedd, Bethesda | Adra | 12 |
| | | **82** |
| **Cyfanswm** | | **412** |

*Ffynhonnell: Data mewnol gan yr Adran Tai ac Eiddo*

**Cartrefi Preswyl a Nyrsio**

Mae cartrefi preswyl yn cynnig llety diogel a sicr gyda gofal 24 awr y dydd. Mae gan unigolion eu hystafelloedd gwely eu hunain ac maent yn rhannu ystafell fwyta a lolfa gymunedol.

Mae cartrefi nyrsio yn cynnig llety saff a diogel gyda gofal nyrsio cofrestredig 24 awr y dydd i bobl hŷn ag anghenion iechyd cymhleth. Mae yna gartrefi gofal preswyl a gofal nyrsio arbenigol hefyd ar gyfer unigolion gydag anghenion iechyd a lles sydd yn deillio o gyflyrau'r cof.

Ar hyn o bryd, mae yna 36 cartref preswyl a nyrsio yng Ngwynedd, gyda chyfanswm o 1,051 gwely. Gweler trawsdoriad o'r cartrefi isod:


**Tabl 5: Nifer o gartrefi preswyl a nyrsio fesul ardal yng Ngwynedd**

| Ardal | Nifer y cartrefi preswyl a nyrsio |
|---|---|
| Bangor | 5 |
| Caernarfon | 10 |
| Llŷn | 6 |
| Porthmadog | 7 |
| Ffestiniog | 1 |
| Dolgellau | 2 |
| Penllyn | 1 |
| Tywyn | 4 |
| Cyfanswm | 36 |

*Ffynhonnell: Cyngor Gwynedd*


Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn darparu 50% o'r ddarpariaeth breswyl gyfan yng Ngwynedd, gyda'r sector annibynnol yn darparu'r 50% arall. Mae llawer o fuddion o fod yn ddarparwr lleoliadau gofal preswyl, yn hytrach na chomisiynu'r sector annibynnol i ddarparu'r lleoliadau i gyd. Gan fod y Cyngor yn ddarparwr, mae modd ymateb yn addas ac yn amserol i unrhyw newid yn y galw am wasanaethau. Mae gan Cyngor Gwynedd hefyd ddarpariaeth gofal preswyl arbenigol dementia.

**Ffigwr 2: Lleoliadau cartrefi mewnol yng Ngwynedd**





Ffynhonnell: *Data mewnol oddi ar y 'Welsh Community Care Information System' (WCCIS), 2022*

**Ffigwr 3: Lleoliadau cartrefi gofal preifat yng Ngwynedd**




Ffynhonnell: *Data mewnol oddi ar y 'Welsh Community Care Information System' (WCCIS), 2022.*

**Ffigwr 4: Lleoliadau cartrefi nyrsio yng Ngwynedd**





*Ffynhonnell: Data mewnol oddi ar y 'Welsh Community Care Information System' (WCCIS), 2022.*

Darperir holl ddarpariaeth cartrefi nyrsio'r sir gan y sector annibynnol. Y prif reswm am hyn yw nad yw wedi bod yn gyfreithiol bosib i Awdurdodau Lleol fynd ati i ddarparu gofal nyrsio. Rydym felly'n llwyr ddibynnol ar y farchnad allanol er mwyn darparu gofal nyrsio i'r boblogaeth. O ganlyniad, os yw nifer y lleoliadau sydd ar gael yn llai na'r hyn sydd ei angen ar unrhyw bwynt mewn amser, ni fyddai'n bosib i'r Cyngor ymateb gyda'i ddarpariaeth uniongyrchol ei hun. Gallai hyn greu oedi i unigolion cyn iddynt allu derbyn y gofal maent ei angen; neu, gallai olygu bod unigolion yn derbyn lleoliad amgen a/neu pellach o'u cymuned na'r hyn y byddent wedi dymuno ei gael.

Erbyn hyn mae gennym brinder cynyddol o welyau nyrsio ar gyfer anghenion ein poblogaeth. Yn dilyn adroddiad diweddar aeth i Gabinet y Cyngor (linc - Darparu Lleoliadau Nyrsio fel rhan o bartneriaeth sector gyhoeddus), trafodwyd y bwriad i fod yn ddarparwr gofal nyrsio er mwyn ymateb i'r galw a datblygu ein gweithlu ar draws y sector gyhoeddus, gan alluogi staff nyrsio a staff clinigol arall i gael y cyfle i weithio mewn darpariaeth o'r fath fel rhan o'u hyfforddiant a gyrfa.

Yn dilyn cyngor cyfreithiol, mae'r Cyngor wedi derbyn cadarnhad ei bod yn bosib darparu gofal nyrsio gyda chaniatâd y Bwrdd Iechyd neu drwy weithio mewn partneriaeth gyda hwy. Felly ystyrir fod modd dan ddarpariaethau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i sefydlu trefn gydweithredol rhwng y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd a fydd yn arwain at greu darpariaeth sydd yn cynnwys gofal nyrsio. Bydd angen datblygu trefniadau cydweithio addas a chadarn i gefnogi trefniadau o'r fath. Bydd gwaith mwy manwl yn digwydd fel rhan o ddatblygu'r Achos Busnes.

**Graff 11: Rhestr aros cartrefi preswyl Cyngor Gwynedd**




*Ffynhonnell: Cyngor Gwynedd*

Mae'r graff uchod yn dangos y rhestr aros ar gyfer cartrefi preswyl y Cyngor. Nid oes cyfnod penodol i'r rhestr aros yma. Mae'n gyfredol ers 31 Mawrth 2022, ac yn cael ei ddiweddaru'n wythnosol. Mae rhai yn disgwyl mis, ac eraill wedi bod yn disgwyl chwe mis ac yn dal i ddisgwyl. Er enghraifft, mae rhai cartrefi yng Ngwynedd yn cynnig gofal dementia dwys a preswyl. Efallai bod rhywun ar y rhestr aros i gael gofal dementia dwys ond rhywun arall wedi cael symud i'r cartref yn gynt gan eu bod ond angen gofal preswyl. Yn anffodus does dim rhestr aros i gartrefi preifat yng Ngwynedd gan fod y wybodaeth yn gyfredol gan y darparwyr eu hunain.

**Tabl 6: Nifer sydd wedi gorfod aros yn yr Ysbyty yn disgwyl am wely preswyl neu nyrsio yng Ngwynedd yn y ddwy flynedd ddiwethaf (Data Rhagfyr 2022)**

| Ardal | Preswyl | Preswyl EMI | Nyrsio | Nyrsio EMI | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Caernarfon | 29 | 3 | 22 | 7 | 61 |
| Bangor | 18 | 3 | 14 | 6 | 41 |
| Llyn | 21 | 6 | 15 | 8 | 50 |
| De Meirionnydd | 17 | 2 | 18 | 2 | 39 |
| Eifionydd | 19 | 5 | 20 | 3 | 47 |
| **Cyfanswm** | 104 | 19 | 89 | 26 | 238 |

*Ffynhonnell: Hwb Rhyddhau o'r Ysbyty*

### 2.5.3. Dementia


Mae dementia yn salwch dinistriol, sy'n fwy na dim ond colli'r cof. Mae'n glefyd dirywiol ar yr ymennydd sy'n cyfyngu ar fywyd ac yn effeithio ar bob rhan o allu corfforol, gwybyddol,

emosiynol a chymdeithasol unigolyn. (Dementia: mwy na dim ond colli'r cof. Llywodraeth Cymru, 2016)

Mae'n gyflwr cynyddol sy'n gwaethygu dros amser, ac mae'n rhaid i berson sydd â dementia ddibynnu fwyfwy ar ofalwyr wrth i'r cyflwr ddatblygu. Nid oes gwellhad er bod triniaethau sy'n gallu arafu datblygiad rhai mathau o gyflyrau mewn rhai achosion.

**Beth rydym yn ei wybod (Data meintiol)?**

**Graff 12: Amcangyfrif o'r nifer o drigolion dros 65 fydd yn byw gydag Dementia yng Ngwynedd fesul blwyddyn**




*Ffynhonnell: Gwasanaeth Ymchwil Cyngor Gwynedd, ffigyrau wedi eu seilio ar ddull rhagamcanion dementia Gofal Cymdeithasol Cymru*

Gallwn weld o'r graff uchod y rhagwelir bydd y nifer o bobl dros 65 oed yng Ngwynedd efo dementia yn cynyddu o 2,015 yn 2020 i 3,085 yn 2040 sydd yn gynnydd o 34% mewn ugain mlynedd.

Oherwydd ei natur (symptomau yn fwy amlwg dros amser wrth i'r cyflwr waethygu, a chyfradd diagnosis isel) mae'n anodd gwybod faint yn union o bobl sy'n byw efo'r cyflwr. Mae yna astudiaethau cenedlaethol sy'n amcangyfrif y cyfran o boblogaeth gwahanol grwpiau oedran sydd â'r cyflwr, ac ar sail hynny a phroffil oedran Gwynedd, gellir amcangyfrif fod yna 2,049 o unigolion gyda dementia yng Ngwynedd, sef 1.67% o'r boblogaeth (122,864).

**Beth y mae pobl yn ei ddweud (Data ansoddol)?**

Mae'r hyn a gynhigir gan y gwasanaeth Dementia Actif i unigolion a'u gofalwyr yn werthfawr iawn o ran gallu gwella'r profiad o fyw gyda dementia. Mae'r sylwadau canlynol yn sylwadau gan unigolion / gofalwyr sydd wedi elwa o'r ystod gwasanaethau mae Dementia Actif yn ei gynnig.

Mae ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ddementia wedi gwella, ond mae yna dal le i wella a chynyddu gwybodaeth ar draws yr holl boblogaeth, yn enwedig ymysg pobl ifanc.

Mae yna ofn a stigma ynghylch dementia, a bod deiagnosis yn gallu atal person neu eu gofalwyr rhag byw yn dda.  Mae cysylltu pobl a rhannu straeon positif yn gallu helpu.

Gwelir fod y broses asesu a deiagnosis yn cymryd gormod o amser i rai pobl, gydag amseroedd aros hir, ansicrwydd am y camau nesaf a chefnogaeth cyfyngedig drwy gydol y profiad.

Mae gweithgareddau megis Dementia Actif wedi rhoi'r hyder i ofalwyr allu cefnogi a gofalu am unigolion efo dementia.

Astudiaeth Achos gan y gwasanaeth Dementia Actif:

| | |
|---|---|
| **Prif thema:** | Gwerth rhannu gwybodaeth a chefnogaeth cyfoedion yn syth ar ôl deiagnosis o ddementia. |
| **Am y person:** | Mae L yn byw gyda'i gŵr S.  Mae yn 70 mlwydd oed a chafodd ddeiagnosis o dementia cymysg (fasciwlar ac Alzmeiher's) yn Ebrill 2022. |
| **Beth oedd y sefyllfa?** | Tra'n mynd drwy'r broses deiagnosis, am 2 flynedd, nid oedd gan L na'i gŵr unrhyw gefnogaeth.  Dywedodd L nad oedd ganddynt unrhyw syniad beth oedd yn mynd ymlaen na pa gefnogaeth ac adnoddau oedd ar gael.  Newidiodd hyn pan ymwelodd nyrs â hwy yn eu cartrefi i asesu L, a sôn wrthynt am  Dementia Actif.<br><br>Cysylltodd S â rheolwr Dementia Actif a gwahoddwyd y ddau i ddod i weld dosbarth gweithgaredd gorfforol ym Mhwllheli.   Croesawyd y ddau gan grŵp cyfeillgar a penderfynodd y ddau y byddent yn parhau i fynychu'r dosbarth.  Cyn mynychu Dementia Actif, nid oedd y cwpwl wedi bod ynghlwm â, nac wedi cyfrannu at unrhyw grwpiau na gweithgareddau. |
| **Effaith** | Roedd mynychu Dementia Actif ar y cyd efo'r deiagnosis dementia wedi rhoi'r gefnogaeth oedd ei angen iddynt, tra'n cadw'n actif yn gorfforol.  Roedd y sgwrs hanner awr a phaned ar ddiwedd y dosbarth yn rhoi'r cyfle i'r ddau dderbyn cefnogaeth gan eu cyfoedion a dod i adnabod pobl eraill.<br><br>Dechreuodd aelodau'r dosbarth rannu gwybodaeth ac adnoddau gwerthfawr, ynghyd a'u profiadau personol.  Roedd empathi a dealltwriaeth y dosbarth yn werthfawr iawn i'r cwpwl a oedd yn dechrau dod i delerau efo'r deiagnosis.  Roedd L yn teimlo yn y dosbarth, fod pawb yn yr un cwch.<br><br>Rhoddwyd llyfryn 'Mae Pŵer mewn Gwybodaeth' i'r cwpwl (llyfryn sy'n llawn o awgrymiadau defnyddiol all wneud bywyd ychydig yn haws wedi deiagnosis o dementia) a dywedodd S ei fod yn un o'r adnoddau gorau roedd wedi ei dderbyn.  O ganlyniad i'r rhannu gwybodaeth a mynychu |

| | |
|---|---|
| | gweithgareddau dementia gyfeillgar eraill, roedd y cwpwl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Mae mynd allan i grwpiau a gweithgareddau yn gwneud i'r ddau deimlo'n fwy gwerthfawr, ac yn cymell L i godi yn y boreau.<br><br>Ymhellach, mae cyfrannu mewn ymarferion cryfder a balans, ynghyd a chymryd rhan yn y sesiwn garddio dros yr haf, wedi cael buddion iechyd corfforol i L - yn benodol yn helpu efo'r Lymphoedema yn ei choesau. |
| **Deilliannau a gyflawnwyd** | Synnwyr o hunan werth<br>Synnwyr o berthyn<br>Synnwyr o gysylltu efo eraill<br>Synnwyr o gefnogaeth<br>Synnwyr o gynhwysiad<br>Llai unig<br>Mwy o weithgaredd corfforol<br>Gwell iechyd corfforol<br>Cynnydd mewn rhyngweithio cymdeithasol<br>Cynnydd mewn cymhelliant i godi yn y bore |
| **Dyfyniad** | *"Rydym yn hoffi gwneud yr ymarferion tu mewn. Mae gen i Lymphoedema yn fy nghoesau ac mae ymarfer corff yn helpu efo hynny" – L*<br><br>*"Mae gweld LM yn mwynhau ei hun yn fy ngwneud i mor hapus. Dwi'n mwynhau hefyd. Dwi'n cael ymarfer corff hefyd drwy ddod yma" – S.* |

**Beth yw'r ddarpariaeth bresennol (gwasanaethau ac asedau)?**

**Unedau dementia mewn cartrefi preswyl**

Yn ystod 2020 agorwyd uned newydd yng nghartref preswyl Plas Hedd, ac mae gwaith adeiladu yn mynd yn ei flaen i ddatblygu uned dementia gyda saith gwely ychwanegol. Mae hyn yn ychwanegol i'r ddarpariaeth breswyl arbenigol sydd eisoes yn bodoli yng nghartrefi Plas Maesincla, Bryn Blodau, Llys Cadfan a Plas Hafan. Rydym ar hyn o bryd yn paratoi i agor unedau dementia newydd ar gyfer wyth unigolyn yng nghartref Bryn Blodau, a chartref Hafod Mawddach. Pan fydd yr unedau wedi agor, bydd gan y Cyngor 69 o welyau dementia allan o 315 o welyau ar draws 11 cartref preswyl yng Ngwynedd sy'n cael eu defnyddio yn hyblyg i gefnogi unigolion sydd angen gofal hir dymor ac i roi seibiant rheolaidd i ofalwyr. Ni ellir agor yr unedau dementia yma ar hyn o bryd, oherwydd anawsterau recriwtio staff.

Mae'r galw am ddarpariaeth dementia yn parhau i gynyddu'n sylweddol ac er ein bod wedi buddsoddi i gynyddu'r cyflenwad o wlâu mae rhestrau aros am y ddarpariaeth dementia yn amlach gymaint os nad yn uwch na'r rhestrau aros am wlâu preswyl safonol.

Fodd bynnag wrth ystyried y data cenedlaethol a gwybodaeth leol, mae'n rhaid ystyried y posibiliadau i gynyddu nifer yr unedau ymhellach yn y dyfodol neu i addasu cofrestriad cartrefi i gynyddu darpariaeth. Bydd yn rhaid ystyried rheoliadau Arolygaeth Gofal Cymru er mwyn sicrhau bod gofynion staffio priodol yn yr unedau i gwrdd â'r angen. Yn ogystal, bydd angen ystyried oblygiadau cyllido addasiadau i'r cartrefi i sicrhau fod yr amgylchedd yn addas ynghyd a chyllido'r gofal yn yr hir dymor.

**Dementia Actif**

Mae Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia 2018-2022 yn datgan bod tystiolaeth gynyddol yn dangos bod pobl yn gallu cymryd camau i leihau eu risg o ddatblygu rhai mathau o ddementia neu ohirio ei ddechrau. Yn dilyn hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi lansio ymgyrch genedlaethol i godi ymwybyddiaeth o'r ffaith nad yw hi byth yn rhy gynnar neu'n rhy hwyr i wneud newidiadau i'ch ffordd o fyw, trwy ddilyn y chwe cham syml canlynol:

- Bod yn gorfforol egnïol
- Cadw at bwysau iach
- Rhoi'r gorau i smygu
- Bod yn gymdeithasol
- Osgoi yfed gormod o alcohol
- Ymrwymo i adolygu'ch iechyd

Mae'r rhaglen Dementia Actif wedi'i sefydlu yng Ngwynedd ers 2014. Rhaglen o weithgareddau corfforol ydyw, ar gyfer pobl sydd wedi'u heffeithio gan ddementia, gan gynnwys y rhai sydd wedi cael diagnosis a'u gofalwyr, teulu a ffrindiau. Mae'r rhaglen yn cefnogi unigolion efo dementia i fynd i'r afael a'r camau uchod.

Cynhelir 13 o ddosbarthiadau ymarferion ledled Gwynedd gydag oddeutu 200 o bobl yn cymryd rhan bob wythnos. Mae'r sesiynau yn ymestyn yn ddaearyddol o ardal Bangor, Pwllheli a Caernarfon i Porthmadog, Dolgellau, Bermo a Fairbourne.

Er mai ymarfer corff a gweithgaredd corfforol yw prif elfen y prosiect, mae'r gwasanaeth wedi esblygu i fod yn fwy na dosbarthiadau ymarfer corff yn unig. Mae cyfleoedd i gymryd rhan mewn digwyddiadau chwaraeon cymunedol, anturiaethau awyr agored, dawnsfeydd, dosbarthiadau ar-lein, clwb atgofion a digwyddiadau arbennig. Mae'r tîm yn cyflwyno sesiynau ymwybyddiaeth dementia yn y gymuned ac yn dod â phobl sydd wedi'u heffeithio gan ddementia ynghyd i ddweud eu dweud ar sut i wella'r gwasanaeth. Mae hyn oll yn cyfrannu at leihau unigrwydd ac unigedd. Mae gan yr adran weithwyr cefnogol dementia hefyd sydd yn cefnogi unigolion gyda dementia, a'u gofalwyr yn y gymuned.

Er i'r opsiynau hyn gael eu gohirio dros cyfnod Covid, roedd y tîm yn parhau i ymateb drwy gynnig cefnogaeth barhaus i'r aelodau, gan gynnwys gweithgareddau ar-lein.

**2.5.4. Unigrwydd ac Ynysu Cymdeithasol**

Mae yna wahanol fathau o unigrwydd; unigrwydd emosiynol ac unigrwydd cymdeithasol. Unigrwydd emosiynol yw'r teimlad o golli cwmnïaeth unigolyn penodol; ffrind gorau, brawd neu

chwaer, neu gymar yn aml iawn. Mae unigrwydd cymdeithasol yn deillio o ddiffyg rhwydweithiau cymdeithasol neu gylch ehangach o ffrindiau. Gall unigrwydd fod yn deimlad sy'n mynd ac yn dod, a gall unigolion ddioddef unigrwydd ar adegau penodol o'r flwyddyn.

Mae unigrwydd a theimlo'n ynysig yn gallu bod yn niweidiol iawn i bobl hŷn ac mae hyn wedi gwaethygu o ganlyniad i'r pandemig:

- Gall effaith unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol fod mor niweidiol ag ysmygu 15 o sigarennau y dydd a bod yn fwy niweidiol nag gordewdra.
- Mae unigrwydd yn rhoi unigolion mewn mwy o berygl o ddechrau anabledd
- Mae unigrwydd yn rhoi unigolion mewn mwy o berygl o ddirywiad gwybyddol, a daeth un astudiaeth i'r casgliad bod gan bobl sy'n teimlo'n unig siawns uwch (64%) o ddatblygu dementia clinigol.

*(Ffynhonnell: Loneliness: A disease? - PMC (hih.gov))*

Sefydlwyd Tîm Cymorth Covid, a threfniadau Gwydnwch Cymunedol fel rhan o ymateb i'r argyfwng Coronofeirws ym mis Mawrth 2020. Eu pwrpas oedd "*cefnogi trigolion Gwynedd i gael yr help sydd ei angen arnynt i ddelio gyda heriau yr argyfwng*" ac roeddent yn canolbwyntio ar gefnogi'r trigolion hynny nad oeddent yn cael eu cefnogi gan Dimau Gwaith Cymdeithasol y Cyngor.

Yn y cychwyn roedd galwadau yn benodol iawn ynghylch mynediad at fwyd, gwybodaeth am grwpiau i ddarparu bwyd, a nôl meddyginiaethau. Ond gydag amser, datblygwyd sgript drwy ddefnyddio egwyddorion Ffordd Gwynedd a "Collaborative Conversations". O ganlyniad, roedd y galwadau yn canolbwyntio fwy ar yr hyn oedd yn bwysig i'r unigolion, yn helpu'r swyddogion i adnabod yr angen, ac i adnabod datrysiadau posibl ar lefel yr unigolyn a'u cysylltiadau personol, teuluol a chymunedol.

Cynhaliwyd ymarferiad ymgysylltu gan Uned Gyfathrebu'r Cyngor, gyda sampl o drigolion (cyfuniad o drigolion oedd yn cysgodi a thrigolion oedd wedi cael cyswllt gyda'r Tîm). Y prif gasgliadau oedd gwerthfawrogiad o'r cyswllt, sgwrs, cynnig o gefnogaeth, help gyda bwyd a siopa, a gwybodaeth a chyswllt gyda grwpiau a help lleol. Roedd natur y cyswllt yn amrywio, ond yn bwysig iawn yn ystod cyfnod o ynysu cymdeithasol ac unigrwydd mawr.

**Beth rydym yn ei wybod (Data meintiol)?**

Yn ôl data mewnol y Cyngor ar Asesiad o Anghenion Llesiant (2021-2022):

- Mae 16% o bobl yng Ngwynedd yn teimlo'n unig. Mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru (15%).
- Mae 16.6% o bobl 65+ yn byw ar eu pen eu hunain yng Ngwynedd, mae hyn yn uwch na gweddill Cymru (13.7%).
- O ran pobl dros 65 oed, mae gan Wynedd ganran uwch o bobl mewn iechyd da (62%) sy'n uwch na chyfartaledd Cymru (56.1%).

**Beth y mae pobl yn ei ddweud (Data ansoddol)?**

Yn ystod y pandemig rhoddwyd trefniadau brys ar waith drwy Grŵp Gwydnwch Cymunedol Gwynedd (GGCG) gan ddod a phartneriaid allweddol ynghyd i ymateb i'r argyfwng. Esblygodd y trefniadau hyn dros amser, fel roedd y sefyllfa yn datblygu a newid.

Cwblhawyd y broses gwerthuso ym mis Hydref 2020. Roedd yn cynnwys gwaith pen desg, holiadur trigolion, cyfweliadau ffôn a gweithdy gyda phartneriaid.

O'r cyswllt a'r galwadau lles a wnaethpwyd gyda'r 5,080 o drigolion a gysylltodd gyda Llinell Gymorth COVID Cyngor Gwynedd, roedd 2,329 angen cymorth gyda'r prif bethau canlynol:

- Help ymarferol i nol bwyd, nwyddau a meddyginiaethau
- Unigedd a chael cyswllt gydag eraill teulu, ffrindiau, a chysylltiadau yn eu cymuned
- Cyngor iechyd a gofal.
- Cymorth iechyd meddwl
- Cael hyd i wybodaeth
- Help i gadw yn iach ac actif
- Help i fynd ar-lein
- Help a chyngor ariannol.

Yn dilyn y pandemig ym Medi 2021, dyrannodd Llywodraeth Cymru grant o £25,000 i bob Cyngor yng Nghymru. Un o brif fwriadau'r arian hwn oedd cynyddu hyder pobl hŷn i ail afael mewn bywyd cymdeithasol a rhoi hwb a chefnogaeth i grwpiau ail gychwyn mewn cymunedau yn dilyn y cyfnodau clo. Roedd sawl grŵp a oedd yn cefnogi pobl hŷn wedi rhoi'r gorau iddi ers Mawrth 2020. Roedd cynnig grant bychan yn sbardun iddynt allu ail gychwyn ac roedd swyddogion y Cyngor yn gallu cynnig cefnogaeth yn ystod y broses gyda asesiadau risg ac ati.

Un o amodau'r grant oedd defnyddio'r arian i glywed llais pobl hŷn. Gwnaethpwyd hyn trwy ddarparu holiaduron i bob unigolyn a fynychodd ddigwyddiad. Y cwestiynau a ofynnwyd oedd:

1. Pa mor hyderus ydych chi yn teimlo am ail godi allan ar ôl y pandemig?
2. Pa ddigwyddiadau / cymdeithasau / clybiau sydd ar eich cyfer yn eich ardal chi?
3. Beth sydd ar goll yn eich ardal?
4. Pa gefnogaeth buasech yn hoffi ei weld yn eich ardal?

Mae bas data wedi ei greu i gasglu holl adborth yr holiaduron, a'r bwriad yw darparu cylchlythyrau a digwyddiadau ymgysylltu chwarterol.

O'r £25,000 a dderbyniwyd penderfynwyd dyrannu y grant ar sail cyfanswm £5,000 yr un i bob un o ardaloedd Gwynedd gan weithio trwy'r broses gyda Chysylltwyr Cymunedol Bangor, Caernarfon, Eifionydd a Gogledd Meirionnydd, De Meirionnydd, Llŷn.

**71**

**Ceisiadau**

Bu i ni dderbyn 71 cais ar draws Gwynedd ac yn falch o ddweud ein bod wedi gallu ariannu'r rhan fwyaf o geisiadau. Roedd rhai yn geisiadau bychain i un digwyddiad a rhai'n cynnig cyfres o ddigwyddiadau.

**57**

**Dyfarnwyd**

Aethpwyd trwy'r ceisiadau a gweld pa rai oedd yn cyrraedd y gofynion a dyranwyd cyfanswm o 57 grant.

Roedd rhai ceisiadau ar gyfer cyfres o ddigwyddiadau a rhai ar gyfer un digwyddiad mawr.

**1948**

**Niferoedd elwodd**

Elwodd 1948 o bobl hŷn ar draws Gwynedd ac mae hyn wir yn dangos gwerth y grant. Roedd llawer o'r unigolion hyn hefyd yn nodi sut nad ydynt wedi cymdeithasu llawer wyneb yn wyneb yn eu cymunedau ers y cyfnod clo cyntaf.

**Beth yw'r ddarpariaeth bresennol?**

Mae gan Cyngor Gwynedd sawl cytundeb gwasanaeth gyda mudiadau o'r trydydd sector sydd yn cefnogi pobl hŷn, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i ddechrau adolygu'r holl gytundebau er mwyn sicrhau ein bod yn blaenoriaethu ar sail beth sy'n bwysig i bobl Gwynedd.

Dyma rai o'r cynlluniau sydd ar gael i gefnogi'r boblogaeth hŷn i geisio lleihau unirwydd yng Ngwynedd:

**Canolfannau Heneiddio'n Dda** – mae yna 10 canolfan Heneiddio'n Dda ar draws y sir er mwyn hyrwyddo lles a chreu cyfleoedd cyfarfod cymdeithasol ar gyfer y rhai dros 50 mlwydd oed sy'n byw yng Ngwynedd.  Dyma leoliadau'r canolfannau:

- *Nefyn*
- *Y Bala*
- *Dolgellau*
- *Cricieth*
- *Penrhyndeudraeth*
- *Blaenau Ffestiniog*
- *Llanrug*
- *Abersoch*

- *Caernarfon*
- *Aberdyfi*

Maent yn darparu ystod eang o weithgareddau, ac yn gyfle i eistedd a chael paned a sgwrs, mewn lleoliad cymunedol lleol. Yn ogystal, mae yna glybiau dydd ar gyfer unrhyw un dros 50 oed sydd angen cymorth ychwanegol, neu ofal personol.

**Pontio'r Cenedlaethau** – mae sawl prosiect pontio'r cenedlaethau yn gweithio gyda'r amcan o leihau unigrwydd ac ynysigrwydd. Y bwriad yw creu cysylltiadau newydd rhwng plant a phobl o bob oedran. Bydd hyn yn cynyddu parch a dealltwriaeth rhwng y cenedlaethau ac yn arwain at gymunedau cryfach.

Un prosiect sydd wedi ei sefydlu ers dwy flynedd yw cynllun pen-pals ble mae plant o ysgolion ar draws Gwynedd yn llythyru gyda phobl hŷn er mwyn lleihau unigrwydd. Roedd un llythyr a dderbyniodd un plentyn yn dweud fod "*dy lythyr wedi bod yn chwa o awyr iach yng nghanol unigrwydd y pandemig*" a llythyr arall yn nodi dynes yn dod adre o'r ysbyty ac yn ymateb i lythyr plentyn trwy nodi "*mai'r unig beth roeddwn yn edrych ymlaen ato oedd dy lythyr di*". Mae'r dyfyniadau hyn yn dangos pa effaith y gall prosiect mor syml ei gael ar unigolion. Cafwyd dros 150 o bartneriaid pen-pals ar draws y sir ac erbyn hyn mae ambell bartner wedi cael y cyfle i ddod ynghyd mewn 'parti gradd'.

**Meinciau Cyfeillgarwch** – mewn cydweithrediad gyda sawl partner ar draws Gwynedd cafwyd cydweithio efo Llwybrau Llesiant i greu 14 mainc gyfeillgarwch ar draws Gwynedd. Bwriad y meinciau yw eu bod yn fan i wahodd pobl i eistedd os ydynt yn teimlo ychydig yn unig ac yn fan i bobl ddod atynt am sgwrs. Mae gwneuthuriad y meinciau wedi bod yn gyfle i bobl o bob oed a chefndir mewn cymunedau gydweithio i'w gwneud.

**O Ddrws i Ddrws** – wedi derbyn grant yn Rhagfyr 2021 i gefnogi eu rhaglen waith Lôn i Les sydd yn gyfres o ddigwyddiadau cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn ym Mhen Llŷn.

**Yr Orsaf** – hefyd wedi derbyn grant i drefnu digwyddiadau cymdeithasol ac wedi cydweithio ar brosiect pontio'r cenedlaethau yn flaenorol.

**Canolfan Henblas** – mae Cysylltwr Cymunedol De Meirionnydd yn gweithio'n agos iawn â Chanolfan Henblas i drefnu digwyddiadau cymdeithasol rheolaidd yn yr ardal.

Yn ogystal a'r uchod, mae yna:

**Fforymau Pobl Hŷn Gwynedd** – cynhelir tri chyfarfod y flwyddyn ym mhob un o'r pum ardal yng Ngwynedd er mwyn ymgysylltu, clywed lleisiau pobl hŷn a chynnig cyfleoedd i gymdeithasu. Bydd mudiadau trydydd sector y sir yn cael cyfle i rannu gwybodaeth yn y fforymau a bydd pobl hŷn yr ardal yn derbyn gwahoddiad i fynychu. Cynhelir cynhadledd flynyddol yn ogystal.

**Cylchlythyrau** – yn dilyn digwyddiadau ymgysylltu ddechrau 2022 daeth i'r amlwg fod llawer o bobl hŷn Gwynedd yn nodi nad ydynt yn cael y mynediad delfrydol at wybodaeth ac yn teimlo

yn aml eu bod yn clywed am ddigwyddiadau/cyfleoedd ar ôl iddynt ddigwydd. O ganlyniad i hyn, yn cyd-fynd â'r fforymau, bydd pump cylchlythyr ardal yn cael eu dyrannu trwy'r post ac ebyst i bobl sydd ar ein bas data a gwahoddir mudiadau i rannu gwybodaeth a gweithio efo chysylltwyr cymunedol yr ardaloedd i gasglu gwybodaeth.

**Rhannu gwybodaeth** – sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rannu mewn mannau addas i'r gynulleidfa briodol e.e. papurau bro.

Yn ychwanegol i'r uchod, mae'r trydydd sector yn cyflogi Cysylltwyr Cymunedol o fewn bob un o'r timau adnoddau cymunedol. Mae eu rôl yn cynnwys mapio beth sydd ar gael mewn cymunedau, yn adnabod y bylchau, ac yn gweithio gyda cymunedau.

### 2.6. Casgliadau ac argymhellion

**Cefnogi pobl gartref:** yn dilyn y gwaith ymgysylltu, a'r hyn rydym wedi ei ddysgu o ganlyniad i bandemig COVID, mae gwaith ar y gweill i drawsnewid y ddarpariaeth, ac i geisio darparu'r gwasanaeth mewn ffordd wahanol, neu i ddarparwyr y trydydd sector i gymryd drosodd.

Mae cefnogaeth gofal dydd yn rhan o ddarpariaeth sy'n cefnogi'r blaenoriaethau isod -

- Cefnogi unigolion i fyw yn annibynnol
- Gwasanaethau lleol
- Hybu llesiant
- Cefnogi gofalwyr

Byddai trawsnewid y gwasanaeth yn lleihau'r ddibyniaeth ar wasanaeth traddodiadol ac yn cryfhau cysylltiadau drwy:

- Gryfhau cefnogaeth cymunedol
- Gwirfoddolwyr/grwpiau cymunedol
- Cefnogaeth trydydd sector
- Gweithwyr cefnogol dementia.

Bydd pobl yn gallu cael gwell mynediad at ofal a chefnogaeth yn eu cymuned eu hunain.
Golyga hyn y gall pobl aros yn eu cartrefi yn hirach.

Yn ystod 2022/23, byddwn yn:

- parhau i arfogi'r timau integredig (timau sy'n cynnwys staff gofal yn ogystal â staff iechyd) i allu cyflawni'r hyn sy'n bwysig i oedolion Gwynedd. Bydd hyn yn cynnwys edrych ar hyfforddiant priodol a dileu unrhyw rwystrau technolegol.
- gweithredu a sefydlu model newydd gofal cartref gan ddechrau profi manteision y newid er lles trigolion Gwynedd.
- parhau i gryfhau'r Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol, yn cynnwys datblygu gwasanaeth symud a thrin arbenigol i alluogi unigolion i fyw mor annibynnol â phosib.

- cytuno ar y ffordd fwyaf addas i ddiwallu anghenion llesiant unigolion mewn modd ataliol yng Nghaernarfon, fydd yn ddarpariaeth cymunedol i holl oedolion yr ardal.
- cydweithio hefo Iechyd a phartneriaid trydydd sector i sicrhau cysondeb o ran mynediad i wasanaethau iechyd meddwl addas ar draws Gwynedd fel bod unigolion yn derbyn cymorth amserol.

**Cartrefi Nyrsio:** mae prinder cynyddol o welyau nyrsio ar gyfer anghenion ein poblogaeth yn golygu ein bod mewn sefyllfa fregus iawn. Mae'r Cyngor yn parhau i ddatblygu trefniadau cydweithio ac achos busnes gyda'r bwrdd iechyd a fydd yn arwain at greu mwy o ddarpariaeth. Mae'n flaenoriaeth i allu darparu fwy o welyau nyrsio yng Ngwynedd.

**Tai a llety:** sicrhau fod unrhyw ddatblygiadau cartrefi newydd yn hygyrch i bawb, drwy er enghraifft, ymgorffori mesurau dementia gyfeillgar a thai / cartrefi a datblygiadau hygyrch. Parhau i ariannu tai cymdeithasol hygyrch i bobl hŷn, ynghyd ag addasu tai presennol i'w gwneud yn fwy addas i anghenion newidiol iechyd y boblogaeth.

**Gweithlu:** mae yna argyfwng yn wynebu gofal cymdeithasol pobl hŷn ac, mae'r pandemig wedi gwaethygu'r sefyllfa. Mae'n flaenoriaeth i sicrhau bod yna weithlu digonol mewn lle er mwyn gallu diwallu anghenion y boblogaeth hŷn yng Ngwynedd. Mae adroddiad sefydlogrwydd y farchnad yn edrych ymhellach ar hyn.

# 3. Anabledd Corff a Nam ar y Synhwyrau

**3.1. Gwybodaeth am y bennod hon**

Mae'r bennod hon yn cynnwys anghenion y boblogaeth oedolion sydd ag anabledd corfforol a nam ar y synhwyrau yng Ngwynedd.

**3.2. Diffiniadau**

**Beth a olygir gan y term 'Anabledd Corfforol' a 'Nam ar y Synhwyrau'?**

- Defnyddir y term *anabledd corfforol* i ddisgrifio unigolyn sydd dan 65 mlwydd oed ac â chyfyngiad ar weithrediad corfforol, symudedd, deheurwydd neu stamina. Ond mae hefyd yn gallu cyfeirio at unigolyn 65+ sydd ag anabledd sy'n cael effaith arnynt yn gorfforol megis strôc.
- *Nam ar y synhwyrau* yw'r term cyffredin a ddefnyddir i ddisgrifio byddardod, dallineb, nam ar y golwg, nam ar y clyw a byddar ddallineb.

**3.3. Y polisïau a'r deddfau sydd wedi siapio ein gwasanaethau**
Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi pwyslais ar atal ac ymyrraeth gynnar, a rhoi mwy o lais a rheolaeth i unigolion sydd angen gofal a chefnogaeth. Mae gofyn i gomisiynwyr, a darparwyr i gyd-gynhyrchu gwasanaeth gyda'r rhai hynny sy'n eu defnyddio, eu teuluoedd a'u cymunedau. Gobeithir bydd cydweithio rhwng y timoedd ardal a'r darparwyr o gymorth i ddatblygu a gwella ein gwasanaeth ar gyfer y dyfodol.

Mae'r ddeddf uchod yn canolbwyntio ar roi yr unigolyn yn ganolog i popeth rydym yn ei wneud drwy:

- Gydweithio gyda'r unigolion i sicrhau ein bod yn deall beth sy'n bwysig iddynt
- Cydweithio gyda'n darparwyr gofal er mwyn gwella a datblygu'r gwasanaeth i bobl Gwynedd
- Roi hawl i unigolion gael llais cryfach a mwy o reolaeth
- Helpu unigolion er mwyn iddynt gael cyfle i wella eu llesiant a gallu byw mor annibynnol â phosibl
- Sicrhau fod yna wasanaethau ataliol a digon o wybodaeth ar gael
- Gwneud gofal cymdeithasol yn well

**3.4. Beth rydym yn ei wybod am y boblogaeth?**
Mae'r data a ddefnyddir ar gyfer yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar unigolion anabledd corfforol rhwng 18-64 mlwydd oed yn ogystal â data gan Y Ganolfan Arwyddo Golwg a Sain a Chymdeithas Y Deillion ar gyfer yr elfen nam ar y synhwyrau. Rydym yn gwybod fod y maes anabledd corfforol a nam ar y synhwyrau yn eang iawn gyda rhai unigolion angen lleoliad mewn cartrefi preswyl neu nyrsio, gofal cartref, gwasanaeth ysbaid a llawer mwy.

Mae gwaith ymgysylltu gyda'r timau ardal yn ogystal â darparwyr trydydd sector wedi digwydd ar gyfer yr asesiad hwn er mwyn cael eu barn ynglŷn â'r gwasanaeth sydd ar gael i unigolion gydag anabledd corfforol neu nam ar y synhwyrau.

**Unigolion gydag Anabledd Corfforol (18-64 mlwydd oed)**
Mae unigolion rhwng 18-64 mlwydd oed yn derbyn nifer eang o wasanaethau gennym megis lleoliadau preswyl/nyrsio, gofal cartref, gofal ysbaid a Thaliadau Uniongyrchol. Ar hyn o bryd, nid yw'r data yn galluogi inni wahaniaethu rhwng cyflyrau unigolion sy'n derbyn gwasanaeth gan y Cyngor.

Mae'r adborth rydym wedi ei dderbyn gan y timau ardal a darparwyr yn nodi fod diffyg lleoliadau addas ar gyfer yr unigolion hyn yng Ngwynedd. Felly, o ganlyniad mae unigolion yn gorfod symud tu allan i Wynedd ar adegau i dderbyn gwasanaeth. Un enghraifft o hyn yw nad oes llawer o gartrefi preswyl a nyrsio addas ar gael i unigolion gydag anabledd corfforol yng Ngwynedd. Manylir mwy ar hyn ymhellach ymlaen yn y bennod hon.

Mae Cyngor Gwynedd yn ceisio gwneud mwy o ddefnydd o'r lleoliadau anabledd dysgu, ond nid ydi'r rhain bob tro yn addas ar gyfer unigolion gydag anabledd corfforol. O ganlyniad i hyn, mae trafodaethau wedi cychwyn gyda'r Tîm Anabledd Dysgu i edrych ar leoliadau posib ac addasu lleoliadau cyfredol ar gyfer unigolion ag anabledd corfforol.

**3.5. Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym?**

**Anabledd Corfforol**
Fel rydym eisoes wedi ei nodi, un o'r problemau sy'n wynebu ein timau ydi nad oes digon o leoliadau preswyl/nyrsio i gyfarch anghenion unigolion sydd ag anabledd corfforol yn lleol. Mae hyn yn arwain i ni orfod lleoli unigolion tu allan i Wynedd sy'n golygu eu bod yn gorfod gadael eu cynefin, ond mae hyn hefyd yn costio mwy i ni fel Cyngor.

Rydym yn gwybod trwy edrych ar ein data mewnol fod gennym 20 unigolyn efo anabledd corfforol wedi eu lleoli mewn cartref preswyl/nyrsio ar hyn o bryd gyda 12 ohonynt wedi cael eu lleoli yn all-sirol (Medi 2021). Mae hefyd yn bwysig nodi fod rhai unigolion yn dewis cael eu lleoli yn all-sirol er mwyn bod yn agosach at deulu/ffrindiau. Yn anffodus nid yw'r data yn ein caniatáu ni i wahaniaethu rhwng yr unigolion hynny sydd wedi dewis symud i gartref all-sirol ac faint sydd wedi gorfod symud oherwydd nad oedd cartref addas ar gael i gyfarch eu anghenion yn lleol.


Mae rhai unigolion yn dewis symud y tu allan i Wynedd gan fod mwy o weithgareddau ar gael i gyfarch eu hanghenion. Un enghraifft yw fod unigolyn o Wynedd wedi dewis symud i gartref yn Wrecsam gan fod mwy o weithgareddau ar gael iddo. Mae posibilrwydd fod lleoli unigolion yn all sirol gan nad oes gweithgareddau addas ar gael yn lleol yn costio mwy yn hir dymor. Ond ar y llaw arall mae'n anodd cael gweithgareddau i gyfarch anghenion pawb.

Mae ein gwariant ar leoliadau preswyl/nyrsio anabledd corfforol yn £24,348.83 yr wythnos gyda lleoliadau yn amrywio o £566.30 yr wythnos i £3,787.34 yr wythnos. Mae'r ffigyrau yma yn

seiliedig ar 20 o leoliadau ym mis Medi 2021. Roedd 12 o'r lleoliadau yma yn all sirol (5 Nyrsio a 7 Preswyl) a dim ond 8 o fewn Gwynedd (5 Nyrsio a 3 Preswyl).

Mae llawer o alw am asesiad gan y Tîm Therapi Galwedigaethol yng Ngwynedd ar hyn o bryd gyda rhestr aros mewn rhai ardaloedd. Gweler y siart isod yn dangos sawl unigolyn sy'n aros am asesiad gan y Tîm Therapi Galwedigaethol ymhob ardal (ffigyrau yn seiliedig am y galw ar 05.10.2021):

**Graff 13: Nifer o unigolion sy'n aros am asesiad gan Therapydd Galwedigaethol fesul ardal**




*Ffynhonnell: Data mewnol oddi ar y 'Welsh Community Care Information System' (WCCIS), Hydref 2021*

Mae'r siart uchod yn dangos fod 80 o unigolion yn aros am asesiad gan y Tîm Therapi Galwedigaethol yn ardal Caernarfon tra fod dim ar y rhestr aros yn Eifionydd. Eglurodd y Tîm Therapi Galwedigaethol fod rhai unigolion wedi bod yn aros 6-8 mis am asesiad. Ond mae'n bwysig nodi fod yr achosion yn cael eu blaenoriaethu ar sail pa mor frys ydi'r angen. Gan fod nifer o'r unigolion sy'n disgwyl am asesiad yn byw mewn tai cymunedol, mae'n golygu nad oedd unrhyw un yn cael ymweld â'r cartref yn ystod cyfyngiadau COVID.

Mae Gwynedd yn rhan o bartneriaeth gyda Môn, Conwy a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar ran y elfen Therapydd Galwedigaethol. Golyga hyn fod pob asesiad am gyfarpar yn gorfod cael ei ganiatáu o fewn panel sy'n cyfarfod yn wythnosol. Mae aelodau'r panel yn cynnwys cynrychiolwyr o Wynedd, Môn, Conwy a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae Tîm Therapi Galwedigaethol Gwynedd yn nodi fod teimlad o rwystredigaeth gan fod adegau pan fydd y Panel yn gwrthod cyfarpar sydd wedi cael ei argymell gan y Therapydd Galwedigaethol yn y gymuned. Roedd y tîm yn teimlo fod y Therapydd Galwedigaethol yn adnabod yr unigolyn yn well gan eu bod wedi eu gweld i gynnal asesiad ac nid ydi'r Panel erioed wedi cyfarfod yr unigolyn. Yn ychwanegol i hyn, os ydi'r achos yn un mwy cymhleth, bydd yn gorfod cael ei gyfeirio i banel arbenigol (y panel yma ond yn cyfarfod unwaith y mis).

Mae Gwynedd yn cael eu holl gyfarpar o'r Cyd-Storfa yn Llanfairfechan – bydd y Tîm Therapi Galwedigaethol yn cysylltu gyda'r storfa i archebu'r cyfarpar ac yna bydd yn cael ei ddosbarthu i

gartref yr unigolyn. Ond mae adegau pan nad ydi'r cyfarpar ar gael sy'n golygu fod rhaid aros yn hirach.

Rhaid nodi hefyd fod Brexit wedi cael effaith ar gyflenwad cyfarpar gan nad yw rhai pethau ar gael ar y funud sy'n golygu oedi wrth gael y cyfarpar i'r unigolyn. Mae'n bwysig ein bod yn edrych ar y gwahanol opsiynau, gan gydnabod fod y sefyllfa bresennol yn rhwystredig.

Roedd y Tîm Therapi Galwedigaethol hefyd yn cydnabod fod manteision dros weithio mewn partneriaeth gan fod posib prynu cyfarpar am bris gwell.

Mae cwmni preifat yng Ngwynedd sy'n llogi cyfarpar yn nodi fod y galw am y gwasanaeth wedi cynyddu dros y ddwy flynedd diwethaf. Un o'r prif resymau tu ôl i hyn ydi fod mwy o bobl yn ymweld â'r ardal ar eu gwyliau ac felly yn awyddus i logi cyfarpar megis cadeiriau olwyn, sgwter, comod ar sail dros dro.

Soniodd un o Weithwyr Cymdeithasol Gwynedd hefyd fod unigolyn yn gorfod teithio i Aberystwyth pob wythnos er mwyn gallu cymryd rhan mewn gem pêl fasged gyda chadair olwyn. Yn anffodus nid oes unrhyw weithgareddau fel hyn ar gael o fewn Gwynedd ar y funud. Mae'r Cyngor yn awyddus i ddatblygu adnoddau aml-bwrpas ar draws gwasanaethau, ynghyd â chefnogi unigolion i wneud gweithgareddau gyda phawb arall.

**Nam ar y synhwyrau**

Rydym fel gwlad yn wynebu problem o ddiffyg cefnogaeth i unigolion gyda nam ar y synhwyrau ac tydi Gwynedd ddim yn eithriad. Mae adroddiad ar 'How easy to use are servcies if you have a sensory impairment' gan Healthwatch (Gorffennaf 2019) yn amlinellu'r problemau cenedlaethol sy'n wynebu unigolion gyda nam ar y synhwyrau. Mae'r adroddiad yn dweud fod diffyg gwasanaethau ar gyfer unigolion gyda nam ar y synhwyrau yn broblem cenedlaethol.

Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y gwasanaeth iechyd, ond mae hefyd yn amlygu'r problemau sy'n wynebu unigolion gyda nam ar y synhwyrau o ddydd i dydd e.e. mae gwneud apwyntiad i weld meddyg yn gallu bod yn hynod o anodd i unigolyn gyda nam ar y synhwyrau os nad ydynt yn gallu defnyddio'r ffôn. Felly mae'n bwysig sicrhau fod opsiynau eraill ar gael i unigolion gyda nam ar y synhwyrau allu gwneud apwyntiad e.e. galluogi unigolion i wneud apwyntiad drwy neges destun neu e-bost.

Mae'n bwysig nodi fod nifer o sefydliadau eisoes yn cynnig y gwasanaeth yma, ond mae'r adroddiad gan Healthwatch yn dangos pwysigrwydd y gwasanaeth i unigolion sydd â nam ar y synhwyrau. Nodir o fewn yr adroddiad hefyd sut mae'n bwysig cael opsiwn i unigolion ddewis clywed neu gweld rhywbeth; e.e. pe bai unigolyn gyda nam ar y synhwyrau yn mynychu apwyntiad ac yn eistedd yn yr ystafell aros, mae sgrîn yn dweud pwy sydd nesa. Ond yn anffodus ni fyddai cyfathrebu yn y ffordd yma o unrhyw gymorth i unigolyn sy'n ddall. Mae hyn hefyd yn wir pe bai unigolyn yn eistedd yn aros am apwyntiad ac mae rhywun yn dod allan i alw pwy sydd nesaf, ni fyddai hyn o unrhyw gymorth i unigolyn sydd gyda problemau clyw. Mae'r adroddiad yn nodi ei fod yn ymarfer da cynnwys y ddau opsiwn fel fod rhywbeth i'w weld yn ysgrifenedig a rhywbeth fyddai unigolyn yn gallu ei glywed.

Dywedodd darparwr trydydd sector bod angen gwneud gwefan y Cyngor fwy addas ar gyfer unigolion gyda nam ar y synhwyrau.

Mae ein gwaith gyda phartner trydydd sector wedi dangos fod diffyg gofalwyr sy'n gallu cyfathrebu gyda unigolion mewn iaith arwyddion yn broblem. Mae'r ffaith fod diffyg gofalwyr gyda'r arbenigedd yn golygu nad oes lleoliadau addas ar gyfer unigolion sydd â nam ar y synhwyrau. Un enghraifft o hyn fyddai fod unigolyn o Gwynedd wedi cael ei lleoli mewn cartref o fewn y sir ble nad ydi staff yn gallu cyfathrebu gyda hi. Roedd yr unigolyn yn derbyn cefnogaeth gan asiantaeth trydydd sector ddwy waith yr wythnos, ond bu i'r gwasanaeth yma gael ei atal dros dro. Nid oes cartref gyda staff sy'n gallu cyfathrebu trwy iaith arwyddion ar gael yng Ngwynedd na gweddill Cymru. Mae'n debyg mai'r cartref agosaf fyddai Lerpwl ac mae hi'n anodd cael lleoliad yno. Mae'r unigolyn yma erbyn hyn wedi symud i gartref arall o fewn y sir sy'n agosach i deulu sy'n golygu eu bod nhw'n gallu mynd mewn i gyfathrebu gyda hi.

Mae yn boen meddwl i nifer o unigolion sydd gyda nam ar y synhwyrau feddwl beth fydd yn digwydd iddynt os bydd angen lleoliad preswyl/nyrsio gan mai ond dau leoliad arbenigol sydd ar gael ym Mhrydain (un yn Lerpwl ac un arall yn Ynys Manaw). Mae'r adroddiad 'How easy to to use are servcies if you have a sensory impairment' gan Healthwatch hefyd yn nodi ei fod yn anodd dod o hyd i rhywun sy'n gallu cyfathrebu trwy iaith arwydd.

Mae Uned Hyfforddi y Cyngor yn cynnig nifer eang o wahanol hyfforddiant ar gyfer cefnogi a gweithio gyda unigolion sydd gyda nam ar y synhwyrau. Gweler isod restr o'r hyfforddiant sy'n cael ei gynnig o fewn y maes fwy arbenigol:

- Nam Golwg.
- Ymwybyddiaeth Byddardod – yn anffodus nid ydi'r hyfforddiant yma wedi bod ar gael ers COVID. Byddai'n fuddiol gweld yr hyfforddiant yma yn ailgychwyn.
- Colled synhwyrol deuol.
- Makaton yn cael ei drefnu i blant ac oedolion (ddim drwy gyfnod COVID).
- Yn ariannu British Sign Language (BSL) i unigolion drwy grŵp Llandrillo Menai.
- Picture Exchange Communication System (PECS) wedi cael ei ddarparu yn rhanbarthol.

Byddai'n ddefnyddiol iawn cael rhagor o staff gofal i fynychu'r hyfforddiant uchod er mwyn gwella a datblygu eu sgiliau i gyfathrebu a gweithio gydag unigolion sydd â nam ar y synhwyrau.

Mae adroddiad blynyddol gan Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall a gyhoeddwyd yn 2021 yn nodi mai dim ond un mewn pump unigolyn gyda nam ar y golwg yng Ngwynedd sy'n gyflogedig. Trwy barhau i gefnogi'r unigolion hyn a chydweithio gyda Chymdeithas y Deillion gallwn anelu i gynyddu'r ffigwr yma dros y blynyddoedd sydd i ddod.


Trwy edrych ar adroddiad Y Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall mae hefyd yn nodi fod 4,820 o unigolion yng Ngwynedd gyda nam ar y golwg. Rhai o'r prif resymau pam fod unigolion yn colli eu golwg ydi:

- Gwall plygiannol heb ei gywiro gyda golwg - 39%
- Age-related macular degeneration (AMD) - 23%
- Cataract – 19%
- Glaucoma – 7%
- Afiechyd llygaid sy'n ymwneud a chlefyd siwgr - 5%

Mae ystadegau Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall yn nodi fod 250 o bobl yn colli eu golwg pob dydd ym Mhrydain.

Nodir hefyd fod mwyafrif o'r unigolion sydd gyda nam ar y golwg yng Ngwynedd dros 65 mlwydd oed. Gweler y siart isod sy'n dangos dadansoddiad o'r gwahanol grŵp oedrannau:

**Graff 14: Dadansoddiad grŵp oedran unigolion sydd â nam ar y golwg**




*Ffynhonnell: Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall (2021)*

Mae nifer o ffactorau yn gallu cyfrannu tuag at nam ar y golwg gan gynnwys ysmygu, bod dros bwysau a llawer mwy. Nodir o fewn adroddiad Cymdeithas y Deillion fod iechyd unigolion o fewn Gwynedd yn well na chyfartaledd Cymru, ond mae dal nifer o unigolion yn dioddef o nam ar y golwg o fewn y sir.

Caiff ei amcangyfrif fod 4,820 o unigolion gyda nam ar y golwg yng Ngwynedd gyda 4,170 ohonynt yn rhannol ddall a 650 yn dall (ffigyrau o adroddiad Cymdeithas y Deillion).

Mae Cymdeithas y Deillion yn nodi o fewn yr adroddiad eu bod yn amcangyfrif bydd 5,910 o unigolion yng Ngwynedd yn dioddef o nam golwg erbyn 2030 sy'n gynnydd o 21% o'i gymharu ag ystadegau 2021.

**Tabl 7: Amcangyfrif o'r nifer o unigolion yng Ngwynedd sydd yn dioddef a nam golwg fesul blwyddyn**

| | 2021 | 2025 | 2030 |
|---|---|---|---|
| Rhannol Ddall | 4,170 | 4,630 | 5,080 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dall | 650 | 750 | 830 |
| Cyfanswm | 4,820 | 5,380 | 5,910 |

*Ffynhonnell: Cymdeithas y Deillion*

Nodir o fewn yr adroddiad gan Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall fod cost uniongyrchol ar gyfer nam ar y golwg yn £6,570,000 bob blwyddyn (Gwynedd yn unig). Mae'r gost uniongyrchol yn cynnwys triniaeth ysbyty, prawf llygaid a llawer mwy. Ond mae hefyd costau anuniongyrchol sy'n cynnwys gwaith a wneir yn ddi-dâl gan deulu/ffrindiau unigolyn sydd gyda nam golwg. Amcangyfrifir fod y ffigwr yma oddeutu £11,400,000 y flwyddyn yng Ngwynedd.

Roedd adborth a dderbyniwyd gan Gymdeithas y Deillion yn nodi bod nifer o unigolion yn dweud y byddent yn hoffi mwy o gyswllt gyda'r Gymdeithas. O ganlyniad, penderfynwyd treialu cyflogi tri aelod o staff i gysylltu gydag unigolion dros y ffôn, ac yn dilyn llwyddiant y fenter penderfynwyd cadw un swyddog i gysylltu gydag unigolion dros y ffôn. Mae cael swyddog i gysylltu gyda rhai unigolion dros y ffôn yn rhyddhau amser swyddogion eraill i wneud ymweliadau cartref.

Nid oes gan Gymdeithas y Deillion unrhyw restr aros ar hyn o bryd gan eu bod wedi ymateb i'r galw trwy gyflogi mwy o staff.

Mae Cymdeithas y Deillion yn cydnabod bydd rhai o'r aelodau staff sydd ganddynt yn siarad Cymraeg yn ymddeol mewn rhai blynyddoedd ac mae'n cymryd tair mlynedd i hyfforddi swyddog newydd. O ganlyniad, mae Cymdeithas y Deillion wedi cyflogi dau Hyfforddai newydd sy'n gallu siarad Cymraeg fel eu bod yn gallu parhau i ddarparu gwasanaeth yn iaith dewisol yr unigolyn sy'n derbyn gwasanaeth.

Mae Cymdeithas y Deillion yn cydweithio gydag Adran Addysg y Cyngor i adnabod pobl ifanc sydd â nam ar y synhwyrau (dim ond yr elfen pobl hŷn mae'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn dalu amdano) ac yn ceisio sicrhau fod plant Gwynedd yn cael yr offer sy'n angenrheidiol iddynt. Un enghraifft o hyn fyddai fod plentyn yn defnyddio offer ar gyfer nam ar y golwg yn yr ysgol, ond nid ydyw yn bosib mynd a'r offer yma adre. Felly gyda mwy o blant yn dilyn gwersi ysgol o adre yn ystod COVID daeth cais i geisio cael cyfarpar i'r plant ei ddefnyddio adre.

Mae Cymdeithas y Deillion hefyd wedi cydweithio gyda Phrifysgol Bangor i gynnal arolwg oedd yn edrych ar unigolion sydd â nam ar y golwg ac os oedd yna angen heb ei ddiwallu am wasanaethau cwnsela. Roeddent yn edrych hefyd ar yr effaith ar y gyllideb a'r gwerth cymdeithasol o ddarparu'r gwasanaethau yma.

Dangosodd yr arolwg bod yna dystiolaeth o angen heb ei ddiwallu am wasanaethau cwnsela i bobl sy'n byw efo nam ar y golwg yng Ngogledd Cymru. Fe all cwnsela amserol wella gallu unigolyn i ymdopi efo nam ar y golwg a gwella ansawdd eu bywyd. Pan nad yw pobl sy'n byw efo nam ar y golwg yn cael mynediad at wasanaethau cwnsela, fe all arwain at ansawdd bywyd gwaelach ac o bosib mwy o gostau oherwydd y defnydd o'r gwasanaethau statudol yn y dyfodol.

Bydd y canfyddiadau yn cael eu lansio'n swyddogol yng Nghynhadledd Gofal Llygaid yng Nghaerdydd ym mis Tachwedd 2022.

### 3.6. Adolygiad o'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd

Yn aml, mae pobl gydag anabledd corfforol a nam ar y synhwyrau angen cefnogaeth gyda sawl agwedd o'u bywyd, gan gynnwys ble maent yn byw, beth maent yn ei wneud yn ystod y dydd, eu bywyd cymdeithasol a chael seibiant.

Rydym fel Cyngor yn anelu i gyrraedd gofynion pob unigolyn sydd angen gwasanaeth. Mae gan Wynedd wahanol ffyrdd o ddarparu gwasanaeth i wahanol bobl:

**Taliadau Uniongyrchol**
Mae Taliadau Uniongyrchol yn wasanaeth ble mae'r Cyngor yn talu swm o arian i gyfrif banc unigolyn sy'n gymwys am wasanaeth ac mae'r unigolyn wedyn yn gyfrifol am gyflogi rhywun i ddarparu'r gwasanaeth. Trwy dderbyn gwasanaeth trwy drefniant Taliadau Uniongyrchol mae'r unigolyn yn cael cyflogi aelod o'r teulu neu ffrind i ddarparu'r gofal. Mae 28 o unigolion gydag Anabledd Corfforol yn derbyn gwasanaeth trwy Taliadau Uniongyrchol (ffigwr Medi 2021).

Mae'r Cyngor yn comisiynu Diverse Cymru i gydlynu'r gwasanaeth yma. Mae Swyddog Gweinyddu Taliadau Uniongyrchol o fewn y Cyngor yn cydweithio'n agos gyda'r darparwr i sicrhau fod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu o'r safon uchaf posib.

Mae Taliadau Uniongyrchol yn opsiwn poblogaidd os nad ydi'r unigolyn sydd angen y gwasanaeth yn gallu dod o hyd i ofalwyr addas. Felly trwy dderbyn Taliadau Uniongyrchol mae'r unigolion yn cael cyflogi pwy mae nhw eisiau.

Mae'n bosib i'r gofalwyr sy'n darparu gofal drwy drefniant Taliadau Uniongyrchol dderbyn hyfforddiant trwy'r Cyngor fel unrhyw ofalwr arall drwy ymweld â gwefan y Cyngor, sy'n rhestru'r hyfforddiant sydd ar gael. Nid oes llawer o ofalwyr Taliadau Uniongyrchol yn cymryd y cyfle yma gan nad yw'n orfodol i dderbyn hyfforddiant craidd o fewn y maes gofal os yn darparu gwasanaeth trwy Taliadau Uniongyrchol. Mae'n gyfrifoldeb ar yr unigolion sy'n derbyn y gwasanaeth i sicrhau fod y gofalwyr a gyflogir ganddynt yn addas ar gyfer y gwaith.

**Gofal Cartref**
Mae nifer o unigolion yn dewis derbyn gwasanaeth Gofal Cartref gan ei fod yn caniatáu i'r unigolyn fyw adref yn cartref ei hunain gyda gofalwyr yn dod mewn i gynorthwyo gyda rhai elfennau o fywyd pob dydd megis darparu bwyd, darparu gofal personol, promptio meddyginiaeth a llawer mwy.

Trwy edrych ar ddata unigolion rhwng 18-64 mlwydd oed sy'n derbyn gwasanaeth gofal cartref gallwn weld fod y galw am y gwasanaeth wedi cynyddu dros y blynyddoedd. Roedd 95 o unigolion gydag anabledd corfforol yn derbyn gwasanaeth gofal cartref yn ystod 2017-18, ond mae hyn wedi cynyddu i 108 yn 2021-22 (ffigyrau yn gyfredol ar 26.11.2021), sef cynnydd o 88%. Mae'r data sydd gennym ar unigolion rhwng 18-64 mlwydd oed yn dangos fod 802.75 awr o ofal

cartref yn cael ei ddarparu yn wythnosol i unigolion gyda anabledd corfforol (ffigyrau yn gyfredol ar 26.11.2021).

Yn anffodus mae diffyg gofalwyr o fewn y maes yn achosi problemau gan nad oes digon o ofalwyr ar gael i ddarparu'r galw am ofal o fewn Gwynedd.

Mae gofal cartref yn cael ei gomisiynu ar sail achosion unigol ar y funud.  Ond mae'r elfen o ofal cartref anabledd corfforol yn mynd law yn llaw gyda'r gwasanaeth gofal cartref i bobl hŷn sy'n golygu sy'n golygu fod y gwasanaeth yn rhan o'r prosiect gofal cartref ble mae Gwynedd yn edrych i ddarparu gwasanaeth gofal cartref ar sail cyfrifoldeb gan ddarparwyr dros ardaloedd penodol.

**Llety**
Cydnabyddir fod yna ddiffyg llety arbenigol ar gyfer oedolion efo anabledd corff a/neu nam ar y synhwyrau; fe fyddai llety arbenigol yn arbed arian yn hir dymor i'r Cyngor gan na fyddai angen lleoli gymaint o unigolion tu allan i Wynedd a byddai hefyd yn golygu fod yr unigolion yn cael aros o fewn eu cynefin.  Ond ar y llaw arall rydym yn ymwybodol hefyd nad oes digon o alw am leoliad yn benodol ar gyfer oedolion efo anabledd corff a/neu nam ar y synhwyrau.

**Cartrefi Preswyl a Nyrsio**
Mae 33 o gartrefi preswyl a nyrsio yng Ngwynedd.

Lleolir rhai unigolion y tu allan i Wynedd gan fod diffyg darpariaeth gofal arbenigol o fewn y cartrefi yng Ngwynedd.

Nid yw'n orfodol i unigolion ddod trwy'r Cyngor i gael lleoliad mewn cartref preswyl/nyrsio yng Ngwynedd.  Golyga hyn y gall unigolion gysylltu gyda'r cartrefi preifat yn uniongyrchol i gael lleoliad, ond os yn penderfynu trefnu'r lleoliad yn breifat bydd disgwyliad i'r unigolyn dalu'n breifat am y lleoliad.

Os ydi unigolyn yn dewis dod trwy'r Cyngor, mae'r broses o gael lleoliad fel a ganlyn:

- Asesiad gan Weithiwr Cymdeithasol fydd yn penderfynu pa fath o ofal sydd ei angen
- Gweithiwr Cymdeithasol yn trafod pa leoliadau addas sydd wrth ymyl fyddai'n gallu cyfarch yr anghenion.
- Gweithiwr Cymdeithasol yn dod o hyd i leoliad addas ar gyfer yr unigolyn a gwneud trefniadau gyda'r cartref i drefnu'r lleoliad
- Asesiad Ariannol yn cael ei gynnal er mwyn penderfynu faint fydd yr unigolyn yn gyfrannu tuag at y gofal.

Unwaith bydd yr unigolyn wedi cael lleoliad cynhelir adolygiad yn flynyddol er mwyn sicrhau nad ydi anghenion yr unigolyn wedi newid ac hefyd i sicrhau fod y lleoliad yn parhau i gyfarch eu hanghenion.

**Tai Gofal Ychwanegol**

Mae tri datblygiad tai gofal ychwanegol yng Ngwynedd wedi eu sefydlu yn Y Bala, Bangor a Phorthmadog. Mae Paneli Gosod ar y cyd gyda'r Cyngor yn cyfarfod ar gyfer asesu pobl sydd ar y rhestr aros am unedau TGY, pan mae fflat yn dod yn rhydd. Mae'r Panel hefyd yn asesu os oes capsiti o fewn y cynllun i ddarparu'r gofal angenrheidiol ar gyfer yr unigolion.

**Gwasanaeth Eiriolaeth**

Mae eiriolaeth yn golygu rhoi cefnogaeth i unigolion trwy roi llais iddynt. Un o brif amcanion y gwasanaeth ydi helpu unigolion i deall eu hawliau a mynegi eu barn.

Mae Cyngor Gwynedd yn comisiynu gwasanaeth eiriolaeth annibynnol North Wales Advice And Advocacy (NWAAA) i gydlynu'r gwasanaeth ar ein rhan. Nid yw'r darparwr gwasanaeth yn cynghori unigolion, ond yn hytrach maent yn dod o hyd i wybodaeth i helpu unigolion benderfynu beth yw'r ffordd orau ymlaen.

Fel rhan o'r gwasanaeth mae'r darparwr eiriolaeth yn cynnig mynychu apwyntiadau gyda unigolion er mwyn cynnig cefnogaeth iddynt.

**Gwasanaeth Gofal a Thrwsio**

Mae nifer o unigolion yn awyddus i aros gartref mor hir a phosib, felly mae'r gwasanaeth Gofal a Thrwsio yn cynorthwyo i helpu unigolion aros gartref trwy osod cyfarpar perthnasol yn eu cartrefi, i'w helpu i gyflawni tasgau eu hunain. Mae'r adroddiadau rydym yn ei dderbyn gan Gofal a Thrwsio yn dangos fod pobl Gwynedd yn gwneud defnydd mawr o'r gwasanaeth. Wele'r tabl isod sy'n crynhoi'r cyfeiriadau a dderbyniwyd ganddynt rhwng Medi 2020 – Ebrill 2021:

**Tabl 8: Data Gofal a Thrwsio 2020-21**

| Data Gofal a Thrwsio 2020-21 | Ebrill 2020– Mawrth 2021 |
|---|---|
| Cais am wasanaeth (cyfeiriadau) | 1379 |
| Nifer o unigolion wnaeth dderbyn cymorth | 1123 |
| Nifer y gwaith a gwblhawyd | 1343 |
| Rhaglen gymorth adsefydlu Preswyl i hwyluso'r broses o unigolyn yn cael ei ryddhau adre o'r Ysbyty | 353 |
| Rhaglen gymorth adsefydlu Preswyl i atal unigolion orfod cael mynediad i'r Ysbyty | 990 |
| Amser cwblhau (diwrnodau gwaith) | 9 |
| **2020-21 Diogelwch yn y Cartref – Gwynedd yn unig**<br>**810** o achosion<br>**9** diwrnod ar gyfartaledd i wneud y gwaith | |

*Ffynhonnell: Data mewnol y Gwasanaeth Gofal a Thrwsio*

Mae'r ffaith fod y gwasanaeth wedi llwyddo i atal unigolion rhag cael mynediad i'r ysbyty yn dangos pa mor werthfawr ydi'r gwasanaeth er mwyn galluogi unigolion i aros yn eu cartref a rhyddhau gwelyau yn yr ysbytai.

Darparwyr Trydydd Sector

Mae darparwyr trydydd sector yn cefnogi unigolion gyda nam ar y synhwyrau yng Ngwynedd. Mae'r Cyngor yn ariannu'r gwasanaeth yma ac mae'r cyllid yn cael ei adolygu'n flynyddol.

**Cymdeithas y Deillion**

Mae adroddiad gan Cymdeithas y Deillion yn nodi fod 4,820 o unigolion wedi eu cofrestru gyda nam ar y golwg a 620 o unigolion wedi eu cofrestru yn rhannol ddall yng Ngwynedd (data yn seiliedig ar adroddiad gafodd ei gyhoeddi gan Cymdeithas y Deillion yn 2021).

**Amcanion Gwasanaeth Cymdeithas y Deillion**

- Sicrhau bod gan unigolion ag amhariad golwg a'u teuluoedd fynediad llawn at amrediad eang o wasanaethau ac arbenigedd a ddarperir yn benodol gan Gymdeithas y Deillion a'u bod yn cael eu cyfeirio ymlaen at wasanaeth a ddarperir gan Iechyd / Addysg / Cyflogaeth yn unol â'r angen a chaniatâd yr unigolyn.
- Darparu cyngor a chefnogaeth er lles pobl ddall a rhannol ddall yn ardaloedd dynodedig y Gymdeithas.

**Disgwyliadau Gwasanaeth**

- Gweithredu canllawiau ar gyfer mynediad i wasanaeth
- Trefnu a chynnal ymweliadau asesu anghenion cychwynnol yn unol a meini prawf

**Targed Ymateb**

- Achos Brys – Disgwyliad i ymateb o fewn yr un diwrnod
- Achos Sylweddol/Canolog - Disgwyliad i ymateb o fewn 7 diwrnod
- Achos Canolig/Isel - Disgwyliad i ymateb o fewn 28 diwrnod

Mae gan Gymdeithas y Deillion dîm sydd wedi eu lleoli ym Mangor sy'n ffiltro'r ymholiadau a dderbynnir gan y cyhoedd. Golyga hyn fod y galwadau yn cael eu cyfeirio i'r lle cywir a'r swyddogion yn gallu canolbwyntio ar bwy sydd angen ymweliad.

**Y Ganolfan Arwydd, Golwg a Sain**

- Gwella ansawdd bywyd pobl sydd â nam ar eu synhwyrau gan gynnwys unigolion arwyddiaith trwy ddarparu mynediad gwell at wybodaeth, addysg, cyfleoedd, cyflogaeth, nwyddau a gwasanaethau.
- Darparu gwasanaeth cefnogol cynhwysfawr yn y gymuned i bobl sydd â nam ar eu synhwyrau gan gynnwys unigolion arwyddiaith.
- Darparu gwasanaeth adfocatiaeth i bobl sydd â nam ar y synhwyrau gan gynnwys unigolion arwyddiaith.

**Disgwyliadau Gwasanaeth**

- Cyngor/Gwybodaeth – disgwylir i'r Ganolfan ddarparu llinell gymorth ar gyfer unigolion gyda nam ar y synhwyrau, teuluoedd a gofalwyr rhwng Dydd Llun – Gwener 9:00 – 17:00. Mae hefyd yn ofynnol i'r Ganolfan ddarparu gwybodaeth trwy gyhoeddi newyddlen ar y

rhyngrwyd sy’n cael ei ddiweddaru yn rheolaidd. Yn ogystal a hyn mae’r Ganolfan hefyd yn darparu gwybodaeth dwyieithog trwy daflenni a phosteri ac yn cynorthwyo’r Cyngor i sefydlu polisi mewn perthynas a chyfnod trawsnewid plant yn oedolion.


- Canolfan Adnoddau/Cymhorthion Amgylcheddol – mae'r Ganolfan yn cynghori unigolion ynglŷn â chyfarpar pwrpasol sydd ar gael iddynt yn ogystal a mynd allan i'w cartrefi i'w osod a dangos sut i'w ddefnyddio.
- Mae’r Ganolfan hefyd yn cynnig ‘Cynllun Cyn Prynu’ ble mae unigolyn yn gallu benthyca offer cyn ei brynu neu hyd nes mae eu hoffer nhw yn cael ei drwsio. Bydd yn bosib benthyca’r offer am hyd at bythefnos.
- Cynorthwyo unigolion i fynychu apwyntiadau meddygol.
- Mae’r Ganolfan hefyd yn cynnig gwerthu cyfarpar i unigolion sydd ddim yn cyrraedd y trothwy statudol.

Trwy edrych ar adroddiad gan Ganolfan Arwydd, Golwg a Sain ar gyfer 2020/21 gallwn weld eu bod wedi derbyn 152 o gyfeiriadau gan Wynedd. Mae’r graff isod yn dangos fod y Ganolfan wedi derbyn nifer o ymholiadau (130) ac yn dangos llawer o gefnogaeth tuag at unigolion gyda nam ar y synhwyrau. Ond mae’n dangos hefyd nad oeddent wedi bod allan i wneud unrhyw waith cynnal a chadw ar gyfarpar yn ystod 2020/21. Roedd cyfyngiadau COVID yn 2020/21 yn golygu nad oeddent yn cael ymweld a chartrefi unigolion, ond mae’r gwasanaeth yma bellach wedi ailgychwyn sydd yn gymorth mawr i unigolion sydd wedi derbyn cyfarpar newydd ac ddim yn rhy siŵr sut mae’n gweithio.

Trwy gymharu’r ffigyrau uchod gyda chyfeiriadau 2019/20 gallwn weld fod llawer o alw am y gwasanaeth cynnal a chadw cyfarpar cyn COVID (395 cyfeiriad). Mae COVID yn amlwg wedi lleihau’r galw gan nad oedd y Ganolfan yn cael ymweld a chartrefi unigolion.

Mae’r graff isod yn dangos beth oedd natur y cyfeiriadau hyn:

**Graff 15: Cyfeiriadau’r Ganolfan Arwyddo, Golwg a Sain yn ôl blwyddyn**




*Ffynhonnell: Data mewnol y ganolfan Arwyddo, Golwg a Sain (2021)*

**3.7. Casgliad ac argymhellion**

**Prif ddarganfyddiadau**

1. Yr unig ffordd o adnabod achosion anabledd corfforol ydi trwy edrych ar achosion ble mae'r unigolion rhwng 18-64 mlwydd oed. Nid oes gan ein system ffordd arall o adnabod achosion y boblogaeth sydd ag anabledd corfforol.

2. Nid oes data ar nam ar y synhwyrau yn cael ei gadw ar ein system electronig – cedwir y wybodaeth yma gan ein darparwyr yn y trydydd sector sydd yn adrodd yn ôl i ni.

3. Nid oes digon o leoliadau llety arbenigol addas ar gyfer unigolion gyda anabledd corfforol a nam ar y synhwyrau o fewn Gwynedd. Mae yna gydnabyddiaeth bod yna ddiffyg, ond yn ymwybodol hefyd nad oes digon o alw am leoliad penodol o fewn y sir

4. Nid yw gwefan Cyngor Gwynedd yn addas i unigolion sydd â nam ar y synhwyrau ei defnyddio.

5. Mae posibiliadau i wneud mwy o ddefnydd o'r lleoliadau anabledd dysgu sydd ar gael.

6. Nid oes gweithgareddau addas ar gael o fewn mewn rhai o ardaloedd Gwynedd megis chwaraeon i unigolion gyda anabledd corfforol neu nam ar y synhwyrau. Roedd y timoedd ardal hefyd yn adrodd nad ydi'r darparwyr sy'n darparu gwasanaeth i unigolion gyda anabledd dysgu pob tro yn fodlon cydweithio gyda nhw.

7. Nid oes llawer o ddefnydd yn cael ei wneud o'r gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol.

**Argymhellion**

1. Byddai'n fuddiol i'r Cyngor gadw rhestr o unigolion sy'n disgyn i'r categori 'Anabledd Corfforol' fel ein bod yn gallu gweld os ydi'r galw am y gwasanaeth yn cynyddu neu leihau dros y blynyddoedd. Byddai gwneud hyn yn ein cynorthwyo i gael darlun mwy cyflawn ynglŷn a faint o unigolion sy'n derbyn gwasanaeth ac sut rydym fel Cyngor yn mynd i ddiwallu'r angen.

2. Fel yr uchod byddai'n fuddiol cadw rhestr o unigolion sydd gyda nam ar y synhwyrau.

3. Mae angen gwneud gwefan y Cyngor fwy hygyrch i unigolion gyda nam ar y synhwyrau.

4. Gan nad oes gweithgareddau arbenigol ar gael yn lleol i unigolion gyda nam ar y synhwyrau ac anabledd corfforol, mae angen trafod y gallu i ddatblygu adnoddau aml-bwrpas ar draws gwasanaethau, a chefnogi unigolion i wneud gweithgareddau gyda phawb arall.

5. Mae angen codi ymwybyddiaeth ac ehangu dealltwriaeth unigolion ynglŷn a'r gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol. O bosib byddai'n arwain at fwy o unigolion yn dewis derbyn eu gwasanaeth trwy Taliadau Uniongyrchol.

6. Ailgychwyn yr hyfforddiant Ymwybyddiaeth Byddardod.

**Ymgysylltu**

Cafwyd sgyrsiau efo'r canlynol dros Teams yn ystod mis Ionawr 2022:
Arweinyddion timau oedolion Gwynedd
Cymdeithas y Deillion
Y Ganolfan Arwyddo, Golwg a Sain
Gofal a Thrwsio

# 4. Anabledd Dysgu

### 4.1. Gwybodaeth am y bennod hon

Mae'r bennod hon yn cynnwys anghenion y boblogaeth oedolion efo anabledd dysgu yng Ngwynedd.

### 4.2. Diffiniadau

**Beth a olygir gan y term 'anabledd dysgu'?**

Yn rhyngwladol mae tri maen prawf i'w cwrdd cyn gellid nodi anabledd dysgu:

- nam deallusol sylweddol
- diffygion mewn gweithredu cymdeithasol neu ymddygiad addasol (sgiliau sylfaenol bob dydd) sydd wedi bod yn bresennol ers plentyndod gydag effaith datblygiadol hir dymor

Wrth benderfynu ar anghenion, mae'r asesiad aml ddisgyblaethol hefyd yn ystyried sgiliau cyfathrebu ac ymddygiad cymdeithasol.

Rhoddir ystyriaeth i'r canlynol cyn gosod unigolyn ar y gofrestr anabledd dysgu:

a) Anawsterau datblygol sydd wedi bod yn bresennol cyn iddynt fod yn 18 mlwydd oed; a
b) Chyfyngiad sylweddol mewn 1 neu fwy o'r meysydd gweithredu addasol (gallu unigolyn i symud ymlaen mewn ansicrwydd); a
c) Nam gwybyddol sylweddol.

Fe all unigolyn fod angen gwasanaeth os nad yw'n bosib i'w canlyniadau personol gael eu cwrdd drwy ofal a chymorth sy'n cael eu cydlynu ganddyn nhw, eu teulu neu ofalwyr. Nid yw'r bwrdd echyd yn gweithio efo unigolion sydd ddim ar y gofrestr.

**Beth a olygir gan y term 'awtistiaeth'?**

Mae canran o'r bobl efo anabledd dysgu hefyd efo awtistiaeth. Defnyddir y term *awtistiaeth* i ddisgrifio cyflwr datblygol gydol oes sy'n effeithio sut mae person yn cyfathrebu efo, ac yn perthnasu efo pobl eraill. Mae awtistiaeth hefyd yn effeithio sut mae person yn gwneud synnwyr o'r byd o'u cwmpas. Mae'n anhwylder sbectrwm sy'n golygu, tra bod pob person efo awtistiaeth yn rhannu anawsterau penodol, bydd y cyflwr yn eu heffeithio mewn gwahanol ffyrdd. Ceir rhagor o wybodaeth manwl ar anghenion pobl efo awtistiaeth ym Mhennod 5.

**Beth ydym yn ei feddwl gan y term anabledd dwys a chymhleth (PMLD)?**

Defnyddir y term PMLD i ddisgrifio pobl sydd efo mwy nag un amhariad gan gynnwys amhariad deallus dwys (Doukas e tal., 2017). Disgrifiad ydyw, yn hytrach na deiagnosis clinigol o unigolion sy'n cael anhawster mawr i gyfathrebu ac sydd yn aml angen i'r rhai hynny sy'n eu hadnabod yn dda i ddehongli eu hymatebion a bwriadau. Mae'r term yn cyfeirio at grŵp amrywiol o bobl sydd yn aml efo anawsterau gan gynnwys anhwylder corfforol neu synhwyraidd neu anghenion iechyd cymhleth.

**4.3. Y polisïau a'r deddfau sydd wedi siapio ein gwasanaethau**

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi pwyslais ar atal ac ymyrraeth gynnar, a rhoi mwy o lais a rheolaeth i unigolion sydd angen gofal a chefnogaeth. Mae gofyn i gomisiynwyr, a darparwyr i gyd-gynhyrchu gwasanaeth gyda'r rhai hynny sy'n eu defnyddio, eu teuluoedd a'u cymunedau. Gobeithir y bydd y Grŵp Trawsffurfio Gwasanaeth Anabledd Dysgu yn parhau i fod yn gyfrwng i drafod ac ymestyn hyn ymhellach.

Mae'r Ddeddf uchod yn adeiladu ac yn datblygu ar brif bwyntiau Polisi ac Ymarfer i Oedolion efo Anabledd Dysgu (linc - datganiad-ar-bolisi-ac-arfer-ar-gyfer-oedolion-ag-anabledd-dysgu) a gyhoeddwyd yn 2007, sef:

- Mae pob person efo anabledd dysgu yn ddinasyddion llawn efo'r un hawliau a phawb arall.
- Efo'r gefnogaeth gywir, mae angen sicrhau fod pobl yn gallu byw bywyd iach, cynhyrchiol ac mor annibynnol a phosibl.
- Cyfle i bobl allu cyrraedd eu llawn potensial.
- Rydan ni eisiau gwneud yn siwr fod y gwasanaeth yn rhoi'r person yn ganolog wrth wneud unrhyw benderfyniadau.
- Rydan ni eisiau gwneud yn siwr fod unigolion yn cyfrannu at, ac yn rhan o'u cymuned.
- Cael mynediad at wasanaethau yn y gymuned.

ac mae'n mynd ymhellach i ddatgan bod yn rhaid i awdurdodau lleol:

- Roi hawl i bobl gael llais cryfach a mwy o reolaeth.
- Helpu pobl i gymryd mwy o ran mewn cynllunio gwasanaethau.
- Roi mwy o hawliau i ofalwyr.
- Helpu pobl er mwyn iddynt gael cyfle i wella eu llesiant a gallu byw mor annibynnol a phosibl.
- Sicrhau fod yna wasanaethau ataliol a digon o wybodaeth ar gael.
- Gyd-gynllunio efo'n darparwyr.
- Gwneud gofal cymdeithasol yn well.

Mae patrwm gofal a chefnogaeth i bobl efo anabledd dysgu, i raddau helaeth, yn dilyn etifeddiaeth 'Strategaeth Cymru Gyfan' a gyflwynwyd yn 1983 (roedd yr egwyddorion yn cael eu hailadrodd yn yr arweiniad a gyhoeddwyd yn 1994 ac eto yn arweiniad Adran 7 ar egwyddorion ac ymatebion gwasanaeth yn 2004). Mae hyn yn cael ei adlewyrchu nid yn unig yn y ffocws ar anghenion unigolion, ond hefyd yng ngwerthoedd y bobl sy'n darparu gofal a chefnogaeth, gyda phwyslais ar ddull person ganolog sy'n parchu hawliau'r person.

Mae'r dogfennau isod wedi arwain at siapio y gwasanaethau anabledd dysgu sydd gennym heddiw:

- *'All Wales Strategy for the development of Services for Mentally Handicapped People' (1983)*
- *'Cyflawni'r Addewidion' – Grŵp cynghori ym maes anabledd dysgu (2001)*

- *'Polisi ac Ymarfer i Oedolion efo Anabledd Dysgu' (2007)*
- *'Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)' (2014)*
- *'Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol' (2014)*
- *Strategaeth Anabledd Dysgu Gogledd Cymru 2018-23*

Mae'n bwysig fod gwir ddewisiadau pobl ag anabledd dysgu yn cael eu clywed a'u deall ac fe all eiriolwyr fod yn werthfawr iawn o ran helpu pobl i fynegi eu dewisiadau eu hunain, yn hytrach na'r hyn sydd orau gan eraill.

Mae Cod Ymarfer (Rhan 10: Eiriolaeth) y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn diffinio eiriolaeth fel un o'r dulliau o gefnogaeth sydd ar gael i bobl sydd angen cymorth i weithio drwy materion bywyd. Mae'n cefnogi ac yn galluogi pobl sy'n cael anhawster mewn cyfathrebu eu barn, i arfer eu hawliau, mynegi eu barn ac archwilio a gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth.

Mae angen datblygu eiriolaeth sy'n dilyn egwyddorion y Ddeddf a bod yn llawer mwy gweithredol o ran ymgysylltu yn enwedig ar brosiectau trawsnewid a chanolbwyntio gwaith ar egwyddorion cyd-gynhyrchu – o ran staff, gofalwyr a'r unigolion sy'n cael eu cefnogi.


Mae cyfathrebu rhwng y budd-ddeiliaid yn bwysig iawn wrth gydweithio ac mae'n bwysig fod pob budd-ddeiliad yn agored i gydweithio.

**4.4. Beth rydym yn ei wybod am y boblogaeth?**

Mae yna 596 o unigolion ar y Gofrestr Anabledd Dysgu yng Ngwynedd ym mis Medi 2022. Nid yw pawb sydd ar y gofrestr anabledd dysgu yn derbyn gwasanaeth; 438 o unigolion oedd yn derbyn rhyw fath o wasanaeth ym Medi 2022 (72%). Mae'r gweddill unai wedi derbyn asesiad sy'n dangos nad ydynt angen ymyrraeth gan fod eu anghenion yn cael eu diwallu mewn ffordd arall, neu fod yr unigolion wedi dewis peidio a derbyn ymyrraeth. Mae rhai unigolion yn cael eu cyfeirio at wasanaethau eraill yn hytrach na derbyn gwasanaethau statudol.

Mae'r graff isod yn dangos nifer yr oedolion sydd ar y gofrestr anabledd dysgu yng Ngwynedd yn ôl oedran:


**Graff 16: Nifer yr unigolion ar y Gofrestr Anabledd Dysgu yn ôl oed (Medi 2022)**



*Ffynhonnell: Data mewnol oddi ar y 'Welsh Community Care Information System' (WCCIS)*

**Tueddiadau**

**Graff 17: Nifer yr unigolion ar y Gofrestr Anabledd Dysgu yng Ngwynedd (diwedd Mawrth bob blwyddyn)**




*Ffynhonnell: Data mewnol oddi ar y 'Welsh Community Care Information System' (WCCIS)*

Mae'r graff uchod yn dangos y nifer o unigolion sydd ar y Gofrestr Anabledd Dysgu. Fe welwn fod y nifer wedi cynyddu ers 2012, sef cynnydd o 9% yn nifer yr oedolion ar y Gofrestr Anabledd Dysgu yng Ngwynedd, tra bo cynnydd o 14% yn y niferoedd ar y gofrestr yng Nghymru.

Mae gwaith ymchwil gan Emerson a Hatton yn dangos bod nifer y bobl ag anabledd dysgu yn cynyddu a rhagwelir y bydd y cynnydd yma yn parhau hyd at 2020 ac yn sefydlogi wedyn.

Mae dau brif reswm am hyn:

- Cynnydd yn nifer y plant efo anghenion dwys a chymhleth sy'n byw heibio'r cyfnod newydd-anedig
- Pobl hŷn efo anabledd dysgu yn byw yn hirach.

Bydd yn rhaid disgwyl blwyddyn neu ddwy i weld a fydd y rhagamcaniad yma yn cael ei wireddu, ond hyd yn hyn, mae'r nifer yn parhau i gynyddu.

**Pobl hŷn efo anabledd dysgu**

Mae tystiolaeth yn dangos fod pobl hŷn yn un o'r grwpiau sy'n tyfu gyflymaf oddi fewn i'r boblogaeth anabledd dysgu (Emerson and Hatton 2011).

Mae yna 178 o oedolion dros 55 mlwydd oed ar y Gofrestr Anabledd Dysgu ar hyn o bryd (75 o unigolion dros 65 mlwydd oed), sydd yn gynnydd o 1.7% ers 2019.

Mae'r rhagdybiaethau mwyaf diweddar yn awgrymu y bydd nifer yr oedolion dros 70 mlwydd oed sy'n defnyddio gwasanaethau ar gyfer pobl efo anabledd dysgu yn dyblu erbyn 2030. Ar hyn o bryd, mae yna 48 o unigolion dros 70 mlwydd oed yn derbyn gwasanaeth yng Ngwynedd.

O ystyried y cynnydd yn y boblogaeth sy'n heneiddio, bydd nifer y bobl sy'n byw efo rhiant oedrannus hefyd yn cynyddu. Ar hyn o bryd, mae oddeutu 75 o unigolion yn byw efo rhieni oedrannus yng Ngwynedd.

Mae'r angen i gynllunio ar gyfer y dyfodol yn parhau yn flaenoriaeth i bob teulu sy'n heneiddio efo'i gilydd. Mae unigolion a'u teuluoedd yn wynebu heriau cynyddol fel y maent yn heneiddio ac mae nifer yn poeni am y dyfodol pan na fydd y gofalydd teuluol yn gallu parhau i ofalu. Mae angen parhau i gefnogi gofalwyr i gynllunio ar gyfer y dyfodol; cynlluniau ar gyfer argyfwng gan ystyried opsiynau lletya, ynghyd â chefnogi gofalwyr i gynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae'r rhain yn sgyrsiau anodd, ond agored efo gofalwyr ac mae gofalwyr sydd eisoes wedi mynd drwy'r profiad o gynllunio ymlaen fel hyn yn fwy na pharod i rannu eu profiadau positif efo gofalwyr eraill.

Gan fod pobl efo anabledd dysgu yn byw yn hirach, maent yn fwy tebygol i ddatblygu salwch sy'n gysylltiedig ag oed. Yn ychwanegol, mae risg uwch o ddatblygu dementia fel maent yn mynd yn hŷn, o'i gymharu â'r boblogaeth gyffredinol (Cooper, 1987).

Mae Kerr (2007) yn adrodd bod 3 astudiaeth wedi darganfod fod graddau cyffredinolrwydd dementia ymysg pobl efo anabledd dysgu yn 13% o bobl dros 50 mlwydd oed, a 22% o'r bobl dros 65 mlwydd oed.

I bobl efo Syndrom Downs, mae'r risg o ddatblygu dementia yn sylweddol ac mae'n cynyddu wrth fynd yn hŷn: mae Lai a Williams (1989) yn adrodd graddfa cyffredinolrwydd o 55% ymysg unigolion 50-59 mlwydd oed, tra bod Prasher (1995) yn ei roi yn 36.1%. Mae'r ddau astudiaeth yn adrodd graddfa cyffredinolrwydd o 74% i'r rhai hynny 60 mlwydd oed a hŷn.

**Trosglwyddo o Wasanaethau Plant i Wasanaethau Oedolion**

Mae'r cyfnod trosiannol yma yn gallu bod yn gyfnod pryderus i bobl ifanc (a'u gofalwyr), sy'n symud o wasanaeth mae rhai wedi ei adnabod ers pan yn blant ifanc, i wasanaeth newydd a gweithwyr gwahanol, lle mae'r disgwyliadau yn hollol wahanol. Mae'n bwysig felly fod y trosglwyddiad yn un llyfn a di-dor ac yn rhoi y person yn ganolog. O ganlyniad felly, mae angen sicrhau bod cydweithio da rhwng gwasanaeth Derwen (Tîm Integredig Plant Anabl) a'r Gwasanaeth Anabledd Dysgu i Oedolion.

Mae'r Polisi Oed Trosglwyddo a luniwyd rhwng gwasanaeth Derwen a'r Gwasanaeth Oedolion yn nodi fod angen rhannu gwybodaeth (angen caniatâd y plentyn / gofalwr), pan fo'r unigolyn yn 14 mlwydd oed. Bydd yr achos wedyn yn cael ei drafod yn y Fforwm Oed Trosglwyddo, sy'n cyfarfod bob yn ail mis. Mae cynrychiolaeth o'r gwasanaeth oedolion a gwasanaeth Derwen yn y Fforwm.

Unwaith bydd cyswllt wedi dechrau mae'r tîm yn gallu mynychu cyfarfodydd aml-ddisgyblaethol ac adolygiadau addysgol a bod yn rhan o'r trafodaethau am y Cynllun Dysgu Unigol. Mae amser cychwyn yr asesu yn y cyfnod rhwng 16 ac 18 oed yn dibynnu ar gymhlethdod yr

anghenion. Ambell waith bydd y broses asesu yn cymryd peth amser ac yn cynnwys Iechyd/ cais Gofal Iechyd Parhaus ayb.

Gydag unigolion lle nad oes cadarnhad o ddiagnosis Anabledd Dysgu (ac mae nifer cynyddol o'r rhain sydd weithiau mewn ysgol anghenion arbennig a ddim ar agor i Derwen) rydym yn ceisio eu hadnabod drwy weithio gyda phartneriaid eraill megis Gwasanaeth Plant, Addysg ayb. Bydd yr unigolion yma'n mynd trwy'r broses asesu ar gyfer y gofrestr sy'n golygu bod angen cwblhau rhestr wirio cyn-18, ABAS (Adaptive Behaviour Assessment System) a hefyd asesiad IQ.

Mae'r gwasanaeth yn cydweithio efo Derwen i gyflwyno cais ar y cyd am arian i ariannu Swyddog Oed Trosglwyddo. Bydd y rôl yn cynnwys gweithio'n ataliol, gwella cyfathrebu efo unigolion / teuluoedd a sicrhau fod y wybodaeth gywir yn cael ei rannu yn amserol.

Ar gyfartaledd, mae oddeutu rhwng 10-15 o unigolion yn trosglwyddo o'r Gwasanaeth Arbenigol Plant i'r Gwasanaeth Oedolion Anabledd Dysgu bob blwyddyn.

**Anghenion iechyd pobl efo anabledd dysgu**

Mae pobl efo anabledd dysgu yn tueddu i brofi iechyd gwael, ac angen mwy ar ofal iechyd. Maent hefyd fwy o risg o farw'n gynt o'i gymharu a'r boblogaeth yn gyffredinol (Mencap 2012). Mae'r pandemig wedi gwaethygu hyn. Darganfyddodd adroddiad gan Improvement Cymru (2020) fod y bobl efo anabledd dysgu efo graddfa uwch o farwolaeth na'r boblogaeth gyffredinol yng Nghymru. Mae data o'r Comisiwn Ansawdd Gofal (2020) hefyd yn datgan graddfa marwolaeth uwch i'r rhai hynny efo anabledd dysgu o'i gymharu a'r un amser yn 2019.

Yn aml, nid yw pobl efo anabledd dysgu yn cael profiad da o wasanaethau iechyd oherwydd materion cyfathrebu. Mae gan rhwng 50-90% o bobl efo anabledd dysgu anawsterau cyfathrebu ac mae llawer o bobl efo anableddau dysgu dwys a chymhleth efo gallu cyfathrebu cyfyngedig iawn (Coleg Brenhinol Therapyddion Iaith a Lleferydd, 2017).

Fe all hyn arwain at bobl proffesiynol iechyd yn priodoli symptomau ymddygiad i anabledd dysgu y person yn hytrach na salwch. Fe all hyn fod yn fater ble mae'r angen am gefnogaeth yn y Gymraeg ddim yn cael ei ddiwallu (Mencap 2007; Llywodraeth Cymru 2016). Mae awdurdodau lleol a iechyd yn mynd i'r afael a materion fel hyn drwy ddatblygu gwybodaeth hygyrch i bobl efo anabledd dysgu i wella cyfathrebu, gan gynnwys defnydd blaenorol o'r system goleuadau traffig sydd erbyn hyn wedi cael ei gymryd drosodd gan Pasbort Cymru Gyfan. Mae'r pasbort yn cynnwys gwybodaeth am y person, a'u anghenion iechyd; gan gynnwys eu diddordebau, y pethau maent yn hoffi a ddim yn hoffi, a'r dull gorau o gyfathrebu. Mae hyn wedyn yn helpu'r ysbyty i ddeall anghenion gofal a chefnogaeth a chyfathrebu'r unigolyn er mwyn cefnogi yn y ffordd orau tra maent yn yr ysbyty. Mae'n galluogi cysylltu efo'r bobl gywir er mwyn gallu gweithredu hyn. Mae hefyd yn nodi unrhyw gynllun cefnogaeth ymddygiad cadarnhaol a gwybodaeth am sut mae person mewn amgylchedd gwahanol ayb.

Mae pobl efo anabledd dysgu fel arfer efo llai o fynediad at wasanaethau hybu iechyd ac ymyrraeth gynnar; er enghraifft, gwasanaethau sgrinio cancr, adolygiadau blynyddol clefyd y

siwgr, cyngor ar ryw a pherthnasau a chymorth efo atal cenhedlu (Liverpool Public Health Observatory, 2013). Mae'r Gwasanaeth Cyswllt Anabledd Dysgu ym Mwrdd Iechyd Prifsygol Betsi Cadwaladr yn gweithio ar draws Gogledd Cymru i godi ymwybyddiaeth a lleihau anghydraddoldebau. Ar hyn o bryd mae Tîm Iechyd Gwynedd yn darparu cefnogaeth wedi ei dargedu i unigolion o amgylch anghenion Iechyd sydd wedi ei nodi trwy'r broses atgyfeirio. Darperir cymorth ychwanegol i unigolion pan fyddent yn mynychu'r Ysbyty Cyffredinol lleol trwy'r Nyrs Cyswllt Aciwt Anabledd Dysgu sy'n gweithio gyda'r unigolyn ac yr Ysbyty er mwyn sicrhau addasiadau rhesymol ar gyfer unigolion sydd angen mynediad neu angen mynychu'r uned cleifion allanol.

Mae Conwy Connect yn cydweithio efo cynghorau ar draws y Gogledd ar brosiect sy'n cyflogi pobl efo anabledd dysgu ar draws y 6 awdurdod lleol i fod yn Bencampwyr Archwiliad Iechyd cyflogedig. Maent yn cyflogi 13 o unigolion ar draws y Gogledd sy'n cynnwys unigolion o Wynedd. Mae'r pencampwyr yn cynorthwyo i ddarparu gweithdai ar Zoom i ddechrau, i bobl efo anabledd dysgu, eu teuluoedd a'u staff gofal i hybu Archwiliadau Iechyd, a gobeithio annog pobl i fynychu eu hapwyntiadau.

Mae canlyniadau disgwyliedig y prosiect am y flwyddyn nesaf yn cynnwys:

- Cynnydd yn y nifer o oedolion efo anabledd dysgu sy'n derbyn archwiliad iechyd blynyddol
- Amlygu pwysigrwydd hunan ofal all arwain at well profiad a deilliannau iechyd
- Codi ymwybyddiaeth o addasiad rhesymol gyda phobl proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol.
- Maent hefyd yn gobeithio rhoi adborth gwerthfawr i feddygon teulu ar sut i wneud Archwiliadau Iechyd yn fwy hygyrch.

Dywedodd un unigolyn o Wynedd: "*Dwi'n meddwl fod fy swydd newydd yn gyfle gwych i helpu eraill efo'u dewisiadau a rhoi syniad iddyn nhw am yr archwiliad iechyd. Mae'n wych sut rydan ni i gyd yn gallu gweithio efo'n gilydd fel tîm ac mae gennym gyfle i allu rhannu ein profiad efo pawb. Mae'n dda gwybod fod pobl fel ni yn helpu nhw*".

**4.5. Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym?**

Mae'n hanfodol bwysig fod yr unigolion sy'n derbyn gwasanaethau yn cael cyfle i ddweud wrthym beth sy'n bwysig iddyn nhw. Mae'n bwysig fod gwir ddewisiadau yr unigolion yn cael eu clywed a'u deall ac fe all eiriolwyr fod yn werthfawr iawn o ran helpu pobl i fynegi eu dewisiadau eu hunain, yn hytrach na'r hyn sydd orau gan eraill.

Mae Cod Ymarfer (Rhan 10: Eiriolaeth) y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn diffinio eiriolaeth fel un o'r dulliau o gefnogaeth sydd ar gael i bobl sydd angen cymorth i weithio drwy materion bywyd. Mae'n cefnogi ac yn galluogi pobl sy'n cael anhawster mewn cyfathrebu eu barn, i arfer eu hawliau, mynegi eu barn ac archwilio a gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth.

Mae angen parhau i fod yn weithredol o ran ymgysylltu yn enwedig ar brosiectau trawsnewid a chanolbwyntio gwaith ar egwyddorion cyd-gynhyrchu – o ran staff, gofalwyr a'r unigolion sy'n cael eu cefnogi.

**Beth mae'r unigolion yn ei ddweud wrthym?**

Mae Gwasanaeth Eiriolaeth Gogledd Cymru yn cefnogi unigolion i gwrdd mewn fforwm lleol yng Ngwynedd. Oherwydd cyfyngiadau Covid, mae hyn wedi bod yn digwydd ar lein ers 2020. Cynhaliwyd sesiwn penodol efo'r fforwm lleol i drafod beth sy'n gweithio'n dda, beth sydd ddim yn gweithio'n dda, ac unrhyw fylchau mewn gwasanaethau. Roedd 14 o unigolion yn bresennol yn y fforwm ar lein, a dyma oedd ganddyn nhw i'w ddweud:

Roedd yr unigolion yn adrodd eu bod yn cael bod yn rhan o nifer o weithgareddau yn y gymuned, megis: cerdded, merlota, nofio, gweld ffrindiau, mynd i'r sŵ, mynd i'r clwb ar ddydd Gwener.

Roedd yr unigolion yn teimlo fod Covid wedi bod yn rwystr mawr rhag eu galluogi i fyw eu bywyd fel maent eisiau:

- Rhai gweithgareddau gwirfoddol wedi gorffen oherwydd Covid, heb allu mynd i apwyntiadau gyda chefnogaeth.
- Gwaharddiadau teithio - dibynnu ar y darparwr pa mor bell yr oeddent yn cael teithio i fynd allan, rhai yn cyfyngu ar ugain milltir, neu yn rhwystro i deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus.
- Gweld ffrindiau wedi stopio.
- Chwilio am swydd yn y ganolfan waith.

Roedd ymdeimlad fod gweithwyr cefnogol yn eu grymuso i wneud penderfyniadau eu hunain, a'u dysgu i fod yn annibynnol. Roeddent o'r farn bod eiriolwyr yn rhoi hyder iddyn nhw ddweud beth maent eisiau. Roedd yr unigolion yn teimlo'n bositif iawn o ran beth sy'n gweithio'n dda efo'r gefnogaeth maent yn ei gael, er enghraifft, yn helpu pan fo angen, ac yn gweithio gyda'r unigolyn i wneud y tasgau na allant eu gwneud, a'u bod yn gweithio fel tîm.

- "Mae staff yn dda yn esbonio pethau i mi, a helpu fi gywiro pethau, maent hefyd yn rhoi rheswm pan dwi ddim yn cael gwneud rhywbeth."
- "Mae staff cefnogol yn deall fi ac yn gwrando arnaf, ac yn neud fi deimlo fod fi yn cael fy ngweld ganddynt, a ddim fel swydd."

Ond ar y llaw arall, mae yna rai pethau sydd ddim mor dda, er enghraifft unigolion yn dweud nad oes neb yn gwrando ar eu teimladau a'u bod yn gallu siarad yn well am bethau personol efo aelodau teulu yn hytrach na'r gweithwyr cefnogol / gweithwyr cymdeithasol. Eraill yn teimlo mai ond gweithgareddau o restr gosod sydd ar gael i'w gwneud, yn hytrach na dewislen o weithgareddau.

Roedd rhai unigolion yn teimlo o dro i dro nad yw gweithwyr mewn rolau cefnogol yn rhoi eu sylw llawn iddyn nhw ac o ganlyniad, mae'r unigolion yn teimlo eu bod yn cael eu hanwybyddu.

**Roedd yr unigolion o'r farn y dylai rhai pethau ddigwydd i wneud y gefnogaeth yn well:**

- Os ydi staff yn gorfod ateb eu ffôn symudol y teimlad oedd ei bod yn iawn i yrru neges sydyn, ond i beidio a bod yn hir. Mae angen bod yn rhesymol pan yn defnyddio eu ffonau symudol.
- Rhai unigolion yn datgan eu bod eisiau ymchwilio i weithgareddau a diddordebau newydd, ac eisiau gwneud pethau sydd ddim ar gyfer pobol gydag anabledd dysgu yn unig. Mae angen hyblygrwydd i gael gwneud pethau yn wahanol, a gallu cynnig mwy o weithgareddau ar benwythnosau.
- Roedd yna ymdeimlad bod angen i bobl wrando ar beth mae'r unigolyn eisiau ei wneud, a bod angen cyfathrebu clir gan y gweithwyr cefnogol.
- Mae angen mwy o lefydd i bobol gydag anabledd dysgu i fyw gyda chefnogaeth.
- Mae angen mwy o staff a ffeiriau gwaith i gael staff.

**Adborth gan staff / asiantaethau partner**

Yn ogystal ag ymgysylltu efo'r unigolion sy'n derbyn gwasanaeth, cynhaliwyd sesiynau ymgysylltu penodol ar lein efo partneriaid a staff. Hefyd, gyrrwyd holiadur allan i'r rhai hynny oedd yn methu bod yn bresennol yn y sesiynau, er mwyn rhoi'r cyfle i bawb roi eu barn. Mae'r themâu a ddaeth i'r amlwg fel a ganlyn:

**Diffyg cyfleoedd gwaith**

Roedd y partneriaid yn cydnabod fod yna amrywiaeth o gyfleoedd dydd i'r unigolion ar draws y sir, ond yn pwysleisio fod yna ddiffyg cyfleoedd gwaith cyflogedig i unigolion efo anabledd dysgu. Mae yna ddigon o gyfleoedd gwirfoddoli ar gael, ond nid yw unigolion yn gallu symud ymlaen wedyn at waith cyflogedig.

Mae rhai unigolion yn gweld eu hunain yn wahanol i'r unigolion hynny sy'n mynychu gwasanaethau dydd, ac nid oes digon o gyfleoedd ar gael ar eu cyfer nhw. O bosib byddai gwaith cyflogedig efo cefnogaeth yn cyfarch yr angen yma.

Roedd cydnabyddiaeth fod angen ystod mwy eang o gyfleoedd er mwyn gallu symud ymlaen o gyfleoedd mwy 'cysgodol', i gamu ymlaen i wirfoddoli, ac yna i brofiad gwaith. Nodwyd fod angen 'normaleiddio' a goresgyn rhwystrau gyda chyflogwyr.

Mae prosiect lleol yng Ngwynedd yn ceisio mynd i'r afael â hyn. Bydd y prosiect yn edrych ar Gyngor Gwynedd fel un o gyflogwyr mwyaf y sir a'r posibilrwydd o gyflogi unigolion mewn amrywiaeth o swyddi. Fel a nodwyd eisoes, mae 20 o unigolion wedi eu hadnabod y byddent yn elwa o waith cyflogedig. Bydd y tîm yn gweithio efo'r unigolion yma a bydd Hwb Sgiliau yn dysgu'r sgiliau angenrheidiol mae unigolion eu hangen i symud ymlaen at waith.

Pwysleisiwyd fod angen cefnogaeth i gyflogwyr hefyd. Nodwyd fod job coaching / mentora yn swydd arbenigol iawn, a bod angen y sgiliau cywir a chael hyfforddiant er mwyn helpu'r unigolion. Mae hefyd angen siarad yn iawn efo unigolion; gweld be ydi eu 'niche' nhw a wedyn dod o hyd i gyflogwr addas, neu hyd yn oed eu helpu i greu eu busnes eu hunain.

Gobeithir datblygu Hwb Arfon yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer datblygu sgiliau unigolion.

**Cyfleoedd Dydd**

Mynegwyd nad oes digon o gyfleoedd dydd ar wasgar yn ddaearyddol. Fe fydd datblygiad newydd yn Dolfeurig, Dolgellau yn diwallu peth o'r angen yma, ond mae dal bylchau ar draws y sir mewn mannau mwy gwledig fel ochrau Tywyn, a Bala. Nid yw adeilad presennol Dolfeurig yn addas ar gyfer ei bwrpas; felly mae arian cyfalaf wedi cael ei sicrhau i adeiladu canolfan bwrpasol fodern ar yr un safle, a fydd yn gallu cynnig amryw o gyfleoedd, ynghyd a gweithredu fel hwb yn yr ardal.

Mae'r gwasanaethau yn weddol 'draddodiadol' yn yr amseroedd maent yn agor i bobl, sef 9am-4pm. Awgrymwyd efallai bod angen i strwythur y cyfleoedd dydd fod yn fwy hyblyg. Mae'n anodd weithiau cael unigolion i gymdeithasu gyda'r nos am eu bod wedi blino ar ôl bod yn y cyfle dydd trwy'r dydd.

Er hyn, nodwyd fod y cyfleoedd dydd yn dda iawn; a'r gwaith cefnogaeth weithgar mae'r darparwyr yn ei wneud efo'r unigolion i'w cefnogi i gyrraedd eu potensial a hybu sgiliau gwneud pethau yn annibynnol yn holl bwysig. Ceir mwy o wybodaeth ar egwyddorion cefnogaeth weithgar ar dudalen 76.

**Cyfleoedd cymdeithasu**

Mae sawl darpariaeth llwyddiannus eisoes yn bodoli yn y sir er mwyn i unigolion allu cymdeithasu. Nodwyd fod yr elfen cymdeithasu yn bwysig i unigolion. Roedd cytundeb fod Llwybrau Llesiant wedi gwneud gwaith da iawn efo'r unigolion, ynghyd a'r sesiynau cefnogol er mwyn galluogi unigolion i allu parhau i gymdeithasu, boed yn ddiogel wyneb yn wyneb, neu ar lein.

**Llety**

Daeth diffyg tai addas er mwyn hyrwyddo byw yn annibynnol yn amlwg yn y trafodaethau, yn benodol ar gyfer yr unigolion hynny sydd ag anabledd corfforol.

- Mae angen rhoi ystyriaeth i unigolion fyw ar eu pen eu hunain yn hytrach na rhannu tŷ gan nad ydi rhannu weithiau er lles yr unigolion na'u budd gorau. Mae hyn wedi amlygu ei hyn fwy yn ystod y cyfnod Covid gan fod pawb gartref fwy. Hefyd, mae rhai unigolion yn gaeth i rywun arall (aelod staff) i gael y rhyddid i allu mynd allan o sefyllfa anodd mewn tŷ rhannu. Eto, mae angen mwy o dai addas ar draws y sir i gyfarch yr angen yma.

- Er mwyn i unigolion gael llais Roedd yna ymdeimlad nad ydi unigolyn weithiau yn cael llais yn y dewis o le maent eisiau byw; er enghraifft, person ifanc sydd yn symud o

adref. Fel arfer maent yn cael tŷ y mae'r gwasanaeth wedi dod o hyd iddyn nhw, neu maent yn symud i lenwi lle gwag mewn tŷ rhannu. Mae angen rhoi mwy o lais i'r unigolion yn hyn o beth, ond gan fod diffyg mewn cael tai addas, mae hyn yn anodd ar hyn o bryd.

Mae'r gwasanaethau ysbaid cyfredol wedi bod yn hynod o bwysig i unigolion a'u teuluoedd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Oni bai am y cyfleoedd yma, byddai pwysau mawr wedi bod ar deuluoedd i allu parhau i ofalu heb i'r sefyllfa dorri i lawr.

**Cludiant**

Mae diffyg cludiant cyhoeddus mewn ardaloedd o'r sir, yn benodol yr ardaloedd fwy gwledig. Cyn Covid, nid oedd rhai unigolion yn gallu mynychu gweithgareddau gyda'r nos gan nad oedd cludiant cyhoeddus ar gael yn y lleoliad nac ar yr amser iawn.

Nodwyd fod angen cludiant / tacsis lleol sy'n adnabod yr unigolion a'u anghenion. Mae hyn yn cysylltu gyda'r Cynllun Man Diogel a beilotwyd ym Mangor ychydig flynyddoedd yn ôl.

**Llais a rheolaeth**

Ar y cyfan, roedd y partneriaid yn teimlo fod gan yr unigolion lais a rheolaeth digonol yn y ffordd mae'r cymorth yn cael ei ddarparu. Mae'r unigolion yn cael llawer mwy o reolaeth drwy ffrydiau megis Taliadau Uniongyrchol. Mae Cefnogaeth Weithgar hefyd yn ffordd o gefnogi sydd yn rhoi mwy o annibyniaeth i'r unigolion.

Nodwyd fod llais yr unigolyn wedi dod drwodd yn glir yn y gwaith y mae'r Gwasanaeth Adfocatiaeth yn ei wneud, drwy'r gwaith lles a gwerth a gomisiynwyd yn 2020.

Ond mae eto lle i wella, gan fod yna deimlad nad oes digon o ddefnydd ar therapyddion iaith, er mwyn galluogi'r unigolion hynny sydd methu cyfathrebu, i gael y cyfle i roi eu barn. Mae angen gwneud mwy o ymdrech i gael barn pobl. Nid ydi'r gwasanaethau yn gweithio mewn ffordd 'person ganolog' yn y gwir ystyr.

Roedd gan y partneriaid nifer o bwyntiau positif am y cymorth mae'r unigolion yn ei dderbyn:

- Teimlad o berthyn – bod yr unigolion yn cael gweld ffrindiau a chymdeithasu / creu ffrindiau newydd. Ers Covid mae nifer wedi colli cyswllt efo ffrindiau ac wedi colli allan. Mae ymdrech yn cael ei gwneud i gael y dechnoleg allan i'r unigolion sydd ei angen; ynghyd â'r gefnogaeth i'w ddefnyddio yn ddiogel.
- Gallu cynnig gwasanaethau yn yr iaith mae'r unigolion eisiau.
- Mae'r arian mae unigolion cymwys yn ei gael drwy'r grant cefnogi pobl yn eu cynorthwyo i gadw eu tenantiaeth.
- Mae'r gefnogaeth mae'r unigolion yn ei gael gan y gwasanaethau yn dda ac mae'r unigolion a'u teuluoedd yn ei werthfawrogi'n fawr.
- Gwasanaeth ysbaid yn bendant wedi helpu cyn, ac yn ystod y cyfnod Covid.

Un thema sy'n rhedeg drwy'r asesiad anghenion yma ydi'r argyfwng staff yn y sector gofal. Roedd yn thema cryf yn ystod yr ymgysylltu efo partneriaid. Nid yn unig yn y maes anabledd dysgu mae diffyg staff, ond yn y sector gofal yn gyffredinol. Mae Cyngor Gwynedd yn edrych ar ymgynnull Grŵp Tasg a Gorffen i edrych ar swyddi cefnogol yn y maes anabledd dysgu a cheisio dod ag argymhellion at ei gilydd, gan gynnwys cydnabod arbenigedd ac ymroddiad gweithwyr. Fe fydd Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad yn ymdrin ymhellach â'r mater yma.

**4.6. Adolygiad o'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd**

Yn aml, mae pobl efo anabledd dysgu angen cefnogaeth gyda sawl agwedd o'u bywyd, gan gynnwys:

- Ble maent yn byw (e.e. tai a chefnogaeth, preswyl);
- Beth maent yn ei wneud yn ystod y dydd (gwasanaeth dydd, profiad gwaith, cyflogaeth);
- Eu bywyd cymdeithasol
- Cael seibiant (ysbaid).

Gall y gefnogaeth yma ddod gan deulu, gofalwyr, y gymuned leol, yr awdurdod lleol, gwasanaeth iechyd a/neu'r trydydd sector.

Mae angen gweithio efo darparwyr gwasanaeth er mwyn datblygu modelau gwasanaeth sy'n seiliedig ar ddeilliannau, sydd wedi eu dylunio er mwyn sicrhau fod pobl yn derbyn gwasanaethau personol er mwyn diwallu eu anghenion fel a nodir yn eu cynlluniau cefnogaeth.

Ar hyn o bryd, mae yna 26 o oedolion efo anabledd dysgu yn byw y tu allan i Wynedd mewn gwahanol leoliadau. Mae hyn yn bennaf gan nad ydi'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt ar gael yng Ngwynedd, ond mae yna 2 unigolyn yn byw mewn colegau preswyl dros dro a'r tebygolrwydd yw y byddent yn dychwelyd i Wynedd unwaith fydd eu cyfnod yno wedi dod i ben.

O'r 26 mae yna 19 yn byw o fewn Gogledd Cymru, a 7 yn byw y tu allan i Ogledd Cymru. O bosib byddai 6 o'r 19 yn gallu dychwelyd i Wynedd, be bai'r llety a'r gefnogaeth addas ar gael iddyn nhw.

Wrth gwrs, nid yw pawb yn byw mewn tŷ a chefnogaeth - mae nifer fawr o unigolion yn byw gartref yn llwyddiannus efo'u gofalwyr / teulu / rhieni, gydag ychydig iawn o gefnogaeth.

Mae gwaith yn mynd rhagddo ar y cyd efo'r Tîm Trawsffurfio Rhanbarthol i ofyn i'r unigolion a'u teuluoedd beth yw eu dymuniadau ar gyfer dychwelyd i Wynedd yn y dyfodol.

**Llety**

Rydym yn parhau i symud oddi wrth y defnydd o ofal preswyl i bobl efo anabledd dysgu tuag at wasanaethau tai a chefnogaeth sy'n galluogi unigolion i fyw bywydau mwy annibynnol. Mae'r symudiad yma hefyd wedi gwneud gwasanaethau yn fwy person ganolog gan fod y model yma

yn darparu cefnogaeth fwy personol i unigolion na gofal preswyl. Mae hefyd yn golygu fod unigolion yn byw ac yn cymryd rhan yn eu cymunedau lleol.

Mae trafodaethau yn parhau ar gyfer datblygiad newydd yng Ngogledd y sir a fydd yn galluogi unigolion i fyw yn annibynnol (o fewn eu gallu) sy'n symud i ffwrdd oddi wrth y model 'preswyl', ac yn cyd-fynd ag egwyddorion y Ddeddf a hybu annibyniaeth.

Mae'r model o dai rhannu wedi gweithio yn dda yng Ngwynedd, ond mae angen edrych hefyd ar fodelau amgen i fyw yn y gymuned. Mae rhai modelau tai newydd yn cynnwys darpariaeth 'drws ffrynt eu hunain' efo cefnogaeth. Rydym eisiau datblygu mwy o fodelau llety sy'n golygu fod unigolion yn gallu cael lle iddyn nhw eu hunain, ond yn gallu rhannu cefnogaeth hefyd. Dyma un o'r modelau rydan ni'n edrych arnyn nhw efo'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

Mae'n flaenoriaeth i geisio dod â'r unigolion sydd yn byw mewn cartrefi y tu allan i'r sir, yn ôl i Wynedd i fyw, os mai dyna yw eu dymuniad ac mae gwaith parhaus yn mynd rhagddo i gynorthwyo'r unigolion yma i ddychwelyd. Mae'r unigolion sydd wedi eu lleoli y tu allan i'r sir, wedi eu lleoli yno am wahanol resymau (e.e. o'u dewis eu hunain, neu wedi eu lleoli yno ers blynyddoedd).

Mae yna 146 o unigolion yn byw mewn tai a chefnogaeth ar draws Gwynedd. Darperir y gefnogaeth gan amrywiaeth o ddarparwyr. Mae'r gefnogaeth yn amrywio o ychydig oriau yn ystod y dydd, i gefnogaeth 24/7 i gefnogi'r unigolion allu byw yn annibynnol yn eu tenantiaeth eu hunain.

Mae'r model byw hefyd yn amrywio; o unigolion yn byw eu hunain, i unigolion sy'n rhannu tŷ (hyn yn amrywio o 2, 3, 4, neu 5 person mewn tŷ thannu) ac fel arfer yn derbyn cefnogaeth 24/7, sy'n cynnwys staff yn cysgu i mewn.

Mae diffyg tai addas yn broblem yng Ngwynedd i oedolion efo anabledd dysgu, yn benodol yr unigolion hynny sydd efo anabledd corfforol.

Mae'r tabl isod yn dangos beth ydi sefyllfa llety yr unigolion ar hyn o bryd:

**Tabl 9: Lleoliad byw unigolion gydag anableddau dysgu yng Ngwynedd**

| Lleoliad byw | Oedran 18-64 | Oed 65+ | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Lleoliadau cymunedol<br>a. cartref ei hun | 103 | 25 | 128 |
| Lleoliadau cymunedol<br>b. rhieni / teulu | 200 | 8 | 208 |
| Lleoliadau cymunedol<br>c. tai a chefnogaeth | 125 | 24 | 149 |
| Ysbyty / lloches y Gwasanaeth Iechyd | 5 | 0 | 5 |
| Llety preswyl Awdurdod Lleol | 13 | 7 | 21 |
| Llety preswyl preifat | 17 | 7 | 23 |

| Llety arall | 36 | 3 | 39 |
|---|---|---|---|
| **CYFANSWM 2022** | **498** | **75** | **573** |


*Ffynhonnell: SSDA901 Ebrill 2022*

Noder fod y ffigwr 573 yn wahanol i'r 596 sydd ar y Gofrestr Anabledd Dysgu. Mae hyn oherwydd fod achosion wedi eu cau am wasanaeth gweithiwr cymdeithasol ar y system casglu data.

Fel a welir yn y tabl uchod, mae'r mwyafrif o bobl efo anabledd dysgu yn byw gyda'u rhieni. Llety a chefnogaeth arbenigol ydi'r ail drefniant mwyaf poblogaidd, sy'n cynnwys byw yn y gymuned a'r Cynllun Cysylltu Bywydau. Mae'r cyfran lleiaf o bobl yn byw mewn gofal preswyl, ac mae hyn yn adlewyrchu'r gefnogaeth sydd yn mynd i gefnogi pobl i barhau yn eu cartrefi.

Mae'r map isod yn dangos lleoliadau'r tai a chefnogaeth presennol ar draws y sir:

**Ffigwr 5: Map yn dangos lleoliadau'r tai a chefnogaeth presennol yng Ngwynedd**




*Ffynhonnell: Data mewnol oddi ar y 'Welsh Community Care Information System' (WCCIS).*

**Anghenion lletya i'r dyfodol**

Mae'n her i ni ddod o hyd i ddigon o dai o ansawdd da i gwrdd ag ystod eang o anghenion pobl efo anabledd dysgu a galluogi unigolion i gael mwy o ddewis am ble maent yn byw, hefo pwy maent yn byw, a phwy sy'n eu cefnogi.

Ar hyn o bryd, mae yna 75 o unigolion ar ein rhestr o unigolion fydd angen llety i'r dyfodol. Mae 16 o'r rhain angen llety o fewn y flwyddyn nesaf, 16 rhwng 1-2 flynedd, a 43 yn chwilio am lety ymhen 2 flynedd a mwy.

Mae'r unigolion ar y rhestr oherwydd gwahanol resymau, er enghraifft :

- Byw adref gyda rhieni, a'r sefyllfa yn fregus/yn torri lawr. Mae unigolion a'u teuluoedd yn awyddus i symud ymlaen i eiddo eu hunain/rhannu eiddo, ond dim eiddo addas ar gael.
- Unigolion gydag anableddau dysgu yn byw mewn eiddo gyda chefnogaeth, ond yr eiddo yn anaddas i'r unigolion oherwydd materion diogelwch neu newid mewn anghenion.
- Unigolion mewn lleoliadau anaddas fel cartrefi preswyl neu ysbyty, ac yn awyddus i symud i eiddo chefnogaeth er mwyn uchafu annibyniaeth, ond dim eiddo addas ar gael.

Mae angen amrediad o eiddo o wahanol fath ar draws Gwynedd, ond mae'r galw mwyaf am eiddo sy'n addas i unigolion gydag anableddau corfforol yn ogystal ag anabledd dysgu e.e. byngalos neu eiddo hygyrch. Yn benodol, mae prinder eiddo hygyrch 3 neu 4 ystafell wely, lle mae ystafell i aelod staff gysgu mewn yn ogystal a darparu cartref addas i unigolion gydag anableddau.

O ran ardaloedd, mae gofyn ar draws y sir, ond yn gyffredinol, dewis y rhan fwyaf o unigolion a'u teuluoedd yw i aros o fewn cyrraedd i'r ardaloedd trefol er mwyn gallu cael mynediad rhwydd at wasanaethau Iechyd, gwasanaethau dydd, cyfleodd gwaith, trafnidiaeth cyhoeddus ayyb. Yr ardaloedd amlwg lle mae gofyn ar y funud yw ardaloedd Caernarfon, Pwllheli a Dolgellau a'r cyffiniau.

Fel rhan o'n Prosiect Lletya, rydym yn cyd-weithio efo Adran Tai ac Eiddo o fewn y Cyngor er mwyn edrych ar opsiynau rŵan ac i'r dyfodol, ond rydym hefyd yn awyddus i ymestyn ar ein cydweithio efo Cymdeithasau Tai er mwyn ceisio sicrhau eiddo addas / datblygu llety yng Ngwynedd, yn benodol ar gyfer unigolion gydag Anableddau Dysgu a/neu Corfforol. Rydym eisiau sicrhau fod y llety yn addas i unigolion allu parhau i fyw ynddynt cyn hired a phosibl waeth beth ydi eu anghenion. Llwyddwyd i ddod o hyd i lety a chefnogaeth i 13 o unigolion yn y flwyddyn ddiwethaf.

Mae bwriad cychwynnol i brynu 3 eiddo ar y farchnad agored, mewn cyd-weithrediad â Chymdeithas Dai os yw'r cyfle yn codi. O bosib gall hyn fod yn un eiddo ym mhob un o'r tri ardal a enwir uchod, er mwyn peilota'r cynllun. Gellir wedyn ddarparu arian grant er mwyn gwneud unrhyw addasiadau sydd eu angen i'r eiddo, cyn gosod yr eiddo allan i unigolion, a bydd yr incwm rhent yn mynd tuag at ad-dalu cost prynu'r eiddo.

O ystyried y cynnydd yn y boblogaeth sy'n heneiddio, bydd nifer y bobl sy'n byw efo rhiant oedrannus hefyd yn cynyddu. Ar hyn o bryd, mae oddeutu 75 o unigolion yn byw efo rhieni oedrannus yng Ngwynedd.

Mae'r angen i gynllunio ar gyfer y dyfodol yn parhau yn flaenoriaeth i bob teulu sy'n heneiddio efo'i gilydd. Mae unigolion a'u teuluoedd yn wynebu heriau cynyddol fel y maent yn heneiddio ac mae nifer yn poeni am y dyfodol pan na fydd y gofalydd teuluol yn gallu parhau i ofalu. Mae angen gwneud cynlluniau ar gyfer argyfwng ac ystyried opsiynau lletya. Mae'r sgyrsiau yma yn digwydd efo teuluoedd eisoes, maent yn sgyrsiau anodd ond yn bositif hefyd. Yn gyffredinol rydym yn gallu cynllunio ymlaen drwy i'r unigolyn gael gwasanaeth ysbaid i ddechrau, yna symud ymlaen at dai a chefnogaeth.

Mae yna Gytundeb Tai a Chefnogaeth Rhanbarthol yn weithredol ers Ebrill 2020. Bwriad y gytundeb yw ceisio cwrdd a'r ystod o anghenion (gan gynnwys anghenion cymhleth) ar draws Gogledd Cymru.

**Cyfleoedd Dydd**

Mae anghenion a disgwyliadau unigolion a'u teuluoedd wedi newid dros y blynyddoedd. Erbyn heddiw, nid mynd yn syth o'r ysgol i ganolfan ddydd ydi'r disgwyliad na'r arfer; ond cael amrywiaeth o gyfleoedd sy'n addas i'w hanghenion.

Ar hyn o bryd (Medi 2022), mae 225 o unigolion efo anabledd dysgu yn derbyn rhyw fath o wasanaeth dydd sydd wedi ei gomisiynu gan Gyngor Gwynedd (38% o'r nifer sydd ar y gofrestr). Mae'r niferoedd sy'n weddill (62%) yn llwyddo i fyw yn annibynnol heb unrhyw ymyrraeth, neu drwy dderbyn cefnogaeth ataliol. Mae'r gwasanaethau yma yn cwrdd ag anghenion unigolion er mwyn eu integreiddio i'r gymuned lleol, ac yn rhoi cyfleoedd iddynt ennill hyder a sgiliau, ac i gael cyfleoedd gwaith a chymdeithasu.

Mae'r cyfleoedd dydd mae unigolion yn eu derbyn yn y lleoliadau yma yn amrywio, yn ddibynnol ar eu anghenion personol e.e. gweithio mewn caffi, gwneud gwaith crefft, gwaith coed ayb. Wele isod fanylion y lleoliadau dydd rydym yn eu comisiynu ar hyn o bryd.

Mae hybiau wedi cael eu sefydlu mewn sawl lleoliad ar draws Gwynedd, sy'n darparu cyfleoedd profiad gwaith a hyfforddiant i unigolion i ddatblygu sgiliau bywyd ymarferol, ynghyd â darparu gwasanaeth newydd i'r gymuned ehangach a gwella llesiant y gymuned leol.

Mae cyfleoedd gwaith cyflogedig yn fater a godwyd yn ystod yr ymgysylltu efo partneriaid, ac efo unigolion sy'n derbyn gwasanaethau. Mae'n hollbwysig bod unigolion gydag anableddau dysgu yn cael yr un cyfleoedd i gyrraedd eu potensial a gweddill y boblogaeth. Mae'r Prosiect Cyfleoedd Gwaith yng Ngwynedd yn edrych ar ddatblygu cyfleoedd gwaith neu hyfforddiant i unigolion efo anabledd dysgu o fewn ein cymunedau, boed hynny efo'r Cyngor, yn y sector breifat neu'r trydedd sector.

Nod y prosiect ydi:

- Newid diwylliant o fewn y Cyngor, a gweithio efo rheolwyr yn yr adrannau i addasu neu creu cyfleoedd gwaith cyflogedig i unigolion ag anableddau dysgu.

- Torri lawr unrhyw rwystrau sydd yn rhwystro unigolion gydag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth rhag llenwi swyddi allweddol o fewn y cyngor.
- Cydgordio ein gwasanaethau i fod yn hybiau sgiliau sydd yn arfogi unigolion efo'r sgiliau sydd angen i gamu mewn i'r byd gwaith.
- Cynyddu'r nifer o unigolion gydag anableddau dysgu sydd mewn gwaith cyflogedig yng Ngwynedd, boed yn y Cyngor neu'r sector breifat.
- Hwyluso'r broses o gael cyfleoedd gwirfoddoli a phrofiadau gwaith o fewn y Cyngor.
- Sicrhau bod unrhyw unigolion sydd yn ymuno a'r gweithlu yn cael eu cefnogi a'i grymuso i gyrraedd eu potensial llawn.
- Yn y tymor hir gweithio gyda budd-ddeiliaid i sicrhau fod lleoliadau gwaith a swyddi yn gynaliadwy ac yn addas i anghenion yr unigolyn a'r cyflogwr e.e. hyblygrwydd i addasu cyfrifoldebau, oriau gwaith, 'access to work' ayyb.

Mae'n rhaid cydnabod bod siwrne hyfforddi a chyfle gwaith pob unigolyn yn unigryw felly mae angen cynllunio 'bespoke' o gwmpas cefnogi unigolyn er mwyn cwrdd â'u deilliannau personol. Bydd Gweithwyr Llesiant/Mentoriaid Gwaith yn canolbwyntio'n benodol ar y gwaith yma, a bydd llwybr cyfeirio/cynllunio unigol drwy gyfrwng Grŵp Prosiect. .

Mae bwriad i sefydlu Canolfan Ragoriaeth a fydd yn cynnig hyfforddiant datblygu sgiliau a chymwysterau. Bydd yn paratoi a chefnogi oedolion ag anabledd dysgu ar gyfer y byd gwaith.

Ar amser ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd 20 o unigolion wedi cael eu hadnabod a fyddai'n elwa o waith cyflogedig. Bydd y gwasanaeth anabledd dysgu yn cydweithio efo Agoriad i ddatblygu lleoliadau gwaith cynaliadwy o fewn Cyngor Gwynedd gall arwain at gyflogaeth hir dymor yn y dyfodol. Yn ogystal, cefnogi unigolion yn ystod y lleoliadau a cydweithio efo ni fel gwasanaeth i ddatrys unrhyw rwystrau sy'n codi. Fe fyddent hefyd yn cydweithio efo'r colegau i sicrhau hyfforddiant addas a phriodol sydd am arfogi unigolion efo'r sgiliau angenrheidiol i symud ymlaen i waith ar ôl y cynllun.

Mae'r gwasanaeth yn cydweithio efo'r Tîm Trawsffurfio Rhanbarthol wrth edrych ar Strategaeth Cyflogadwyedd ac yn edrych i ddatblygu hyn efo darpar gyflogwyr. Mae uchafu sgiliau / hyfforddiant angen bod yn rhan o'r strategaeth rhanbarthol hefyd.

**Cyfleoedd seibiannau â chefnogaeth (ysbaid)**

Mae gwasanaeth seibiannau â chefnogaeth yn adnodd pwysig iawn i alluogi gofalwyr i barhau i ofalu, ac hefyd yn rhoi egwyl i'r unigolion er mwyn iddynt barhau i fyw yn eu cartrefi. Mae'n bwysig ein bod yn cyfarch anghenion seibiant unigolion a bod yna ystod o opsiynau ar gael.

Mae gallu darparu seibiannau â chefnogaeth i'r unigolion hynny sydd efo anghenion cymhleth yr un mor bwysig. Mae hefyd yn rhoi cyfle i'r unigolion sy'n cael seibiant, allu dysgu sgiliau newydd a pharhau i dderbyn cefnogaeth mewn dull cefnogaeth weithgar.

Ar hyn o bryd, rydym yn comisiynu gwasanaeth mewn dwy uned a ddarperir gan Cartrefi Cymru. Dyma'r opsiwn mwyaf poblogaidd ar hyn o bryd. Defnyddir y Cynllun Cysylltu Bywydau yn ardal Meirionnydd yn bennaf, ynghyd â Gwesty Seren yn Llan Ffestiniog.

Yn dilyn yr asesiad anghenion blaenorol, penderfynwyd fod angen datblygu gwasanaeth seibiannau â chefnogaeth fwy modern sy'n darparu ystod o gyfleoedd i unigolion, yn bennaf yr unigolion hynny sydd efo anghenion cymhleth. Y bwriad oedd datblygu dewislen o'r gwasanaethau seibiannau â chefnogaeth sydd ar gael yn y sir fel bod unigolion a'u teuluoedd yn gallu dewis pa fath o wasanaeth maent eisiau ei dderbyn. Mae angen mwy o leoliadau lleol, sydd yn rhwydd i unigolion gael mynediad i'r gwasanaeth. Yn anffodus, yn dilyn proses dendr i lunio cytundeb i'r perwyl yma, yr un darparwyr a nodir uchod a gyflwynodd gais. Efallai nad oedd yr amseru'n briodol oherwydd cyfyngiadau Covid ar y pryd; gobeithir y bydd mwy o ddarparwyr yn ymgeisio pan fydd yn cael ei agor eto yn 2026.

Mae'n fwriad ceisio cael darpariaeth seibiannau â chefnogaeth fel rhan o unrhyw ddatblygiadau newydd.

**Gwasanaethau cefnogol – cyfleoedd cymdeithasu a hamddena**

Mae gan unigolion yr hawl i gael bywyd cymdeithasol llawn, i adeiladu perthnasau cryf a phositif, i gael gwell ansawdd bywyd, rhoi'r grym i'r unigolyn i wneud ei ddewisiadau ei hun, tra'n cyfrannu i'r gymuned, a gwneud cysylltiadau yn y gymuned.

Gall hyn arwain at lai o unigedd, ac mae unigedd yn gallu arwain at broblemau iechyd meddwl. Mae rhai unigolion eisiau ffrindiau, a gallu cymdeithasu, ac eraill eisiau perthynas.

Yr her yw i ehangu ar ddatblygu presenoldeb yn y gymuned. Rydym eisiau parhau i weithio efo cymunedau i newid eu hymddygiad a'u safbwynt o bobl efo anabledd dysgu. Mae yna agwedd bositif tuag at bobl efo anabledd dysgu o fewn cymunedau ein trefi a'n pentrefi. Bydd angen chwilio am gyfleoedd i bobl i gyfrannu yn hytrach na derbyn neu bod yn 'bresennol', yn cynyddu gwerth y bobl yn nhermau eu safle yn y gymdeithas.

Mae sawl darpariaeth llwyddiannus eisoes yn bodoli yn y sir er mwyn i unigolion allu cymdeithasu. Mae'n rhaid sicrhau ein bod yn gallu cynnig gweithgareddau gwerthfawr i'r unigolion ac yn gallu integreiddio'r cyfleoedd yma i'r hyn sy'n digwydd eisoes mewn cymdeithasau.

Mae'r darpariaethau yma'n cynnwys clybiau ar draws y sir sy'n rhoi cyfleoedd i unigolion i gael eu cefnogi mewn grwpiau. Mae llai o ymyrraeth efo grwpiau fel hyn, mae'n hybu annibyniaeth yr unigolion, yn cynyddu presenoldeb yn y gymuned ac yn newid y ddelwedd sydd gan bobl o waith grŵp (yn hytrach na chefnogaeth 1 i 1). Mae'r dull yma yn ffordd o ymateb i ynysu a chynnig cyfle i'r unigolion gymdeithasu efo'i gilydd ac eraill a bod yn rhan o'n cymunedau.

Mae'r llif gwaith yma'n cyd fynd efo gwaith cefnogaeth weithgar o ran cynnig cyfleoedd i oedolion efo ystod eang o anghenion. Mae'n rhaid sicrhau fod y grwpiau cymysg yn dod at ei gilydd yn unol â diddordebau neu sgiliau'r unigolion.

Mae allbynnau llesiant y grwpiau yma yn cynnwys hyfforddi a datblygu sgiliau; helpu pobl i fyw yn annibynnol; hyrwyddo cymdeithasu a datblygu unigolion i drio cyfleoedd hamdden; sicrhau nad ydynt yn cael eu hynysu a chynyddu hunan hyder. Maent hefyd yn datblygu sgiliau a gwybodaeth, megis cadw'n ddiogel, gwybod eu hawliau a datblygu perthnasau. Wrth gwrs, nid yw pawb yn gallu cael eu cefnogi mewn grŵp, ac fe fyddant yn cael yr un cyfleoedd ond gyda chefnogaeth 1 i 1.

Yn ogystal, mae'r gwasanaeth Llwybrau Llesiant, a ariennir gan y Gronfa Integredig Rhanbarthol (RIF). Eu nod yw i ddarparu'r cyngor a'r gefnogaeth gywir er mwyn uchafu'r ystod o gyfleoedd sydd ar gael. Mae'r ffocws ar gynyddu capasiti er mwyn cefnogi a gwella deilliannau llesiant yr unigolion sydd ar y Gofrestr Anabledd Dysgu mewn dull ataliol, ar sail un i un, neu sail grŵp.

Y bwriad yw datblygu model hybrid i'r dyfodol, ble mae unigolion yn cael y dewis i ymuno efo grwpiau a sesiynau unai mewn person, neu ar lein. Mae'r gwasanaeth yn gweithio yn agos efo partneriaid megis Tîm Trawsffurfio Gogledd Cymru ac aelodau Grŵp Trawsffurfio Anabledd Dysgu Gwynedd wrth ddatblygu i'r dyfodol. Erbyn hyn, mae nifer o ddarparwyr yn arwain ar grwpiau er mwyn eu gwneud yn gynaliadwy i'r dyfodol, ac er mwyn sicrhau fod unrhyw unigolion yn gallu ymuno, unai yn rhithiol, neu yn y gymuned efo'u cefnogaeth, er mwyn ei wneud yn hygyrch i bawb. Mae'n bositif fod darparwyr wedi perchnogi'r grwpiau yma, a bod yna gyfle i bawb ddatblygu a defnyddio eu harbenigedd mewn gwahanol feysydd.

Maent wedi bod yn cydweithio i ddatblygu rhestr o'r cyfarpar technolegol sydd ar gael i'w treialu am ddim ar draws y sir. Mae Swyddogion Llesiant wedi gweithio efo unigolion i ddatblygu eu sgiliau a'u hyder er mwyn ymrwymo efo grwpiau ar lein yn ddiogel. Mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd i foderneiddio'r hybiau cymunedol, er mwyn galluogi unigolion i ymuno drwy Zoom.

Mae yna 123 o unigolion wedi ymuno â gwahanol grwpiau a gynhelir gan y Swyddogion Llesiant (Ebrill 2022).

**Cefnogaeth Weithgar**

Mae Cefnogaeth Weithgar yn faes blaenoriaeth allweddol yng Ngwynedd. Mae wedi ei ddylunio i sicrhau fod pobl sydd angen cefnogaeth yn cael y cyfle i fod ynghlwm yn llawn yn eu bywydau a derbyn yr ystod a lefel iawn o gefnogaeth er mwyn eu grymuso i fyw bywydau bodlon.

Mae yna 3 rhan i Cefnogaeth Weithgar:

1. Rhyngweithio i hybu cyfranogiad. Mae pobl sy’n cefnogi’r unigolyn yn dysgu sut i roi iddynt y lefel iawn o gymorth er mwyn iddynt allu gwneud y gweithgareddau dydd i ddydd arferol sy’n codi mewn bywyd.
2. Cynlluniau Cefnogi Gweithgareddau. Mae’r rhain yn darparu ffordd i roi trefn ar dasgau tŷ, gofal personol, diddordebau, trefniadau cymdeithasol a gweithgareddau eraill mae unigolion angen neu eisiau eu gwneud bob dydd, ac i weithio allan argaeledd y gefnogaeth fel y gall y gweithgareddau gael eu cyflawni’n llwyddiannus.
3. Cadw trac. Ffordd o gofnodi’r cyfleoedd sydd gan bobl bob dydd sy’n galluogi i ansawdd yr hyn sy’n cael ei drefnu i gael ei fonitro a gwneud gwelliannau ar sail tystiolaeth.

Felly, canolbwyntir ar gefnogi pobl i ddatblygu sgiliau dydd i ddydd, a chael y dewis a’r rheolaeth i fyw bywydau llawn ac actif. Mae egwyddorion cefnogaeth weithgar fel a ganlyn:

- Normaleiddio
- Cynnwys pobl mewn gweithgareddau bob dydd
- Datblygu sgiliau yn weithredol
- Edrych i newid agwedd pobl
- Datblygu sgiliau pobl yn rywbeth cynyddol a pharhaol.

Mae Cyngor Gwynedd wedi datblygu’r weledigaeth ar draws y gwasanaethau. Mae Swyddog Hyfforddi ac Ansawdd Gofal Anabledd Dysgu o fewn y gwasanaeth, sy’n arbenigo mewn Cefnogaeth Weithgar a Chefnogaeth Ymddygiad Cadarnhaol (Positive Behaviour Support, PBS) ac yn cydweithio efo’r holl bartneriaid i sicrhau fod pawb yn gweithio i egwyddorion Cefnogaeth Weithgar.

Mae’r Tîm Trawsffurfio Rhanbarthol wedi cael arian i ddatblygu model person canolog er mwyn gallu gwneud cynlluniau person canolog efo unigolion cymhleth a dwys. Fe fydd y gwasanaeth anabledd dysgu yn cydweithio efo nhw yn hyn o beth.

Mae’r gwasanaeth anabledd dysgu hefyd wedi sicrhau arian RIF i ariannu dwy swydd, sef mentoriaid anghenion cymhleth a dwys. Prif nod y mentoriaid fydd gweithio efo darparwyr ac unigolion efo anghenion cymhleth a dwys er mwyn uchafu annibyniaeth a chefnogi unigolion yn ddiogel ac o fewn cynlluniau cefnogaeth ymddygiad cadarnhaol; ynghyd ag uchafu sgiliau staff.

**4.7. Casgliad ac argymhellion**

**Prif ddarganfyddiadau**

- **Demograffi:** Mae’r nifer o bobl efo anabledd dysgu angen cefnogaeth yn cynyddu, ac mae pobl efo anabledd dysgu yn byw yn hirach. Mae’n debygol y bydd y tueddiadau demograffig yma yn parhau. Mae’r nifer cynyddol o bobl efo anabledd dysgu a dementia yn her i wasanaethau i ddarparu’r math iawn o gefnogaeth.

- **Pobl ifanc efo anghenion cymhleth:** bydd y gwasanaeth yn parhau i addasu i sicrhau eu bod yn gallu diwallu anghenion pobl ifanc efo anghenion cymhleth fel maent yn trosglwyddo i'r gwasanaethau oedolion.

- **Trosglwyddo rhwng gwasanaethau plant ac oedolion:** mae'n gweithio'n dda ar y cyfan, ac fe fydd y gwasanaeth yn canolbwyntio ar ddatblygu dull integredig fydd yn helpu efo'r trosglwyddo.

- **Cyfleoedd cymdeithasu a hamddena:** mae cydnabyddiaeth fod y cyfleoedd yma yn rhai gwerthfawr i'r unigolion, yn enwedig nawr yn dilyn cyfyngiadau Covid, boed i wneud ffrindiau newydd, neu berthynas newydd! Mae'r cyfnod clo wedi gwneud i staff feddwl am wneud pethau newydd / gwahanol efo'r unigolion. Cael gwneud gweithgareddau a chael y cyfle i gymryd risg er mwyn datblygu a chael profiadau gwahanol.

- **Llety:** mae rhai unigolion yn byw yn annibynnol efo'u tenantiaeth eu hunain, mewn tai rhannu, neu mewn tai ar ben eu hunain; rhai efo staff 24/7, eraill efo ychydig oriau o gefnogaeth yn ystod y dydd. Mae nifer cynyddol eisiau byw yn annibynnol ond mae diffyg llety cymdeithasol addas i unigolion; yn benodol yr unigolion efo anableddau corff ar draws Gwynedd.

- **Gwaith cyflogedig:** mae cael gwaith cyflogedig yn bwysig i unigolion, yn ychwanegu at hunan werth. Mae yna gyfleoedd gwirfoddoli ar gael i unigolion, ond yn anffodus, mae diffyg gwaith cyflogedig iddyn nhw. Mae angen cael darpar gyflogwyr i ddeall yr angen yma, ynghyd a chefnogaeth i'r unigolion a'r cyflogwr.

- **Gwasanaethau ysbaid:** mae gwasanaethau ysbaid yn werthfawr iawn i deuluoedd allu parhau i ofalu cyn hired ag y gallent. Mae'n gyfle i'r unigolyn a'u teulu gael seibiant dros dro.

- **Disgwyliadau:** mae disgwyliadau rhieni ieuengach yn newid. Maent eisiau i'w plant allu symud ymlaen i fyw yn annibynnol efo cefnogaeth yn y gymuned. Mae hefyd angen parhau i gydweithio efo rhieni hŷn i geisio gwneud cynlluniau ar gyfer y dyfodol.

**Argymhellion**

1. Parhau i gefnogi gofalwyr hŷn a sicrhau eu bod yn cael y gefnogaeth a'r gwasanaethau ysbaid maent eu hangen. Dylai hyn gynnwys gwasanaethau cynllunio ymlaen ar gyfer teuluoedd. Dylid parhau efo'r sgyrsiau sydd eisoes yn digwydd efo teuluoedd a chynllunio ar gyfer y dyfodol.

2. Mae angen cydweithio ac addysgu i newid agwedd cyflogwyr posibl a'r cyhoedd ehangach i sicrhau fod cyflogaeth yn cael ei weld fel opsiwn realistig i bobl efo anabledd dysgu. Mae hefyd angen datblygu'r cyswllt efo colegau o ran profiadau gwaith i unigolion. Bydd y Prosiect Cyfleoedd Gwaith yn mynd i'r afael â hyn.

3. Mae angen codi ymwybyddiaeth ac ystyried symud ymlaen i waith fel ffactor yn yr adolygiadau blynyddol a deilliannau personol yr unigolion. Eto, fe fydd y Prosiect Cyfleoedd Gwaith yn mynd i'r afael â hyn.

4. Mae’r ddarpariaeth dydd yn anghyson ar draws y sir, ond mae bwlch yn y ddarpariaeth yn Ne Meirionnydd. Mae angen mwy o amrywiaeth o gyfleoedd dydd ar draws y sir gan nad ydi rhai unigolion yn gallu cael y gwasanaeth sy’n briodol i’w anghenion nhw (hybiau o bosib yn ardaloedd Porthmadog, Tywyn, Bala).

5. Mae angen parhau i archwilio i opsiynau tai amgen efo budd-ddeiliaid allweddol a’r adran tai er mwyn cydweithio i ddod o hyd i ddatrysiadau tai i bobl efo anabledd dysgu. Cynhyrchu Strategaeth Letya ar gyfer Oedolion efo Anabledd Dysgu i adnabod y niferoedd a’r lleoliadau ar gyfer datblygu tai nawr ac yn y dyfodol.

6. Mae angen rhoi mwy o ddewis i unigolion pan maent yn symud i fyw yn annibynnol. Ar hyn o bryd mae diffyg tai addas yn gwaethygu’r broblem o roi’r dewis i’r unigolyn pa ardal maent eisiau byw.

7. Mae angen ystyried gwasanaeth di-dor (seamless), lle mae gweithwyr cefnogol yn gallu parhau i weithio efo pobl ifanc, er mwyn cael cysondeb yn eu cefnogaeth a mabwysiadu egwyddorion cefnogaeth weithgar cyn trosglwyddo i’r gwasanaeth oedolion. Gobeithir y bydd y bid am Weithiwr Oed Trosglwyddo yn llwyddiannus er mwyn diwallu’r angen yma.

8. Mae angen rhyw fath o ddewislen i bobl ifanc a’u gofalwyr o ran pa wasanaethau sydd yna ar gael unwaith y byddent wedi trosglwyddo i’r gwasanaeth oedolion gan gydnabod a rhannu’r neges fod symud ymlaen yn rhywbeth fydd yn digwydd o fewn cyfleoedd dydd i unigolion ifanc.

9. Ehangu ar y Cynllun Man Diogel a beilotwyd yn y gorffennol yn ardal Bangor mewn ardaloedd trefol (*Safe Place Scheme*), sef lleoedd diogel penodedig ar ein stryd fawr, ble all person fynd os ydynt eisiau cefnogaeth pan maent allan yn y gymuned.

10. Angen datblygu’r staff sy’n cefnogi unigolion. Y Mentoriaid PBS i fwrw ymlaen efo’u gwaith i gydweithio efo gweithwyr cefnogol er mwyn mynd i'r afael â hyn.

# 5. Awtistiaeth

### 5.1. Gwybodaeth am y bennod hon

Mae’r bennod hon yn cynnwys anghenion poblogaeth y rheini sydd ag Anhwylder y Sbectrwm Awtistiaeth.

### 5.2. Diffiniadau

**Beth yw ystyr Anhwylder y Sbectrwm Awtistiaeth?**
Mae Anhwylder y Sbectrwm Awtistiaeth (ASA) yn gyflwr niwroddatblygiadol sydd fel arfer yn ymddangos yn gynnar mewn plentyndod (yn aml, ond nid bob amser, mae'n amlwg erbyn tair oed). Mae'r cyflwr yn un gydol oes ac yn effeithio ar bobl o bob cefndir. Fodd bynnag, gall y nodweddion craidd a ddangosir newid wrth i'r unigolyn ddatblygu.

Mae ASA yn effeithio ar ddau faes eang o ran gweithredu:

- Diffygion parhaus gyda chyfathrebu a rhyngweithio cymdeithasol ar draws nifer o gyd-destunau
- Patrymau cyfyngedig, ailadroddus mewn ymddygiad, diddordebau neu weithgareddau

Mae ASA yn gyflwr sy'n bodoli ar draws yr ystod gallu, o'r rheiny sydd ag anabledd dysgu dwys/sylweddol i'r rheiny sy'n abl iawn yn ddeallusol (er enghraifft, y rheiny sydd ag IQ yn yr ystod uwch). Dros amser, cafodd nifer o labeli eu defnyddio i ddisgrifio'r cyflwr, yn cynnwys Awtistiaeth, Awtistiaeth yn ystod Plentyndod, Awtistiaeth Uwch-weithredol, a Syndrom Asperger. Gan fod pob un o'r cyflyrau hyn yn rhannu'r meysydd craidd o ran anawsterau a amlinellir uchod, mae'n arfer cyfredol, erbyn hyn, defnyddio'r categori diagnostig byd-eang o ASA. Ar hyn o bryd, mae yna ddadl ynghylch a yw'n fwy priodol defnyddio Cyflwr y Sbectrwm Awtistiaeth (CSA), yn hytrach nag ASA. Fodd bynnag, yr ail derm sy'n cael ei ddefnyddio mewn llawlyfrau diagnostig cyfredo.

### 5.3. Y polisïau a’r deddfau sydd wedi siapio ein gwasanaethau

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cod Ymarfer statudol terfynol ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth (linc - Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth). Datblygwyd y Cod o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf GIG (Cymru) 2006. Mae’r Cod yn nodi’r hyn y gall pobl awtistig, rhieni a gofalwyr ei ddisgwyl gan wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, a sut y bwriedir addasu’r ffordd yr ydym yn trefnu cymdeithas i fod yn fwy ymwybodol a fwy atodol i niwroamrywiaeth.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi pwyslais ar atal ac ymyrraeth gynnar, a rhoi mwy o lais a rheolaeth i unigolion sydd angen gofal a chefnogaeth.

Mae gofyn i gomisiynwyr a darparwyr gyd-gynhyrchu gwasanaeth gyda'r rhai hynny sy'n eu defnyddio, eu teuluoedd a'u cymunedau.

Mae'r dogfennau isod wedi arwain at siapio'r gwasanaeth awtistiaeth sydd gennym heddiw:

- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014)
- Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (2014)
- Cod Ymarfer ar Gyflenwi Gwasanaethau Awtistiaeth
- Cynllun Awtistiaeth Gwynedd 2021-23

Rydym hefyd wrthi ar hyn o bryd yn llunio Fframwaith Hyfforddi, a hynny'n seiliedig ar yr hyn sydd eisoes ar gael gan Awtistiaeth Cymru.

Yn ychwanegol at hyn, mae cyfathrebu rhwng y budd-ddeiliaid yn bwysig iawn wrth gydweithio ac mae'n bwysig fod pob budd-ddeiliad yn agored i gydweithio.

**5.4. Beth rydym yn ei wybod am y boblogaeth? (data meintiol)**

Nodir bod 79 o oedolion awtistig wedi cael eu cyfeirio ar gyfer asesiad yng Ngwynedd yn 2020-21. Er hynny, amcangyfrif bod gan 1.1% o'r boblogaeth ASA, sef 1,110 o oedolion yng Ngwynedd. Mae nifer yr oedolion a phlant sy'n derbyn diagnosis o Awtistiaeth yn cynyddu, ac erbyn 2040, rhagdybir y bydd y ffigwr hwn wedi cynyddu i 1,180.

Mae ASA yn effeithio ar bobl o bob cefndir, ond mae mwy o ddynion nag o ferched yn derbyn diagnosis ASA. Gallai hyn fod oherwydd bod ASA yn ymddangos i fod yn ansoddol wahanol i ferched. Mae merched yn gallu cuddio eu anawsterau cyfathrebu cymdeithasol yn well, sy'n golygu bod rhoi diagnosis yn gallu bod yn heriol. Yn ychwanegol, nid yw llawer o bobl yn sylweddoli eu bod yn awtistig, ac mae hyn yn arbennig o wir yn achos oedolion. Mae'n ymddangos bod mwy o blant nag oedolion yn cael diagnosis o awtistiaeth; a hynny, o bosib, gan na ddaeth yr asesiad ASA ar gael hyd nes y 1990au, ac mae'n canolbwyntio fwyaf ar blant, felly mae llawer o'r achosion ymysg oedolion yn cael eu colli.

Mae cyfran uchaf y plant sy'n derbyn diagnosis o ASA yng Ngwynedd ymysg y rheini sydd rhwng 14 ac 17 mlwydd oed, ac felly mae angen eu cefnogi i drosglwyddo o'r gwasanaeth plant i'r gwasanaeth oedolion.

Rydym yn gwybod fod Awtistiaeth ar gynnydd yn gyffredinol, a bydd mwy o alw am wasanaethau yn ymwneud â'r anhwylder yn y dyfodol. Yn ôl y GIG, rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022, roedd nifer y cleifion oedd wedi'u cyfeirio i gael asesiad o Awtistiaeth wedi cynyddu o 74,000 i dros 103,000, sy'n gynnydd o 39% (linc - Autism Statistics, April 2021 to March 2022 - NHS Digital). Efallai hefyd mai'r rheswm dros hyn yw bod ein dealltwriaeth a'n hymwybyddiaeth o'r cyflwr wedi datblygu dros y blynyddoedd, ac felly bod mwy o bobl yn cael eu cyfeirio am asesiad o'r herwydd.

**5.5. Beth y mae pobl yn ei ddweud wrthym? (data ansoddol)**

Yn anffodus nid oes gennym llawer o ddata pendant gan bobl awtistig a'u gofalwyr er mwyn dangos yr hyn maen nhw'n ei feddwl sy'n dda a'r hyn nad yw gystal. Fodd bynnag, mae Cynllun Awtistiaeth Gwynedd ar gyfer 2021-23 wedi'i gyhoeddi ac sy'n dangos y materion allweddol sydd angen sylw yn ystod y cyfnod:

**Mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol**

Nodwedd allweddol o'r cyflwr yw anhawster rhyngweithio cymdeithasol cyfatebol, cyfathrebu cymdeithasol a mynegi eu hunain a'u hanghenion. Mae asesu unigolyn ag awtistiaeth heb anabledd dysgu yn heriol gan fod ei anghenion yn aml yn gudd a gall eu heffaith ddibynnu ar yr amgylchiadau. Mae teuluoedd a phobl ag awtistiaeth yn dweud wrthym fod gweithwyr proffesiynol yn aml yn colli neu'n methu â deall effaith anawsterau cyfathrebu cymdeithasol wrth gynnal asesiadau. Gall rhywun a all ymddangos i fod yn gweithredu o fewn cyfyngiadau arferol gael anawsterau cudd oherwydd yr her iddynt ddeall cyfathrebu a rhyngweithio cymdeithasol cyfatebol y mae eraill yn ei gymryd yn ganiataol.

**Diagnosis**

Deallir bod y galw am asesiad a diagnosis i blant a phobl ifanc wedi cynyddu'n sylweddol ers 2018. Nid yw'r rhesymau dros y cynnydd ymddangosiadol wedi cael eu rhoi, felly mae gofyn am archwilio pellach. Fodd bynnag, mae angen i ni ddatblygu mynediad hawdd at ddiagnosis a chefnogaeth ôl-ddiagnostig gyda chydlynu i gynorthwyo pobl i gael mynediad at wasanaethau a rhwydweithiau gofal cymdeithasol. Mae angen datblygu rôl a chanllawiau mwy clir i ddarparu cefnogaeth i deuluoedd wrth aros am asesiad a diagnosis.

**Cyngor a chefnogaeth ar ôl cael diagnosis**

Bydd yr ystod o anghenion pobl a'r gefnogaeth y bydd eu hangen arnynt ar ôl cael diagnosis yn amrywio'n aruthrol. Bydd gan y mwyafrif o bobl ag awtistiaeth heb anabledd dysgu anghenion gofal isel neu gymedrol a bydd eu gofynion yn ymwneud yn bennaf â chyfathrebu, adeiladu rhwydwaith cymdeithasol, hyrwyddo annibyniaeth, cyflogaeth, tai, problemau iechyd meddwl, ymddygiad heriol a chynnal sefydlogrwydd.

Fodd bynnag, bydd gan rai anghenion critigol neu sylweddol a bydd angen cefnogaeth a goruchwyliaeth 24 awr arnynt. Mae mynediad at gyngor a chefnogaeth ar ôl diagnosis yn amrywiol. Y prif reswm am hyn yw nad ydym yn cael gwybod yn awtomatig bob tro mae diagnosis yn cael ei wneud, a hynny oherwydd nad yw pawb angen asesiad cymorth a chefnogaeth gan fod gan bob unigolyn anghenion gwahanol. Mae'r wybodaeth am unigolion awtistig ynghyd â'r cyfrifoldebau amdanynt yn gorwedd gyda mwy nag un asiantaeth neu sefydliad, ac felly mae gwaith i'w wneud er mwyn cydlynu'r elfen hon a bod yn fwy atebol. Er mwyn cyflawni hyn, rydym yn gobeithio gallu cyflogi swyddog fydd yn gweithio fel pwynt cyswllt i deuluoedd, ac yn rhoi cyngor priodol iddynt yn amserol. Mae hefyd angen datblygu canllawiau clir ynghylch lefel a math yr ymyrraeth, y cyngor, y gefnogaeth ac adolygu ôl-ddiagnosis. Byddai hyn yn sicrhau bod pobl yn gwybod / yn gallu cysylltu â gwasanaethau cymorth perthnasol.

**Pobl Ifanc yn y cyfnod pontio**
Yng Ngwynedd, mae'r Adran Plant a Theuluoedd yn cefnogi plant gydag Anabledd Dysgu hyd at eu bod yn troi yn 18 oed, ac mae'r cyfrifoldeb wedyn yn trosglwyddo i'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant unwaith mae'r unigolyn yn troi'n 18 oed.

Mae'r gyfran fwyaf o blant ag ASA y darperir gwasanaeth iddynt gan Dîm Integredig Derwen yn y categori 14-17 oed, felly mae trosglwyddo o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion yn gam allweddol, sy'n gallu bod yn heriol mewn perthynas â blaengynllunio er mwyn cwrdd ag anghenion a deilliannau personol.

Yn y gorffennol, mae unigolion gydag awtistiaeth ond sydd heb dderbyn diagnosis o anabledd dysgu neu anghenion eraill wedi tueddu i syrthio rhwng dwy stôl gan nad ydynt wedi cyrraedd trothwy unrhyw wasanaeth. O ganlyniad, mae'n bwysig bod yr Adrannau Plant, Addysg ac Oedolion yn asesu ar y cyd ac yn cydweithio'n agos er mwyn sicrhau cefnogaeth addas i oedolion ar ôl iddynt droi'n 18.

Nid oes gan bob unigolyn gydag awtistiaeth anghenion gofal a chefnogaeth, fodd bynnag efallai y byddant angen cymorth, gwybodaeth a mewnbwn ataliol gan rwydweithiau trydydd sector. Hyd yma nid yw'r wybodaeth na'r rhwydweithiau wedi bod yn ddigon aeddfed a hygyrch felly mae datblygu a chryfhau'r ddarpariaeth hon yn hollbwysig, gan wneud hyn mewn partneriaeth ag unigolion a'u gofalwyr.

Mae sicrhau bod cydweithio agos rhwng Tîm Integredig Derwen a'r Gwasanaethau Oedolion yn hanfodol yn y cyfnod Oed Trosglwyddo. Mae'r Fforwm Oed Trosglwyddo yn ddull o adnabod unigolion, blaenoriaethu a gosod trefn i rannu asesiadau a gwybodaeth cyfredol er mwyn penderfynu pa wasanaeth yw'r mwyaf addas i'r unigolyn. Mae'r Gwasanaeth Oedolion yn cydweithio â Derwen i gryfhau'r prosesau a'r trefniadau, ynghyd â chynnig ymyrraeth gynnar er mwyn ceisio adnabod a rhoi cyfleoedd i unigolion weithio tuag at ddeilliannau personol sy'n arwain at fod yn fwy annibynnol wrth iddynt droi'n oedolyn.

Un ffordd o gryfhau'r cydweithio yw datblygu Fframwaith Hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth staff o awtistiaeth, gan sicrhau bod pob tîm a gwasanaeth yn dod yn fwy cyfarwydd â'r cyflwr a beth sy'n bwysig wrth gefnogi unigolion gydag awtistiaeth. Mae Gweithwyr Cymdeithasol awtistiaeth yn cydweithio'n agos gyda'r Fforwm Oed Trosglwyddo, ac yn gweithio gydag unigolion penodol. Yn ychwanegol at hyn, mae cefnogaeth o gwmpas hyfforddiant a chyfleoedd gwaith, datblygu rhwydweithiau cymdeithasol ac ati yn bwysig iawn ac mae angen datblygu hyn ymhellach.

**Hyfforddiant**
Dylai pob aelod staff sy'n gweithio'n uniongyrchol â phlant, pobl ifanc neu oedolion ymgymryd â hyfforddiant ymwybyddiaeth ASA. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod codi ymwybyddiaeth sylfaenol, a darparu hyfforddiant ar awtistiaeth yn gallu gwella gallu pobl yn sylweddol o ran cyfathrebu gyda phobl awtistig.

Rydym yn datblygu deunyddiau hyfforddiant penodol ar ddeall awtistiaeth, gan gynnwys llyfryn gwybodaeth a modiwl e-ddysgu. Rydym wedi dechrau mapio anghenion addysg a hyfforddiant ymarferwyr. Mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ynys Môn a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, byddwn yn datblygu haenau o hyfforddiant ar gyfer gwasanaethau cyffredinol ac arbenigol. Bydd hyn yn cael ei lywio gan waith sy'n cael ei wneud ar lefel genedlaethol drwy'r Gwasanaeth Awtistiaeth Genedlaethol. Yn ogystal, bydd disgwyl i gyrff statudol ymgymryd â dadansoddiad o anghenion hyfforddiant awtistiaeth i'w staff, wedi'u teilwra i'w hanghenion proffesiynol.

**Gwasanaeth Awtistiaeth Cenedlaethol**
Mae'r Gwasanaeth yn cynnig asesiad diagnostig i oedolion, ond nid ydynt yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc. Mae angen cryfhau'r cysylltiad gyda'r gwasanaeth o du Gwasanaethau Plant a Gwasanaeth Oedolion. Mae datblygu patrwm o rannu gwybodaeth a chydweithio ar ddatblygu adnoddau defnyddiol yn y maes yn hanfodol i ddylanwadu ar wella gwasanaethau yn lleol.

**Trydydd Sector**
Mae'r trydydd sector yn cynnwys sefydliadau a mudiadau megis Awtistiaeth Cymru a Gwasanaeth Integredig Awtistiaeth Gogledd Cymru. Fodd bynnag nid oes unrhyw fudiad penodol yng Ngogledd Cymru ac nid ydym ni fel Awdurdod Lleol yn cyfrannu at unrhyw fudiad trydydd sector yn y maes Awtistiaeth ar hyn o bryd. Yn ogystal mae anghysondeb yn y ffordd yr ydym yn gwneud defnydd o'r trydydd sector, ac mae hyn wedi cael ei adnabod fel rhywbeth i'w ddatblygu.

**5.6. Adolygiad o'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd (gwasanaethau ac asedau)**
Rydym yn ymwybodol bod y gwasanaethau a'r gweithgareddau sydd ar gael i oedolion awtistig yn wendid ar hyn o bryd a bod gennym le i wella yma, felly bydd y gwaith yn deillio o'r Cynllun Awtistiaeth yn ceisio cyfarch y bwlch hwn.

Mae unigolion awtistig sydd ar y gofrestr anabledd dysgu yn cael eu cefnogi gan y tîm Anabledd Dysgu. Yn ogystal, mae gan wefan Awtistiaeth Cymru adnoddau defnyddiol i oedolion awtistig, yn ogystal â dau grŵp lleol sef y Grŵp Cymorth Awtistiaeth/Asperger Gwynedd a Môn, sy'n cwrdd unwaith y mis ym Mangor, a'r Grŵp Cymdeithasol ar gyfer oedolion sydd ar y sbectrwm awtistiaeth gweithredu lefel uchel.

Un o'r prif rwystrau yw oedolion sydd ag ASA ond nad ydynt yn cyrraedd y meini prawf ar gyfer y Gofrestr Anabledd Dysgu. Os oes unrhyw oedolion sydd wedi dod i gyswllt ynglŷn â Gwasanaethau Awtistiaeth, ond ddim yn cyrraedd y meini prawf, maent yn cael eu trafod mewn fforwm misol Oedolion Bregus ac yn cael eu dyrannu i'r tîm sydd â'r arbenigedd / gwybodaeth i ddarparu'r wybodaeth/gefnogaeth os oes angen.

Mae sicrhau bod oedolion a phlant gydag awtistiaeth yn cael mynediad i'r gefnogaeth sydd ei angen arnynt i ffynnu yn un o flaenoriaethau Cyngor Gwynedd, a dyma a addawyd drwy'r flaenoriaeth honno:

- Lansio Cynllun Awtistiaeth i'r sir ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd, partneriaid trydydd sector ac ar draws gwasanaethau'r Cyngor.
- Penodi rôl yn y Cyngor ar gyfer gweithio yn y maes gan roi sylw penodol i'r cyfnod trosglwyddo o blentyndod i oedolyn yn y maes.
- Adolygu trefniadau mynediad i wasanaeth integredig plant anabl (DERWEN).
- Gwella trefniadau cydweithio, rhannu gwybodaeth a darparu cefnogaeth yn y maes gyda'n partneriaid iechyd a gyda darparwyr arbenigol yn y trydydd sector.

Sefydlwyd Bwrdd Prosiect Awtistiaeth isranbarthol yn 2020 er mwyn sefydlu Cynllun Awtistiaeth Gwynedd ar gyfer 2021-23 mewn cydweithrediad â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac Ynys Môn, a chyhoeddwyd y Cynllun hwnnw ym mis Tachwedd 2021. Bydd y Bwrdd Prosiect yn cwrdd bedair gwaith y flwyddyn i sicrhau cynnydd yn erbyn y Cynllun.

Mae Cyngor Gwynedd yn rhan o gyfarfodydd rheolaidd gyda'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (GAI). Mae'r GAI yn gweithio gydag unigolion nad ydynt yn cyrraedd meini prawf Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn cefnogi gyda diagnosis a darparu cefnogaeth i staff, teuluoedd, gweithwyr cymdeithasol ac ati i gefnogi unigolion awtistig. Mae bwriad i ddatblygu hyfforddiant ymwybyddiaeth awtistiaeth ar y cyd gyda'r GAI.

Yn y dyfodol bydd cydweithio agosach gyda'r GAI er mwyn cefnogi unigolion sydd ddim yn cyrraedd y meini prawf ar gyfer y gofrestr Anabledd Dysgu, a bydd trefniadau'n cael eu gwneud i weithwyr cyswllt GAI yng Ngwynedd ymweld â hybiau cymunedol y Gwasanaeth fel bod modd iddynt ddefnyddio ein hybiau ar gyfer eu sesiynau a hyrwyddo cydweithio.

Mae potensial mawr i fod yn cyfeirio i elusennau lleol a'r trydydd sector a all gynnig cefnogaeth lefel isel, a byddai hyn o fudd mawr i oedolion awtistig gan hefyd dynnu'r pwysau oddi ar y gwasanaethau statudol. Felly y nod yw datblygu amrywiaeth o wasanaethau, grwpiau a chyfleoedd ar y cyd gyda'r trydydd sector er mwyn sicrhau bod cyngor a chefnogaeth amserol ac ataliol ar gael i unigolion awtistig. Rydym angen ymgysylltu gydag unigolion awtistig er mwyn dod i ddeall yr hyn maen nhw ei eisiau a'i angen, a darparu ar gyfer hyn y gorau y gallwn, a bydd hyn hefyd yn ein galluogi i weithio'n well yn y dyfodol.

Mae sgôp y gwaith yn y maes hwn yn eang iawn, ac mae'n amlwg bod llawer o waith i'w wneud i wella a datblygu'r ddarpariaeth a'r cymorth sydd ar gael i blant ac oedolion sy'n cael diagnosis o Awtistiaeth.

**5.7. Casgliad ac argymhellion**

Mae gennym waith i'w wneud er mwyn diwallu'r bylchau sy'n bodoli ar hyn o bryd yn ogystal â chael gwaelodlin a gwell data er mwyn dadansoddi ac adnabod yr angen. Gobeithir y bydd y Cynllun Awtistiaeth yn cyfarch y bylchau hyn yr ydym eisoes wedi'u hadnabod, a mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau a diffygion.

Gweler isod yr argymhellion sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Awtistiaeth lle bwriedir cyflawni'r gwaith yn ystod y ddwy flynedd nesaf.

**Penodi Cydlynydd / Swyddog Prosiect ar gyfer datblygu Gwasanaethau Awtistiaeth**

Ar hyn o bryd mae prinder data mewn perthynas â niferoedd a phroffiliau plant a phobl ifanc sy'n cael diagnosis o ASA. Bydd sefydlu rôl i goladu'r wybodaeth hon ar draws yr awdurdod lleol, y bwrdd iechyd ac addysg yn cynorthwyo wrth gynllunio ar gyfer gwella gwasanaethau. Byddai'r swydd hefyd yn cynnig cyswllt cyson â'r Gwasanaeth Awtistiaeth Cenedlaethol, gan osgoi unrhyw ddyblygu, nodi bylchau a datblygu rhwydwaith ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i bobl awtistig. Bydd y swydd hefyd yn cynorthwyo i weithredu elfennau o'r cynllun gweithredu.

**Sefydlu Rôl Ymarferydd Pontio ASA (14-25 oed)**

Byddai'r swydd hon wedi'i chydleoli ar draws Gwasanaethau Anabledd Dysgu plant ac oedolion ac yn cynnwys mynediad i'r plant a'r bobl ifanc hynny lle nad oes diagnosis o anabledd dysgu

**Sefydlu Rôl Ymarferydd ASA (Cefnogaeth yn ystod asesiad / diagnosis) (14-25 oed)**

Mae cynnydd yn y galw am asesu ASA yn golygu bod yna restr aros. Byddai darparu cyngor a chefnogaeth ar y pwynt hwn yn cynorthwyo i reoli'r galw am wasanaethau ôl-ddiagnosis ac yn hyrwyddo cymorth ac ymyrraeth gynnar gyda'r nod o leihau'r galw am wasanaeth statudol ar ôl cael diagnosis.

**Hyfforddiant ASA**

Mae rhaglen aml-haen o hyfforddiant, gan gynnwys e-ddysgu, yn cael ei datblygu. Darperir hyn ar draws gwasanaethau cyffredinol i gynyddu ymwybyddiaeth awtistiaeth yn ogystal â hyfforddiant mwy arbenigol i ymarferwyr sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phobl awtistig.

Cynnal awdit o anghenion hyfforddiant staff, gan roi ystyriaeth i lefel cysylltiad rolau unigol gyda pobl awtistig. Bydd hyn yn ystyried gwaith uniongyrchol gyda pobl awtistig yn ogystal a swyddi lle mae posibilrwydd, drwy gyswllt wyneb yn wyneb a'r cyhoedd, i ddod i gysylltiad ac felly angen lefel o ymwybyddiaeth am eu hanghenion.

**Archwilio'r potensial ar gyfer datblygu Gwasanaethau Awtistiaeth y trydydd sector**

Mae angen ymchwilio ymhellach i ddatblygu gwasanaethau cymorth ymarferol medrus, lefel isel. Mae yna enghreifftiau o weithgareddau ymarferol yn cael eu cynnal gan sefydliadau trydydd sector sy'n derbyn arian Llywodraeth Cymru a chyllid grant arall. Gallai cyflwyno model o'r fath yng Ngwynedd ddarparu gwasanaeth effeithiol i wella ansawdd bywydau pobl ag awtistiaeth a rheoli unrhyw alw ychwanegol ar wasanaethau statudol.

**Ymgysylltu â'r Gwasanaeth Awtistiaeth Cenedlaethol a'r Trydydd Sector**

Cynnal strategaeth ymgysylltu sydd o fudd i'r ddwy ochr sy'n osgoi unrhyw botensial ar gyfer dyblygu, gan sicrhau eglurder gwybodaeth a chyngor a ddarperir i oedolion a phlant a phobl ifanc a'u teuluoedd. Bydd cyfathrebu a rhannu gwybodaeth yn effeithiol yn cynorthwyo i ddatblygu gwasanaethau a rhannu gwybodaeth mewn perthynas â chanlyniadau i bobl awtistig yng Ngwynedd.

Mae angen adnabod partneriaid sy'n gallu darparu gwasanaethau lefel isel i bobl ag ASA. Gall y sector gwirfoddol chwarae rhan wrth ddarparu gwasanaethau cymorth ymarferol medrus, lefel isel a chost isel i bobl ifanc efo awtistiaeth gyda neu heb ddiagnosis ffurfiol o Anableddau Dysgu yng Ngwynedd y mae angen ei gyfarch. Byddai cyflwyno model tebyg o'r fath yng Ngwynedd yn darparu gwasanaeth effeithiol sy'n gwella ansawdd bywyd pobl ifanc efo awtistiaeth; helpu i atal argyfyngau rhag digwydd, ond bydd hefyd yn lleihau'r pwysau ar y gwasanaethau statudol. Bydd yr angen am wasanaethau o'r fath yn dod yn fwy a mwy pwysig os bydd y cynnydd presennol mewn diagnosis ASA yn arwain at alw uwch ar wasanaethau statudol.

# 6. Iechyd Meddwl

## 6.1. Cyflwyniad i'r bennod

Mae'r bennod hon yn cynnwys trosolwg o anghenion iechyd meddwl y boblogaeth oedolion yng Ngwynedd. Mae'r bennod yn cyffwrdd ar yr hyn rydym yn ei wybod am y boblogaeth, y themâu a amlygwyd yn ystod ein hymchwil, y ffactorau sy'n effeithio iechyd meddwl a llesiant y boblogaeth, a'r hyn mae'r bobl yn dweud wrthym am ddarpariaeth iechyd meddwl. Bydd y bennod yn cloi drwy rannu unrhyw gasgliadau neu argymhellion a deilliodd o'r ymarferiad.

## 6.2. Diffiniadau

Beth mae'r term **'iechyd meddwl'** yn ei olygu?

Mae Sefydliad Iechyd y Byd (2014) wedi diffinio iechyd meddwl fel:

*"cyflwr o les ble mae pob unigolyn yn deall beth yw ei botensial, yn gallu dygymod â phwysau cyffredinol bywyd, yn gallu gweithio'n gynhyrchiol ac yn gallu gwneud cyfraniad i'w gymuned ei hunan."*

## 6.3. Rhoi'r gwaith mewn cyd-destun

Mae symudiad cynyddol wedi digwydd dros y blynyddoedd diwethaf o fod â phrif ffocws ar salwch meddwl, i gydnabyddiaeth o bwysigrwydd iechyd meddwl a llesiant.

Mae'r ffactorau sy'n effeithio ar iechyd meddwl a llesiant yn cynnwys ond ddim yn gyfyngedig i amddifadedd, ansicrwydd tai, cyflogaeth, unigrwydd ac ethnigrwydd.

Mae salwch meddwl yn gysylltiedig â salwch corfforol cynyddol a disgwyliad oes, a gellir dadlau bod y gwrthwyneb yr un mor wir. Mae iechyd meddwl gwael hefyd yn gysylltiedig ag ymddygiad lle y cymerir risgiau cynyddol ac ymddygiadau neu ffordd o fyw sydd ddim yn iach.

## 6.4. Beth mae ein hymchwil ddesg yn ei ddweud am y maes?

Bydd oddeutu un mewn pedwar person yn y DU yn profi problem iechyd meddwl bob blwyddyn (Mind, 2016), a allai gynnwys gorbryder neu iselder. Yn Arolwg Iechyd Cymru (2018-19 a 2019-20), adroddodd 9% o ymatebwyr sy'n byw yng Ngogledd Cymru eu bod yn cael eu trin am salwch meddwl.

Mae'r ffactorau sy'n effeithio ar iechyd meddwl a llesiant yn cynnwys (Panel Cydgomisiynu ar gyfer Iechyd Meddwl Gogledd Cymru, 2013):

- Ffactorau genetig ac amgylcheddol cynnar;
- Ffactorau cymdeithasol-economaidd, gan gynnwys incwm uwch a statws cymdeithasol-economaidd;

- Amgylchedd byw da;
- Iechyd cyffredinol da;
- Addysg;
- Cyflogaeth gan gynnwys ymreolaeth, cefnogaeth, diogelwch a rheolaeth mewn swydd unigolyn;
- Gweithgareddau megis cymdeithasu, gweithio tuag at nodau, ymarfer corff ac ymgysylltu mewn gweithgareddau ystyrlon;
- Ymgysylltiad cymdeithasol a rhwydweithiau personol, cymdeithasol a chymunedol cryf;
- Allgaredd (gwneud pethau i eraill);
- Sgiliau bywyd llythrennedd emosiynol a chymdeithasol, cymwyseddau a phriodoleddau cymdeithasol megis sgiliau cyfathrebu, gallu gwybyddol, datrys problemau, sgiliau perthynas ac ymdopi, gwydnwch ac ymdeimlad o reolaeth;
- Mae ysbrydolrwydd yn gysylltiedig â gwell llesiant, hunan-barch, datblygiad personol a rheolaeth;
- Hunan-barch positif;
- Gwerthoedd.

(*Ffynhonnell: Panel Cydgomisiynu ar gyfer Iechyd Meddwl. Guidance for commissioning public mental health Services, 2013).*

Yn ogystal â rhestr uchod y Panel Cydgomisiynu ar gyfer Iechyd Meddwl Gogledd Cymru, mae ein hymchwil wedi amlinellu sawl ffactor ychwanegol a all effeithio iechyd meddwl a llesiant:

**Amddifadedd**

- Mae problemau iechyd meddwl yn fwy cyffredin mewn ardaloedd lle y ceir amddifadedd uchel ac mae iechyd meddwl gwael yn gysylltiedig â diweithdra a lefelau is o gyrhaeddiad addysgiadol, yn ogystal ag iechyd corfforol gwael.
- Canfu Arolwg Cenedlaethol Cymru bod sgoriau llesiant meddyliol yn cynyddu wrth i'r lefelau amddifadedd gynyddu.

**Tai**

- Mae tai pobl a'u gallu i fforddio tai yn dylanwadu'n gryf ar iechyd meddwl.
- Mae pobl sy'n berchen ar eu cartref neu sydd â morgais/benthyciad ar eu cartref yn profi lefelau is o orbryder na'r rhai sy'n byw mewn tai ar rent/rhent rhannol.

**Cyflogaeth**

- Mae'r manteision o fod mewn cyflogaeth â thâl, gan gynnwys y manteision ariannol, rhyngweithiad cymdeithasol a'r synnwyr o hunan-werth oll yn cael effaith bositif ar iechyd a llesiant meddyliol.
- Mae canran yr oedolion mewn cyflogaeth ar draws Gogledd Cymru wedi parhau yn gymharol sefydlog ers 2018.

**Unigrwydd**

- Gall problem iechyd meddwl achosi i berson deimlo'n unig, ynghyd â chael effaith negyddol ar iechyd meddwl.

**Henaint**

- Mae pobl hŷn yn agored i ddioddef o broblemau iechyd meddwl. Iselder a dementia yw'r problemau mwyaf cyffredin ac fe allant brofi'r holl broblemau iechyd meddwl y mae oedolion o oedran gweithio yn eu cael.
- Mae dementia yn gyflwr iechyd meddwl cyffredin ymysg pobl hŷn, gan ei fod yn achos arwyddocaol o afiachusrwydd, marwoldeb a defnydd gofal iechyd. Wrth i bobl fyw yn hirach, mae'n debygol y bydd dementia yn mynd yn rhywbeth mwy cyffredin.
- Amcangyfrifir bod oddeutu 2,018 o unigolion dros 65 oed yn byw gyda dementia yng Ngwynedd ar hyn o bryd, ac mae disgwyl i hyn gynyddu i 3,085 erbyn 2040, sy'n gynnydd o 53% mewn ugain mlynedd.
- Rhwng 2014/15 a 2020/21, roedd cyfanswm o 1,795 o dderbyniadau seiciatreg mewn henaint (dewisol a brys) ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Gwelwyd y ganran uchaf o'r derbyniadau hyn yn Ysbyty Maelor, Wrecsam (35%), ac yna yn yr Uned EMI, Bryn Hesketh (19%).
- Nid oes unrhyw welyau ar gael yng Ngwynedd ac o ganlyniad, mae gofyn i gleifion deithio i Ynys Môn, neu ymhellach na hynny, os nad oes unrhyw welyau ar gael yn Ynys Môn.

## 6.5. Beth rydym yn ei wybod am y boblogaeth?

**Amddifadedd**

Mae problemau iechyd meddwl yn fwy cyffredin mewn ardaloedd lle y ceir amddifadedd uchel ac mae iechyd meddwl gwael yn gysylltiedig â diweithdra a lefelau is o gyrhaeddiad addysgiadol, yn ogystal ag iechyd corfforol gwael.

Mae 4% o boblogaeth Gwynedd (4,800 o bobl) yn byw yn y pumed mwyaf difreintiedig ar draws Cymru, sy'n is na chyfartaledd Cymru (19%). (2018-19 a 2019-20 wedi eu cyfuno, ac oedran wedi'i safoni). Mae 7% o boblogaeth Gwynedd yn adrodd eu bod yn cael triniaeth am salwch meddwl ar hyn o bryd.

Mae nifer y bobl gyda phroblemau iechyd meddwl yn debygol o barhau yn sefydlog. Gellir defnyddio graddfeydd cyffredinolrwydd o Arolwg Marwoldeb Seiciatrig Oedolion 2014 i amcangyfrif nifer yr oedolion sydd ag anhwylderau iechyd meddwl cyffredin. Rhagwelir y bydd cynnydd bychan ar draws Gogledd Cymru o oddeutu 400 o bobl. Mae'r siart isod yn dangos y cynnydd. Gallai'r niferoedd gynyddu ymhellach os oes cynnydd pellach mewn ffactorau risg ar gyfer iechyd meddwl gwael, megis diweithdra; incwm is; dyled; trais; digwyddiadau bywyd sy'n peri straen; a thai annigonol.

***Tabl 10: Pobl 16 mlwydd oed a throsodd y rhagwelir y bydd ganddynt anhwylder meddyliol cyffredin, cymhariaeth Gwynedd yn y flwyddyn 2020 a 2040:***

| Awdurdod | Nifer 2020 | Canran o'r boblogaeth (2020) | Nifer 2040 | Canran o'r boblogaeth (2040) | Nifer y newid |
|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwynedd | 17,000 | 14% | 17,700 | 13% | +650 |

**Mae'r niferoedd wedi cael eu talgrynnu felly efallai na fyddant yn adio*
*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Daffodil*

Y salwch meddwl mwyaf cyffredin sy'n cael ei adrodd yw gorbryder ac iselder. Mae timau iechyd meddwl yn cefnogi pobl gydag amrediad eang o salwch meddwl, ynghyd â phobl gyda phroblemau seicolegol, emosiynol a chymdeithasol cymhleth megis celcio (*hoarding*), anhwylderau bwyta ac Anhwylderau Straen Wedi Trawma (PTSD).

Gall y Fframwaith Ansawdd a Deilliannau (Quality and Outcomes Framework neu QoF) a gwybodaeth o gofnodion meddygon teulu ddarparu amcangyfrifon bras o ba mor gyffredin yw rhai anhwylderau seiciatrig. Mae'r data hwn yn debygol o roi amcangyfrif rhy isel o'r sefyllfa wirioneddol gan ei fod yn dibynnu ar y claf yn mynd at Feddyg Teulu am driniaeth, derbyn diagnosis gan y Meddyg Teulu a chael ei roi ar gofrestr salwch.

Mae’r tabl isod yn dangos nifer y cleifion sydd ar gofrestrau salwch QoF perthnasol. Mae iechyd meddwl yn cynnwys sgitsoffrenia, anhwylderau deubegwn (*bipolar*), seicosis eraill a chyflyrau iechyd meddwl eraill.

***Tabl 11: Nifer y bobl ar gofrestrau salwch QoF (Quality and Outcomes Framework)***

| | Nifer iechyd meddwl | % Iechyd Meddwl | Nifer dementia | % Dementia |
|---|---|---|---|---|
| Gwynedd | 1,135 | 0.89% | 784 | 0.62% |
| Gogledd Cymru | 7.070 | 0.99% | 5,431 | 0.76% |
| Cymru | 32,917 | 1.02% | 22,686 | 0.70% |

**Mae'r niferoedd wedi cael eu talgrynnu felly efallai na fyddant yn adio*
*Ffynhonnell: Cofrestri salwch y Fframwaith Sicrhau Ansawdd a Gwella (QAIF) yn ôl bwrdd iechyd lleol, clwstwr a phractis Meddyg Teulu, StatsWales Llywodraeth Cymru (2019-20)*

Gellir cymhwyso'r graddfeydd cyffredinolrwydd o Arolwg Marwoldeb Seiciatrig Oedolion 2014 i broblemau iechyd meddwl penodol hefyd. Mae’r tabl isod yn dangos amcangyfrif o nifer y bobl yng Ngogledd Cymru sy'n byw â phob cyflwr.

***Tabl 12: Amcangyfrif o nifer yr oedolion yng Ngogledd Cymru sydd wedi'u heffeithio gan broblemau iechyd meddwl (2020)***

| | Anhwylder meddyliol cyffredin | Anhwylder meddyliol gwrth-gymdeithasol | Anhwylder deubegwn | Anhwylder personoliaeth ffiniol | Anhwylderau seicotig |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwynedd | 17,000 | 2,600 | 1,900 | 1,900 | 500 |
| Gogledd Cymru | 93,800 | 13,200 | 9,800 | 9,100 | 2,800 |

**Mae'r niferoedd wedi cael eu talgrynnu felly efallai na fyddant yn adio*
*Ffynhonnell: Daffodil*

Mae hefyd yn bosib defnyddio'r amcangyfrifon i ragfynegi'r niferoedd gyda chyflyrau iechyd meddwl yn y dyfodol. Mae'r tabl isod yn dangos hyn ar gyfer Gogledd Cymru. Rhagwelir cynnydd yn nifer y bobl sydd ag anhwylderau meddyliol cyffredin. Amcangyfrifir y bydd niferoedd cyflyrau eraill yn gostwng.

***Tabl 13: Amcangyfrif o nifer yr oedolion yng Ngogledd Cymru sydd wedi'u heffeithio gan broblemau iechyd meddwl (2020)***

| Cyflwr iechyd meddwl | Amcangyfrif o'r cyffredinolrwydd | Nifer 2020 | Nifer 2040 | Nifer y newid |
|---|---|---|---|---|
| Anhwylder meddyliol cyffredin | 3% | 17,004 | 17,673 | +669 |
| Anhwylder meddyliol gwrthgymdeithasol | 1.90% | 2,551 | 2,616 | +65 |
| Anhwylder deubegwn | 1.40% | 1,872 | 1,931 | +59 |
| Anhwylder personoliaeth ffiniol | 1.30% | 1,856 | 1,922 | +66 |
| Anhwylderau seicotig | 0.40% | 498 | 513 | +15 |

*Ffynhonnell: Daffodil*

**Unigrwydd ac ynysu cymdeithasol**

Gall problem iechyd meddwl achosi i chi deimlo'n unig, ynghyd â chael effaith negyddol ar eich iechyd meddwl. Gall unigrwydd gael ei achosi am nifer o resymau, gan gynnwys digwyddiadau bywyd, adegau penodol o'r flwyddyn neu amgylchiadau penodol megis bod wedi dieithrio oddi wrth eich teulu, problemau symudedd neu ddiffyg arian (Mind, 2019).

Ar draws Gogledd Cymru, mae'r teimlad isaf o berthyn yn cael ei adrodd yng Ngwynedd (53%). Mae'r gyfradd uchaf o drigolion sy'n teimlo eu bod yn perthyn i'w hardal yng Nghonwy (61%), sy'n uwch na'r cyfartaledd i Gymru (52%).

**Dementia cynnar**

Mae gwasanaethau ar gyfer pobl gyda dementia a salwch meddwl organig yn tueddu i gael eu darparu fel rhan o wasanaethau pobl hŷn (gweler y bennod Pobl Hŷn am ragor o wybodaeth). Efallai na fydd hwn yn bodloni anghenion pobl iau gyda dementia cynnar. Yn aml, mae gwasanaethau iechyd meddwl yn cefnogi pobl gyda Syndrom Korsakoff, sy'n ffurf o ddementia sy'n cael ei achosi'n fwyaf cyffredin gan gamddefnyddio alcohol. Mae gwasanaethau camddefnyddio sylweddau hefyd yn debygol o fod ynghlwm â pherson gyda Syndrom Korsakoff, gan ganolbwyntio ar broblemau cyffuriau ac alcohol, tra gall gwasanaethau iechyd meddwl roi cefnogaeth ar gyfer symptomau.

Fel arfer, mae nifer cyson o 20 i 28 o bobl efo dementia sydd dan 65 mlwydd oed. Ar hyn o bryd, mae 14 o unigolion dan 65 mlwydd oed yn agored i nyrsys Dementia Arbenigol yng Ngwynedd.

Mae'r gwasanaethau a ddarperir ar eu cyfer yn cynnwys:

- Grŵp cinio sy'n cwrdd unwaith y mis i bobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr.
- Grŵp cerdded i bobl ifanc gyda dementia, gan gynnwys eu ffrindiau a'u teulu, sy'n cwrdd unwaith y mis rhwng mis Mai a mis Hydref.
- Dawns yn y gymuned; roedd tair bob blwyddyn cyn y cyfnod clo.
- Trefnu gweithgareddau / prosiectau celf yn y gymuned dros gyfnod o rai wythnosau unwaith y flwyddyn.
- Paned a sgwrs i grŵp o ferched ifanc sy'n byw gyda dementia ym Meirionnydd.
- Grwpiau cymunedol dementia cyfeillgar ym Mhwllheli sydd wedi cael eu datblygu gyda phobl ifanc sy'n byw gyda dementia, eu teuluoedd, pobl hŷn sy'n byw gyda dementia a'u teuluoedd a busnesau lleol. Hefyd, mae ffilmiau dementia cyfeillgar yn cael eu dangos yn Neuadd Dwyfor a Cell B.

Yn ogystal â hyn, os oes angen, mae pobl ifanc sy'n byw gyda dementia yn derbyn cefnogaeth ychwanegol gan un o'u gofalwyr cefnogi iechyd neu weithwyr cefnogol gofal cymdeithasol yn y gymuned.

Os yw'n briodol gellir mynychu gwasanaethau dydd ar gyfer asesu/symbyliad gwybyddol yn un o'r canolfannau dydd, sef Hafod Hedd, Ysbyty Dolgellau, Canolfan Iechyd Blaenau Ffestiniog neu Ysbyty Tywyn. Mae'r gwasanaeth hwn ar gyfer unigolion o bob oedran.

Mae pobl ifanc hefyd yn mynychu gweithgareddau Dementia Actif a grwpiau Prosiect Ymgysylltu a Grymuso Dementia (DEEP) sydd hefyd ar agor i bob oedran.

**Mae gwaith ymchwil yn awgrymu nad yw nifer uchel o bobl gyda phroblemau iechyd meddwl yn gofyn am help**


Mae cyffredinolrwydd problemau iechyd meddwl ac fel y'i hamcangyfrifwyd gan Arolwg Marwoldeb Seiciatreg Oedolion (2014) ac Arolwg Cenedlaethol Cymru (2018-20) yn sylweddol uwch na'r amcangyfrif o bobl sy'n adrodd eu bod yn cael eu trin am broblem iechyd meddwl. Mae hyn yn awgrymu y gallai nifer o bobl yn y boblogaeth fod wedi'u heffeithio ond nad ydynt yn chwilio am help am nifer o resymau.

**Mae nifer y derbyniadau i gyfleusterau iechyd meddwl yn gostwng**

Mae'r graff isod yn dangos derbyniadau i gyfleusterau iechyd meddwl. Mae'n dangos gostyngiad cyffredinol yn nifer y derbyniadau yng Ngogledd Cymru. Nid yw'n bosib dweud o'r data hwn os yw'r gostyngiad yn sgil lleihad yn y galw, neu leihad yn nifer y gwelyau iechyd meddwl acíwt sydd ar gael. Bu i'r ymgynghoriad ar gyfer yr asesiad poblogaeth nodi fod pobl yn cael eu lleoli y tu allan i'r rhanbarth, ac fe welwyd enghreifftiau o leoliadau mor bell i ffwrdd â Llundain ac arfordir De Lloegr. Fodd bynnag, mae gan BIPBC dimau triniaeth gartref i geisio osgoi derbyniadau i'r ysbyty.

Mae unigolion yng Ngwynedd sydd ag anghenion mwy arbenigol yn cael eu lleoli y tu allan i'r sir yn bennaf. Mae hyn yn digwydd gan nad oes gwasanaethau arbenigol yng Ngwynedd, ond nid oes digon o alw am leoliadau i gyfiawnhau creu cyfleusterau a lleoliadau yng Ngwynedd ei hun chwaith, gan nad oes digon o unigolion lleol fyddai'n gallu llenwi'r darpariaethau. Yn aml, nid oes gwelyau ar gael pan fo angen derbyn claf sydd wedi'i gadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl, 1983. Gall hyn achosi oedi sylweddol o ran cleifion yn cael mynediad at driniaeth a chefnogaeth briodol ac mae hyn yn cael effaith anochel ar ofalwyr.

**Graff 18: Nifer y derbyniadau i gyfleusterau iechyd meddwl yng Ngogledd Cymru**




*Ffynhonnell: Stats Cymru, data ar dderbyniadau, newid mewn statws a nifer y bobl sy'n cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.*

**Hunanladdiad**

Mae'n anodd llunio casgliadau o'r data sydd ar gael ar hunanladdiad yng Ngogledd Cymru, yn sgil nifer isel yr achosion a rhesymau eraill. Roedd y nifer cyfartalog o hunanladdiadau ymysg pobl 15 mlwydd oed a throsodd yng Ngogledd Cymru wedi gostwng o oddeutu 82 rhwng 2002 a 2004 i 69 rhwng 2011 a 2014, er bod hyn yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Nid oes gan yr un ardal awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru gyfraddau hunanladdiad ar gyfer pobl 15 oed a throsodd lle mae'r ystadegau'n sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru (Jones et al., 2016).

Mae achosion hunanladdiad yn gymhleth (Jones et al., 2016). Mae nifer o ffactorau yn gysylltiedig â risg gynyddol o hunanladdiad, gan gynnwys rhyw y person (gwrywod); oedran (15 i 44 mlwydd oed); amddifadedd cymdeithasol-economaidd; salwch seiciatrig gan gynnwys iselder difrifol; anhwylder deubegwn; anhwylderau gorbryder; salwch corfforol megis canser; hanes o hunan-niweidio a hanes o hunanladdiad yn y teulu, trais domestig (Price et al., 2010). Mae nifer o ffyrdd lle y mae gofal iechyd meddwl yn fwy diogel i gleifion, a gall gwasanaethau leihau'r risg gyda: wardiau mwy diogel; dilyn i fyny yn gynnar ar ôl rhyddhau claf; dim derbyniadau o'r tu allan i'r ardal; timau argyfwng 24 awr y dydd; gwasanaeth diagnosis deuol, cyswllt teulu o ran 'dysgu gwersi'; canllawiau ar iselder; rheoli risg wedi'i bersonoli; trosiant staff isel (Centre for Mental Health and Safety, 2016). Mae gan nifer o bobl sy'n marw drwy

hunanladdiad hanes o gamddefnyddio cyffuriau neu alcohol, ond nid oedd llawer ohonynt mewn cysylltiad â gwasanaethau camddefnyddio sylweddau arbenigol. Dylai mynediad at y gwasanaethau arbenigol hyn fod ar gael yn fwy eang, a dylent weithio'n agos â gwasanaethau iechyd meddwl (Centre for Mental Health and Safety, 2016).

Mae ffermwyr yn cael eu hadnabod fel grŵp galwedigaethol risg uchel, gyda gwybodaeth gynyddol a mynediad parod at fodd (hefyd doctoriaid, nyrsys a gweithwyr amaethyddol eraill). Mae ffactorau penodol wedi cael eu nodi fel rhai sy'n peri risg a straen i bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn ychwanegol i'r ffactorau risg hunanladdiad sy'n effeithio ar y boblogaeth yn gyffredinol: ynysiad, gostyngiad mewn incwm, bod yn wahanol o fewn y cyd-destun gwledig; mwy o stigma yn gysylltiedig â phroblemau iechyd meddwl; rhwystrau i gael mynediad at ofal priodol (diwylliant o fod yn hunan-ddibynnol, darpariaeth gwasanaeth gwael), rhwydweithiau cymdeithasol gwael; darnio cymdeithasol; rhai dulliau i hunanladdiad ar gael iddynt (perchen ar ddrylliau); a grwpiau galwedigaethol risg uchel megis ffermwyr a milfeddygon (Llywodraeth Cymru, 2015a).

Strategaeth atal hunanladdiad a hunan-niweidio Llywodraeth Cymru yw *Beth am siarad â fi?* (Llywodraeth Cymru, 2015a) ac mae grŵp yng Ngogledd Cymru sy'n cydlynu'r gwaith ar atal hunanladdiad. Mae'r DPJ Foundation yn elusen iechyd meddwl yng Nghymru sy'n cefnogi pobl ym myd amaeth a chymunedau gwledig â phroblemau iechyd meddwl.

Ers 1 Ebrill 2021 bu i'r DPJ Foundation ddarparu cwnsela i 14 o bobl o Wynedd. Yn y 12 mis blaenorol (1 Ebrill 2020-31 Mawrth 2021), bu iddynt ddarparu cwnsela i 6 o bobl ac yn y cyfnod cyn hynny, i un person yn unig. Fodd bynnag, dim ond o ddiwedd mis Medi 2019 y bu iddynt ddechrau cyflwyno'r gwasanaeth Rhannwch y Baich (y cwnsela) yng Ngogledd Cymru. Yn amlwg, mae'r galw am y gwasanaeth yn tyfu ac maent wedi gweld cynnydd yn y 6-8 mis diwethaf, ond efallai bod rhan o hyn oherwydd eu bod wedi cael mwy o gyhoeddusrwydd i'w gwasanaethau, yn hytrach na chynnydd yn yr angen.

**Cyffuriau ac alcohol**

Mae Gwynedd yn rhan o'r panel rhanbarthol sy’n cytuno ar leoliadau adsefydlu preswyl ac yn cymeradwyo achosion i’w hariannu gan y Bwrdd Cynllunio Ardal.

**Niferoedd:**

2020/21 – cytunwyd i 16 unigolyn fynd i ganolfannau adsefydlu preswyl
2021/22 – cytunwyd i 21 unigolyn fynd i ganolfannau adsefydlu preswyl
2022/23 – cytunwyd i 14 unigolyn fynd i ganolfannau adsefydlu preswyl

Nid oes yr un o’r uchod wedi mynd i mewn ddwywaith yn ystod unrhyw flwyddyn.

Er nad oes bylchau mewn darpariaeth, mae darpariaeth gyfyngedig yng Nghymru, gyda’r rhan fwyaf o ddarparwyr yn Lloegr.

Dylid nodi hefyd bod y gwasanaethau adfer cymunedol yr ydym yn eu comisiynu yn cynnig dewis ar wahân i adsefydlu preswyl lle bo hynny'n briodol ac mae'n rhywbeth yr ydym yn gweithio i'w ehangu/gwella.

Mae bwlch mawr mewn lleoliadau arbenigol preswyl a diogelwch uchel ar gyfer pobl ifanc/oedolion iau gan mai darpariaeth gyfyngedig iawn sydd ar gael.

### 6.6. Beth mae pobl yn ei ddweud wrthym?

Fe ofynnom ni: “beth yw'r problemau mwyaf sy'n wynebu iechyd meddwl, dibyniaeth a gwasanaethau sy'n cyd-ddigwydd yng Nghymru?”

**Beth sy’n gweithio'n dda?**

Roedd defnyddiwr gwasanaeth yn bryderus bod gwasanaethau yn tueddu i ganolbwyntio ar atal argyfwng, gan fethu â darparu cefnogaeth i bobl "ym mhob cam rhwng hynny." Yn ogystal, yn ystod argyfwng, gall pobl gyda phroblemau iechyd meddwl fynd ynghlwm yn y system cyfiawnder troseddol, gan arwain at bobl yn cael eu "criminaleiddio yn sgil eu salwch". Nid yw'n ymddangos bod y system yn gallu cefnogi pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl o ganlyniad i drawma yn y gorffennol. Mae nifer o wasanaethau angen bod yn fwy ymwybodol o drawma.

Cafodd rhai gwasanaethau eu crybwyll fel rhai sy'n darparu cefnogaeth bositif, gan gynnwys:

- Darparwyr trydydd sector
- Gwasanaethau mewnol Cyngor Gwynedd
- Gwasanaethau tai â chefnogaeth
- Gwasanaeth cymorth fel bo'r angen

**Beth sydd angen ei wella**?

O ystyried y pryderon difrifol am wasanaethau iechyd meddwl, nid yw'n syndod bod nifer wedi gwneud sylw bod "popeth" angen ei wella, gan gynnwys:

- mwy o gyllid i sicrhau cyflog teg i staff a darpariaeth gwasanaeth digonol ar gyfer pob cleient unigol;
- cyllid mwy hirdymor fel bod modd gwreiddio prosiectau a chadw staff;
- mwy o hyblygrwydd - sesiynau un i un ynghyd â sesiynau grŵp;
- lefelau staffio uwch ymhob gwasanaeth i osgoi bylchau mewn gofal a darparu staff wrth gefn pan fo staff i ffwrdd yn sâl;
- mwy o wasanaethau cwnsela lleol;
- gwell cefnogaeth camddefnyddio sylweddau;
- gwell cefnogaeth i bobl gyda Chyflwr y Sbectrwm Awtistiaeth (ASC), yn enwedig 'higher function' neu sydd â phroblemau iechyd meddwl hefyd;
- mwy o fynediad at ymyraethau yn hytrach na meddyginiaeth;
- llawer mwy o wasanaethau y tu allan i oriau lle y gellir "dal" pobl pan fo gwasanaethau iechyd meddwl ar gau;

- gwell cyfeiriadau at wasanaethau iechyd meddwl, i symleiddio'r broses, lleihau'r nifer o gyfeiriadau anaddas a galluogi, e.e. rheolwyr tai, i gyfeirio tenantiaid am gefnogaeth iechyd meddwl arbenigol;
- mwy o argaeledd o lety parhaol a thai â chefnogaeth i bobl sy'n ddigartref;
- angen cwblhau adolygiadau achos yn brydlon, a rheoli llwyth achosion yn fwy effeithiol.

Pwysleisiodd defnyddwyr gwasanaeth yr angen am lawer mwy o wasanaethau ymyrraeth cynnar fel bod modd iddynt gael mynediad at gefnogaeth iechyd meddwl pan fônt mewn angen, a chyn i bethau fynd yn argyfwng. Roedd amseroedd aros yn faith iawn eisoes, ac maent wedi mynd yn hirach fyth erbyn hyn. Ar hyn o bryd, mae pobl yn profi straen ychwanegol yn sgil oedi, ac yn aml mae eu symptomau yn mynd yn llawer gwaeth nag sydd angen:

*"Byddai'n well gen i beidio â chyrraedd y pwynt argyfwng. Ddylai pethau ganolbwyntio llai ar fod mewn argyfwng cyn cael cymorth, a mwy ar ddulliau atal er mwyn fy nghadw i'n dda gartref."*

Cynhaliodd Hafal astudiaeth yn 2021, a bu iddynt ddarganfod mai'r rhain oedd y pedair problem fwyaf, gyda 1) yr un sy'n peri'r broblem fwyaf:

1) **Diffyg adnoddau** – ar hyn o bryd, nid yw'r gwasanaethau iechyd, dibyniaeth a gwasanaethau sy'n cyd-ddigwydd yn ddigon i fodloni'r angen am gefnogaeth.
2) **Diffyg cymorth i deuluoedd a gofalwyr**.
3) **Nid yw gwasanaethau'n unedig** – er enghraifft, yn aml mae gwasanaethau iechyd meddwl a dibyniaeth yn cael eu cyflwyno ar wahân, ac mae'r adegau pan mae'r claf yn cael ei drin yn 'gyfan' yn brin iawn.
4) **Nid yw'r unigolion yn cael eu grymuso i wneud eu dewisiadau eu hunain**.

Mae'r patrwm o ariannu gwasanaethau ar draws Gwynedd wedi bod yn anghyson, ac mae'n cael effaith ar y gwasanaethau sy'n cael eu darparu ymhob ardal yng Ngwynedd. Mae angen i'r buddsoddiad fod yn fwy yn unol ag anghenion pob ardal.

### 6.7. Adolygiad o'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd

Darperir gwasanaethau iechyd meddwl drwy gyfleusterau cleifion mewnol a thimau iechyd meddwl cymunedol sy'n cefnogi cleifion y tu allan i amgylchedd yr ysbyty. Mae awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd yn darparu gofal a chefnogaeth i bobl gyda salwch meddwl yn y gymuned. Mae gofal preswyl, gwasanaethau dydd a thimau allgymorth yn rhan bwysig o ofal seiciatrig.

Mae'r gwasanaeth gwarchod yn fodel aml-asiantaethol gydag awdurdodau lleol, y sector gwirfoddol a grwpiau cymunedol sy'n cyflwyno ymyraethau iechyd, cymdeithasol a llesiant allweddol drwy nifer o Hybiau Cefnogaeth Gymunedol ledled Gogledd Cymru.

Mae Hybiau ar draws Gogledd Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â thros 160 o bartneriaid o'r sector gwirfoddol gan ddefnyddio ffrydiau ariannu presennol ac nid ydynt ond yn ariannu lle mae bwlch yn bodoli yn y gwasanaeth.

Mae'r gwasanaethau craidd yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i:

- Bwyd+ (naill ai'r banc bwyd ac/neu brydau wedi'u coginio/dosbarthiadau)
- Cefnogaeth llety/ tenantiaeth
- Cyngor ar arian/rheoli dyled/Undeb Credyd/budd-daliadau
- Cyngor cyfreithiol (teulu, cyflogaeth, materion sifil)
- Cefnogaeth tanwydd / gwresogi
- Nwyddau i'r cartref (gan gynnwys nwyddau gwyn)
- Cefnogaeth teulu
- Cefnogaeth iechyd meddwl a chorfforol
- Ysbyty i'r cartref
- Cefnogaeth synhwyraidd
- Cefnogaeth trais domestig a sylweddau
- Cefnogaeth rhywedd
- Cynhwysiant digidol
- Cefnogaeth aml-ieithog
- Cefnogaeth caethwasiaeth fodern a chamfanteisio
- Mynediad i waith / cynnal cyflogaeth
- Presgripsiwn cymdeithasol

Amcan y gwasanaeth gwarchod yw gweithio gyda chymunedau i ymdrin â'u bregusrwydd uniongyrchol a chefnogi trigolion i fod yn fwy gwydn o ran yr effeithiau cymdeithasol ac economaidd hirdymor. Bydd trigolion yn cael eu cefnogi a'u grymuso i wneud dewisiadau positif a chynaliadwy dros amser. Nid oes meini prawf cymhwyster i gael mynediad at y gefnogaeth.

Mae angen cynyddol am bob math o wasanaethau wrth i anghenion y boblogaeth am wasanaethau gynyddu. Mae materion eang hefyd yn codi o ganlyniad i:

- Anghenion y boblogaeth
- Gofynion unigolion
- Amgylchiadau unigolion sy’n newid
- Diffyg buddsoddiad yn y gwasanaethau dros y blynyddoedd diwethaf.

## 6.8. Covid-19

### Effaith Covid-19 ar iechyd meddwl a llesiant

- Mae'r pandemig Covid-19 wedi cael canlyniadau pellgyrhaeddol ar bob agwedd o fywyd, gan gynnwys effaith arwyddocaol ar iechyd meddwl a llesiant.
- Mae nifer o yrwyr sydd wedi gwaethygu iechyd meddwl yn ystod y pandemig wedi cael eu hadnabod, gan gynnwys colli swyddi a cholledion ariannol; ynysu cymdeithasol; ansicrwydd ac ansawdd tai; gweithio mewn gwasanaeth rheng-flaen; colli mecanweithiau ymdopi; a llai o fynediad at wasanaeth iechyd meddwl.
- Gwelwyd hefyd bod pobl mewn grwpiau cymdeithasol-economaidd îs wedi cael eu heffeithio'n anghymesur gan y coronafeirws yn sgil ffactorau megis cyflogaeth sgiliau isel a chyflyrau iechyd sydd ganddynt eisoes.

- Canfu Iechyd Cyhoeddus Cymru bod pobl yn y grwpiau cymdeithasol-economaidd îs yn fwy tebygol o fod yn bryderus iawn am eu hiechyd meddwl yn ystod y pandemig coronafeirws.
- Mae trigolion Du, Asiaidd a lleiafrifol ethnig yng Nghymru yn fwy tebygol o fod yn teimlo'n orbryderus na thrigolion gwyn yn ystod y pandemig. Mae teimlo'n ynysig hefyd yn fwy cyffredin yn y gymuned lleiafrifoedd ethnig.
- Mae pobl yn y gymuned lleiafrifoedd ethnig hefyd yn fwy tebygol o fod y poeni llawer am eu sefyllfa ariannol, colli eu swydd neu fethu â dod o hyd i un, o gymharu â phobl gwyn (Iechyd Cyhoeddus Cymru).
- Hefyd, mae pryderon nad yw unigolion wedi bod yn cael ymgynghoriadau wyneb yn wyneb â Meddygon Teulu. Dengys ymchwil bod y rhan fwyaf o unigolion yn gweld y Meddyg Teulu am resymau cwbl wahanol a'u bod yn ychwanegu 'a hefyd...' ar y ffordd allan a chyfeirio at eu hiechyd meddwl bryd hynny.

Erbyn hyn mae'n glir bod y pandemig wedi cael effaith arwyddocaol ar iechyd meddwl cyffredinol y boblogaeth, ac i'r rhai sydd â chyflyrau iechyd meddwl presennol, maent wedi gweld dirywiad yn eu llesiant. Nododd arolwg gan Mind Cymru (Mehefin 2020) bod mwy na hanner oedolion a thri chwarter pobl ifanc yn adrodd bod eu hiechyd meddwl wedi gwaethygu yn ystod y cyfnodau clo.

Mae'r grwpiau a gafodd eu heffeithio yn anghymesur yn cynnwys:

- Pobl gydag anghenion presennol am gefnogaeth iechyd meddwl
- Pobl ar incwm isel neu sydd wedi gweld newid yn statws eu cyflogaeth neu sy'n hunan-gyflogedig
- Gweithwyr GIG a gofal, a staff rheng flaen eraill
- Cymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifol ethnig
- Oedolion hŷn
- Plant a phobl ifanc

Er y cafodd gwasanaethau iechyd meddwl eu categoreiddio fel rhai hanfodol yn ystod y pandemig, mae nifer wedi adrodd nad oedd modd iddynt gael mynediad at wasanaethau neu fod oedi wrth iddynt chwilio am help a chefnogaeth.

Rhai o'r gyrwyr allweddol sydd wedi gwaethygu iechyd meddwl a llesiant o ganlyniad i'r pandemig yw:

- Colli swydd a cholledion ariannol
- Ynysiad cymdeithasol
- Ansicrwydd ac ansawdd tai
- Gweithio mewn gwasanaeth rheng flaen
- Colli mecanweithiau ymdopi
- Llai o fynediad at wasanaethau iechyd meddwl.

Adroddodd yr ONS, cyn Covid-19 (yn y flwyddyn yn dod i ben ym mis Mehefin 2019), y sgôr cyfartalog ar gyfer gorbryder oedd 4.3 allan o 10 ar gyfer pobl anabl. Bu i sgôr cyfartalog gorbryder pobl anabl gynyddu yn ystod y pandemig coronafeirws i 5.5 allan o 10 ym mis Ebrill 2020, cyn gostwng i 4.7 allan o 10 ym mis Mai 2020. Bu i 41.6% o bobl anabl, o gymharu â 29.2% o bobl heb anabledd, barhau i adrodd lefel uchel (sgôr o 6 allan o 10) o orbryder ym mis Mai 2020.

**Effaith Covid-19 ar Bobl Hŷn**

Mae un ym mhob tri o bobl hŷn yn cytuno bod eu gorbryder bellach yn waeth neu'n llawer gwaeth na'r hyn yr oedd cyn dechrau'r pandemig. Mae cyfradd y bobl dros 70 mlwydd oed sy'n profi iselder wedi dyblu ers dechrau'r pandemig (ONS).

Edrychodd astudiaeth ddiweddar gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ar symptomau iselder mewn oedolion ym Mhrydain Fawr cyn ac yn ystod y pandemig (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2020). Mae'r astudiaeth yn seiliedig ar yr un grŵp o oedolion oedd yn hunan-adrodd bod ganddynt iselder cymedrol i ddifrifol cyn y pandemig (Gorffennaf 2019 i Mawrth 2020) a sut y bu i'w hiselder newid yn ystod y pandemig (Mehefin 2020).

Canfu’r astudiaeth bod bron i un ymhob pum oedolyn (19.2%) yn debygol o fod yn profi rhyw fath o iselder yn ystod y pandemig ym mis Mehefin 2020; roedd hyn wedi dyblu bron o 9.7% cyn y pandemig (Gorffennaf 2019 i Mawrth 2020). Bu i 12.9% ddatblygu symptomau iselder cymedrol i ddifrifol yn ystod y pandemig, tra y bu i 6.2% o'r boblogaeth barhau i brofi'r lefel hon o symptomau iselder; gwelodd oddeutu 3.5% welliant dros y cyfnod hwn. Canfu'r astudiaeth mai oedolion 16 i 39 mlwydd oed, benywod, y rhai oedd yn methu fforddio costau annisgwyl neu oedolion anabl, oedd yn fwyaf tebygol o brofi rhyw fath o iselder yn ystod y pandemig. Roedd bron i 85% o oedolion gyda rhyw ffurf o iselder yn teimlo bod straen a gorbryder yn effeithio ar eu llesiant (ONS, 2020).

Mae'r Royal College of Psychiatrists wedi cynnal arolwg o feddygon iechyd meddwl y DU ar effaith y pandemig coronafeirws ar wasanaethau iechyd meddwl (Royal College of Psychiatrists, 2020). Dengys 1,300 o ymatebion fod 43% o seiciatryddion wedi gweld cynnydd yn eu llwyth achosion brys ac argyfwng, a bod 45% wedi gweld gostyngiad yn eu hapwyntiadau arferol. Roedd seiciatryddion wedi'u brawychu gan y gostyngiad mewn gwaith arferol, yn enwedig mewn CAMHS a seiciatreg henoed, a'r cynnydd mewn achosion brys.

Gwelwyd y cynnydd mwyaf mewn achosion brys ac argyfwng ar gyfer seiciatryddion sy'n gweithio gydag oedolion a'r rhai sy'n gweithio mewn ysbytai cyffredinol.

Roedd y seiciatryddion yn mynegi pryder bod nifer o gleifion yn aros draw o wasanaethau iechyd meddwl hyd nes iddynt gyrraedd pwynt o argyfwng. Mae pryder bod hunan-ynysu, gwarchod, ysgolion yn cau a'r ofn i ymweld ag ysbytai yn ystod y cyfnod hwn yn effeithio ar niferoedd y cleifion sy'n cael mynediad at driniaeth iechyd meddwl.

**Tabl 14: Canran y cleifion sydd wedi cofrestru gyda chyflwr iechyd meddwl, Cymru, BIP Betsi Cadwaladr a Chlystyrau Gofal Sylfaenol (2019)**

| Ardal | Canran (%) |
|---|---|
| Cymru | 1.0 |
| Betsi Cadwaladr | 0.9 |
| Arfon | 0.9 |
| Dwyfor | 0.8 |
| Meirionnydd | 0.9 |

*Ffynhonnell: Fframwaith Deilliannau Ansawdd*

### 6.13. Casgliad ac argymhellion

Mae'r angen am wasanaethau iechyd meddwl am gynyddu dros y blynyddoedd nesaf o ganlyniad i'r hinsawdd economaidd a bydd effaith hyn ar unigolion yn anochel.

Mae yna angen helaeth i fuddsoddi ym mhob gwasanaeth iechyd meddwl ar draws Gwynedd yn enwedig mewn gwasanaethau ataliol.

Mae angen symleiddio gwasanaethau fel bod unigolion ar draws Gwynedd yn cael mynediad at yr un gwasanaethau. Ar hyn o bryd, nid yw'r ffordd mae gwasanaethau yn cael eu hariannu ar draws y sir yr un fath ac o ganlyniad nid yw'n bosibl i'r un gwasanaethau gael eu cynnig ar draws y sir. Mae angen i ni, fodd bynnag, ystyried y gwahanol ardaloedd, a pha mor wahanol ydi'r ardaloedd yma, a pha mor hygyrch ydi'r gwasanaethau ym mhob ardal. Mae angen gwneud mwy o waith i ddarganfod yn union pa wasanaethau ataliol sydd eu hangen ym mhob un o'r ardaloedd demograffig.

# 7. Gofalwyr

## 7.1. Cyflwyniad i'r bennod

Mae'r bennod hon yn cynnwys gwybodaeth am anghenion gofalwyr Gwynedd, a bu i nifer o ofalwyr Gwynedd chwarae rôl ganolog yn y gwaith hwn. Mae'r bennod yma yn rhoi trosolwg i ni faint o ofalwyr sydd yn byw yng Ngwynedd, faint sydd yn cael asesiadau a faint sydd yn derbyn cefnogaeth yn dilyn hyn. Mae'r gwaith ymgysylltu wedi cael ei wneud gyda gofalwyr Gwynedd yn ystod Haf 2021, ac mae'r negeseuon a gesglir yn bwysig iawn er mwyn ein helpu i ddeall beth yw anghenion gofalwyr Gwynedd a sut i lunio gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.

## 7.2. Diffiniadau

Beth mae'r term **'gofalwr'** yn ei olygu?

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio gofalwr o bob oed fel: *"person sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl."*

Nid yw person yn ofalwr at ddibenion y ddeddf os yw'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal (a) o dan gontract neu'n rhinwedd contract, neu (b) fel gwaith gwirfoddol.

Dylid nodi nad yw rhai gofalwyr yn adnabod eu hunain fel gofalwyr ond yn hytrach fel partner, plentyn, rhiant, perthynas neu ffrind. Fel arfer mae'r gofalwyr hyn yn tueddu fod yn 'ofalwyr cudd', h.y. pobl sydd yn gofalu yn ddiarwybod i'r sectorau statudol a thrydydd.

## 7.3. Y polisïau a'r deddfau sydd wedi siapio ein gwasanaethau

**Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**

O dan y Ddeddf mae gan ofalwyr yr un hawliau â'r rhai mae'n nhw'n gofalu amdanyn nhw. O dan rhan 2 y Ddeddf, mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i hyrwyddo lles pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr di-dâl sydd angen cymorth.

Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd i gynnig asesiad o anghenion i unrhyw ofalwr di-dâl os oes angen cymorth ar y gofalwr. Yn y gorffennol, cyfrifoldeb y gofalwr oedd gofyn am asesiad o anghenion.

Mae anghenion gofalwr yn cwrdd â'r meini prawf cymhwyso ar gyfer cymorth os:

a) Yw'r angen yn codi o ganlyniad i ddarparu gofal naill ai ar gyfer oedolyn neu ar gyfer plentyn.
b) Nid yw'r gofalwr yn gallu diwallu'r angen, boed hynny
    - Ar ei ben ei hun
    - Gyda chymorth pobl eraill sy'n barod i gynnig y cymorth hwnnw, neu
    - Gyda chymorth gwasanaethau yn y gymuned y mae gan y gofalwr fynediad atyn nhw, a
c) Nid yw'r gofalwr yn debygol o gyflawni un neu ragor o'i ganlyniadau personol sy'n ymwneud â'r canlyniadau penodol yn rhan 3 y Ddeddf.

Gall cynghorau nawr gynnal asesiad ar y cyd, lle cynhelir asesiad o'r person y gofelir amdano a'r gofalwr ar yr un pryd, os ydi'r ddau barti'n fodlon ac os byddai'n fuddiol gwneud hynny. Mae hyn yn arfer dda er fod pryderon y gellir peryglu asesiad y gofalwr drwy ganolbwyntio ar yr hyn y gall y gofalwr ei wneud, a'r hyn na all ei wneud i'r person mae'n gofalu amdano, yn hytrach nag edrych ar y canlyniadau maen nhw'n dymuno'u gweld ar gyfer eu hunain.

Rhaid i asesiadau o anghenion gofalwyr gynnwys a yw'r gofalwr di-dâl yn gallu/yn barod i ofalu, y canlyniadau yr hoffai'r gofalwr di-dâl eu gweld yn eu bywyd o ddydd i ddydd, a yw'r gofalwr di-dâl yn gweithio neu'n dymuno gweithio a/neu gymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant neu weithgareddau hamdden. Mae'n rhaid cynnwys y gofalwr yn yr asesiad a chynnwys:

- I ba raddau mae'r gofalwr di-dâl yn gallu ac yn barod i ddarparu'r gofal ac i barhau i ddarparu'r gofal.
- Y canlyniadau mae'r gofalwr di-dâl yn dymuno'u gweld.

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** yn gosod rhagor o ddyletswyddau ar Awdurdodau Lleol i ymgorffori 'dull gweithredu ataliol' drwy ystyried effaith hirdymor eu gweithredoedd.

Mae'r Ddeddf yn amlinellu 'fframwaith cymhwystra' cenedlaethol i benderfynu a fydd gofalwr sydd wedi cael ei asesu, ac sydd ag anghenion cymorth, yn cwrdd â'r meini prawf ar gyfer gwasanaethau. Bydd gan ofalwyr di-dâl sydd ag anghenion cymwys gynllun cefnogaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau maen nhw wedi eu nodi eu hunain. Bydd hefyd yn amlinellu'r cymorth a fydd ar gael er mwyn eu helpu nhw i gyflawni'r canlyniadau a nodwyd. Bydd angen adolygu cynlluniau cymorth yn rheolaidd, a chynhelir ailasesiad o anghenion os bydd amgylchiadau pobl yn newid.

Mae **Strategaeth Gofalwyr Gogledd Cymru 2018** yn canolbwyntio ar wella safonau a datblygu dull cyson i ymdrin â darparu gwasanaethau a chanlyniadau ar draws gogledd Cymru, ac mae pob un o chwech awdurdod lleol gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi helpu i ddatblygu'r strategaeth hon ac wedi ymrwymo iddi.

**Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofalwyr Di-dâl 2021** yw ymrwymiad newydd Llywodraeth Cymru i wella'r gydnabyddiaeth a'r gefnogaeth i ofalwyr di-dâl yng Nghymru. Mae'n disgrifio'r blaenoriaethau cenedlaethol diwygiedig ar gyfer gofalwyr, gan gynnwys ychwanegu blaenoriaeth newydd ar addysg a chyflogaeth. Mae hefyd yn nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu. Mae'r strategaeth hon yn deillio o ymgysylltu â gofalwyr di-dâl o bob oed a'u cynrychiolwyr drwy Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar gyfer Gofalwyr Di-dâl a'i grŵp ymgysylltu ategol, a hwylusir gan Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru.

Mae'r strategaeth yn cynnwys 4 thema blaenoriaeth, a dyma'r prif themâu fydd yn llywio ein gwaith fel awdurdod lleol:

1) Adnabod a chydnabod gofalwyr
2) Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth
3) Helpu i fyw yn ogystal â gofalu

4) Cefnogi gofalwyr di-dâl mewn addysg ac yn y gweithle

**Siarter Hawliau Gofalwyr Di-dâl**
Mae'r Siarter hon ar gyfer Gofalwyr Di-dâl yn nodi hawliau cyfreithiol gofalwyr di-dâl yng Nghymru o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r hawliau hyn yr un fath ar gyfer pob gofalwr di-dâl, waeth a yw'n oedolyn, yn berson ifanc neu'n blentyn. Mae hefyd yn cyfeirio at hawliau dynol ac egwyddorion perthnasol. Gall codi ymwybyddiaeth o hawliau rymuso gofalwyr di-dâl i gymryd rheolaeth ac i sylweddoli pan fydd eu hawliau yn cael eu peryglu, ond mae'r un mor bwysig codi ymwybyddiaeth o hawliau ymhlith gweithwyr proffesiynol.

**Ysbaid/Egwyl fer**
Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr wedi creu adroddiad sydd yn adnabod deuddeg prif egwyddor ar gyfer gweledigaeth y dyfodol egwyl fer i ofalwyr di-dal yng Nghymru.

Mae'r egwyddorion yma yn dangos y weledigaeth ar gyfer egwyl fer ar gyfer gofalwyr di-dâl, o bob oedran yn Nghymru a'r pobl maent yn ei gefnogi. Maent yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i adnabod, gwerthfawrogi a chefnogi gofalwyr di-dal o bob oedran i fyw yn iach ac i gyflawni eu allbynau llesiant personol, fel y gwelir yn y Strategaeth ar gyfer gofalwyr di-dal (Llywodraeth Cymru, 2021).

**7.4. Beth mae ein hymchwil desg yn ei ddweud am y maes?**


Yn ôl rhagamcanion Gofal Cymdeithasol yng Nghymru, roedd 15,368 o ofalwyr di-dâl yn byw yng Ngwynedd yn 2020 – gyda 8,576 o rhain yn ferched, a 6,792 yn ddynion.

Mae gan Cymru'r ganran uchaf o ofalwyr di-dal ym Mhrydain, a'r gyfran uchaf o ofalwyr di-dal hŷn sydd yn darparu dros 50 o oriau pob wythnos (Social Care Institute for Excellence [SCIE] 2018).

**Proffil gofalwyr yng Ngwynedd**
Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae 12,443 o ofalwyr o bob oed yng Ngwynedd, cynnydd o 1,196 o'i gymharu â'r nifer a nodwyd fel gofalwyr yng Nghyfrifiad 2001.


Dengys Cyfrifiad 2011 mai'r cynnydd mwyaf mewn grwpiau oedran (yn cymharu â 2001) yw'r rhai sydd o dan 24 oed (24%) a'r rhai sydd yn dros 65 oed (37%), er bod y mwyafrif o ofalwyr rhwng 50-64 oed (gweler siart isod).

**Graff 19: Nifer o ofalwyr yng Ngwynedd fesul grŵp oedran a blwyddyn**




*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2001 a 2011*

**Ffigwr 6: Map yn dangos canran o ofalwyr ym mhob ward etholaeth yng Ngwynedd**





*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2011*

**Gweithgaredd economaidd**

Yng Ngwynedd mae 6,399 o ofalwyr (sef 51% o'r cyfanswm) yn weithgar yn economaidd gan weithio unai'n llawn-amser (4,067 gofalwr) neu'n rhan amser (2,189 gofalwr), rhai yn gyflogedig (4,863 gofalwr) a rhai yn hunangyflogedig (1,393 gofalwr). Mae eraill yn fyfyrwyr llawn-amser neu wedi eu cofrestru fel di-waith.


**Graff 20: Nifer o ofalwyr sy'n economaidd weithgar a'r nifer o oriau maent yn gofalu**




*Ffynhonnell: Swyddfa'r Ystadegau Gwladol (ONS) – Cyfrifiad 2011*

Allan o'r nifer o ofalwyr nad ydynt yn economaidd weithgar (5,476 o ofalwyr), mae 3,671 wedi ymddeol a'r gweddill yn cadw tŷ/edrych ar ôl teulu, yn fyfyrwyr neu gyda salwch hir dymor neu anabledd. Gofalwyr cyflogedig (llawn-amser a rhan-amser) yw'r grŵp mwyaf (40%) gyda gofalwyr sydd wedi ymddeol (30%) y grŵp mawr arall, fel a welir yn y graff isod.

***Graff 21: Nifer o ofalwyr fesul categori gweithgaredd economaidd***




*Ffynhonnell: Y Swyddfa Ystadegau Gwladol – Cyfrifiad 2011*

**Iechyd**

Mae gofalwyr yn dweud bod rhai o'r heriau sydd yn eu hwynebu yn eu bywyd bob dydd fel gofalydd yn effeithio'u hiechyd a llesiant, gan arwain at iselder, unigrwydd, blinder, diffyg cwsg a straen. Ar ben y cyflyrau hyn, mae nifer mawr mewn oed, sef eu saithdegau ac wythdegau, ac mae llawer ohonynt yn poeni am eu hiechyd eu hunain a'r effaith y gallai ei gael ar eu gallu i ofalu.

Dengys Cyfrifiad 2011 bod gan nifer o ofalwyr (27%) yng Ngwynedd broblemau iechyd eu hunain, ac mae gan 763 o ofalwyr (6%) broblemau iechyd dwys iawn.

Wrth ymgysylltu gyda gofalwyr ifanc yng Ngwynedd (2016), dywedodd bron i chwarter ohonynt eu bod dan straen emosiynol a bron hanner yn pryderu am y sawl y maent yn gofalu amdanynt. Heriau eraill y maent yn wynebu yw methiant pobl i wrando arnynt, problemau mewn ysgol fel bod yn hwyr, methu cwblhau gwaith cartref ac weithiau methu cyrraedd ysgol o gwbl. Mae gofalwyr oedolion ifanc yn wynebu'r un her o bresenoldeb a phrydlondeb mewn coleg a gwaith. Mae diffyg amser i gymdeithasu yn broblem gyffredinol i ofalwyr o bob oed ac yn medru cael effaith negyddol ar eu hiechyd.

**7.5. Beth rydym yn ei wybod am y boblogaeth?**

**Nifer o ofalwyr**


Ym mis Medi 2022 roedd 249 o achosion yn agored a oedd yn cael eu dynodi fel gofalwyr. Roedd 153 o'r rhain yn derbyn gwasanaeth, a 78 o'r rhain wedi derbyn asesiad eleni. Pan yn defnyddio'r data yma mae angen cofio fod adnabod gofalwyr yn y dull yma yn tynnu nifer o ffynonellau at ei gilydd, ac mae adnabod gofalwyr yn effeithiol yn ddibynnol ar wybodaeth achosion yn cael eu diweddaru yn gyson ac yn amserol.

O ganlyniad, nid ydym yn hollol sicr o gywirdeb y data yma gan nad ydym yn hollol glir ar y drefn cau asesiadau ar draws gwahanol wasanaethau/timau. Nid ydym yn glir os ydynt yn cael eu gadael ar agor am gyfnod neu a ydynt yn cael eu cau yn syth bob tro. Bydd angen gwell dealltwriaeth o hyn er mwyn sicrhau cywirdeb y data.

Serch hynny, mae graff 22 yn dangos y nifer o ofalwyr fesul tîm. Mae'r data yn dangos bod dros hanner (51%) o ofalwyr sy'n adnabyddus i'r Cyngor yn gofalu am unigolyn sy'n berthyn i'r gwasanaeth pobl hŷn. Mae graff 22 yn dangos y nifer yma wedi'i wasgaru ar draws y pump tîm adnodd cymunedol sy'n gweithredu ar draws y sir, sef: timau Caernarfon, Bangor, Llŷn, Eifionydd/Gogledd Meirionnydd a De Meirionnydd.

Mae 47 o ofalwyr yn perthyn i'r gwasanaeth anabledd dysgu, a 23 gofalwr yn perthyn i'r gwasanaeth iechyd meddwl. Mae'r graff hefyd yn dangos nifer sylweddol o ofalwyr (52) o dan y teitl 'Eraill'. Mae'r achosion yma yn perthyn i amrywiol dimau eraill megis y tîm Diogelu, Teleofal, Tîm Dementia Actif Gwynedd ayb.

***Graff 22: Nifer o ofalwyr fesul tîm***





*Ffynhonnell: Data mewnol oddi ar y 'Welsh Community Care Information System' (WCCIS), Medi 2022.*

**Oedran ein gofalwyr**

Gwelwn o Graff 23 fod gofalwyr sy'n gofalu am unigolyn sy'n agored i wasanaethau pobl hŷn yn 74 mlwydd oed ar gyfartaledd. Mae hyn yn sylweddol uwch na oed cyfartaledd gofalwyr yn y meysydd iechyd meddwl (57 mlwydd oed) ac anableddau dysgu (46 mlwydd oed). Mae'r golofn 'Eraill' yn dynodi gofalwyr sydd heb eu cofnodi yn gysylltiedig â thîm penodol ac mae angen dadansoddi hyn ymhellach.

Mae'r data hefyd yn dangos gwahaniaeth ar draws y pump tîm sy'n gweithio mewn gwahanol ardaloedd, gyda'r oedrannau ar gyfartaledd ar ei isaf yng Nghaernarfon (71.86), Eifionydd / Gogledd Meirionnydd (72.54) a Bangor (73.35). Llŷn a De Meirionnydd oedd yn gartref i'r gofalwyr hynaf ar gyfartaledd, gyda gofalwr yn Llŷn yn 76.17 mlwydd oed ar gyfartaledd, a gofalwyr yn Ne Meirionnydd yn 77.90. Er bod y data yn cynnig mewnwelediad i sefyllfa gofalwyr ar lawr gwlad, rhaid bod yn ofalus wrth ddehongli'r data oherwydd bod y niferoedd yn yr ardaloedd yn gymharol isel (rhwng 17 a 32 gofalwr ym mhob ardal). Rhaid hefyd cofio nad oes modd cyfrifo'r nifer o ofalwyr cudd, ac mae'n debygol iawn fod nifer o bobl yn yr ardaloedd yma yn ofalwyr ond ddim yn adnabod eu hunain yn rhai.

***Graff 23: Cyfartaledd oedran gofalwyr fesul tîm***





*Ffynhonnell: Data mewnol oddi ar y 'Welsh Community Care Information System' (WCCIS), Medi 2022.*
*Gweler sylw uchod ynglŷn â'r golofn 'Eraill'.*

Yn gyffredinol, rydym wedi gweld cynnydd yn oedran ein gofalwyr dros y chwe mlynedd diwethaf. Yn 2016/17 roedd yr oed cyfartaledd yn 58, ond mae hyn wedi codi yn flynyddol hyd at 65 mlwydd oed eleni (er fod na ostyngiad wedi bod llynedd i 64).

Mae graff 24 yn dangos y nifer o ofalwyr fesul grŵp oedran. Gwelwn bod y mwyafrif o ofalwyr yn berthyn i'r grŵp oedran 65-84. Mae hyn yn gyson efo'r themâu a welwn yng ngraff 6.

O ran dosbarthu'r oedrannau, fel ag y disgwylir mae'r gofalwyr yn tueddu i fod yn hŷn, gyda 59.7% yn 65 neu drosodd. Dim ond 4.13% o ofalwyr Gwynedd oedd rhwng 18-24 mlwydd oed.

***Graff 24: Nifer o ofalwyr fesul grŵp oedran***





*Ffynhonnell: Data mewnol oddi ar y 'Welsh Community Care Information System' (WCCIS), Medi 2022.*

**Ble mae ein gofalwyr yn byw?**

Noder fod y dadansoddiad yma ar gael o Ebrill 2018 ymlaen yn unig. Mae'r niferoedd fesul tîm yn gymharol isel, felly mae'n anodd dadansoddi rhain ymhellach gan y gall nifer fechan o unigolion cael effaith anghymesur ar y canlyniadau.

Mae ffigwr 7 isod yn rhoi syniad i ni o’r ardaloedd yng Ngwynedd ble mae canran uwch o ofalwyr yn byw, gyda’r gwyrdd tywyll yn dangos cyfradd uwch o ofalwyr yn yr ardal honno.


**Ffigwr 7: Map yn dangos lleoliad gofalwyr yng Ngwynedd**




*Ffynhonnell: Data mewnol oddi ar y ‘Welsh Community Care Information System’ (WCCIS), Medi 2022*

Ar y llaw arall, mae graff 25 isod yn torri’r data lawr i lefel is. Mae’r graff yn dangos y nifer o ofalwyr adnabuwyd yn yr is-ardal hynny fel canran o'r holl ofalwyr adnabuwyd o Ebrill 2016 ymlaen. Nid yw hwn yn ystyried poblogaeth, poblogaeth pobl hŷn na nifer yr unigolion sy’n derbyn gwasanaeth yn yr is-ardal honno. Gwelwn fod oddeutu 10% o ofalwyr Gwynedd wedi’u lleoli yng Nghaernarfon, sydd yn cyd-fynd efo’r hyn a welwn yn ffigwr 7.

**Graff 25: Y canran o ofalwyr Gwynedd sy’n byw ym mhob patsh**





*Ffynhonnell: Data mewnol oddi ar y 'Welsh Community Care Information System' (WCCIS), Medi 2022*

**Newid yn y data dros amser**

Dyma drosolwg syml o ddata gofalwyr am y cyfnod 2016-2022. Mae'n cynnwys niferoedd o ofalwyr, eu hoedran, asesiadau, gwasanaethau a lleoliadau. Fydd angen gwaith pellach i adnabod pa mor gywir ydi ein dull o adnabod y gofalwyr. Does dim data ar gael ar hyn o bryd ar gyfer rhieni sydd yn ofalwyr. Maent yn cael asesiadau pan mae gan y plentyn asesiad hefo Gweithiwr Cymdeithasol, ond ar hyn o bryd does dim modd i wahaniaethu pa rieni sydd wedi cael asesiad a pa rai sydd ddim gan ei fod wedi ei recordio hefo manylion y plentyn.

Ar hyn o bryd rydym yn cyfrif person fel gofalwr yn y flwyddyn pan maent wedi derbyn asesiad gofalydd neu os oes ganddynt berthynas actif yn dynodi eu bod yn ofalwr. Ers 2016, mae'r niferoedd o ofalwyr rydym wedi eu hadnabod wedi lleihau yn gyffredinol, er nad yw hyn yn hollol gyson ar draws pob tîm. Mae graff 26 isod yn dangos y patrwm yma fesul tîm a blwyddyn.

**Graff 26: Nifer gofalwyr fesul tîm a blwyddyn**




*Ffynhonnell: Data mewnol oddi ar y 'Welsh Community Care Information System' (WCCIS), Medi 2022.*


Er hynny, mae'n gadarnhaol nodi bod y nifer sy'n derbyn asesiad wedi cynyddu yn flynyddol, gyda'r ffigwr yma ar ei fyny o 55 yn 2016/17 hyd at 149 y llynedd. Yn ôl y data, mae yna nifer uchel yn derbyn gwasanaeth a bydd angen gwaith pellach i adnabod pa fath o wasanaeth. Mae tabl 15 isod yn dangos y nifer o ofalwyr wedi'u hadnabod fesul blwyddyn ariannol, faint ohonynt sy'n derbyn gwasanaeth a pa gyfradd sydd wedi derbyn asesiad yn yr un flwyddyn. Mae graff 27 yn cyflwyno'r data yma mewn ffordd weledol.

**Tabl 15: Ystadegau Gofalwyr 2016-2022**

| Blwyddyn yn cychwyn | Nifer | Derbyn gwasanaeth | Asesiad yn y flwyddyn |
|---|---|---|---|
| 01/04/2016 | 108 | 103 | 33 |
| 01/04/2017 | 191 | 137 | 44 |
| 01/04/2018 | 263 | 169 | 60 |
| 01/04/2019 | 215 | 159 | 86 |
| 01/04/2020 | 242 | 162 | 135 |
| 01/04/2021 | 292 | 174 | 108 |
| 01/04/2022 | 266 | 168 | 94 |
| Cyfanswm | 1577 | 1072 | 560 |

*Ffynhonnell: Data mewnol oddi ar y 'Welsh Community Care Information System' (WCCIS).*

***Graff 27: Cymhariaeth o'r nifer o ofalwyr sydd wedi cael eu hasesu yn erbyn y nifer sydd heb fesul blwyddyn***
*Ffynhonnell: Data mewnol oddi ar y 'Welsh Community Care Information System' (WCCIS).*




**7.6. Beth mae pobl yn ei ddweud wrthym?**

Crynodeb o'r gwaith ymgysylltu gyda gofalwyr, haf 2021

Gwasanaethau presennol (neu gwasanaethau cyn-Covid efallai) – beth sydd yn gweithio i chi fel gofalydd? Beth sy ddim yn gweithio i chi fel gofalydd?

**Beth sydd yn gweithio?**

- Gweithiwr cefnogol yn hanfodol, yn arbennig pan does dim ysbaid
- Gwasanaethau a chefnogaeth gan Cynnal Gofalwyr, yn cynnwys cyfarfodydd ar lein a'r newyddlen rheolaidd, cynnig cyngor a cwnsela
- Gwasanaethau dydd
- Ysbaid
- Gweithwyr cymdeithasol ac O.T's sy'n gyfeillgar a chynorthwyol
- Sesiynau cerddoriaeth i bobl gydag anabledd dysgu
- Gwasanaeth cefnogol i ofalwyr pobl â phroblemau iechyd meddwl (gan y timau Iechyd meddwl)
- Defnydd o dechnoleg gyda phobl sy'n byw efo dementia (sy'n helpu'r gofalwyr) – pethau fel Alexa yn help ond consyrn mawr am sgamiau.
- Gweithiwr cefnogol ar gyfer pobl hŷn â phroblemau cof yn hanfodol, yn arbennig pan does dim ysbaid
- Taliadau Uniongyrchol – posib defnyddio oriau fel bo angen yn hytrach na chyd-fynd â'r gwasanaeth. Yn meddwl bod y broses yn syml ac yn effeithlon. Yn medru cyflogi rhywun sydd yn adnabyddus i'r gofalwyr a'r sawl sy'n derbyn y gofal. Posib i ofalwyr gael noson

i ffwrdd a pharhau i weithio ac i'r sawl sy'n derbyn y gofal yn cael amser braf efo'r gweithiwr

- Digwyddiadau Amser Ni, yn arbennig clybiau gwyliau a gwibdeithiau a'r clwb ieuenctid
- Cyrsiau grŵp cefnogi teuluoedd (Derwen) – cyfle i gyfarfod gyda rhieni-gofalwyr eraill
- Taliadau Uniongyrchol – Cylch yr Efail – profiad gwych i berson ag anabledd dysgu ac felly i'w rieni
- Sesiynau cerddoriaeth i bobl gydag anabledd dysgu e.e. Bendigedig yn y Bermo oedd yn wych gyda gwersi canu. Sesiynau Canfod y Gan, Pwllheli ond bellach ar-lein – cyfle canu, gwrando ar gerddoriaeth a chael hwyl
- Gweithiwr cymdeithasol da sy'n helpu meddwl am brofiadau ysbaid addas i baratoi am fyw yn rhannol-annibynnol
- Gwasanaeth cefnogol i ofalwyr pobl â phroblemau iechyd meddwl (gan y timau iechyd meddwl).

**Beth sydd ddim yn gweithio?**

- Diffyg cefnogaeth gan Iechyd (maes dementia yn bennaf)
- Gweithwyr cymdeithasol a'r trydydd sector sy'n deud y byddan nhw'n ffonio ond wedyn yn methu â ffonio
- Iechyd: Ysbyty Alltwen – dim 'follow up' gyda pobl sy'n byw efo dementia ar ôl y diagnosis, a dim cyngor ac eithrio i 'Oh, you'll need to get a power of attorney'. Rhywun sy'n byw efo dementia wedi bod ar yr un tabledi am 5-6 blwyddyn
- Maes dementia – anghysondeb draws yr ardal; dim gwasanaethau ar gael mewn rhai llefydd; problemau trafnidiaeth mewn ardaloedd gwledig; angen gwasanaethau ar wahân i gyfarfod anghenion pobl sy'n byw gyda dementia datblygiad cynnar; dim yn addas cymysgu unigolion sydd ar ddechrau eu daith dementia gyda rhai sy'n bellach lawr y lôn
- Cyfarfodydd rhieni-gofalwyr yn Ysgol Pendalar wedi troi fel cyfle i fynegi cwynion yn hytrach na sgwrsio
- Taliadau Uniongyrchol - yn meddwl bod gormod o waith papur a system anhwylus Mae nifer o ofalwyr sydd angen ysbaid ond ddim yn gallu ymdopi efo'r cynllun sydd yn gwneud rhywun yn gyflogwr. Yn meddwl ei fod yn straen arall.
- Ymweliadau at Feddyg Teulu – nid ydi'r claf yn clywed beth mae'r meddyg yn ei ddeud a ddim yn ei gofio chwaith

**Beth sydd yn bwysig i chi fel gofalydd? (efallai bod hyn yn rhywbeth ar gyfer y sawl sy'n derbyn eich gofal yn hytrach yn uniongyrchol i chi)**

- Brêc o ofalu/cael amser ansawdd (amser i fi)
- Cymaint o brofiadau cymdeithasol normal a pharatoi am fyw'n annibynnol i oedolion gydag anabledd dysgu
- Gwybodaeth
- Medru parhau i weithio
- Sawl sy'n derbyn y gofal yn cadw'n ddiogel

- Gweithiwr cymdeithasol cyfeillgar a chynorthwyol sy ar gael bob tro a medru fy arwain trwy system anghyfarwydd. Therapi galwedigaethol yn darparu offer sydd eu hangen yn sydyn. Gwybodaeth e.e. lwfans gofalwr a gostyngiad treth cyngor.
- Cael bywyd mor hapus a llawn â phosib i'r person sydd yn derbyn y gofal; ei fod yn cael y gefnogaeth orau gan bobl sy'n ei ddeall, pobl sy'n medru cyfathrebu efo fo; angen pobl i ddeall pob agwedd o'i anghenion bod hynny'n gymdeithasol, corfforol, synhwyrol, meddygol neu ei ymddygiad.

**Ydi eich anghenion fel gofalydd yn cael eu diwallu? Beth sydd ar goll i chi? Pa wasanaeth/gefnogaeth sy ddim yn cael ei darparu?**

- Angen datblygu gwasanaethau ar sail, oed a diddordebau y sawl sy'n derbyn y gofal.
- Gofalwyr angen syniadau/adnoddau i hyrwyddo gweithgareddau meddyliol er mwyn cadw sgiliau eu hanwyliaid (dementia)
- Cwnsela
- Angen i'r cyrff amrywiol gyfathrebu llawer mwy
- Angen i holl fater o ysbaid yn cael ei ystyried yn llawnach
- Efallai llai o grwpiau cefnogol gofalwyr ond ffordd mor syml a chlir i gadw cyswllt â chymorth i ofalwyr a'u partneriaid
- Diffyg cefnogaeth i ofalwyr sy'n gweithio, yn arbennig os ydi'r oriau'n newid o fis i fis
- Cyngor a help ar beth sydd ar gael os nad oes modd i ofalydd gario ymlaen / cynllunio ar gyfer y dyfodol.
- Cefnogaeth/help efo problemau iechyd meddwl y sawl sy'n derbyn y gofal
- Ysbaid yn anodd/amhosib os ydi'r sawl sy'n derbyn gofal yn gwrthod gadael y tŷ
- Diffyg ysbaid i ofalwyr pobl â phroblemau iechyd meddwl
- Gwasanaethau fel gwaith cartref a help yn yr ardd a fyddai o help a defnydd i ofalwyr yn cael eu hystyried yn ddiangen os ydi'r gofalydd yn gweithio adra (fel hunan-gyflogedig).
- Gwasanaeth llesiant emosiynol ac ysbrydol gofalwyr "*One area that is not dealt with is the emotional fallout of being a carer. All the curent services seem to be aimed at the practicalities of caring, but not the emotional impact of suddenly becoming something you never wanted to be, probably, for the rest of your life.*" Byddai gwybodaeth am oblygiadau emosiynol y rôl gofalu pan mae rhywun dal yn yr ysbyty yn dda. Mae gwybodaeth am y materion hyn yn fwy neu lai yn anfoddol, ac eithrio i rai fforymau ar-lein
- Os ydi mudiadau yn cynnig gweithgareddau, eu bod yn glir beth sydd yn cael ei gynnig er mwyn rhoi dewis i'r gofalwyr a'r unigolion h.y. angen nodi os oes siaradwr gwadd/gweithgaredd neu jest yn gyfle i fwrw bol
- Yn teimlo bod anghenion yn cael eu diwallu'n rhannol, ond bod gormod o faich ar y gofalwr i ddod o hyd i beth sydd ar gael ac i wthio am bethau ar gyfer eu hunain a'r sawl sy'n derbyn y gofal
- Angen i'r cyrff amrywiol gyfathrebu'n llawer mwy
- Angen i holl fater o ysbaid yn cael ei ystyried yn fwy trylwyr
- Dal yn aros i ysbaid gael ei drefnu. Efallai licio llai o grwpiau cefnogi gofalwyr a ffordd mwy syml a chlir i gadw cyswllt a chymorth i ofalwyr a'u partneriaid (y gofalwr yma wedi

penderfynu ymuno â grŵp cadw heini lleol cyffredinol oherwydd ei bod eisiau 'dianc' o'i rôl gofalu).

- Diffyg cefnogaeth i ofalwyr sy'n gweithio; problemau trefnu gofal amgen os ydi rhywun yn gweithio oriau sy'n newid o fis i fis. Gweithio oriau gwahanol yn achosi problemau wrth hawlio Lwfans Gofalwyr hefyd.
- Cyngor a help ar beth sydd ar gael a lle i ddod o hyd iddo os ydi'r sefyllfa yn cyrraedd nad oes modd i ofalydd gario ymlaen
- Cefnogaeth/help efo problemau iechyd meddwl y sawl sy'n derbyn y gofal h.y. sut i wella iselder, sut i'w ysgogi e.e. gwisgo yn y bore
- Cynllunio ar gyfer y dyfodol (ar gyfer oedolion gydag anabledd dysgu) – gofalwyr yn poeni am yr amser pan na fyddant yn medru parhau i ofalu neu ni fyddant o gwmpas; angen tawelwch meddwl bydd popeth yn iawn.

Yn ôl Carers UK, 2019, nid yw gofalwyr yn teimlo fod eu anghenion yn cael eu harchwilio yn ddigonol yn ystod asesiad gofalwyr.

### 7.7. Adolygiad o'r gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd

Mae £70,000 y flwyddyn yn cael ei roi tuag at wasanaethau gofalwyr, ac mae'r arian yma yn cael ei ddefnyddio i gefnogi dros 1000 o ofalwyr di-dal.


Mae grant o £67,714 ar gael ers 2021 i ddarparwyr ar gyfer darparu gwasanaethau i ofalwyr yn Gwynedd. Mae ymgysylltu eang wedi bod yn digwydd hefo gofalwyr Gwynedd a darparwyr er mwyn cael dealltwriaeth o beth yw anghenion gofalwyr Gwynedd.

Mae gwasanaethau iechyd meddwl wedi derbyn £5000 ychwanegol i drefnu gweithgareddau ar gyfer ysbaid i bobl a gofalwyr hefo iechyd meddwl.

Nid yw gofalwyr yn adnabod eu hunain fel gofalwyr di-dal felly ddim yn adnabod bod cymorth ar gael iddynt.


Mae'r ymgysylltu sydd wedi cael ei wneud yn dangos fod anghenion pawb yn eang. Mae'r graffiau isod yn dangos sut mae darparwyr wedi bod yn gwario yr arian ar gyfer cyfarch anghenion gofalwyr Gwynedd:

**Graff 28: Gwariant arian ysbaid Gwasanaeth Cynnal Gofalwyr fesul maes gwaith yn ystod y cyfnod 2019/21**




*Ffynhonnell: Data mewnol yr Adran*

**Graff 29: Gwariant ar gynlluniau ysbaid fesul blwyddyn yn ystod y cyfnod 2019-21**




*Ffynhonnell: Data mewnol yr Adran*

**Taliadau Uniongyrchol**

Mae'r pwyslais ar y defnydd cynyddol o daliadau uniongyrchol yn newid arwyddocaol ar gyfer gofalwyr di-dâl. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol nawr gynnig taliadau uniongyrchol er mai dewis y gofalwr yw manteisio ar hyn neu beidio. Mae Taliadau Uniongyrchol yn rhoi annibyniaeth i'r gofalwr di-dâl benderfynu pa wasanaethau sy'n iawn ar eu cyfer nhw. Mae'n rhaid sicrhau bod

taliad uniongyrchol ar gael lle bydd gofalwr di-dâl yn mynegi yr hoffai eu derbyn a lle byddan nhw'n galluogi gofalwr di-dâl i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae'n rhoi rheolaeth i unigolion, ac yn cynnig dewis amgen i wasanaethau gofal cymdeithasol a ddarperir gan gyngor lleol. Mae hyn yn helpu i gynyddu cyfleoedd ar gyfer annibyniaeth, cynhwysiad cymdeithasol a mwy o hunan-barch.

**Dementia Actif**

Cynhelir grŵp Dementia Actif fel sesiwn ar lein bob pythefnos ar gyfer gofalwyr di-dâl sydd yn gofalu am rhywun sy'n byw efo dementia. Mae'r sesiynau wedi bod yn cael eu cynnal ers Ebrill 2021 ac mae cyfartaledd o wyth gofalwr yn mynychu (merched i gyd!). Mae'r sesiynau yn anffurfiol a'r brif neges a geir gan y gofalwyr yw eu bod yn gwerthfawrogi cael 'lle diogel' i siarad am eu sefyllfa a'u heriau gyda phobl sy'n mynd drwy'r un peth ac sy'n deall. Rhennir gwybodaeth am wasanaethau a all eu cefnogi a cheir siaradwyr o wahanol fudiadau i ymuno. Gweithgareddau corfforol ydi prif nod Dementia Actif a cheir elfen o hynny yn y sesiwn drwy orffen bob wythnos gydag ymarferion Tai Chi i helpu ymlacio dipyn.

**Gofal ysbaid**

Mae tystiolaeth a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn dilyn ymchwiliad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i'w wneud hefo gofalwyr di-dâl yn awgrymu fod comisiynu ysbaid yn canolbwyntio ar y pris yn lle ansawdd yr opsiynau (Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2019). Mae angen bod yn fwy creadigol, a phwrpasol ar gyfer comisiynu a darparu gwasanaethau ar gyfer gofalwyr.

**Argyfwng costau byw**

Mae cronfa newydd i gefnogi gofalwyr di-dal yng Nghymru yn ystod yr argyfwng costau byw. Bydd gofalwyr sydd yn gofalu am oedolyn neu plentyn anabl yn gallu gwneud cais hyd at £300 tuag at fwyd, eitemau i'r tŷ ac eitemau trydan. Bydd hefyd gwasanaethau yn cynnwys cwnsela, cyngor ariannol, llesiant a cefnogaeth gan gyfeillion cefnogol ar gael.

## 7.8. Casgliad ac argymhellion

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cydnabod rôl allweddol gofalwyr fel rhan o wasanaethau ataliol o fewn awdurdod lleol. Felly dylai awdurdodau lleol sicrhau bod gofalwyr yn gallu byw eu bywydau mor annibynnol â phosibl. Mae hyn yn cynnwys bod yn ymwybodol o iechyd gofalwyr eu hunain a'u hanghenion a chanlyniadau llesiant. Bydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cadarnhau dyletswydd pob awdurdod i ymateb i anghenion gofalwyr i wella eu llesiant.

Fel Cyngor, rydym am sicrhau bod bobl Gwynedd o bob oed, sy'n ymgymryd â rôl gofalydd, yn gwneud hynny gan wybod fod yna systemau cefnogi ar eu cyfer. Bydd hyn yn eu helpu i gyflawni ar lefel bersonol yn y rôl gofalu **ac** mewn agweddau eraill o'u bywydau megis cyflogaeth, hamdden, hyfforddiant ac addysg.

Ein gweledigaeth yw cymdeithas sydd yn adnabod, gwerthfawrogi a chefnogi gofalwyr di-dâl o bob oed.

Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr wedi creu adroddiad sydd yn adnabod deuddeg prif egwyddor ar gyfer gweledigaeth y dyfodol egwyl fer i ofalwyr di-dal yng Nghymru.

Mae'r egwyddorion yma yn dangos y weledigaeth ar gyfer egwyl fer ar gyfer gofalwyr di-dâl, o bob oedran yn Nghymru a'r pobl maent yn ei gefnogi. Maent yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i adnabod, gwerthfawrogi a chefnogi gofalwyr di-dal o bob oedran i fyw yn iach ac i gyflawni eu allbynau llesiant personol, fel y gwelir yn y Strategaeth ar gyfer gofalwyr di-dal (Llywodraeth Cymru, 2021).

Ynghyd a'r pedwar blaenoriaeth cenedlaethol ar gyfer gofalwyr di-dâl, mae'r egwyddorion yn canolbwyntio ar ddyfodol comisiynu a gweithgareddau datblygol.
Dolen - *Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gofalwyr di-dal:*

**Y prif feysydd rydym angen canolbwyntio arnynt:**

- Rydym angen gwella y ffordd rydym yn cofnodi data gofalwyr er mwyn sicrhau ffyrdd mwy syml o hel y data pan fod ei angen er mwyn cael darlun mwy clir o'r sefyllfa yng Ngwynedd.
- Gofal cwsmer – mae sawl un wedi adrodd yn nôl nad ydynt yn derbyn gofal cwsmer o safon. Maent yn dweud nad oes cysondeb yn y cyswllt maent yn ei gael, trydydd sector a gweithwyr cymdeithasol yn deud eu bod am eu ffonio yn nôl ond does neb yn, wedi gorfod ail adrodd eu stori i sawl un. Mae gofal cwsmer a cysondeb mewn cysylltu hefo unigolion sydd yn derbyn, ac angen gwasanaeth angen gwella.
- Anelu at gael cysondeb mewn cefnogaeth a gofal ysbaid.
- Gweithio tuag at safonau strategaeth gogledd Cymru.
- Mae angen rhoi mwy o bwyslais ar adnabod gofalwyr yng Ngwynedd er mwyn sicrhau fod pawb yn cael y dewis i gael y cymorth sydd ar gael iddynt.

Yn ogystal, bydd angen parhau i roi ystyriaeth llawn i Strategaeth Gogledd Cymru (2018) a Strategaeth Llywodraeth Cymru wrth gynllunio.

# 8. Trais yn erbyn merched, trais yn y cartref a thrais rhywiol

**8.1. Gwybodaeth am y bennod hon**

Mae'r bennod hon yn cynnwys gwybodaeth am y gwasanaethau a gomisiynir gan Gyngor Gwynedd i gefnogi trais yn erbyn merched, trais yn y cartref a thrais rhywiol. Yn anffodus, ychydig iawn o wybodaeth sydd wrth law ar hyn o bryd am y maes yma.

**8.2. Diffiniadau**

**Beth a olygir gan y term trais yn erbyn merched, trais yn y cartref a thrais rhywiol?**

Diffiniad Llywodraeth y DU (y Swyddfa Gartref, 2013) o drais a cham-drin domestig yw:

*"Unrhyw achos neu batrwm o achosion o ymddygiad rheolaethol, gorfodol neu fygythiol, trais neu gamdriniaeth rhwng rhai sy'n 16 oed neu'n hŷn neu sydd wedi bod yn bartneriaid agos neu sy'n aelodau o deulu waeth beth yw eu rhyw neu rywioldeb. Gall hyn gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, y mathau canlynol o gamdriniaeth:*

- *Seicolegol*
- *Corfforol*
- *Rhywiol*
- *Ariannol*
- *Emosiynol*
- *Ymddygiad rheolaethol*
- *Ymddygiad cymhellol."*

**8.3 Beth rydym yn ei wybod am y boblogaeth**

Gall trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol gynnwys cam-drin corfforol, rhywiol ac emosiynol, ac mae'n digwydd o fewn pob math o berthynas agos, gan gynnwys perthnasoedd o'r un rhyw. Mae cam-drin domestig yn effeithio ar bobl o bob oed a chefndir ac mae gan unigolion sydd wedi dioddef cam-drin domestig risg lawer uwch o ddioddef â phroblemau iechyd meddwl, problemau cyffuriau ac alcohol ac o fod yn ddigartref. Mae pobl sydd ag anghenion gofal a chymorth yn cael eu heffeithio'n waeth gan gam-drin domestig a thrais rhywiol.

Gall unigolion awtistig ac unigolion efo anabledd dysgu fod yn fwy agored i drais yn erbyn merched, cam-drin domestig neu drais rhywiol, efallai oherwydd anhawster i ddeall a chyfleu yr hyn sy'n digwydd iddynt o ganlyniad i anhawster o ran deall rhyngweithio cymdeithasol. Efallai eu bod hefyd yn dibynnu ar bobl eraill i dderbyn gofal.

Yn 2016, dangosodd astudiaeth fod y rheini efo anawsterau neu anableddau dysgu yn fwy agored i gam-drin domestig (McCarthy: Hunt: Milne-Skillman: 2016). Mae'n anodd adnabod gwir raddfa'r broblem. Mae angen dull holistig i ymateb, sy'n ceisio cadw'r unigolion yn ddiogel, tra'n hybu byw yn annibynnol a mynd i'r afael ag unrhyw anghenion gofal. Felly, mae'n bwysig bod gweithwyr proffesiynol yn cael eu hyfforddi i adnabod yr arwyddion o'r math hwn o drais a deall sut i ymdrin ag o'n briodol ymysg unigolion awtistig.

Ymddengys nad oes gwahaniaeth ffurfiol rhwng anableddau dysgu ac anableddau corfforol o ran casglu data am gamdriniaeth ddomestig. Yn yr un modd â phobl hŷn, iechyd meddwl, awtistiaeth, namau synhwyraidd ac anableddau corfforol, mae'r bwlch hwn mewn data yn dangos bod angen cadarnhau graddau gwirioneddol y broblem, er mwyn blaenoriaethau cefnogaeth, yn arbennig o ystyried y risg uwch o gamdriniaeth ymhlith y grwpiau yma o bobl. O ran anableddau ar draws Gogledd Cymru, yn ei synnwyr ehangaf, amcangyfrifwyd ar 16 Medi 2021, yn ôl data MARAC dros gyfnod treigl o 12 mis, bod rhwng 0 a 2.3% o achosion a nodwyd fel rhai "risg uchel" yn gysylltiedig ag anableddau. Gan bod data MARAC yn ymwneud ag achosion risg uchel a gan oes digon yn adrodd am gamdriniaeth ddomestig, mae'n rhesymol cymryd nad yw'r ffigurau hyn yn cynrychioli'r darlun llawn.

Mae'n ofyniad i holl staff y Cyngor wneud hyfforddiant e-ddysgu statudol ar drais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Am wybodaeth am gynnydd Gwynedd, gellir cyfeirio at Strategaeth Bregusder a Chamfanteisio Gogledd Cymru 2021-2024 (linc - Diweddariad -cynllun bregusder a chamfanteisio -Goledd Cymru).

**8.4. Y gwasanaethau sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd**

Mae Tîm Rhanbarthol trais yn erbyn merched, trais yn y cartref a thrais rhywiol (VAWDASV) yn goruchwylio'r strategaeth VAWDASV yng Ngogledd Cymru. Mae'r tîm yn ymgysylltu gyda nifer o sefydliadau ar draws Gogledd Cymru sy'n darparu gwasanaethau VAWDASV gan ddod a'r sefydliadau hynny ynghyd i gyflawni'r strategaeth. Yn ychwanegol, mae'r tîm yn gweithio gyda Thîm Comisiynu, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd i rannu arian grant Llywodraeth Cymru.

Cafodd y tîm ei sefydlu dan Ddeddf VAWDASV (2015). Cyngor Sir y Fflint sydd yn lletya'r tîm a hwy yw awdurdod arweiniol VAWDASV yng Ngogledd Cymru. Maent wedi bod yn gweithio ar gynllun gweithredu dyddiedig 2021-24. Nid ydym hyd yma wedi derbyn diweddariad am gynnydd y gwaith.

Ni allwn gyhoeddi nifer y bobl sy'n derbyn gwasanaeth yng Ngwynedd gan mai nifer fach o achosion sy'n bodoli. Mae hyn oherwydd diogelu data a hefyd natur sensitif y gwasanaeth.

**Dyma ddisgrifiad bras o'r holl wasanaethau sydd ar gael yn benodol yng Ngwynedd, a hefyd y gwasanaethau ar draws Cymru sydd ar gael i drigolion Gwynedd:**

**1. Gorwel**

Mae Gorwel yn darparu **cefnogaeth yn ôl yr angen drwy wasanaeth estyn allan i ferched a dynion yn eu cartrefi eu hunain** ar draws Gwynedd a Môn. Mae'r gefnogaeth yn cynnwys darparu gwybodaeth a chymorth ymarferol, i unigolion a grwpiau i gynllunio diogelwch, cwnsela, cefnogaeth ac eiriolaeth gyda thai, arian gan gynnwys dyled/budd-daliadau, iechyd a llesiant, rhiantu, mewnfudo, cyfreithiol, troseddol a systemau cyfiawnder teuluol, addysg a chyflogaeth.

Mae Gorwel yn darparu gwasanaeth IDVA ar draws Gwynedd a Môn. Mae'r **Ymgynghorwyr Annibynnol Trais yn y Cartref (IDVAs)** yn darparu cefnogaeth mewn argyfwng a gwybodaeth i achosion risg uchel o drais domestig.

Mae'r IDVAs yn gweithredu fel eiriolwyr ar ran y dioddefwyr, gan edrych am gefnogaeth gyfreithiol drwy'r broses llys. Bydd IDVAs yn cyd-gysylltu gydag asiantaethau fel Gwasanaeth Erlyn y Goron, yr Heddlu, Cyfreithwyr ac ati.

Mae **tîm Plant a Phobl Ifanc** Gorwel yn darparu darpariaeth arbenigol sy'n cefnogi plant a phobl ifanc sy'n dioddef o effeithiau trais domestig. Mae hwn yn brosiect sy'n cynnig gwybodaeth, anogaeth a chefnogaeth emosiynol i unigolion yn y gymuned ym Môn a Gwynedd.

Mae Ar Trac Gorwel **yn cefnogi plant a phobl ifanc rhwng 5 ac 16 mlwydd oed** ym Môn a Gwynedd sydd wedi profi neu dystio trais domestig ac sy'n arddangos trafferthion gyda pherthnasau gyda'u teuluoedd a'u cyfoedion.

Mae rhaglen '**Caring Dads**' Gorwel yn canolbwyntio ar helpu dynion i adnabod agweddau, credoau ac ymddygiadau sy'n cefnogi perthnasau tad a phlentyn iach a rhai nad ydynt yn iach. Y nod yw hefyd datblygu sgiliau i ryngweithio gyda phlant mewn ffyrdd iach gan werthfawrogi'r effaith mae rheoli, bygythiadau a gweithredu yn ddifrïol ac yn esgeulus yn ei gael ar blant gan gynnwys tystio trais domestig. Mae rhaglenni 'Caring Dads' ar hyn o bryd yn cael eu rhedeg drwy gyfrwng Zoom.

Mae Gwynedd a Môn yn rhedeg y rhaglen Rhyddid, gweithdy grŵp sy'n canolbwyntio ar ymwybyddiaeth am drais domestig a hunan-barch. Mae'r rhaglen yn helpu merched i ddatgymalu patrymau ymddygiadol eu camdrinwyr gan adnabod arwyddion cynnar ymddygiad camdriniol fel bod modd torri'r cylch cam-drin unwaith ac am byth.

Mae Siop Un Stop Gorwel yn darparu gwasanaethau galw heibio gan hefyd weithredu ochr yn ochr ag asiantaethau ymweld fel DWP a chyfreithwyr.

**2. Canolfan Gymorth Trais a Cham-drin Rhywiol, Gogledd Cymru (RASASC GC)**

Darpariaeth gwasanaeth arbenigol o gefnogaeth therapiwtig a chwnsela i unrhyw un o 3 oed yng ngogledd Cymru sydd wedi profi camdriniaeth rywiol yn blentyn a/neu unrhyw fath arall o drais rhywiol boed hynny yn ddiweddar neu yn y gorffennol.

Mae rhaglenni ymyrraeth arbenigol yn cynnwys rhai wyneb yn wyneb neu gefnogaeth a chwnsela ar-lein, rhaglen trawma cymhleth grŵp wyneb yn wyneb neu ar-lein a chefnogaeth ebost (gwasanaeth newydd ar fin mynd yn fyw)

Mae **Stepping Stones** yn cynnig cwnsela unigol a gwaith grŵp i unigolion 18+ goroeswyr camdriniaeth rywiol yn ystod plentyndod gan gefnogi aelodau'r teulu, gofalwyr a chyfeillion.

**3. Bawso Ltd**

Bawso yw'r corff arweiniol yng Nghymru sy'n darparu cefnogaeth ymarferol ac emosiynol i bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig (BME) ac ymfudwyr sy'n ddioddefwyr trais yn y cartref, trais rhywiol, masnachu pobl, FGM a phriodas dan orfod.

**4. Uned Ddiogelwch Trais Domestig Gogledd Cymru**

Arbenigwr BME. Mae gweithiwr cefnogaeth yn ôl yr angen yn darparu cefnogaeth arbenigol i unigolion gaiff eu heffeithio gan Drais Domestig gan gynnwys trais ar sail anrhydedd, priodas dan orfod, FGM ac arferion niweidiol eraill.

**5. Relate Cymru Choose2Change**

Mae Choose2Change yn darparu cymorth ymyrraeth wedi'i achredu gan Respect i ymdrin â thrais domestig. Mae'r prosiect yn rhaglen dreigl i grŵp o droseddwyr sy'n cynnig cyfle i ddynion sydd wedi bod yn gamdriniol mewn perthynas/perthnasau personol i newid ynghyd â gwasanaeth cefnogol i (gyn) bartneriaid y dynion sy'n ymgymryd â'r gwasanaeth. Mae'r ddwy elfen o waith y gwasanaeth yn gweithio gyda'i gilydd i gael dealltwriaeth lawn o'r risg ymhob achos gan roi cynllun cryf yn ei le i reoli risg. Mae gan y gwasanaeth ran weithredol yn yr ymateb amlasiantaethol i drais domestig gan ddarparu gwybodaeth am risg troseddwyr ac ymgysylltu gyda MARAC a'r meysydd Diogelu.

**6. Authentic Voices DLB (Herio Trais Domestig (SUTDA)**

Mae Authentic Voices DLB (Herio Trais Domestig - SUTDA) yn darparu gwasanaeth eiriolaeth ar-lein i ferched a phlant sy'n ddioddefwyr trais domestig a sydd ddim yn teimlo'n ddiogel wrth gael mynediad i wasanaethau statudol a rhai nad ydynt yn statudol.

**7. Checkpoint Cymru**

Datblygwyd Checkpoint Cymru gan Brifysgol Caergrawnt a'i arloesi yn Nurham yn 2015. Mae'n rhaglen wirfoddol sy'n mynd i'r afael gydag achosion dan yr wyneb o ymddygiad troseddol fel iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau. Ei nod yw darparu dull amgen credadwy yn lle erlyn, drwy adnabod a chefnogi anghenion perthnasol a'r 'llwybrau pwysig' allan o fywyd troseddol, ac o ganlyniad mae troseddwyr isel i ganolig yn cael eu cyfeirio i ffwrdd o'r System Cyfiawnder Troseddol

**8. Taclo'r Taclau**

Yn darparu gwasanaeth di-enw 100% i adrodd am droseddau ar y ffôn neu ar-lein i'r cyhoedd.

**9. Gwasanaeth Ymyrraeth mewn Argyfwng**
Mae tîm Ymyrraeth mewn Argyfwng Gwynedd a Môn yn darparu cefnogaeth mewn person, dros y ffôn, yn y gymuned, drwy grwpiau merched ac mewn cyswllt gydag asiantaethau eraill. Gall y tîm ddarparu cyngor a chefnogaeth am ddiogelwch personol, diogeledd, opsiynau cyfreithiol a thai.

**10. Hafan Cymru – Cynllun Tai â Chymorth Gwynedd**
Mae Hafan Cymru yn gymdeithas dai elusennol sy'n darparu cymorth i ferched, dynion, eu plant a phobl ifanc ar draws Cymru. Pan fyddant wedi eu lletya gyda Hafan Cymru byddwn yn gweithio ar y cyd i sicrhau bod ein defnyddwyr gwasanaeth yn gallu cynnal eu hunain mewn llety â chymorth tymor byr. Y nod yw y byddant yn symud ymlaen i fod yn annibynnol ac yn gallu cymryd rheolaeth dros eu bywydau eu hunain yn y dyfodol. Bydd pobl wedyn yn cael eu cefnogi i gymryd rheolaeth o'u harian, deall eu rhwymedigaethau fel deiliad tŷ a gwella eu sgiliau bywyd drwy leihau'r tebygolrwydd o brofi digartrefedd.

Mae gan Hafan 3 chynllun tai â chymorth ar draws Gwynedd sy'n darparu cefnogaeth dros dro i ferched gyda neu heb blant.

**11. Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru**
Darpariaeth offer Diogelu rhag Tân pan fo bygythiad i losgi yn cael ei ddefnyddio yn erbyn unigolyn. Mae'r eitemau sydd ar gael yn cynnwys offer canfod mwg a chloeon blwch llythyrau.

**12. Gwasanaeth Gwybodaeth a Chefnogaeth Canolfan Ferched Gogledd Cymru**
Mae Canolfan Ferched Gogledd Cymru yn darparu lle diogel i ferched gael mynediad i wybodaeth, cymorth un i un, eiriolaeth a hyfforddiant ar faterion sy'n ymwneud ag iechyd, llesiant a gwaith. Daw merched yno i gael mynediad at gymorth i'w problemau, gwella eu hunan-hyder a dysgu sgiliau newydd mewn amgylchedd sy'n annog cymdeithasu, bod yn gefnogol, parch ac urddas. Maent yn cefnogi merched o 16 oed i fyny.

Er mai yn Y Rhyl y lleolir y ganolfan, gellir cyfeirio merched i gael cymorth o unrhyw le yng ngogledd Cymru.

**13. Stepping Stones Gogledd Cymru**
Mae Stepping Stones yn cynnig cwnsela unigol a gwaith grŵp i unigolion 18+ goroeswyr camdriniaeth rywiol yn ystod plentyndod gan gefnogi aelodau'r teulu, gofalwyr a chyfeillion.

# Asesu'r Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Anfantais Economaidd-Gymdeithasol

## 1) Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Asesiad Anghenion Poblogaeth Gwynedd 2022-2027

### 1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Nod yr Asesiad Anghenion Poblogaeth yw gwella ein dealltwriaeth o anghenion gofal a chefnogaeth poblogaeth Gwynedd ynghyd â sut y gall newid dros y blynyddoedd sydd i ddod, er mwyn ein helpu i ddarparu gwell gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Ngwynedd.

### 1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Aled Davies, Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant

### 1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

Gorffennaf 2021. Fersiwn lawn cyntaf.

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r budd-ddeiliaid neu bartneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Darparwyr gwasanaeth (yn cynnwys y trydydd sector)
Unigolion sy'n derbyn cefnogaeth / gwasanaeth gan y Cyngor
Gweithwyr proffesiynol gofal cymdeithasol a iechyd
Swyddogion Adfocatiaeth

**2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei cymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion gwarchodedig, ynglŷ n â'r iaith Gymraeg neu â chymunedau (un ai oherwydd lleoliad neu oherwydd angen) sy'n byw ag anfantais economaidd-gymdeithasol?**

| |
|---|
| Anfonwyd holiadur at sefydliadau yr ydym yn comisiynu gwasanaethau ganddynt yn gofyn am eu barn ac am unrhyw dystiolaeth a oedd ganddynt megis mesuryddion perfformiad neu adroddiadau ymgynghori.<br><br>Cafwyd sgyrsiau un i un a sgyrsiau grŵp efo darparwyr a swyddogion proffesiynol gofal cymdeithasol a iechyd.<br><br>Cynhaliwyd grwpiau trafod gyda defnyddwyr gwasanaethau. Nid oeddent yn grwpiau penodol i'r nodweddion gwarchodedig, ond mi oedd ystod o'r grwpiau yn cael eu cynrychioli yn nhermau anabledd, oed, rhyw. |

**2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?**

| |
|---|
| Mae'r wybodaeth a gasglwyd yn dilyn yr ymgysylltu yn arwain at gasgliadau / argymhellion ar gyfer pob maes gwaith fel a nodir uchod. Mae pob pennod yn cynnwys gwybodaeth ynghylch 'beth mae pobl yn ei ddweud wrthym' sydd yn nodi canlyniad y gwaith ymgysylltu a ymgymerwyd i lunio'r Asesiad Anghenion.<br><br>Gan fod yr Asesiad Anghenion yn ddogfen fyw, rydym yn parhau i gasglu barn pobl Gwynedd wrth weithio ar feysydd penodol yn ogystal e.e. gofal cartref, a phrosiect lletya y gwasanaeth anabledd dysgu. |

**2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?**

| |
|---|
| Rydym wedi defnyddio'r dystiolaeth a ganfuwyd yn dilyn gwaith ymchwil ar lein, ynghyd â gwaith ymgysylltu efo darparwyr, staff proffesiynol ac unigolion sy'n derbyn gwasanaethau er mwyn llunio'r Asesiad Anghenion. Mae'r prif themâu a amlygwyd yn ystod y gwaith yn cynnwys:<br><br>• Mae angen gwella ar y gefnogaeth i ofalwyr di-dâl.<br>• Mae angen sicrhau gofal cwsmer o safon h.y. cysondeb yn y cyswllt mae unigolion yn ei gael efo'r Cyngor a mudiadau'r trydydd sector.<br>• Diffyg mewn rhai mathau o leoliadau e.e. lleoliadau sy'n cynnig gofal a chefnogaeth i unigolion efo anghenion cymhleth a dwys.<br>• Recriwtio staff yn broblem enfawr ar draws y sector gofal. Hyn wedi dal cynlluniau yn ôl, megis agor unedau dementia mewn cartrefi gofal. |

| |
|---|
| • Mae yna amrywiol ffactorau wedi effeithio ar lesiant / iechyd meddwl trigolion. O ganlyniad i'r cynnydd mewn unigolion yn profi anawsterau iechyd meddwl, mae angen buddsoddi mwy mewn gwasanaethau ataliol. |

**2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?**

| |
|---|
| Cydnabyddir ein bod wedi bod yn anghyson a heb fod yn ddigon trylwyr o ran ystyried y grwpiau gwarchodedig. O ganlyniad, nid oes cynrychiolaeth barn gan bob un o'r grwpiau gwarchodedig.<br><br>Ar gyfer y dyfodol felly, fe fyddwn yn ymholi am wybodaeth am grwpiau perthnasol fel ein bod yn eu cynnwys mewn unrhyw waith ymgysylltu, ac fe fyddwn yn cadw cofnod o unrhyw grŵp sy'n dod i'n sylw fel ein bod yn eu cynnwys.<br><br>Mae Rhwydwaith Ymgysylltu Rhanbarthol am osod rhaglen a bydd yn sicrhau ei fod yn cynnwys grwpiau gwarchodedig. Fe fyddwn yn rhan o'r gwaith yma yn y dyfodol. |

## 3) Adnabod yr Effaith

**3.1 Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb isod. Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar bobl hefo'r nodweddion hyn? Mae hefyd angen ystyried yr effaith ar anfantais economaidd-gymdeithasol ac ar y Gymraeg.**

| Nodweddion | Sut fath o effaith? * | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Dim | Anghyflawn. |
| **Anabledd** | Positif | Mae'r ymarferiad yn ein galluogi ni fel awdurdod i adnabod bylchau ac anghysondebau yn ein gwasanaethau, ac yn bwysicach fyth adnabod anghenion sydd heb eu diwallu yn hanesyddol.<br><br>Bydd cynnal yr ymarferiad yn cael effaith bositif ar drigolion gydag anableddau oherwydd ei fod yn cynnig platfform i drigolion rannu eu barn am y ddarpariaeth gyfredol, y bylchau a sut gellir eu llenwi.<br><br>Yn ogystal, bydd y wybodaeth a gesglir fel rhan o'r gwaith yn rhoi mewnwelediad i'r sefyllfa ar lawr gwlad ar draws sawl maes e.e. pobl hŷn, anabledd dysgu, gofalwyr. Bydd |

| | | |
|---|---|---|
| | | hyn yn hysbysu Aelodau Cabinet, Cynghorwyr a Rheolwyr efo'r dystiolaeth a'r wybodaeth gyfredol sydd ei angen fel sail ar gyfer penderfyniadau. |
| **Rhyw** | Positif | Mae'r gweithlu sector gofal yn draddodiadol wedi bod yn faes lle mae'r mwyafrif o'r staff yn ferched. Mae mwy o ddynion yn gweithio yn y maes heddiw, ond eto mae bwlch yn parhau yn y nifer o ddynion sydd ar gael i ofalu / cefnogi. |
| **Oedran** | Positif | Fel nodir uchod, mae cynnal asesiad o anghenion trigolion Gwynedd yn hwyluso'r broses o adnabod bylchau yn ein gwasanaethau a thynnu ein sylw at elfennau y gellir eu gwella. Mae hyn yn debygol o gael effaith bositif ar bob un sy'n derbyn gwasanaeth gan yr awdurdod.<br><br>Bydd yr ymarferiad yn cael effaith bositif ar bobl o sawl grŵp oedran. Mae un bennod yn yr asesiad yn canolbwyntio yn benodol ar bobl hŷn. Mae'n ystyried yr heriau sy'n wynebu pobl hŷn yng Ngwynedd, ac yn adrodd ar y themâu a'r prif negeseuon a godwyd yn ystod y broses ymgysylltu. Mae'r gwaith yma yn sicrhau bod dymuniadau'r grŵp penodol yma'n cael eu ystyried fel rhan o unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol.<br><br>Mae'r bennod ar Anabledd Dysgu hefyd yn canolbwyntio ar y cyfnod trosiannol o drosglwyddo o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion, ynghyd a'r cyfnod o heneiddio.<br><br>Trafodir gofalwyr ifanc yn y bennod ar Ofalwyr a'u anghenion nhw yn eu rôl fel gofalwyr. |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Dim | |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Dim | |
| **Ailbennu rhywedd** | Dim | |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Dim | |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Dim | |
| **Yr iaith Gymraeg** | Positif | Mae pob pennod yn yr asesiad yn rhoi ystyriaeth i'r iaith Gymraeg, a'r hyn y gellir ei wneud i alluogi trigolion i |

| | | |
|---|---|---|
| | | dderbyn gwybodaeth, cyngor a chymorth yn yr iaith y maent yn dymuno. |
| **Anfantais Economaidd-Gymdeithasol** | Positif | Mae pob pennod yn yr asesiad yn rhoi ystyriaeth i anfantais economaidd-gymdeithasol, a'r hyn gellir ei wneud i hyrwyddo tegwch a lleihau risgiau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Bydd ffactorau economaidd-gymdeithasol yn cael eu hystyried yng nghyd-destun pob maes gwaith, felly byddwn yn dogfennu sut mae effaith y ffactorau yma yn amrywio o faes i faes ac o ganlyniad yn cyfrannu at ein dealltwriaeth o'r pwnc. |

* I'w ddileu yn ôl yr angen

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i gyfrannu'n bositif i gymdeithas decach trwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabledd a beichiogrwydd a mamolaeth. Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.**

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **A yw'n cael effaith?*** | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Ydi | Sicrhau fod pawb yn cael eu trin yn ôl eu hanghenion oherwydd y nodweddion cydraddoldeb. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Ydi | Mae'r ymarferiad o gyd-gynhyrchu wedi rhoi cyfle i unigolion sy'n derbyn gwasanaethau allu rhoi eu barn ar y gwasanaethau maent yn ei dderbyn ac o ganlyniad yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu ar gyfer y dyfodol.<br><br>Mae'r Asesiad Anghenion hefyd yn bwydo mewn i gynlluniau ar gyfer datblygu gwasanaethau gofal cymdeithasol i'r dyfodol sy'n sicrhau cyfleoedd cyfartal i bobl fyw bywydau annibynnol llawn. |
| **Meithrin perthnasau da** | Ydi | Mae'r ymarferiad yn enghraifft dda o gyd-gynhyrchu, wrth i amryw o sefydliadau megis y gwasanaeth iechyd a chyrff trydydd sector gyfrannu at y gwaith. Yn ogystal, mae'r asesiad yn rhoi cyfle i amryw o fudd-ddeiliaid gael y cyfle i leisio'i barn ar faterion sy'n bwysig iddyn nhw. , felly gellir dadlau bod yr asesiad yn meithrin perthnasau da hirdymor rhwng yr awdurdod a rheini sydd wedi cyfrannu. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae’r cyfleoedd i gyfarfod mewn grwpiau drwy wasanaethau’r adran Oedolion, Iechyd a Llesiant hefyd yn gyfle i feithrin perthnasau da drwy ddod a phobl o wahanol grwpiau at ei gilydd e.e. grwpiau cymdeithasu Llwybrau Llesiant, cyfleoedd chwaraeon arbennig rhwng oedolion efo anabledd dysgu ac unigolion efo dementia. Mae cyfleoedd hefyd wedi codi i ddisgyblion ysgol ysgrifennu llythyrau at bobl hŷn. |

* I’w ddileu yn ôl yr angen

**3.3 Sut mae eich cynnig yn sicrhau eich bod yn gweithio yn unol â gofynion Safonau'r Iaith Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y manteisir ar bob cyfle i hyrwyddo'r Gymraeg (y tu hwnt i ddarparu gwasanaethau'n ddwyieithog) a chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio a dysgu'r iaith yn y gymuned?**

Rhoddir y cynnig i unigolion i dderbyn eu gwasanaeth yn iaith eu dewis. Mae’r cyflwyniad i’r asesiad yn trafod ystyriaethau’r iaith Gymraeg – gweler yr Asesiad Anghenion Poblogaeth.

**3.4 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer er mwyn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac i leihau neu atal unrhyw effeithiau andwyol y gallai’r polisi/ymarfer ei gael ar yr iaith Gymraeg?**

Mae recriwtio staff gofal yn broblem genedlaethol ar hyn o bryd, ac mae gallu recriwtio staff iaith Gymraeg yn broblemus ar hyn o bryd e.e. mewn cartrefi nyrsio. Ond wedi dweud hyn, yn y mwyafrif o achosion mae’r unigolion sydd angen gofal neu gefnogaeth yn ei gael yn iaith eu dewis. Mae yna swyddog yn gweithio i Dim Datblygu’r Gweithlu i geisio recriwtio gweithwyr i’r gwasanaeth darparu, ac mae recriwtio gofalwyr iaith Gymraeg yn rhan o’r gwaith yma.

**3.5 Sut mae’r cynnig yn dangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i fynd i'r afael ag anghyfartaledd o achos anfantais economaidd-gymdeithasol? (Sylwch fod hyn yn ymwneud â chau bylchau anghydraddoldeb yn hytrach na gwella canlyniadau i bawb yn unig).**

- Mae’r Asesiad Anghenion wedi amlygu bod yna ddiffyg gwasanaethau ar gael mewn rhai mannau gwledig o’r sir ac o ganlyniad mae argymhellion yn yr adroddiad i geisio diwallu’r bylchau yma.
- Mae prosiectau ar waith i wella profiad oedolion efo anabledd dysgu i gael mynediad at waith cyflogedig. Eto, ehangir ar hyn yn yr adroddiad.
- Mae argymhelliad i wella’r gefnogaeth i ofalwyr di-dâl.

| |
|---|
| • Mae argymhelliad i sicrhau gofal cwsmer o safon. |

**3.6 Pa fesurau neu newidiadau eraill y gallech eu cynnwys i gryfhau neu newid y polisi / arfer i ddangos eich bod wedi rhoi sylw dyledus i'r angen i leihau canlyniadau anghyfartal o ganlyniad i anfantais economaidd-gymdeithasol, yn unol â'r Ddeddf Economaidd-Gymdeithasol?**

| |
|---|
| Bydd effaith anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldeb yn cael ei asesu ar gyfer y gwahanol grwpiau yn yr Asesiad Anghenion hwn. |

## 4) Dadansoddi'r canlyniadau

**4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Mae'r Asesiad Anghenion am gael effaith bositif drwy:<br>• Gwell dealltwriaeth o'r angen ar draws y sir i gynnwys y nodweddion gwarchodedig<br>• Gellir datblygu gwasanaethau yn seiliedig ar wir angen<br>• Gan fod yr asesiad yn cynnwys nifer o feysydd gwaith, mae'n haws i bobl efo nodweddion gwarchodedig i gymryd rhan ac fe allwn ddatblygu ymateb i'r asesiad a all gael buddion ariannol, osgoi dyblygu ayb.<br><br>Mae hyn yn cyd-fynd efo gweledigaeth yr adran Oedolion Iechyd a Llesiant sef, sicrhau fod pawb o bob oedran yn derbyn y gefnogaeth y maent ei hangen yn y ffordd fwyaf addas a chyfleus iddyn nhw. Bydd hyn yn cael ei wireddu drwy'r blaenoriaethau canlynol: sicrhau darpariaeth gofal addas a chynaliadwy i'r dyfodol ac ail-ddylunio ein gwasanaethau gofal. Ymhelaethir ar sut y byddwn yn gwireddu'r blaenoriaethau yma yn yr Asesiad Anghenion. |

**4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r uchod? Beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Nac ydi. |

**4.3 Beth ddylid ei wneud?**

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | √ |

| | |
|---|---|
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |
| Dim camau pellach ar hyn o bryd, mae'n gynamserol i benderfynu, neu does dim digon o dystiolaeth | |

**4.4 Os yn parhau hefo'r cynllun, pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

| |
|---|
| Wrth fynd ati i lunio'r asesiad anghenion nesaf, fe fyddwn yn ystyried yn llawnach y nodweddion gwarchodedig wrth fynd ati i ymgysylltu. |

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

| |
|---|
| |

## 5) Monitro

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

| |
|---|
| Mae'r Asesiad Anghenion Poblogaeth yn adroddiad byw. Fe fyddwn yn monitro, adolygu a diweddaru'r asesiad anghenion poblogaeth yn barhaol yn ystod cyfnod yr adroddiad (2022-2027). |

# Eitem 7

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR CRAFFU GOFAL |
| **DYDDIAD** | 16 Chwefror 2023 |
| **TEITL** | Blaenraglen Pwyllgor Craffu Gofal 2022/23 |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | I’r Pwyllgor flaenoriaethu eitemau ar gyfer cyfarfod 20 Ebrill 2023 a mabwysiadu rhaglen waith diwygiedig. |
| **AWDUR** | Llywela Haf Owain, Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu |

1. Mabwysiadwyd Blaenraglen diwygiedig y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 10 Tachwedd 2022.

2. Ers y cyfarfod yna, mae dwy eitem sef ‘Recriwtio a chadw staff yn y maes gofal (Adran Plant a Theuluoedd)’ a ‘Cynllun Gweithredu Tai’, a oedd i’w ystyried yn y cyfarfod yma, wedi llithro gyda’r angen i’w hail-raglennu.

3. Fel y gwelwch yn yr Atodiad i’r adroddiad, mae tair eitem eisoes wedi eu rhaglennu ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor ym mis Ebrill. Gwnaed ymgais i flaenoriaethu uchafswm o dair eitem fesul cyfarfod er mwyn sicrhau bod sylw teilwng yn cael ei roi i faterion a bod craffu yn gallu ychwanegu gwerth.

4. Argymhellir felly bod y Pwyllgor yn ystyried pa eitemau y dylid eu blaenoriaethu ar gyfer cyfarfod mis Ebrill a pha rai a fyddai’n briodol eu rhaglennu ar gyfer cyfarfod cyntaf y pwyllgor yng nghalendr pwyllgorau 2023/2024.

5. **Gofynnir i’r Pwyllgor flaenoriaethu eitemau ar gyfer cyfarfod 20 Ebrill 2023 a mabwysiadu rhaglen waith diwygiedig.**

ATODIAD 1

## BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU GOFAL 2022/23

| **07/07/2022** |
|---|
| • Adroddiad Sefydlogrwydd Marchnad Gofal Gogledd Cymru |
| **29/09/2022** |
| • Recriwtio a chadw staff yn y maes gofal (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)<br>• Gwasanaeth Cadwraeth Ynni Newydd |
| **10/11/2022** |
| • Gwasanaeth Ambiwlans<br>• Gwasanaeth Ieuenctid<br>• Polisi Gosod Tai |
| **16/02/2023** |
| • Adroddiad Asesiad Anghenion Poblogaeth Gwynedd<br>• Adroddiad Archwiliad Arolygiaeth Gofal Cymru - Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| **20/04/2023** |
| • Gwasanaeth Iechyd Meddwl Gwynedd (Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)<br>• Cynllun Awtistiaeth 2021-23<br>• Darpariaeth Gofal Dementia |

Eitemau i'w rhaglennu:

- Recriwtio a chadw staff yn y maes gofal (Adran Plant a Theuluoedd)
- Cynllun Gweithredu Tai